



This is a digital copy of a book that was preserved for generations on library shelves before it was carefully scanned by Google as part of a project to make the world's books discoverable online.

It has survived long enough for the copyright to expire and the book to enter the public domain. A public domain book is one that was never subject to copyright or whose legal copyright term has expired. Whether a book is in the public domain may vary country to country. Public domain books are our gateways to the past, representing a wealth of history, culture and knowledge that's often difficult to discover.

Marks, notations and other marginalia present in the original volume will appear in this file - a reminder of this book's long journey from the publisher to a library and finally to you.

Usage guidelines

Google is proud to partner with libraries to digitize public domain materials and make them widely accessible. Public domain books belong to the public and we are merely their custodians. Nevertheless, this work is expensive, so in order to keep providing this resource, we have taken steps to prevent abuse by commercial parties, including placing technical restrictions on automated querying.


We also ask that you:

- + *Make non-commercial use of the files* We designed Google Book Search for use by individuals, and we request that you use these files for personal, non-commercial purposes.
- + *Refrain from automated querying* Do not send automated queries of any sort to Google's system: If you are conducting research on machine translation, optical character recognition or other areas where access to a large amount of text is helpful, please contact us. We encourage the use of public domain materials for these purposes and may be able to help.
- + *Maintain attribution* The Google "watermark" you see on each file is essential for informing people about this project and helping them find additional materials through Google Book Search. Please do not remove it.
- + *Keep it legal* Whatever your use, remember that you are responsible for ensuring that what you are doing is legal. Do not assume that just because we believe a book is in the public domain for users in the United States, that the work is also in the public domain for users in other countries. Whether a book is still in copyright varies from country to country, and we can't offer guidance on whether any specific use of any specific book is allowed. Please do not assume that a book's appearance in Google Book Search means it can be used in any manner anywhere in the world. Copyright infringement liability can be quite severe.


About Google Book Search

Google's mission is to organize the world's information and to make it universally accessible and useful. Google Book Search helps readers discover the world's books while helping authors and publishers reach new audiences. You can search through the full text of this book on the web at <http://books.google.com/>


10095 e 11.







PREGETHAU.



CHWECH AR HUGAIN

o

B R E G E T H A U ,

AR

DESTYNAU PWYSIG.

GAN Y PARCH. THOMAS MARSDEN,

PERIGLOR BRYMBO, SWYDD DINBYCH.

LLANYMDDYFRI:

ARGRAPHWYD A CHYHOEDDWDYD GAN WILLIAM REES.

Ac ar worth gan

H. HUGHES, ST. MARTIN'S-LE-GRAND, LLUNDAIN, A HOLL
BRIF LYFWEWERTHWYR Y DYWYSOGAETH.

MDCCCXXXVIII.



I'R

**PARCH. LLEWELYN LEWELLIN,
D. C. L.**

**PENAETH COLEG DEWI SANT, LLANBEDR,
CEREDIGION.**

BARCHEDIG SYR,—

Y MAE genyf ddau reswm neillduol am gyflwyno y Pregethau canlynol i'ch nodded; sef, eich swydd uchel a phwysfawr fel Penaeth Coleg Dewi Sant, prif ffynnon dysgeidiaeth yng Nghymru, a'ch mawr barod-rwydd i gefnogi pob ymdrech a wneir i ledaenu teyrnas y Messia.

Gan nad ydynt yn cynnwys un athrawiaeth na ddysgir yn Erthyglau a Homiliau yr Eglwys Apostolaidd, o ba un yr ydych yn aelod, gobeithiaf nad ystyriwch hwynt yn annheilwng o'ch hymgeledd a'ch cymmeradwyaeth.

Mawr yw y daioni, a'r wybodaeth, a'r goleuni, y mae Coleg Dewi Sant wedi bod yn offerynol o daenu eisioes dros y Dywysogaeth. Ac y mae genym sail dda i obeithio, oddiwrth yr hyn a wnaethpwyd yn barod, y meithrinir ynddo lawer Prichard, a Rowlands, a Charles,

a Williams, a Griffiths; ac yn olaf, nid y lleiaf, lawer Jones. Enwau a fyddant yn glodfawr yn yr Eglwys Sefydledig yng Nghymru tra parhao amser.

Da genym feddwl fod mantell yr enwogion hyn wedi syrthio ar amryw o'r Gweinidogion ieuainge a ddarparwyd i'w swydd uchel dan eich gwyliadwrus ofal, a'u bod yn meddiannu cyfran helaeth o'u doniau a'u hyspryd. Bydded i'r cyfryw chwanegu ar eu canfed, fel y byddont yn offerynau yn llaw yr Yspryd tra-gywyddol i wasgaru tywyllwch ysprydol, i daenu gwybodaeth o'r efengyl ogoneddus, ac i ddyrchafu enw y Cyfryngwr bendigedig.

Dymunaf lwyddiant mawr i chwi fel Dysgawdwr a Gweinidog. Bydded bendith Duw yn orphwysedig ar eich holl lafur, yn eich sefyllfa bwysig, fel y byddoch fel eich Taid rhagorol, sef, y diweddar Barchedig D. Jones, Llangan, yn offeryn llwyddiannus i oleuo trigolion Cymru, a chynnyddu gwir grefydd trwy yr holl deyrnas.

Hyn yw taer weddi eich ufuddaf was, a'ch brawd yn y weinidogaeth,

THOMAS MARSDEN.

Gorphenaf, 1838.

Y CYNNWYSLAD.

	TU DAL.
PREGETH I.	
Profi a gweled daioni yr Arglwydd. Psalm. 34. 8.	9
PREGETH II.	
Trugaredd Duw at ddyn euog. Exodus 34. 6.	25
PREGETH III.	
Y mab afradlon. Luc 15. 13.	34
PREGETH IV.	
Clwyfau Crist yn feddyginiaeth dyn. Eesaiah 53. 5.	46
PREGETH V.	
Y gofyniad pwysfawr. Job 14. 10.	59
PREGETH VI.	
Y canlyniadau arswydus o gywilyddio o herwydd Crist. Luc 9. 26.	68
PREGETH VII.	
Gelynion croes Crist. Phil. 3. 18, 19.	85
PREGETH VIII.	
Offeiriadaeth Crist yn annogaeth i lynu wrth ein proffes. Heb. 4. 14.	95
PREGETH IX.	
Cariad Duw at fyd colledig. St. Ioan 3. 16.	105
PREGETH X.	
Mawr ddiogelwch yr Eglwys. Eesaiah 26. 1.	117
PREGETH XI.	
Ammherffeithrwydd y Cristion yn y byd, a'i berffeithrwydd yn y nef. 1 Cor. 13. 9, 10.	129
PREGETH XII.	
Ymadawiad â'r cariad cyntaf. Dat. 2. 4, 5.	143

VIII

PREGETH XIII.

	TU DAL.
Yr Arglwydd yn oleuni ac yn ymddiffynfa i'w bobl. Psalm.	
84. 11.	156

PREGETH XIV.

Crist yn sefydlu y "Cymmun bendigaid." Luc 22. 15.	168
--	-----

PREGETH XV.

Presenoldeb Duw gyda'i bobl. Josua 1. 5.	178
--	-----

PREGETH XVI.

Aberth a theyrnas Crist. Heb. 10. 12, 13.	189
---	-----

PREGETH XVII.

Gorchymmyn i wyllo. Mat. 25. 13.	201
--	-----

PREGETH XVIII.

Cariad Crist yn marw dros bechaduriaid. 2 Cor. 5. 14, 15.	211
---	-----

PREGETH XIX.

Hunan-ymholiad. 2 Cor. 13. 5.	223
---------------------------------------	-----

PREGETH XX.

Mawr hyder y gwir gredadyn. Rhuf. 8. 31—39.	235
---	-----

PREGETH XXI.

Bydra ac ansicrwydd bywyd dyn. 1 Sam. 20. 3.	247
--	-----

PREGETH XXII.

Cynnydd mewn gras. 2 Pedr 3. 18.	256
--	-----

PREGETH XXIII.

Dyrchafiad y Cyfryngwr. Phil. 2. 9, 10.	264
---	-----

PREGETH XXIV.

Y crïstion yn sefyll trwy ffydd. 2 Cor. 1. 24.	272
--	-----

PREGETH XXV.

Natur a ffrwythau yr efengyl. Titus 2. 11, 12.	281
--	-----

PREGETH XXVI.

Cerydd segurwyr yn y wîlltan. Mat. 20. 6.	292
---	-----

PREGETHAU.

PREGETH I.

PSALM 34. 8.

“PROFWCH, A GWELWCH MOR DDA YW YR ARGWLWYDD:
GWYN EI FYD Y GWR A YMDDIRIEDO YNDDO.”

Y MAE yn dra thebygol i'r Psalm hon gael ei chyfansoddi ar ol gwaredigaeth raslawn o ryw drallodion neu gilydd. “Aml ddrygau,” medd Dafydd, “a gaiff y cyfiawn; ond yr Arglwydd a'i gwared ef oddi wrthyt oll.” “Llygaid yr Arglwydd sydd ar y cyfiawn; a'i glustiau sydd yn agored i'w llefain hwynt.” “Angel yr Arglwydd a gastella o amgylch y rhai a'i hofnant ef, ac a'u gwared hwynt.”

Pan y mae yr Arglwydd, gan hynny, mor ofalus i wylled dros ei bobl, ac mor alluog i'w hamddiffyn, mor barod ac mor ewyllysgar i wrando ar lef eu gweddiau; pan y mae efe mor abl i ddanfôn ymwared, mor raslawn i fendithio eu heneidiau, nid rhyfedd clywed y Psalm-ydd yn gwaeddi allan, ac yn dywedyd, “Ofnwch yr Arglwydd, ei saint ef; canys nid oes eisiau ar y rhai a'i hofnant ef.” “Profwch, a gwelwch mor dda yw yr Arglwydd: gwyn ei fyd y gwr a ymddiriedo ynddo.”

Oddiwrth y geiriau hyn, ymdrechaf am rai munudau i wneuthur ychydig sylwadau ar y pethau canlynol. Sylwaf ychydig,—

I. Ar yr athrawiaeth hyfryd a gynnwysir yn y testyn, sef, “*daioni yr Arglwydd.*”

II. Ar y *ddyledswydd* bwysfawr a gymhellir arnom yma, “*Profwch, a gwelwch mor dda yw yr Arglwydd.*”

III. Ar y *fendith* ammhrisiadwy a ganlyn, “*Gwyn ei fyd y gwr a ymddiriedo ynddo.*”

I. Am ddaioni yr Arglwydd, “*Mor dda yw yr Arglwydd.*”

Y mae yr Arglwydd yn dda ynddo ei hun. Y mae yn hanfodol, yn berffaith, yn dragywyddol dda, ynddo ac o hono ei hun. Efe yw awdwr pob daioni; efe yw ffynnon pob daioni; oddi wrtho ef y mae pob daioni yn dylifo i bechaduriaid. Nid oes gennym ddim ond a dderbyniasom ganddo. Pa ddaioni bynnag y mae unrhyw greadur yn feddu, wedi ei dderbyn y mae gan Dduw, yr hwn yw ffynnon pob daioni, i.e., yr hwn sydd ddaioni ei hunan. Daioni Duw yw happusrwydd a gogoniant y nef; y mae ei ddaioni yn llewyrchu trwy yr holl greadigaeth. O'r orsedd uchaf yn y nefoedd, hyd drigfanau y colledigion obry, y mae'r gwirionedd pwysfawr hwn yn adnabyddus, mai “*da yw yr Arglwydd.*”

Pe gofynem i'r angylion syrthiedig, y rhai a wrthryfelasant yn erbyn Duw, ac o herwydd eu gwrthryfelgarwch a yrrwyd i waered i uffern—pe gofynem iddynt *hwy*, os nad oeddynt unwaith yn ddedwydd *yn* ei ddaioni? “*O! oeddem,*” fyddai yr ateb, os cyfaddefent y gwirionedd. Wel, beth yw yr achos o'ch trueni *yn awr*? “*Camarfer daioni Duw; oblegid mai da yw yr Arglwydd, a drwg ydym ninnau.*” Gwrthryfela yn

erbyn y fath ddaioni oedd eu pechod anfaddeuol. Cael eu gyrru ymaith am dragywyddoldeb oddiwrth y daioni hwn, yw eu cospedigaeth ddychrynlyd. Dyma yr achos o'u truenusrwydd presennol.

Pe gofynem etto i'r pechaduriaid truenus, y rhai a fuont fyw a marw yn *anedifeiriol*, y rhai ydynt yr awr hon yn dyrchafu eu llygaid mewn poenau:—pe gofynem, pahan yr ydych yn ysprydion diobaith, yn dychrynu ac yn arswydo wrth feddwl am y gospedigaeth a fydd? Pahan y collfarnwyd ac y dinystriwyd chwi am byth? Pahan yr ydych yr awr hon yn dioddef angerdd y tân tragywyddol? “Wel, dyma pahan,” fyddai eu hatteb, pe dywedent y gwir, “oblegid i ni ddirmygu a gwneuthur yn fach o *ddaioni* Duw!” Beth yw y peth chwerwaf sydd wedi ei gymmysgu yn y cwppan digofaint yr ydych yn orfod yfed? “Hyn yw y peth chwerwaf o'r cwbl, sef, y sicrwydd mwyaf diammheuol, na fydd i ni byth gael dyfod i *wyddfod*, nac ychwaith *brofi daioni* Duw!” “Ar yr annuwiolion,” O! clywch, bechaduriaid anedifeiriol, “y gwlawia efe faglau, tân a brwmstan, a phoethwynt ystormus; dyma ran eu phiol hwynt.” Duw trugarog, bydded i'th ddaioni ein tywys, bawb o honom, i edifeirwch, fel na byddo i ni byth gael myned i'r lle poenus hwnnw!

Y mae yr holl greadigaeth yn dwyn tystiolaeth i'r gwirionedd pwysfawr hwn, “mai *da yw yr Arghwydd*.” Yr haul yna yn y ffurfafen, y lleuad a'r ser, dydd a nos, y cawodydd ffrwythlon sydd yn dyfrhau'r ddaear, amrywiol dymhorau y flwyddyn, yr adar asgellog, y rhai nid ydynt islaw ei sylw ef; y maent oll yn datgan *daioni* Duw. Y mae y flwyddyn yn cael ei choroni, a'r ddaear yn cael ei llenwi â'i *ddaioni*. Y mae holl

greaduriaid y maes, bwystfilod yr anialwch, y rhai sydd yn cael eu porthi gan ei ragluniaeth; ïe, y mae yr holl greadigaeth yn seinio ei glod, a hon yw y gân, sef “*daioni yr Arglwydd.*”

Etto, cyfeiriaf attoch *chwi*, bechaduriaid cyndyn, anedifeiriol, y rhai a ymgaledwch yn erbyn pob moddion i'ch hargyhoeddi; dywedwch, onid yw Duw wedi bod yn dda tuag attoch? A ddarfu iddo ddim rhoddi i *chwi* fywyd, ac iechyd, a synwyr? A ddarfu iddo ddim eich cynnal ar fronau eich mam, a thrwy eich hieuengetid a chanol oed? A ydyw ef ddim yn cyflenwi eich hangenrheidiau, yn eich porthi a'ch dilladu, ac yn rhoddi i *chwi* bob peth yn helaeth i'w fwynhau? A ddarfu iddo ddim rhoddi i *chwi* ei air, i'ch gwneuthur yn ddoeth i iechydwriaeth,—ei Fab i farw dros eich pechodau, a'i Yspryd i'ch haddasu gogyfer a'r nefoedd? A ydyw ef ddim yn cynnyg i *chwi* ei achubol ras, ac yn addaw i *chwi* ei ogoniant tragwyddol? Wel, yn sicr, fe orfydd, hyd y nod i bechaduriaid diofal, y rhai a gamddefnyddiant yr holl fendithion hyn, fe orfydd arnynt *hwy*, er hynny, gyfaddef, mai “*da yw yr Arglwydd!*”

A phwy yw yr hwn sydd etto yn cyd-ddwyn â'ch calonau drygionus, a'ch bywydau annuwiol? Os wyt ti feddwyn yn bresennol, pwy yw yr hwn sydd yn cyd-ddwyn â thi yn dy feddwdod a'th gyfeddach, yn dy aflendid a'th anlladrwydd? Dyngwr a rhegwr, halogwr y Sabbath! pwy sydd yn dy oddef *di*, pan y mae dy bechodau yn ddigon braidd i beri i'r haul guddio ei wyneb gan gywilydd,—pwy ond Duw *daionus!*

Yn wir, y mae daioni y Goruchaf i'w weled yn hynod iawn yn ei waith yn dioddef pechaduriaid an-

nuwiol. O! na wnai ei ddaioni eich tywys i wir edif-eirwch! Yn *awr*, frodyr, yw yr amser, cyn yr ennyn-och ei lid; tra y mae efe, er yn cael ei ddigio yn feu-nyddiol, etto yn attal ei gyfiawn ddigofaint; tra y mae, er fod ei fraich wedi ei chodi i'r lan, etto yn oedi taro. O! bechaduriaid, fe fydd yn ergyd trwm, yn wir, arnoch, os taro a wna; efe a'ch sodda i ddyfnderoedd truenusrwydd. O! er mwyn eich heneidiau, tafwch eich harfau i lawr. Er mor hir y buoch ym myddin-oedd Satan, yn rhyfela yn erbyn Duw, etto, "*Duw daionus yw efe.*" Yn lle cymmeryd dial ar ei elynion, dyma ei iaith heddyw, gan lefain ar eich hol yn y modd mwyaf tyner a chynhyrfiol,—“Bechaduriaid, dychwel-wch! Paham y byddwch feirw? Edifarhewch a dychwelwch!” Y mae efe yr awr hon yn barod i'ch derbyn, os dychwelwch atto; y mae yn disgwyl i drugarhau wrthych ar eich hedifeirwch.

Paham y mae Duw yn y modd hyn yn dioddef cym-maint, ac yn cyd-ddwyn mor hir â phechaduriaid cyndyn? Wel, dyma paham, am "*mai Duw daionus yw efe,*" am nad yw efe yn ewyllysio marwolaeth un pechadur! “O!” ynte, “na baech ddoethion, na ddeallech hyn, nad ystyriech eich diwedd.” Duw a welo fod yn dda i agoryd eich llygaid i ganfod y pethau a berthynant i'ch tragywyddol heddwch, cyn y byddont yn guddiedig rhagoch!

Ond yn mhellach, gofynaf i *chwithau*, ddisgyblion Crist croeshoeliedig, chwi ganlynwyr yr Oen, am eich tystiolaeth i'r gwirionedd pwysig hwn, sef “*daioni yr Arglwydd.*”

Pwy a'ch arbedodd yn eich gyrfa bechadurus, pan yr oeddych yn parhau i bechu yn wirfoddol yn erbyn Duw, gan sathru ei orchymmynion a'i ddeddfau sanct-

aidd dan eich traed? Pan y cafodd miloedd dirifedi o bechaduriaid, y rhai nid oeddynt fwy pechadurus na chwithau, eu torri i lawr yng nghanol eu hannuwioldeb, paham y cawsoch chwi eich harbed? Llawer o'ch cyd-oedion a dorrwyd i lawr yn ddisymmwth, ynghanol eu gyrfa ddrygionus, yn ammharod i wynebu angau! A phwy a'ch tynnodd *chwi* megis pentewynion o'r gynneu dân? Pwy a agorodd lygaid eich meddwl? Pwy a dywalltodd oleuni oddi amgylch eich llwybrau, ac a drodd eich traed i ffordd tangnefedd? Pwy a'ch tywysodd ar hyd lwybr nid adwaenech, ac at yr Iachawdwr, ac at yr iechydwrriaeth ag oeddych yn ddymuno gymmaint? Pwy sydd wedi addaw gras yn gymhorth cyfamserol i chwi yn y *byd hwn*, ac yn y byd a *ddaw* fywyd tragywyddol, trwy haeddiant aberth y groes? Pwy, meddaf, *onid Duw*? Yn ddiâu, ynte, fe fydd i galon yr hwn sydd yn credu yng Nghrist ganu yn uchel, "Yr Arglwydd sydd Dduw; ei drugaredd sydd yn dragywydd; a'i wirionedd a bery o genhedlaeth i genhedlaeth byth."

Ni a welwn, ynte, fod daioni Duw i'w ganfod trwy yr holl greadigaeth; ond pa le y mae ei ddaioni yn ymddangos yn fwyaf ardderchog? Y mae yn disgleirio fwyaf yng nghroes Crist—yng nghroeshoeliad ei anwyl Fab! Mab Duw a adawodd, am ennyd fach, orsedd ei ogoniant; efe a roddodd ei weddiau, ei ddaagrau, ei boen a'i lafur, ei waed a'i einioes, er iechydwrriaeth pechaduriaid! Efe, yr hwn oedd ddihalog, a ddiodd-efodd dros euog ddyn! Pan y rhoddwyd ef i farwol-aeth, clywch ef yn gweddio dros ei lofruddion! "O Dad, maddeu iddynt; canys ni wyddant pa beth y maent yn ei wneuthur!" Efe oedd Dduw, a bu farw fel ag yr oedd yn ddyn, dros ei elynion!

Gwelwn yma, ynte, fawr ddaioni Duw, yn ei waith yn trefnu ffordd i'w greaduriaid gwrthryfelgar i ddyfod yn ol drachefn i'w gymdeithas. "Profwch a gwelwch mor dda yw yr Arglwydd; gwyn ei fyd y gwr a ymddiriedo ynddo."

Ond gadawaf hyn, a brysiat i sylwi,—

II. Ar y *ddyledswydd* bwysfawr a gymhellir arnom yma, "Profwch, a *gwelwch* mor dda yw yr Arglwydd."

Y mae y *ddyledswydd* hon yn *driphlyg*—

1. "Profwch mor dda yw yr Arglwydd." Nid enw yn unig yw crefydd. Nid yw crefydd yn gynnwysedig mewn ffurf allanol, a phroffes *yn unig*. Nac yw, eithr gweithrediad yr Ysbryd yw ar y galon. Peth profiadol yn yr enaid, troedigaeth a chyfnewidiad yr holl ddyn at Dduw, a sancteiddrwydd—dyma beth yw gwir grefydd. Peidiwch a chamsynied, nid oes dim crefydd yn eich gwaith yn dyfod i'r fan hyn, neu ryw fan arall, i blygu y glin, ac i wneud proffes o grefydd, os hyn yw y cwbl.

Rhyw beth sydd *o'n mewn* yw crefydd. "Teyrnas Dduw, o'ch *mewn* chwi y mae." Dyna y fan, gan hynny, i chwi holi eich hunain, nid yn yr agwedd allanol gymmiant, ond yng nghuddiedig ddyn y galon. Y mae llawer o broffeswyr, y rhai a ymddangosant yn ddigon hardd *oddi allan*, a'u calonau yn llawn twyll a rhagrith *oddi mewn*.

Cofied y cyfryw, er eu bod yn twyllo dynion, na allant ddim twyllo Duw. Efe a'u diosg ryw ddydd, ac ymddengys eu twyll a'u rhagrith ger bron dynion ac angylion.

Od oes yma ryw rai yn boddloni fel hyn ar rith o dduwioldeb, yr Arglwydd a welo fod yn dda i ddangos i chwi eich cyflwr arswydus mewn pryd! Nerth a

gaffom bawb i *brofi* daioni yr Arglwydd. Y mae yr annuwiol yn mwynhau daioni yr Arglwydd, ond nid yw *efe* ddim yn ei *brofi*. Nid oes neb ond y duwiol yn brofiadol o ddaioni Duw.

Y mae y credadyn wedi derbyn egwyddor newydd, bywyd newydd oddiwrth Dduw, a thrwy hynny y mae yn deimladwy ac yn *brofiadol* o *ddaioni Duw*. Y mae *efe* yn ymborthi ar Grist, ac felly yn *profi* ei raslondeb. Dyma y gwahaniaeth sydd rhwng gwir grefydd a gau broffes; y mae un yn *ymborthi* ar Grist, ac yn cael ei ddigoni; y mae y llall yn ymborthi ar y *cibau*, ac heb ei ddigoni. Gwir grefydd sydd yn gynnwysedig mewn byw *yng* Nghrist, a byw *dros* Grist; ac adnabod mai hyn yw bywyd tragywyddol.

Nid yw bywyd y corph mewn mwy o angen o *ymborth naturiol* nag yw bywyd yr enaid o *ymborth ysprydol*.

Nid yw y pechadur anedifeiriol, nac ychwaith y *gau* broffeswr, yr hwn sydd yn farw mewn camweddau a phechodau, yn newynu nac yn sychedu am bethau ysprydol. Y mae yn myned i'r Eglwys fel dynion eraill, er hynny nid yw yn profi daioni y Creawdwr. Ond y credadyn yng Nghrist, yr hwn sydd yn fyw i Dduw a sancteiddrwydd, sydd yn newynu ac yn sychedu am gyfiawnder. Y mae *efe* wedi profi daioni yr Arglwydd, ac y mae ei enaid yn hiraethu am gael profi mwy o'i feluser. Y mae yn hiraethu ac yn sychedu am gael gwledda arno. Ac, O! y fath wledd odidog y mae Crist wedi barottoi yn ei Efengyl. "Fy nghnawd i," medd *efe*, "sydd fwyd yn wir, a'm gwaed i sydd ddiod yn wir." "Od oes ar neb syched, deued attaf fi, ac yfed."

2. "A gwelwch mor dda yw yr Arglwydd." Nid yw yn ddigon i *brofi*, ond mae yn rhaid *gweled* hefyd

mor ddaionus yw yr Arglwydd. Gwnewch brawf, frodyr, o'i ddaioni a'i gariad. Peidiwch ymfoddloni ar ryw hanesion o'i ras a'i ddaioni, ond ewch a mynnwch *wybod*; mynnwch *weled eich hunain*. Holwch i mewn i'r matter; mynnwch *wybod* a ydyw yr Iachawdwr hwn mor *addas*, ac mor *ddigonol* i'ch holl angenrheidiau ag yr ydych yn clywed ddywedyd am dano. Nid ydym yn ewyllysio i neb gynneryd ein gair ni yn unig am hyn, ond yr ydym am i chwi wneud prawf o hono, "Profwch a gwelwch," drosoch eich hunain, "mor dda yw yr Arglwydd." Y mae Crist yn Iachawdwr holl-ddigonol. Holwch am ei natur, ei waed, ei gyfiawnder, a'i Yspryd. Y mae efe yn wir ddyn, ac etto yn wir Dduw. Fel dyn, y mae yn gallu cydymdeimlo â ni yn ein holl wendidau; fel Duw, y mae yn abl i'n cynnal oddi tanynt. Ei waed, ei gyfiawnder, a'i Yspryd, ydynt waed, a chyfiawnder, ac Yspryd Duw. Gwelwch ei *allu*, ei *ddoethineb*, ei *air*, a'i *gariad*. Efe ei hunan yw gallu a doethineb Duw; ei air sydd ffyddlondeb a gwirionedd; ei gariad sydd gryfach nag angau. "O! gwelwch," ynte, "mor dda yw yr Arglwydd."

Gwelwch nad oes un galon nas gall *efe* dyneru, un pechod nas gall efe ei faddeu, un llygredd nas gall efe oresgyn, un anhawsdra nas gall efe ei symmud ymaith, un gofid neu alar nas gall efe ei ysgafnhau, un gelyn nas gall efe ei orchfygu, un cysur neu ddi-ddanwch nas gall efe ei weinyddu, un gras nas gall efe ei gyfranu, un enaid nas gall efe achub, neu unrhyw ogoniant nas gall efe roddi i'w bobl. O! "profwch," ynte, "a *gwelwch* mor dda yw yr Arglwydd."

Rhan arall o'r ddyledswydd hon yw,—

3. "*Ymddiried* yn yr Arglwydd." Ymddiried yn yr Arglwydd Iesu, yw tafu ein hunain, megis pechad-

uriaid edifeiriol ar ddarfod am danom, i freichiau ei daugaredd, ac i ymhyfrydu yn unig yn ei iachawdwr-iaeth; ei dderbyn fel ein doethineb, ein cyfiawnder, ein harweinydd, a'n diddanydd; ïe, ei goffeidio yn mreichiau ffydd, fel ein Hiachawdwr, ein Duw, *ein oll* yn oll. "Gwyn ei fyd y gwr a ymddiriedo" fel hyn "ynddo." Ond heb Grist nis gallwn wneuthur dim. Oddi wrtho ef y mae doethineb yn deillio, ac oddi wrtho y mae pob gras yn dylifo i'r enaid. A ffydd yw'r hyn a'n tywys ar y cyntaf i ymddiried yng Nghrist; ffydd yn unig yw'r hyn sydd yn ein cadw yn gadarn ar Graig yr oesoedd; ffydd yw'r hyn sydd yn ein huno â Christ, yn ein gwisgo â'i gyfiawnder, yn rhoddi hawl i ni yn ei haeddiant, ac yn ein haddasu i'w ogoniant. Ymddiried yn yr Arglwydd a'n cymhell i *gyflawni* pob dyledswydd, ond nis caniatto i ni *ymffrostio* mewn un; arwain ní i'r *ymarferiad* o holl foddion gras, ond dysg ni yn y cwbl i edrych i fynu am fendith; cymhell ni i fod yn *ddiwyd* yn ein holl achosion bydol, ond ar yr un amser anadla yspryd gweddi i'n calonau, a phar i'n holl ymarweddiad fod yn hardd ac yn brydferth, ïe, yn sancteiddrwydd i'r Arglwydd. Ymddiriedwch yn yr Arglwydd bob amser; ymddiriedwch ynddo am bob peth. Ymddiriedwch ynddo, nid yn unig yn eich gwynfyd, ond hefyd yn amser adfyd; nid yn unig pan y mae rhagluniaeth yn *gwenu* arnoch, ond pan y mae yn dywyllaf arnoch. Ymddiriedwch ynddo yn mhob cyflwr a sefyllfa; nid yn unig mewn iechyd, ond mewn cystuddiau a gofidiau. Ymddiriedwch ynddo, nid yn unig mewn bywyd, ond yn angau; ïe, ymddiriedwch ynddo mewn amser ac yn nhragywyddoldeb. "Ymddiriedwch," medd y prophwyd, "yn yr Arglwydd byth; o herwydd yn yr

Arglwydd Dduw y mae cadernid tragywyddol," Esa. 26. 4.

Ond af ym mlaen yn awr i sylwi ychydig,—

III. Ar y fendith ammhrisiadwy a ganlyn, "Gwyn ei fyd y gwr a ymddiriedo ynddo," yn yr Arglwydd.

1. "Gwyn ei fyd" *yn awr*; y mae yn wynfydedig *eisoes*.

Heb ymddiried yn Nuw, trwy Grist, nis gall fod gennym na gobaith na heddwch. Nid oes un gobaith i'w gael allan o'i ffafr, ac nid oes heddwch yn un lle ond ynddo ef. Y mae ymddiried yn Nuw yn tywallt bendith i'r enaid yn bresennol. Y prophwyd Esaiiah a ddywed fel hyn, "Ti a gedwi mewn tangnefedd heddychol yr hwn sydd â'i feddylfryd arnat ti; *am* ei fod yn *ymddiried* ynot."

Digon gwir, fe ddichon iddi fod yn gymmylog weithiau ar yr hwn a fo a'i ymddiried yn Nuw. Y mae yn ddigon tywyll o'i *flaen ef* weithiau; ond, er y cwbl, yn y blaen y mae yn myned, gan hyderu fod yr Arglwydd yn gofalu am dano.

Er y llygredigaethau a ruant oddi mewn iddo, er y profedigaethau a ymosodant arno oddi allan, er iddo gael ei erlid gan y byd annuwiol, er iddo gael ei yspeilio o'i feddiannau, er iddo golli ei iechyd, a phob peth megis yn ymddangos yn ei erbyn, fel yr hen Batriarch gynt; etto, er y cwbl oll, fe ellir dywedyd uwch ei ben ef, "Gwyn ei fyd y gwr a ymddiriedo yn yr Arglwydd." Y mae ei hyder ar Dduw o hyd, yr hwn sydd wedi addaw "nerth yn ol y dydd." Ni rydd efe ddim mwy arno nas gall ei ddwyn. Yr Arglwydd a rydd ras, *mwy* o ras, a gras *digonol* iddo. Dyma fydd ei iaith,—“Yr Arglwydd a wna bob peth yn dda;

efe a wna i bob peth *gydweithio* er fy lleshad. Yr Arglwydd yw efe, gwnaed a fyddo da yn ei olwg ; a phe lladdai efe fi, etto, trwy ras, *mi a ymddiriedaf ynddo.*"

2. Fe fydd yn wynfydedig yn *angau*.

Tu hwnt i'r dyffryn hwn, dyffryn cysgod angau, y mae byd nas gwyddom ni fawr am dano ; ond hyn a wyddom, sef fod yno wynfyd neu boenau annhraethadwy, ac yn dragywyddol eu parhad ! Pan ddelom ni, eneidiau anwyl, i sefyll ar gyffiniau y byd tragywyddol, pan y byddo cnawd a chalon yn pallu, ein cyfeillion a'n perthynasau yn troi eu cefnau, pob peth dan haul yn diflanu, amser ym mron darfod, a thragywyddoldeb a'i holl ddychrynfeydd yn ymddangos yn dywyll o'n blaen ; yn y munudau syml hyn, O ! mor werthfawr i gael sicrwydd fod yr enaid yn ddiangol gyda Christ ! Frodyr anwyl, i'r *arch* â chwi mewn pryd, i'r noddfa â chwi tra y mae odfaon gras yn parhau. Y mae yn rhaid i chwi a finnau wynebu y bwlch hwn cyn bo hir ; ac, o *ddaioni* yr Arglwydd yw, na fuasem wedi ei wynebu cyn heddyw, ac yn anmharod !

3. Fe fydd yn wynfydedig yn *oes oesoedd*.

Pan fyddo corph y duwiol yn huno yn y bedd, fe fydd ei enaid yn llawenhau gydag ysprydion y cyfiawn wedi eu perffeithio. Pan udgano yr udgorn—udgorn Duw, fe ddaw corph y gwr a ymddiriedo yn yr Arglwydd i'r lan yn gyffelyb i gorph gogoneddus Iesu. Dyma yr amser y bydd "i'r llygradwy hwn wisgo anlygredigaeth, ac i'r marwol hwn wisgo anfarwoldeb." A thyma y geiriau graslawn a seiniant yng nghlustiau y rhai a ymddiriedant yn yr Arglwydd, "Deuwch chwi fendigedigion fy Nhad, etifeddwch y deyrnas a barottowyd i chwi er seiliad y byd." "Deuwch i mewn i lawenydd eich Harglwydd."

Ond i ddiweddu,—1. A oes yma ryw rai yn bresennol yn ddiotal mewn perthynas i ddaioni Duw, yn esgeuluso yr enaid, ac yn ddifraw yng ngwyneb y tragywyddoldeb sydd yn neshau? O! na wnaech “brofi a gweled mor dda yw yr Arglwydd.” Y mae nefoedd ac uffern, y greadigaeth a rhagluniaeth, seintiau ac angylion; *y maent oll yn tystio fod yr Arglwydd yn ddaionus.* Ond yr wyt ti, bechadur, yr wyt ti yn dirmygu ei ddaioni; yr wyt ti yn sathru dan dy draed ei drugaredd fwyaf graslawn; yr wyt yn esgeuluso iechydwriaeth dy enaid! O! bechadur, ystyria am funud! Ystyria ym mha le mae dy yrfa bechadurus yn sicr o derfynu—hi a derfyna ar fyr, oni ragflaena trugaredd Duw di, yn nhrigfannau y colledigion! O! ystyria, ynte, dy ffyrdd, a dychwel at Dduw, fel y byddo byw dy enaid. Clywch leferydd o'r nefoedd yn dywedyd wrthyh, “Pa hyd, chwi ynfydion, y cerwch ynfydrwydd? a chwi watwarwyr, y bydd hoff gennych watwar, ac y casâ ffyliaid wybodaeth? Dychwelwch wrth fy ngherydd.”

Heddyw, bechaduriaid, gwrandewch ar lais doethineb, a derbyniwch wahoddiad Trugaredd. Heddyw, ufuddhewch i'r alwad sydd ar eich hol. Ystyriwch mor hir y mae Duw wedi dioddef eich hesgeulusdod, ac wedi bod yn ymryson â'ch heneidiau! Ystyriwch gymmaint a wnaeth ac a ddioddefodd Crist drosoch, a thros eich iachawdwriaeth! Ystyriwch mor dyner y mae efe yn eich gwahodd i ddyfod atto! O! “profwch, a gwelwch mor dda yw yr Arglwydd!”

Ond cofiwch, mai ei *ddaioni* yn unig yw na fuasech heddyw yn cyfodi eich llygaid yn y fflamiau tragywyddol! A chofiwch hefyd, na fydd i'w yspryd ymryson â chwi am byth. Fe dderfydd ei amynedd cyn b'o hir. Fe allai ei fod ym mron rhoi rhyw un i fynu

yma, a bod y geiriau, "Tor ef i lawr; paham y mae efe yn diffwytho y tir," ym mron a myned allan o'i enau! O! gan hynny, tra y mae ei Ysryd yn ymryson â chwi, er mwyn eich heneidiau, na fogwch argyhoeddiadau eich cydwybod yn hwy; na oedwch eich hedifeirwch; na chellweiriwch â thragywyddoldeb! Gochelwch rhag i'ch diofalwch ddigio yr Hollalluog! O! "peth ofnadwy yw syrthio yn nwyllaw y Duw byw!" Nac oedwch yn hwy, ynte. *Heddyw* y mae Duw yn gwahodd; y *fory*, fe allai, y gwrthoda chwi! *Heddyw* chwi a ellwch fod yn gadwedig; y *fory*, fe allai y bydd hi yn rhy ddiweddar! *Heddyw* fe'ch gwahoddir i'r *nefoedd*; y *fory*, fe allai y byddwch gyda'r damnedigion yn *uffern*, yn gwaeddi fod "y cynhauaf wedi myned heibio, yr haf wedi darfod, a chwithau heb fod yn gadwedig!" O! gan hynny, tra y mae amser yn parhau, "Profwch, a gwelwch mor dda yw yr Arglwydd."

2. Gair neu ddâu wrthych *chwi* ag sydd yn ymofyn am yr iachawdwriaeth, y rhai sydd yn ymofyn am y ffordd tua Sion, ac yn ofni na fydd i chwi ei chael.—Cymmerwch gysur. Yr ydych chi yn teimlo eich hangen o Iachawdwr hollalluog. Y mae daioni Duw wedi parottoi un ar eich cyfer, ac y mae ei ras yn cynnyg yr Iachawdwr hwnnw i chwi, ar eich derbyniad o hono. Wele waed, cyfiawnder, haeddedigaethau, ac Ysryd Crist croeshoeliedig! *Credwch* yng Nghrist, ac yna Crist a'i holl fendithion fydd eiddo chwi. Y mae yr Arglwydd Iesu ei hunan yn eich gwahodd i gyfranogi o hono, ynghyd â holl fendithion yr efengyl.

Deuwch chi rai *newynog*, a Christ a rydd i chwi o *fara y bywyd*. Deuwch chi rai *sychedig*, ac efe a rydd i chwi *ddwfr bywiol*. Deuwch chi rai *euog*, ac efe a

rydd *faddeuant* i chwi. Deuwch *weiniaid*, ac efe a rydd *nerth* i chwi. Deuwch *dlodion*, ac efe a'ch *cyfoethoga* chwi. Deuwch chwi y rhai sydd ar *ddarfod am danoch*, a Christ a'ch *gwared* chwi. Beth! a gaiff yr Iachawdwr eich gwahodd yn *ofer*?

O! "profwch, a gwelwch mor dda yw yr Arglwydd." Dyneswch at gyfaill pechaduriaid. Nac amheuwch yn hwy ei barodrwydd i'ch derbyn. Gwnewch brawf o'i gariad. Anturiwch ym mlaen. Os na *dderbyn* Crist chwi, chwi a fyddwch y rhai cyntaf a wrthododd erioed, ar eu *hedifeiroch*. Os na wna eich bendithio, chwi fyddwch y *cyntaf* a ddanfonodd ymaith yn waglaw, o'r holl rai hynny a ddaethant atto mewn ffydd a gweddi. Ië, eneidiau, os ydych yn ofni dyfod atto *ef, efe* a ddaw attoch *chwi*; "Wele," medd efe, "yr wyf yn sefyll wrth y drws, ac yn curo. Os clyw neb fy llais i, ac agoryd y drws, mi a ddeuaf i mewn atto ef, ac a swperaf gydag ef, ac yntau gyda minnau."

3. Gair cyn dibenu wrthy chwi *sydd yn credu*. Yr ydych *chwi wedi profi* fod yr Arglwydd yn raslawn. Yr ydych wedi profi y bara a ddaeth i waered o'r nef, a'ch gweddi yw, "Arglwydd, dyro i ni y bara hwn yn wastadol." Yr ydych wedi yfed o ddwfr y bywyd, yr hwn a rydd Crist i chwi; ac y mae ynoch "yn ffynnon o ddwfr yn tarddu i fywyd tragywyddol." Yr ydych *wedi profi daioni Duw*. Ond nid oes dim *ond profi* ar y ddaear; ambell i friwsionyn yw hi yma; yn y *nesoedd* chwi a gewch wledda ar ei ddaioni yn oes oesoedd.

Ond tra y byddoch byw ar y ddaear y mae yn rhaid i chwi fyw *trwy ffydd*, ac ymddiried yn yr Arglwydd yn wastadol.

Er fod ofnau ac amheuon yn ymosod arnoch weithiau, etto *ymddiriedwch* yn yr Arglwydd. Er y bydd i

elynion eich amgylchu yn aml, oddi mewn ac oddi allan, etto yr Arglwydd a fydd yn nerth a tharian i chwi. Am hynny, fy mrodyr anwyl, ymddiriedwch yn yr Arglwydd *bob amser*, ac ymddiriedwch ynddo â'ch *holl* galon. Ymddiriedwch ynddo, ac efe a'ch cysgoda ym mhob tymhestl; fe fydd i chwi yn noddfa ym mhob trallod, eich cymhorth yn angau, ac yn y nefoedd eich "*gwobr mawr iawn*."

Ac, O! bydded i chwi *bawb* oll, mewn bywyd, yn angau, ac am dragywyddoldeb, fwynhau gwynfyded-igrwydd y gwr hwnnw ag sydd â'i ymddiried yn yr Arglwydd.

PREGETH II.

EXODUS 34. 6.

— “Y DUW TRUGAROG.” —

DYMA fel y mae Duw yn llefaru wrth Moses, pan y galwodd ef i fynu yr ail waith, â'r llechau cerrig yn ei ddwylaw, i ben mynydd Sinai. Dyma'r enw y mae yn roddi iddo ei hun. Y mae yr adnod i gyd yn rhedeg fel hyn,—“A'r Arglwydd a aeth heibio o'i flaen ef, ac a lefodd, Jehofah, Jehofah, y Duw *trugarog*, a graslawn, hwyrfrydig i ddig, ac aml o drugaredd a gwirionedd.” Y mae Duw bob amser yn fwy parod i drugarhau nag i gopsi. Trugaredd yw ei briodoledd hoffaf, a thrugarhau yw ei waith anwylaf. “Pa Dduw,” medd y prophwyd Micah, “sydd fel tydi, yn maddeu anwiredd, ac yn myned heibio i anwiredd gweddill ei etifeddiaeth? ni ddeil efe ei ddig byth, am fod yn *hoff* ganddo *drugaredd*.” Y mae y gwaethaf o ddynolryw yn profi o drugaredd Duw; canys “daionus yw yr Arglwydd i *bawb*,” medd y Psalmydd, “a'i drugaredd sydd ar ei *holl* weithredoedd.” Y drugaredd sydd yn dyfod attom mewn cyfammod sydd felusaf. Yr oedd yn drugaredd fawr fod Duw yn rhoddi gwlaw, a digon o ymborth, a heddwch, a buddugoliaeth i Israel ar eu gelynyon; ond etto yr oedd yn fwy o drugaredd ei fod *ef* yn *Dduw* iddynt, yn *Dduw* cyfammodol iddynt. Y mae yn drugaredd fawr hefyd ein bod ninnau yn cael iechyd, ac ymborth, a dillad; ond y mae yn fwy o drugaredd na hynny i gael Crist ac iechydwriaeth.

Gallwn ddywedyd wrthych am amrywiol *fath* o drugaredd; ond gan fyned heibio i hynny, llefaraf ychydig yn awr am berthynolion neu briodolion drugaredd.

I. Y mae drugaredd Duw yn *rhad*.

Gosod i fynu haeddiant yw diddymu drugaredd. Nid oes neb yn haeddu drugaredd, gan fod pawb yn llygredig ac yn bechadurus; ac nis gallwn beri i Dduw drugarhau wrthym.

Ni a allwn beri iddo ein cospi, ond nid ein caru. Gan hynny peth rhad yw drugaredd; "caraf hwynt yn *rhad*" yw iaith Duw trwy enau y prophwyd Hosea. Pob dolen yng nghadwyn fawr iechydwrriaeth sydd wedi cael ei gweithio a'i chydblethu â rhad ras. Etholiad sydd yn rhad. Eph. 1. 4. "Megis yr etholodd efe ni ynddo ef cyn seiliad y byd, fel y byddem yn sanctaidd ac yn ddifeius ger ei fron ef mewn cariad."

Cyfiawnhad sydd yn rhad. Rhuf. 3. 24. "A hwy wedi eu *cyfiawnhau* yn *rhad* trwy ei ras ef, trwy y prynedigaeth sydd yng Nghrist Iesu." Iechydwrriaeth hefyd sydd yn rhodd ac yn rhad. Titus 3. 5. "Nid o weithredoedd cyfiawnder y rhai a wnaethom ni, eithr yn ol ei *drugaredd* yr achubodd efe nyni, trwy olchiad yr adenedigaeth, ac adnewyddiad yr Yspryd Glan." Na ddywedwch, gan hynny, yr ydym yn annheilwng, canys drugaredd sydd yn rhad.

Pe byddai Duw yn trugarhau yn unig wrth y rhai sydd yn deilwng, ni thrugarhai wrth neb, o herwydd *nid oes neb yn deilwng*.

II. Y mae drugaredd Duw yn *fawr iawn*.

Y Psalmydd a ddywed, "Ti, O Arglwydd, ydwynt dda a maddeugar, ac o *fawr drugaredd* i'r rhai oll a alwant arnat." Ac medd yr Apostol, "Eithr Duw, yr hwn sydd *gyfoethog o drugaredd*, o herwydd ei *fawr*

gariad trwy yr hwn y carodd efe ni, ië, pan oeddem feirw mewn camweddau, a'n cyd-fywhaodd ni gyda Christ." Nid yw cwppan *digofaint* ond megis yn *diferu*, ond ffynnon *trugaredd* sydd yn *rhedeg*. Nid yw yr haul mor llawn o oleuni ag yw Duw o drugaredd. Y mae gan Dduw drugareddau dan y nefoedd, y rhai yr ydym yn brofi ac yn fwynhau yn bresennol; a thru-gareddau yn y nefoedd, y rhai yr ydym yn gobeithio am danynt rhagllaw.

III. Trugaredd Duw sydd yn parhau yn *dragywydd*.

"Trugaredd yr Arglwydd sydd o dragywyddoldeb hyd dragywyddoldeb," medd y Psalmwydd, "ar y rhai a'i hofnant ef; a'i gyfiawnder i blant eu plant." Am hynny eneidiau y ffyddloniaid a gânt nofio mewn môr o drugaredd ddwyfol am byth.

Nid yw digter Duw tuag at ei blant a'i bobl yn parhau ond dros ychydig;—"Canys ennyd fechan y bydd yn ei lid; yn ei foddlonrwydd y mae bywyd: dros brydnhawn yr erys wylofain, ac erbyn y bore y bydd gorfoledd."

Yn gymmaint, ynte, gyfeillion, a bod trugaredd Duw mor rhad, mor fawr, ac mor barhaus, y mae yn ddy-ledswydd ar bawb o honom gredu yn nhrugaredd yr Arglwydd, a dywedyd gyda'r gwr duwiol, "Ymddiriedaf yn nhrugaredd Duw, byth ac yn dragywydd."

Trugaredd Duw sydd ffynnon wedi ei hagar; O! gollyngwch gwppan ffydd i lawr, ac yfwch o ffynnon iechydwriaeth.

Pa annogaeth mwy i gredu na thrugaredd Duw? Y mae yr Arglwydd bob amser yn barod i faddeu y pechodau mwyaf, ac y mae yn chwennych i bechaduriaid gyffwrdd â theyrnwialen aur ei drugaredd, fel y byddo byw eu heneidiau.

Yr ewyllysgarwch hwn i faddeu sydd yn amlwg mewn dwy ffordd.

1. Trwy fod yr Hollalluog yn erfyn ar bechaduriaid i ddyfod a chymmeryd gafael ar drugaredd. Ei iaith yw, "Yr hwn sydd â syched arno, deued; a'r hwn sydd yn ewyllysio, cymmered ddwfr y bywyd yn rhad." Fe fyddai yn beth rhyfedd iawn gennym glywed y brenin yn *erfyn* ar ddyn wedi ei gollfarnu i farwolaeth i dderbyn maddeuant; ond y mae Duw, o herwydd mai "Duw trugarog" yw, yn gwneuthur hynny, ac yn dywedyd mewn effaith, Bechadur gwael, bydd foddlon i mi dy garu—bydd ewyllysgar i mi dy achub—derbyn iechydwriaeth rad oddiwrth Dduw trugarog.

2. Y parodrwydd hwn i drugarhau sydd yn ymddangos oddiwrth y llawenydd sydd yn y nef pan y byddo pechaduriaid yn edifarhau ac yn derbyn trugaredd. Fe ddywedodd ein Iachawdwr ei hun fod "llawenydd yn y nef," a llawenydd yng ngwydd angylion Duw, am un pechadur a edifarhao.

Beth yw Duw well pa un a dderbyniom ei drugaredd ai peidio? Dim yn sicr. Etto, y fath yw *daioni* Duw, fel ag y mae yn llawenhau yn iechydwriaeth pechaduriaid, ac yn hoffi trugarhau wrthynt. Pan ddaeth y mab afradlon adref, O! mor llawen oedd ei Dad. "Efe a syrthiodd ar ei wddf ef, ac a'i cusanodd!" Fe wnaeth wledd fawr ar yr achos, i ddangos ei lawenydd. Ond nid oedd hyn ond arwydd neu gysgod o lawenydd Duw, pan y mae pechaduriaid yn dychwelyd yn ol at eu Tad nefol, ac yn derbyn iechydwriaeth trwy ffydd yn Iesu Grist. Y fath annogaeth sydd yma i gredu yn Nuw. Y fath annogaeth i daflu ein hunain yn hollol ar ei dosturi ef yr hwn sydd mor drugarog ac mor

ddaionus tuag at ei greaduriaid! Wel, gyfeillion, edrychwch *na chamarferoch* drugaredd Duw. Na feddylwch, o herwydd fod Duw yn drugarog, y gellwch fyned ym mlaen mewn pechod ac anwiredd; hyn fyddai troi trugaredd yn elyn i chwi. Nis gallasai neb ond yr offeiriaid gyffwrdd â'r arch, o herwydd eu bod trwy eu swydd yn fwy sanctaidd nag eraill; felly nis gall neb gyffwrdd âg arch trugaredd Duw, ond y rhai sydd wedi penderfynu "byw yn sobr, ac yn gyfiawn, ac yn dduwiol, yn y byd sydd yr awr hon." "Na thwyller chwi, ni watwarir Duw; canys beth bynnag a hauo dyn, hynny hefyd a fêd efe." I ddyn bechu o herwydd fod Duw yn drugarog, neu o herwydd fod *maddeuant am bechodau*, sydd debyg i ddyn yn clwyfo ei ben o herwydd fod gydag ef eli i'w iachau. Trugaredd yn cael ei chamarfer, a dry yn ddigofaint dychrynlyd. Clywch beth a ddywedir yn Deuteronomium 29. 19, 20. "A bod, ymfendithio o hono yn ei galon ei hun, gan ddywedyd, Heddwch fydd i mi, *er i mi rodio* yng nghyndyrwydd fy nghalon, i chwanegu meddwodod at syched. Ni fyn yr Arglwydd faddeu iddo; canys yna y myga digllonedd yr Arglwydd a'i eiddigedd yn erbyn y gwr hwnnw, a'r holl felldithion sydd ysgrifenedig yn y llyfr hwn a orwedd arno ef, a'r Arglwydd a ddilea ei enw ef oddi tan y nefoedd." O! gyfeillion, edrychwch, gan hynny, na chamddefnyddioch drugareddau Duw, a thrwy hynny dynu mell-dithion ar eich pennau, ac yn y diwedd golli eich gwerthfawr eneidiau!

Od oes yma ryw rai yn gofyn, beth sydd raid i ni wneuthur fel y byddom gyfrannog o drugaredd yr Arglwydd? Yr ateb yw,—

1. Byddwch deimladwy o'ch hanghenion.

Gwelwch fel yr ydych yn sefyll mewn angen o drugaredd a maddeuant. Holwch eich hunain, a ydych yn teimlo eich eisiau o drugaredd Duw, a ydych yn gweled eich hunain yn amddifaid, ac yn dywedyd gyda'r prophwyd, "Ynot ti y caiff yr amddifad drugaredd." "Ynot ti yn unig y mae gobaith fy iechydwrriaeth."

2. Ewch at Dduw am drugaredd.

Dywedwch gyda Dafydd, "Trugarha wrthyf, O Dduw, yn ol dy drugarogrwydd: yn ol lliaws dy dosuriaethau, dilea fy anwireddau." Na fwrw fi ymaith â thrugaredd gyffredinol ag y mae yr annuwiol yn gael; dyro i mi, nid yn unig gibau, ond perlau; dyro i mi drugaredd, nid yn unig i'm porthi ac i'm dilladu, ond trugaredd i faddeu fy holl bechodau yn dy erbyn. Fel hyn gweddiwch am drugaredd. Y mae gan Dduw drysorau o drugaredd, a gweddi yw yr allwedd neu yr agoriad sydd yn dadgloi y trysorau hyn; ac mewn gweddi cofiwch fyned â Christ gyda chwi, canys pob trugaredd sydd yn dyfod trwy Grist. Efe yw "Oen Duw, yr hwn sydd yn tynnu ymaith bechodau y byd," gan hynny yn eich holl ymbiliau am drugaredd, dadl-euwch haeddiant ei ddioddefiadau trosoch.

Rhyfedd mor ddaionus yw Duw tuag at bechaduriaid! Pwy sydd wedi ein cynnal o'r amser y'n ganwyd hyd y funud bresennol? "Y Duw trugarog." Pwy sydd yn ein porthi ac yn ein dilladu? "Y Duw trugarog." Pwy sydd yn rhoddi nerth i ni gyflawni ein hamryw orchwylion a'n swyddau? "Y Duw trugarog." Pwy sydd yn rhoddi iechyd i ni i fwynhau holl fendithion Rhagluniaeth? "Y Duw trugarog." Pwy sydd yn arbed y meddwyn, yn lle ei dorri i lawr ynghanol ei yrfa bechadurus? "Y Duw trugarog." Pwy sydd

yn arbed y tyngwr a'r rhegwr yn lle ei dafu ar unwaith i fflamiau uffern, pan y mae yn galw yn daer ar Dduw i'w ddamnio? "Y Duw trugarog" yw. Ym mhwy yr ydym yn "byw, yn symmud, ac yn bod?" Yn "y Duw trugarog." Pwy a roddodd ei anwyl Fab i farw ar y groes drosom, fel y caffem fywyd tragywyddol? "Y Duw trugarog."

Wel, gyfeillion, byddwch ddiolchgar am yr holl ddaioni a'r drugaredd yr ydych yn dderbyn oddiwrth yr Arglwydd.

Yr ydych, nid yn unig wedi *clywed* fod Brenin y nef yn drugarog, ond yr ydych yn fynych wedi ei *brofi* felly. Pan yn aml mewn eisiau, dwyfol drugaredd sydd wedi eich diwallu. Ar droion yr ydych wedi bod yn gorwedd ar wely cystudd, ac yn dioddef dan glefyd ac afiechyd, ond y mae dwyfol drugaredd wedi eich codi i fynu drachefn. Bryd arall y mae wedi bod yn gymmylog iawn arnoch mewn perthynas i'ch cyflwr ysprydol, ond y mae "y Duw trugarog," trwy ei Yspryd, wedi danfon goleuni o'r newydd i chwi, ac wedi cysuro eich heneidiau.

O! fel y dylai llestri trugaredd redeg drostynt o glod a moliant at eu Creawdwr mawr. O! mor ddiolchgar y dylai ein calonau fod am holl fendithion "Y Duw trugarog."

O! dysgw'n ddywedyd gyda'r Psalmydd duwiol, "Fy enaid, bendithia yr Arglwydd; a chwbl sydd ynof, ei enw sanctaidd ef. Fy enaid, bendithia yr Arglwydd; ac nac anghofia ei holl ddoniau ef: yr hwn sydd yn maddeu dy holl anwireddau; yr hwn sydd yn iachau dy holl lesgedd: yr hwn sydd yn gwaredu dy fywyd o ddistryw: yr hwn sydd yn dy *goroni â thru-garedd ac â thosturi.*"

Y mae trugaredd Duw yn anfeidrol, yn ddiderfyn ac yn anhyspyddadwy. Yn wir nis gwn i ba beth i gyffelybu Dwyfol drugaredd, oni ellir ei chyffelybu i dân. Wel, meddyliwch am fynydd mawr yn llawn o dân; meddyliwch etto fod myrddiynau o ganwyllau yn cael eu cynneu wrtho ar unwaith; yn awr, er rhifedi y canwyllau sydd yn derbyn tân *oddiwrth y mynydd*, nid yw y *tân yn y mynydd ddim llai*. Rhyw beth tebyg i hynny a allwn feddwl yw trugaredd Duw. Er y miloedd aneirif sydd *wedi* derbyn, ac yn feunyddiol *yn* derbyn o honi, *nid yw ddim llai*, nid yw byth yn treio—môr didrai ac anhyspyddadwy yw. Er cymcymmaint yw angen dynolryw, y mae gan Dduw ddigon o drugaredd a gras i'w diwallu a'u cyfoethogi oll. Pwy na chanai gyda'r prydydd ynte?

“ Mae yma drugareddau'n rhad
I'r tlawd a'r llariaidd rai;
A rhyw fendithion maith yn 'stôr,
Sydd fythol yn parhau.

'Does yma eisiau fyth yn bod,
Trysorau grae yn llawn,
Er maint yw'r yfed a'r glanhau
Sydd fore a phrydnawn.”

O! gan hynny, gyfeillion, deuwch at Dduw trwy Iesu Grist am drugaredd.

Er cymmaint a ddywedwyd yn awr am barodrwydd a gallu Duw i drugarhau, fe ddichon fod yma ryw un yn barod i ofyn, Pe byddwn yn dyfod at yr Arglwydd am faddeuant, a fyddaf yn sicr o gael yr hyn sydd arnaf eisiau? A ydyw y ffordd ag y mae y Jehofah

yn ei drugaredd wedi drefnu i achub pechaduriaid, yn gyfaddas *i'm cyflwr i?* A all hi gyrhaeddyd y fath ddyfnderau o euogrwydd, pechod, a llygredd? Yr ydwyf, medd y dyn, wedi troi clust fyddar yn hir yn erbyn rhybuddion difrifol fy nhad, a dagrau fy mam; yr ydwyf wedi gwrthod cynghorion a deisysfiadau gweinidogion yr efengyl; yr ydwyf wedi diffodd argyhoeddiadau fy nghydwyl; yr ydwyf wedi dirmygu yr ordinhadau sanctaidd, wedi mathru Mab Duw, wedi barnu yn aflan waed y cyfammod trwy yr hwn y sancteiddiwyd ef, ac wedi difenwi Yspryd y gras; *ac a allaf fi gael trugaredd?* Gelli yn sicr, os ydwyt yn wirioneddol yn edifarhau, ac yn taer weddio ar Dduw am drugaredd a maddeuant trwy haeddiant Crist. Pe byddai pechodau yr holl fyd yn cael eu gosod ar dy ben, y mae digon o rinwedd yng ngwaed Crist i'w golchi ymaith oll; canys yr ydym yn darllen fod "Gwaed Iesu Grist yn glanhau" y rhai sydd yn credu ynddo ef, "oddiwrth bob pechod;" ac y "dichon yn gwbl iachau y rhai trwyddo ef sydd yn dyfod at Dduw, gan ei fod ef yn byw bob amser i eiriol drostynt hwy." O! deuwch gan hynny at "y Duw trugarog," fel y caffo eich euogrwydd ei symmud ymaith, eich pechodau eu maddeu, eich calonau eu sancteiddio, a'ch eneidiau eu hachub. Addewid raslawn y Jehofah bendigedig yw, "Pe byddai eich pechodau fel ysgarlad, ânt cyn wynnedd a'r eira; pe cochent fel porphor, byddant fel gwlan." Ac i chwi, fy mrodyr, yr wyf yn cyhoeddi y newyddion da hyn, "O! deuwch i'r dyfroedd, bob un y mae syched arno, i'e, yr hwn nid oes arian ganddo; deuwch, prynwch, a bwyttewch; i'e, deuwch, prynwch win a llaeth, *heb arian, ac heb werth.*"

PREGETH III.

LUC 15. 13.

“AC AR OL YCHYDIG DDYDDIAU Y MAB IEUANGAF A GASGLODD Y CWBL YNGHYD, AC A GYMMERTH EI DAITH I WLAD BELL.”—

Ffe allai nad oes un ddammeg yn yr holl Fibl yn cynnwys darluniad mwy cyflawn o'r gwirionedd Dwyf-ot, na dammeg y mab afradlon. Y mae gennym yn y ddammeg hon ddarlun o'n trueni wrth natur, a'r edifeirwch hynny sydd i iechydwriaeth, ac o drugaredd ddiderfyn Duw yng Nghrist i'r rhai a ddychwelant oddiwrth eu pechodau.

Wrth y mab ieuangaf y meddylir dynolryw yn gyffredinol, y rhai sydd wedi ymddieithrio oddiwrth Dduw trwy bechod gwreiddiol a gweithredol. Y mae holl ddynolryw wrth natur wedi ymadael oddiwrth Dduw, a myned i wlad bell. Yr ydym yn cael hanes yn yr adnod hon am ymddygiad y mab ieuangaf, wedi iddo dderbyn ei ran. “Efe a gasglodd y cwbl ynghyd, ac a gymmerth ei daith i wlad bell,” lle y gwariodd y cwbl mewn pechod a ffolineb, “gan fyw yn afradlawn;” a'r lle y daeth yn agored i agen a thlodi, gan fod yn barod i drengi gan newyn.

Dyma ymddygiad pob pechadur sydd yn ymadael â Duw.

Pa *fodd*, medd rhyw un, y mae dynion yn ymadael oddiwrth Dduw? Yr ateb yw, trwy *bechod*. *Pechodau* gw ymadael oddiwrth Dduw.

Ni a gawn sylwi ychydig oddiwrth y testyn.—I. Ar yr *ymadawiad* hwn oddiwrth yr Arglwydd.

Beth yw pechod ond cymmeryd y galon a'r serchiau oddiwrth y gwir a'r bywiol Dduw, a'u rhoddi ar ryw wrthddrychau eraill. Gadael y gwir Dduw, a myned ar ol duwiau dieithr—dyna beth yw pechod. Gadael “ffynnon y dyfroedd byw”—am beth? am “bydewau wedi eu torri, ni ddaliant ddwfr.” Os gofyn neb etto beth yw pechod, yr wyf yn ateb, mai natur pob pechod yw *ymadael* â Duw, taflu ymaith ei lywodraeth, a gwrthryfela yn ei erbyn. Fe ellir dywedyd am holl blant Adda yng ngeiriau y prophwyd Esaiah,—“Eich anwireddau chwi a ysgarodd rhyngoch chwi a'ch Duw.” Mwyaf i gyd a bechom, pellaf i gyd oddiwrth Dduw yr awn; oblegid y mae pob pechod a fyddo dyn yn euog o hono yn *gam* yn *nes* i uffern, ac yn *gam* ym mhellach oddiwrth Dduw. O! yr angen, ynte, sydd arnom o ras Crist i'n dychwelyd yn ol at Dduw, oddiwrth yr hwn yr ydym wedi crwydro. Wel, fe ellid meddwl, yn sicr, fod rhyw *degwch*, fod rhyw hyfrydwch hynod mewn pechod, onidê ni fyddai iddo hudo dynion i ymadael â Duw, ac i golli ei hedd a'i gariad. Ond, O, syndod! yn lle hyn, y peth mwyaf *ffriidd* ac *atgas* o bob peth yw, ffynnon pob *truemusrwydd*. Pechod yw yr unig beth ag y mae y Jehofah yn *gashau*. Nid oes dim ond pechod a all boeni dyn gorph ac enaid yn *uffern*. Er hynny, pechod yw yr unig beth ag y mae dyn, wrth natur, yn gofleidio. Meddylwch beth y mae pechod *wedi* wneuthur. Dinystriodd *un* pechod yr holl fyd, a pharodd i'r holl ddaear wrthryfela yn erbyn y nefoedd. Y mae pechod wedi llenwi y byd o bob trueni; y mae wedi llenwi uffern â phoenau y colledigion; ac wedi bod yn achos o

‘ladd Tywysog y bywyd!’ Er hyn i gyd, y mae dynion yn caru pechod o flaen pob peth arall. Cynnygwch iddynt deyrnas nefoedd, hwy a’i gwrthodant yn hytrach nag ymadael â’u hannuwioledeb a’u pechodau anwyl! Ni wna unrhyw fygythion eu dychrynu, na pheri iddynt ymadael â’u pechodau. Dygwch hwynt tan fêg a tharanau Sinai; dywedwch wrthynt am “y llyn sydd yn llosgi â tân a brwmstan;” etto ym mlaen y maent ym myned, dan gofleidio eu pechodau. Yn hytrach nag ymadael â’u nwydau pechadurus, a throi oddiwrth eu hanwireddau at Dduw, hwy a anturiant y perygl o ddioddef angerdd y tân tragywyddol! I brofi hyn, ni raid i ni ond edrych o’n hamgylch ar ymddygiad dynion mewn gwlad Biblau ac Eglwysi; i’e, mewn gwlad lle mae’r Efengyl sanctaidd yn cael ei phregethu yn ei phurdeb!

Beth sydd mewn pechod ag sydd yn hudo y galon? Wel, dyma sydd ynddo—*twyll*. Y mae natur pechod i *dwylo y galon*. Y mae pechod yn hudo y galon trwy *dywyllu y deallthoriaeth*; ac fel hyn, yn eu dallineb, y mae dynion yn cyflawni y pechodau mwyaf gwarthus. Y mae pechod wedi dallu eu llygaid, fel nas gwyddant i ba le y maent yn cael eu tywys. Y maent yn meddwl eu bod ar y ffordd tua Chanaan, tra y maent â’u hwynebau tua’r Aipht. Y prophwyd Esaiiah sydd yn dywedyd,—“Wele, *tywyllwch* a orchuddia y ddaear, a’r *fagddu y bobloedd*.” Ac yn y tywyllwch hwn y mae dynion yn crwydro oddiwrth Dduw.

Y mae pechod yn twyllo dynion hefyd, trwy beri *anghrediniaeth* yn eu calonau. Nid yw y pechadur ddim yn *credu* y bydd i Dduw ei gospi am ei bechod. Pe credai dynion y bydd i Dduw gospi pechod am byth yn uffern; fe fyddai yn amhosibl iddynt bechu

yn ei erbyn fel y maent. Ond y mae pechod yn dwyn *anghrediniaeth* i'r enaid; ac, yng ngwyneb y bygythion mwyaf dychrynlyd am bechod, nid ydynt ddim yn credu y bydd i Dduw dywallt arnynt ei phioleidiau o ddwyfol soriant. Etto, y mae pechod yn twyllo trwy *galedu* y galon. Natur pob pechod yw caledu y galon. Mwyaf a becho dyn, mwyaf caled a fydd y galon; ac o un pechod i'r llall hi a galeda i'r fath raddau, fel na fydd un pechod yn rhy fawr iddi gyflawni. O! y fath achos sydd gennym, ynte, i weddio ar Duw am ras i'n hattal rhag myned ym mlaen mewn annuwioldeb! "Edrychwch, frodyr," medd yr Apostol, yn Heb. 3. 12, 13. "na byddo un amser yn neb o honoch *galon ddrwg anghrediniaeth, gan ymado oddiwrth Dduw byw*. Eithr cynghorwch eich gilydd bob dydd tra y gelwir hi heddyw; fel na chaleder neb o honoch *trwy dwyll pechod*." Y mae pechod yn *twyllo* yn gyntaf, ac yna yn *lladd*. Fe ddywedir yn Rhufeiniaid 8. 11. fel hyn,—“Canys pechod, wedi cymmeryd achlysur trwy y gorchymyn, a'm *twyllodd* i; a thrwy hwnnw a'm *lladdodd*.”

Y mae pechod yr un fath ag y dywedir am y corryn, yr hwn sydd yn hudo y cylionyn i'w fagl, ac yna yn ei wenwyno. Y mae yr un fath a'r *abwyd* sydd yn cael ei ddal allan i'r pysgodyn, yr hwn sydd yn ei lyngcu heb feddwl am y *bach* sydd ynddo. Dyma fel y mae pechod; y mae fel tamaid *melus* yn y genau, ond, O! mor *chwerw* wedi yr elo i'r cylla. “Bustl chwerwder, rhwymyn anwiredd.” A oes yma ryw un yn *caru* pechu yn erbyn Duw; a ydyw pechod yn *felus* i ti? Gwybydd, mor wired a'th fod yn y fan yma heddyw, y cai ei brofi yn chwerw ryw ddydd! Caniattaed Duw i ni bawb gael profi ei chwerwder *yma*, ac nid yn y

poenau tragywyddol! Eneidiau anwyl, gochelwch hudoliaeth Satan!—gochelwch gynllwynion diafol! “Fel na’n siomer gan Satan,” medd yr Apostol, “cansys nid ydym heb wybod ei ddichellion ef.” Ac nid yw y diafol i’w ofni yn fwy un amser na phan y mae yn dyfod mewn rhith angel goleuni. Cofiwn, pan ddelo yn y modd hyny, mai yr hen sarph wenwynlyd yw, er tecced y mae yn ymddangos. Pan y mae yn estyn y cwpan auraidd i ni, edrychwn na dderbyniom ef ganddo, cansys gwenwyn marwol sydd o’i fewn.

Gan fod i ni y fath elyn, O! yr angen sydd arnom i wisgo am danom holl arfogaeth Duw, fel y gallom wrthsefyll dichellion diafol; i.e., “holl biccellau tanlyd y fall.” Peidiwn hyderu yn ein nerth ein hunain. Y mae ein calonau yn dwyllodrus uwchlaw pob peth. Nid oes dim ond gras Duw, anfeidrol allu y Jehofa, yn ddigonol i’n dal yng ngwyneb dichellion y diafol. Am hynny bydded ein gweddi yn barhaus am “ras yn gymhorth cyfamserol.” Wel, hyn ynte yw *troi* oddi wrth Dduw, sef pechu yn ei erbyn.

II. Sylwn fod pob pechadur ag sydd â’i galon yn myned ar ol pechod, yn *ymadael* â Duw, ac “yn cymeryd ei daith *i wlad bell*.”

Gwelwn ddynion yn aml mewn dagrau ac wylofain, i.e., yn barod i dorri eu calonau, pan yn gorfod ymadael â’u cyfeillion a gwlad eu genedigaeth, i fyned i wlad bell; etto y maent yn ymadael *â Duw heb un ochenaid!* O! gymmaint y mae y pechadur yn roddi i fynu pan y mae yn gadael Crist i fyned i wlad bell. Y mae yn rhoddi i fynu deyrnas nefoedd, bywyd tragywyddol, a thragywyddol bwys gogoniant! Y mae yn rhoddi i fynu yr afonydd o ddigrifwch sydd ar ddeheulaw Duw yn y nefoedd! A hyn i gyd am fwyniant pechod dros

funud awr! O! ffolineb. O! ymfydrwydd dynion. Ond gadewch i ni holi yma am funud, *Paham* y mae pechaduriaid yn gadael Duw i fyned i “wlad bell.”

1. *Am nad ydynt yn gwybod am yr hyfrydwch, a'r cyfoeth o ras, a phob daioni ag sydd yn Nuw.* Y mae pob pechadur yng nghyflwr natur yn ddall mewn pethau ysprydol; â llygaid ganddynt, ond nid ydynt yn gweled; â chalonau ganddynt, ond nid ydynt yn deall; neu, fel y dywed yr Apostol,—“Dyn anianol nid yw yn derbyn y pethau sydd o Yspryd Duw; canys ffolineb ydynt ganddo ef; ac nis gall eu gwybod, oblegid yn ysprydol y bernir hwynt.” Beth ond anwybodaeth o'r Duw byw yw yr achos fod dynion mewn gwledydd paganaidd yn addoli duwiau o bren a maen? A pheth ond anwybodaeth o Dduw yw yr achos fod miloedd mewn gwlad efengyl yn dewis y byd a phechod yn hytrach na Christ a'i deyrnas? Y mae miloedd o ddynion, dan enw *Cristionogion*, yn gwaeddi allan gyda Pharaoh, “Pwy yw yr Arglwydd fel y gwrandawem ni ar ei lais?” Y maent yn cellwair â phechod! Y maent yn gadael Duw, ac yn myned ar ol eu heilunod i “wlad bell.” Yr Yspryd Glân yn unig a ddichon symmud ymaith y tywyllwch hwn oddiar ddealldwriaeth dynion. O! erfyniwn bawb, ynte, ar Dduw yr Ysbryd Glân i “lewyrchu yn ein calonau ni, gan roddi i ni oleuni gwybodaeth gogoniant Duw, yng ngwyneb Iesu Grist.”

2. Y mae pechaduriaid yn ymadael oddiwrth Dduw, oblegid *gwrthwynebiad eu natur*. Y maent yn eu *hegwyddor*, yn eu *calonau*, ac yn eu *natur*, yn hollol *wrthwynebol* i Dduw. Y mae Duw yn *sanctaidd*, y maent hwythau yn *aflan*. Y mae Duw yn *gyfiawn*, y maent hwythau yn *bechadurus*. Y mae Duw yn caru gwirionedd a phurdeb; y maent hwythau yn hoffi twyll a

chelwydd. Cariad yw Duw, gelyniaeth sydd ynddynt hwythau. Nid rhyfedd, ynte, eu bod yn ymadael oddiwrth Dduw, yr hwn sydd mor wahanol ei natur iddynt hwy. Beth ond gwrthryfel a all fod rhwng rhai mor groes eu haniau i'w gilydd? a pheth yw dyn yn ei gyflwr naturiol, ond gelyn i Dduw?—"Gelynion i Dduw trwy weithredoedd drwg." Ac y mae yr elyniaeth hon yn peri i'r pechadur ymadael â Duw, a myned i "wlad bell." Nid yw pechaduriaid anedifeiriol yn chwennych neshau at Dduw; nis gallant oddef y meddwl o agoshau atto. Fe ddarfu i Cain yn ei elyniaeth, a Jonah yn ei ddig, ffoi o wyddfod yr Arglwydd, ac aethant, fel y tybient, i "wlad bell." Er nad oes un man nad yw Duw yn bresennol, etto y mae manau lle nad yw yn amlygu ei ogoniant, a lle nad yw yn cael ei addoli mewn pardeb. Y mae pechaduriaid halogedig, y meddwyn, y cybydd, &c. yn gochelyd y llefydd hyn y mae Jehofah yn cael ei addoli mewn yspryd ac mewn gwirionedd. Y mae dynion o'r fath hyn yn ewyllysio ymadael â'r llefydd hyn ag y mae Duw yn cael ei addoli ynddynt; a pheth yw hyn ond gelyniaeth tuag atto? Arswydus, yn wir, yw cyflwr y dynion hyn ag ydynt mewn gelyniaeth yn erbyn Duw! Beth a ddywed Barnwr yr holl fyd am y cyfryw ddyinion ar y dydd olaf? Wel, gwrandewch ar ei eiriau,—“Fy ngelynion hynny y rhai ni fynnasent i mi deyrnasu arnynt, dygwch hwynt yma, a lleddwch ger fy mron i.” A Dafydd a ddywed, “Yn ddiâu, O Dduw, ti a leddi yr annuwiol.” O! mor ryfeddol yw gras Crist yn iechyd-wriaeth pechaduriaid. “Pan oeddem ni etto yn elynion, Crist a fu farw trosom!” “Pan oeddym yn elynion, y'n heddychwyd â Duw trwy farwolaeth ei Fab ef.” O! rhyfeddol; o blith ei elynion y dewisodd yr

Arglwydd ei blant a'i bobl! Ac, O! mor rhyfedd yw y gras hwnnw, yr hwn sydd yn gwneuthur gelynyon yn feibion ac yn ferched i'r Goruchaf.

3. Y mae pechaduriaid yn troi oddiwrth Dduw, o herwydd eu bod yn *cashau* ei *ddeddfau* a'i *lywodraeth*. Y maent yn cashau gorchymmynion Duw, y rhai sydd yn gofyn ufudd-dod. Pan y gorchymmynir iddynt i wasanaethu Duw, y maent yn ateb, "Pwy yw yr Arglwydd fel yr ufuddhaem iddo?" Pan ddywedir wrthynt am ufuddhau i'w lywodraeth, y maent yn ateb, "Pwy sydd Arglwydd arnom ni?" Os dywedir wrthynt beth y mae Duw a Christ yn ofyn oddi wrthynt, dyma eu hiaith, "Drylliwn eu rhwymau hwy, a thafwn eu rheffynau oddi wrthym." Os dywedir wrthynt mai Crist yw Arglwydd pawb oll, hwy a atebant, "Ni fynwn ni hwn i deyrnasu arnom." Yn y modd hyn, yn lle ufuddhau i lywodraeth yr Arglwydd, y mae y drygionus yn ymadael oddi wrtho, gan "gymmeryd eu taith i wlad bell." "Ac ar ol ychydig ddyddiau y mab ieuangaf a gasglodd y cwbl ynghyd, ac a gymmerth ei daith i wlad bell."

1. Wedi derbyn ei ran, y mab afradlon a adawodd ei dad yn y fan. Dyma fel y mae dyn yn gwneud etto; ni erys ddim yn hwy gyda Duw, na thra y mae Duw yn ei ddal. Y funud y gollyngo Duw ef yn rhydd, efe a grwydra oddi wrtho. Dyma fel y gwnaeth Adda, chwi a wyddoch; efe a ymadawodd oddiwrth Dduw mor gynted ag y gadawodd Duw ef iddo ei hun. Beth sydd i ni ddisgwyl, ynte, oddiwrth *hiliogaeth* Adda ond gwrthgiliad? Dyma natur dyn, crwydro oddiwrth ei Greawdwr. Y mae y byd yn llawn o faglau i ddenu dynion, ac y mae Satan yn llawn dichell a chyfrwysdra i'w twyllo. Nid rhyfedd, ynte, fod

dynion annuwiol yn myned oddiwrth Dduw i "wlad bell." Ac ni fydd i'r *duwiol* chwaith, y rhai sydd â gras Duw yn aros ynddynt, sefyll yn hwy na thra byddo yr Arglwydd yn eu cynnal; pan y tynno ei fraich oddi tanynt, i lawr y syrthiant yn ddioed. Dyma fel y bu gyda Lot, Dafydd, Pedr, ac amryw eraill. O! gan hynny, peidied neb o honom ymddiried yn ei nerth ei hun, ond pwyswn bob amser ar fraich yr Arglwydd. A bydded ein gweddi ni gyda Dafydd, "Cynnal fi, a diangol fyddaf." Y rhai oll a gedwir hyd y diwedd, a gynhelir "trwy allu Duw, trwy ffydd i iechydwriaeth;" ac iddo ef yn unig y rhoddant y mawl a'r gogoniant, wedi cyrhaedd teyrnas eu Tad. "Iddo ef yr hwn a'n carodd ni, ac a'n golchodd ni oddiwrth ein pechodau yn ei waed ei hun, y byddo y gogoniant, a'r clod, a'r parch;" hyn fydd eu cân yn oes oesoedd.

2. Mwyaf *haelionus* y byddo Duw tuag at ddynion, mwyaf anufudd ac anniolchgar, yn gyffredin, y maent yn ymddwyn tuag at Dduw. Wedi i'r afradlon dderbyn ei gyfran, dacw ef yn troi ei gefn ar ei Dad yn ddiaros! Po fwyaf i gyd a roddo Duw o drugar-eddau tymhorol i bechaduriaid, mwyaf i gyd y maent yn chwanegu eu gwrthryfelgarwch i'w erbyn. Y mae gennym esampl o hyn yn ymddygiad yr Israeliaid gynt. Dacw Dduw yn rhoddi aur a thlysau yr Aiphthiaid iddynt; wel, pa ddefnydd a wnaethant o honynt? *Hwy a wnaethant dduwiau o honynt!* Wedi hynny dacw Dduw yn eu porthi â manna o'r nefoedd; beth yw eu hymddygiad yn awr? O! cywilyddus! y maent yn ei ffeiddio yn eu henaid, ac yn grwgnach yn erbyn Duw. Dacw Dduw etto yn rhoddi gwlad yn llifeirio o laeth a mêl iddynt; yn sicr y maent wrth eu bodd yn awr, medd rhyw un, ac yn byw yn dduwiol. Nac

ydynt ddim; y maent yn awr yn waeth nag erioed, yn halogi y wlad â'u heilunaddoliaeth, ac yn ei llanw o falchder, a phob trais a gormes. Gwrandewch beth mae y Bibl yn ddywedyd am danynt,—“Yr uniawn a aeth yn fras, ac a wingodd; efe a wrthododd Dduw yr hwn a'i gwnaeth, ac a ddiystyrodd graig ei iachawdwriaeth!”

Dyma fel y mae etto. Lle y mae Duw yn dyrchafu dynion annuwiol mewn nerth a meddiannau, y mae Satan yntau yn dyrchafu eu calonau mewn balchder ac annuwioldeb. “Os cynnydda golud,” y maent yn “rhoddi eu calon arno.” Os yw y byd yn gwenu, y maent yn ei addoli ef, ac yn anghafio Duw. Y mae llawer ag sydd yn gweddio ar Dduw ar wely cystudd, yn ei fellsihio ef, ac yn cablu ei Fab, yn ol gwella! O! fel y mae dynion yn camddefnyddio trugareddau, a daioni, a hir-ymaros Duw tuag attynt. Yn troi eu trugareddau yn achos o bechu yn erbyn y Duw sydd yn eu rhoddi!

Chwi ag sydd yn ofni yr Arglwydd, na chydymffurfiwch â'r byd. Ymddygwch yn wahanol i'r rhai ag sydd â'u cyfran yn y byd hwn yn unig. Pan y mae Rhagluniaeth yn gwenu, pan y mae canwyll yr Arglwydd yn llewyrchu ar eich trigfa, gofawch na adawoch yr Arglwydd eich Duw, yr hwn sydd yn peri i chwi lwyddo. Pan y mae Duw yn eich dyrchafu mewn llwyddiant, ymostyngwch eich henaid mewn gostyngyddrwydd, ofn, a dychryn. Gofawch na fyddo i'r trugareddau ag y mae Duw yn roddi i chwi, ddwyn y galon oddi wrtho, ond yn hytrach bydded i'w ddaion dynnu eich serchiadau yn fwy tua'r nefoedd, a'r pethau sydd uchod.

3. Y mae y pechadur, wedi ymadael unwaith oddi wrth Dduw, mewn “gwlad bell.” Y mae mewn

pellder mawr oddiwrth Dduw. Nid pellder o ran lle, sylwch, ond pellder o ran ei *gyflwr*; ac, oddieithr iddo gael ei ddwyn yn ol gan Ddwyfol ras, fe fydd y pellder hwn rhwng Duw a'r pechadur yn fwy-fwy i dragywyddoldeb. Dyma fel y gwna pob pechadur, crwydro ym mhellach bellach oddiwrth Dduw. Ac nis gall y pechadur crwydredig byth ddywedyd, "Nis gallaf fyned ym mhellach," canys y mae pechod yn ddiderfyn. Y mae y daith hon fel teithiau eraill, yn cael ei gwneuthur trwy *gamrau*, o dipyn i dipyn; ac y mae pob pechod ag yr wyt ti, ddyn annuwiol, yn gyflawni, yn gam ym mhellach oddiwrth Dduw, ac yn nes i ddinystyr tragywyddol!

O! y fath *wlad bell* y mae y pechadur anedifeiriol yn byw ynddi. Ym mhell oddiwrth beth? medd rhyw un. Nid pell oddiwrth farwolaeth a dinystyr; nagê, ond pell oddiwrth *Dduw* ac *iechydwrïaeth*,—ym mhell oddiwrth bob *dedwyddch*,—ym mhell o'r *nefoedd*! Pawb ag sydd allan o Grist sydd yng ngwlad marwolaeth, yn nheyrnas Satan, ac ar y ffordd i ddistryw. O! *wlad druenus*. Gwlad a orchuddir gan dywyllwch fel plâu yr Aipht gynt! Gwlad nad yw Haul mawr y cyfiawnder byth yn disgleirio arni! Gwlad lle nad yw eneidiau byth yn cael eu hachub ynddi! Pawb a aroso yn y wlad *bell* a gyfrgollir yn dragywydd! A oes neb o ddeiliaid y wlad bell yn gwrando yma yn awr? O! ystyriwch pwy ydych,—deiliaid y diafol. O! tafwch ei rwymau oddi wrthych, a dychwelwch at yr Arglwydd eich Duw.

4. Y mae pawb ag sydd yn awr yn *blant y goleuni*, wedi bod unwaith yn crwydro yn y "*wlad bell*." Ydych, gyfeillion, yr ydych chwithau wedi bod yn ddeiliaid Satan. O! mawrygwch y gras a'ch dygodd adref

i dŷ eich Tad. Y mae rhai duwiolion wedi myned ym mhell iawn yn ffordd y gelyn, yn flaenaf yn ei resi, fel Saul o Tarsus, yr hwn oedd yn erlidiwr, yn gablwr, ïe, y pennaf o bechaduriaid; ond fe ryngodd bodd i Dduw ei wneuthur ef yn llestr etholedig, y pennaf o'r apostolion. Ond, O! gocheled neb rhag dywedyd, "Pechwn, fel yr amlhao gras." "Y mae damnedig-aeth y cyfryw yn gyfiawn."

Y mae y rhai hynny ag sydd yn cael eu dwyn yn ol o'r "wlad bell," yn cael eu dysgu i *gashau* a ffeiddio pechod, oblegid y maent yn canfod yn eglur, oni buasai i rad ras Duw eu rhagflaenu, y buasent wedi myned i lawr i'r pwll diwaelod, lle nad oes un drugaredd byth i'w chael. Y maent yn cyfrif eu holl iechyd-wriaeth yn effaith rhad ras a haeddiant eu Prynwr bendigedig, yr hwn a dosturiodd wrthynt, a'u tynnodd megis pentewynion o'r gynneu dân, ac a'u dygodd o deyrnas y diafol, "i ryddid gogoniant plant Duw." A thyma eu cân ar hyd y ffordd tuag adref, "Nid i ni, O! Arglwydd, nid i ni, ond i'th enw dy hun dod ogoniant." Ac wedi cyrhaeddyd teyrnas nefoedd, dyma y gân na dderfydd byth o honi,—“Iddo ef yr hwn a'n carodd ni, ac a'n golchodd ni oddiwrth ein pechodau yn ei waed ei hun, y byddo y gogoniant, a'r gallu, yn oes oesoedd.” Dyma y gân fuddugoliaethus a fydd yn llenwi y nefoedd o ben i gilydd,—“Teilwng yw yr Oen, yr hwn a laddwyd.” O! wynfyd y rhai hynny a gant gyduno yn nghân Moses a chân yr Oen. Ond ni cheir neb o'r bobl hyn sydd yn aros yn y "wlad bell" *yno*. Gan hynny, O! bechadur, ffoa o Sodom, ffoa am dy fywyd, cyn delo y diluw tân ar fyd y rhai anwir! Ffoa at Dduw, yr hwn sydd â'i freichiau ar led yn barod i gofleidio pob afradlon a ddychwelo adref i dŷ ei Dad.

PREGETH IV.

ESAIAH 53. 5.

—“EFE A ARCHOLLWYD AM EIN CAMWEDDAU NI.”—

NID oes dim yn fwy cysurus ym mhlith gofidiau y bywyd hwn, na bod mewn meddiant o gyfaill da. Os bydd dyn mewn rhyw drallod a blinder mawr, y mae ei feddwl yn cael ei esmwythau yn rhyfeddol trwy ddywedyd ei gwyn wrth ei gyfaill, a chael ei gysuro a'i ddiddanu ganddo. Ond ni ddaw ein cyfeillion goreu ddim pellach na glan y bedd gyda ni; troant yno eu cefnau arnom, ac a'n gadawant. Ond fe sonir am un yn y testyn, yr hwn sydd yn ewyllysgar ac yn abl i'n diddanu bob amser. “Cyfaill a lyn wrthym yn well na brawd,” yw Iesu Grist.

Ni a ddysgwn oddiwrth y bennod hon, fod cariad Crist tuag at greaduriaid syrthiedig o'n bath ni, yn gryfach nag angau.

Pwy a all ddarllen y 6, 7, a'r 8 o adnodau, heb ganfod anfeidrol gariad Iesu tuag at bechaduriaid? “Nyni oll a grwydrasom fel defaid; troisom bawb i'w ffordd ei hun: a'r Arglwydd a roddes arno ef ein hanwiredd ni i gyd. Efe a orthrymmwyd, ac efe a gystuddiwyd, ac nid agorai ei enau: fel oen yr arweinid ef i'r lladdfa, ac fel y tau dafad o flaen y rhai a'i cneifiai, felly nid agorai yntau ei enau. O garchar ac o farn y cymmerwyd ef: a phwy a draetha ei oes ef? canys efe a dorrwyd o dir y rhai byw; *rhoddiwyd pla arno ef am gamwedd fy mhobl.*” “Efe a archollwyd am ein camweddau ni.”

Oddiwrth y geiriau hyn ymdrechaf gyfeirio eich meddyliau at ein *Iachawdwr*, ei *ddioddefiadau*, y *diben o honynt*, ac at eu *ffrwythau*.

I. Ein Iachawdwr. “Efe a archollwyd am ein camweddau ni.” Pwy “a archollwyd?” “Mab y dyn.” Y “gwr gofidus a chynnefin â dolur.” Ië! Pwy “a archollwyd?” Efe, am yr hwn y dywedir i ni “megis guddio ein hwynebau oddi wrtho: dirmygedig oedd, ac ni wnaethom gyfrif o hono.” Efe yr hwn a yrrwyd i'r groes ac i'r bedd gan ei elynion, gan waeddi allan, “Croeshoelia! Croeshoelia ef!”

Ond nid dyna y rhan fwyaf rhyfedd o'r matter. Sefwch o dan y groes, ac edrychwch ar wynebpryd y goddefwr, a gofynwch, pwy yw hwn? A phan ddygoch i gof mai efe yw Creawdwr a Chynhaliwr pob peth gweledig ac anweledig—mai efe yw unig-anedig Fab Duw—mai efe yw Iachawdwr y byd, yr hwn a adawodd ei ogoniant yn y nefoedd, ac a ddaeth i'r byd i farw ar y groes drosom ni—dyma ryfeddod yn wir! Y mae yn syndod i feddwl mai trosom ni y gwaeddodd allan â llef uchel, “Eli, Eli, lama sabachthani? hynny yw, Fy Nuw, fy Nuw, pahan y'm gadewaist?”

Ac os cyfeiriwn, nid yn unig at yr hyn sydd wedi myned heibio, ond at yr hyn sydd i *ddyfod*, y mae yn ddigon i gyffroi ein syndod a'n moliant. Mae efe yn dadleu trosom ar ddeheulaw ei Dad—efe a fu farw trosom! Efe sydd yn teyrnasu arnom—efe a fu farw trosom! Efe sydd i'n barnu ar y dydd olaf—efe a fu farw trosom! Ni a gawn ei weled yn y nefoedd—efe a fu farw trosom! Yr ydym i'w foliannu ef ym mhlith angylion; ac yn ein mawl yr ydym i gofio mai “Efe a archollwyd am ein camweddau ni.” O! na chai coffad-

wriaeth o angau yr Iesu bendigedig iawn effaith ar ein meddyliau, fel ag i'n dwyn bawb i lefain am ran yn yr iechydwriaeth a bwrcasodd efe trosom ar Galfaria.

Y mae geiriau y testyn yn cyfeirio,—

II. *At ddioddefiadau ein Iachawdwr.* “Efe a *archollwyd* am ein camweddau ni.” Beth! a oedd dim un ffordd arall i roi iawn dros bechod?—a oedd dim un ffordd arall i'n heddychu ni â Duw? Paham na allasai angel gael ei ddanfôn i lawr i gymmodi Duw a dyn? Paham na allasai yr Hollalluog farchogaeth yn ei fawrhydi dros y byd gwrthryfelgar hwn, a dinystrio dyn euog? O! nagê; nid felly. “Efe a *archollwyd.*” Efe a ddioddefodd y gospedigaeth yr oeddym ni yn haeddu. “Rhoddwyd pla arno ef am gamwedd ei bobl.” “Efe a *archollwyd* am ein camweddau ni.” A pha fodd yr *archollwyd* ef?

1. Cafodd ei archolli trwy gael ei hoelio wrth y groes gan ei elynion, a'i drywanu â gwaywffon y milwr, hyd nes daeth gwaed a dwfr allan o'i ystlys.

2. *Archollwyd* ei feddwl, neu ei yspryd, âg *anniolchgarwch*. Hyd yn nod ei ddisgyblion a'i gadawsant ac a ffoisant. Y personau oeddynt gwedi bwytta o'i fara, gwedi cael eu cynnal â'i haelioni, ac wedi gweled cymmaint o'i gariad, a phrawf o'i Dduwdod, a'i rhoisant ef i fynu i'w elynion, ac a'i gadawsant yn ei ofid! Ië, Pedr, yr hwn oedd wedi dywedyd na adawsai *efe* ddim o hono, pe buasai *pawb* yn ei adael, a'i gadawodd yn yr amser mwyaf angenrheidiol, ac a wadodd â llwon a rhegfeydd ofnadwy, nad oedd yn “*adwaen* y dyn!”

Wel, yr ydym ni yn barod iawn i feio ar yr Apostolion, a dywedyd, pe buasem *ni yn eu lle*, na fuasem ddim mor anniolchgar i'r Prynwr mawr. Ond os holwn ein hunain, ni a gawn weled fod cymmaint o anniolch-

garwch ynom *ni* a hwythau, a'n bod wedi crwydro oddiwrth yr anwyl Iesu. Yr ydym yn edrych ar ei groes; a pha un o honom sydd heb anghofio yr hwn a ddioddefodd yno? Yr ydym yn edrych ar ei orchymynion; ac oddiwrth ba rai o honynt yr ydym ni heb wŷro? Yr ydym yn edrych ar ei gyfreithiau; a pha un o honynt ydym heb dorri? Yr ydym yn edrych tua'r nefoedd; a phwy o honom sydd heb anghofio myfyrio ar ogoniant y lle sanctaidd hwnnw? Yr ydym yn edrych ym mlaen am ymddangosiad ein Hiachawdwr i farnu y byw a'r meirw; a phwy o honom a all ddywedyd ei fod yn barod i gyfarfod â'i Dduw?

Wel, ynte, yr ydym *ni* wedi bradychu Mab Duw, mewn un ystyr, yn gystal a'r Apostolion. Yr ydym ni wedi crwydro oddiwrth Fab Duw! Yr ydym wedi gŵyro oddiwrth wirioneddau Mab Duw! Yr ydym wedi esgeuluso ei iechydwrïaeth! O! am i ni gael ein dryllio â gwir edifeirwch. O! am i ni gael teimlo baich ein pechodau. O! am i ni gael gweled atgasrwydd ein beiau, fel y delom i lefain am faddeuant trwyddo *ef* yr hwn a "archollwyd am ein camweddau ni."

3. Archollwyd *ef* â gwialen ei Dad nefol. Clywch *ef* yn gwaeddi allan, "Fy Nuw, fy Nuw, paham y'm gadewaist?" Efe a archollwyd, pan y cuddiodd ei Dad ei wynebpryd oddi wrtho. Ni a allwn ddioddef pob peth os bydd i'r "Arglwydd ddyrchu arnom lewyrch ei wyneb;" ond cymmerwch ymaith bresennoldeb Duw, dylanwadau ei Lân Yspryd, a chysuron ei addewidion, dyna chwi yn symmud ymaith y graig o ddiogelwch ar ba un yr oeddym yn ymorphwys, ac yn ein gadael yn ddigymhorth mewn amser profedig-aeth a chyfyngder, ac yn nydd mawr y farn. Nis

gallwn, ond fel ag yr ydym yn byw ym mhresen-
 noldeb Duw, fod yn ddiangol oddiwrth ein gelynon
 ysprydol.

O! y fath fyd a fydd hwnnw lle nad oes dim teimlo
 presennoldeb Duw!—dim gweled y Jehofa!—dim
 mwynhau cymmundeb â Thad yr ysprydoedd!—lle
 nad oes dim ond tywyllwch, angeu, tristwch, galar, a
 gwae, yn teyrnasu yn oes oesoedd! Y fath fyd a
 fyddai hwn heb oleuni! a'r fath fyd a fydd hwnnw lle
 nad oes dim goleuni ysprydol! O! am hynny, bobl,
 “Dychwelwch, dychwelwch oddiwrth eich ffyrdd
 drygionus,” rhag i chwi gael eich tafu i'r lle tywyll,
 diobaith hwnnw; “Canys, tŷ Israel, paham y byddwch
 feirw?”

Ystyriwn, yn—

III. *Diben neu amcan y dioddefiadau hyn. I bwy
 ddiben y dioddefodd Crist? “Efe a archollwyd am ein
 camweddau ni.”*

Yma yr ydym i gyfeirio at *aberth* Mab Duw. Efe a
 fu farw dros bechod. “Gwaed Iesu Grist sydd yn
 glanhau oddiwrth bob pechod.” Meddyliwch am y
 weithred—“Efe a archollwyd am ein camweddau ni.”
 “Am *ein camweddau ni.*” Nid am gamweddau ang-
 ylion; nid am gamweddau cythreuliaid obry yn uffern
 dywyll; nagê ddim, ond “am *ein camweddau ni.*”
 “Rhoddwyd pla arno ef am gamwedd fy mhobl.”
 “Efe a archollwyd am ein camweddau ni, *efe a ddryll-
 iwyd am ein hanwireddau ni: cospedigaeth ein heddwch ni
 oedd arno ef: a thrwy ei gleisiau ef yr iachawyd ni.*” Ac
 os cyfeiriwn at y 3 bennod o'r Rhufeiniaid, a'r 21—26
 o adnodau, ni a gawn y darluniad canlynol; yr oedd
 yr Apostol gwedi bod yn profi nad oedd yn ddichon-
 adwy cael cyfiawnhad trwy weithredoedd y ddeddf;

ac yna y mae yn myned yn y blaen, gan ddywedyd, "Yr awr hon yr eglurwyd cyfiawnder Duw heb y ddeddf, wrth gael tystiolaeth gan y ddeddf a'r prophwydi; sef cyfiawnder Duw, yr hwn sydd trwy fydd Iesu Grist i bawb, ac ar bawb a gredant: canys nid oes gwahaniaeth. Oblegid pawb a bechasant, ac ydynt yn ol am ogoniant Duw; a hwy wedi eu cyfiawnhau yn *rhad trwy ei ras ef, trwy y prymedigaeth sydd yng Nghrist Iesu*: yr hwn a osododd *Duw yn iawn, trwy ffydd yn ei waed ef*, i ddangos ei gyfiawnder ef, trwy faddeuant y pechodau a wnaethid o'r blaen, trwy ddiodefgarwch Duw; i ddangos ei gyfiawnder ef y pryd hwn; fel y byddai efe yn gyfiawn, ac yn cyfiawnhau y neb sydd o fydd Iesu." Ac yn yr 2 Corinthiaid 5. 21. fe ddywedir fel hyn,—“Canys yr hwn nid adnabu bechod, a wnaeth efe yn bechod drosom ni; fel y'n gwnelid ni yn gyfiawnder Duw ynddo ef.” Ond nid ydym yn unig i gyfeirio at y gwirionedd, mai am ein pechodau ni y dioddefodd Crist, ond y mae yn rhaid i ni gymhwyso ei ddiodefadau at ein holl anghenion a'n trueni ein hunain.

1. Trwy ddiodefaint Crist y cafodd *cyfiawnder Duw ei foddloni*. Rhuf. 8. 1. “Nid oes gan hynny yn awr ddim damnedigaeth i'r rhai sydd yng Nghrist Iesu, y rhai sydd yn rhodio nid yn ol y cnawd, eithr yn ol yr Yspryd.” Yna yr ydym yn canfod cyfiawnder Duw wedi ei heddychu â ni; yna yr ydym yn cael fod cnawd Crist yn “fwyd yn wir, a'i waed ef yn ddiodyd yn wir.”

2. Trwy ddiodefaint Crist yr ydym yn cael *heddwch cydwytod*. Pan yr ydym yn darllen am aberth Crist, fe ddywedir wrthym ei fod yn *puro y gydwytod*. Heb. 9. 13, 14. “Oblegid os ydyw gwaed teirw a geifr, a

lludw anner wedi ei daenellu ar y rhai a halogwyd, yn sancteiddio i bureiddiad y cnawd; pa faint mwy y bydd i *waed Crist*, yr hwn trwy yr Yspryd tragwyddol a'i hoffrymodd ei hun yn ddifai i Dduw, *buro eich cydwybod chwi* oddiwrth weithredoedd meirwon, i wasanaethu y Duw byw?" Pan y gallom fyned at aberth Crist mewn yspryd o ffydd, y mae taranau cydwybod yn cael eu distewi—y mae colyn cydwybod yn cael ei gymmeryd ymaith—y mae loesau cydwybod yn cael eu hesmwythau. Nid oes un gelyn mor ofnadwy a chydwybod wedi ei dihuno! Fe ddichon cydwybod euog aflonyddu y gwely esmwythaf! Gall beri i ni ddywedyd, wrth edrych ym mlaen tuag awr angau a dydd y farn, "Y cynhauaf a aeth heibio, darfu yr haf, ac nid ydym ni gadwedig." Ond pan y byddo y "gwaed yr hwn sydd yn dywedyd pethau gwell na'r eiddo Abel" yn cael ei gymhwyso, yna y mae yno dangnefedd, "yr hwn sydd uwchlaw pob deall." Yna y gallwn lawenhau yn rhodd ein Iachawdwr,—“Yr ydwyf yn gadael i chwi dangnefedd; fy nhangnefedd yr ydwyf yn ei roddi i chwi.”

Ystyriwn, yn—

IV. *Ffrwythau dioddefaint Crist*, mewn cyssylltiad â'n teimladau a'n profiad ein hunain.

Cofiw'n fod y diafol yn awr wedi ei oresgyn, fod yr enaid yn awr yn cael ei achub, fod y byd yn awr wedi ei orchfygu, fod angeu yn awr wedi ei faeddu, a'r nefoedd wedi ei sicrhau i bob gwir gredadyn. *Y mae y diafol yn awr wedi ei oresgyn.* Fe ddywed St. Paul wrthym, i Iesu, "trwy farwolaeth, ddinystrio yr hwn oedd a nerth marwolaeth ganddo, hynny yw diafol." Er mai gelyn arswydus yw y diafol, etto y mae gallu ei fraich wedi ei gwtogi. Er y dichon osod ei lyffeth-

eiriau a'i gadwynau arnom, etto ni'n gorchfygir ddim gan ei allu; canys y mae braich hollalluog Iesu yn abl i'n cynnal i fynu, ac efe a gynnal bawb sydd yn credu ynddo. "Ffyddlawn yw Duw," medd yr Apostol, "yr hwn ni âd eich temtio uwchlaw yr hyn a alloch; eithr a wna ynghyd â'r demtasiwn ddiangfa hefyd, fel y galloch ei ddwyn." A chyn bo hir, fe gaiff y diafol ei rwymo mewn cadwynau; yna y llefir allan, buddugoliaeth! buddugoliaeth! "I Dduw y byddo y diolch, yr hwn sydd yn rhoddi i ni fuddugoliaeth trwy ein Harglwydd Iesu Grist."

Y mae'r enaid yn cael ei achub. Pan yr ydym yn cael ein dwyn mewn ffydd a gweddi at Grist, yr ydym yn cael ein hachub rhag y llid a fydd—yr ydym yn cael ein gwared rhag holl ganlyniadau y cwmp—rhag holl ddrwg pechod, a damnedigaeth uffern—ac yr ydym yn "mynegi rhinweddau yr hwn a'n galwodd allan o dywyllwch i'w ryfeddol oleuni ef."

Mae pob cysur a daioni ag sydd arnom eisiau mewn bywyd, yn angau, ac yn nhragywyddoldeb, wedi ei drysori ynddo ef yr hwn "a archollwyd am ein camweddau ni."

Ac yn awr, fy mrodyr, goddefwch i mi ofyn i chwi, a ydych yn meddwl fod y pethau hyn yn perthyn i *chwi*? A ydych gwedi cael *eich iachau trwy ei gleisiau ef*? "Rhoddwyd pla arno ef am gamwedd fy mhobl." Ond dyma'r gofyniad, a ydych *chwi yn bobl* i Dduw? Yr ydwyf yn llefaru wrth y rhai sydd yn bwriadu amgylchynu bwrdd yr Arglwydd, a ydych *chwi yn bobl* i Dduw? A ydych *chwi* wedi rhoddi eich calonau *iddo*? Yr ydwyf yn meddwl fy mod yn clywed rhyw rai yn dywedyd, "Ni ddeuwn ni ddim at fwrdd yr Arglwydd, o herwydd nad ydym o'i bobl ef." Nad

ydych rai o bobl Dduw, a ddywedasoeh? Wel, os nad ydych o bobl Dduw, beth ydych? Beth yw eich disgwyliadau? Tua pha le yr ydych yn myned? Pa le y bydd eich cartref tragwyddol? Beth a fydd eich diwedd? Wel, os nad ydych o bobl Dduw, y mae yr holl fyd wedi ymwisgo â digofaint yn eich herbyn! Y mae holl uffern wedi arfogi yn eich herbyn! Y mae Duw yn elyn i chwi! Wel, os nad ydych o bobl Dduw, pa fodd y gallwch oddef meddwl am *anheu*? Pa fodd y gallwch edrych ym mlaen gyda thawelwch ar Dduw, Barnwr y byw a'r meirw, ac ar daranau ei orsedd dragwyddol? O! ynte, bobl, taer weddiwch ar Dduw i ddanfôn ei Yspryd i'ch calonau, i'ch sanct-eiddio, a'ch troi o dywyllwch i oleuni; yna deuwch at fwrdd yr Arglwydd, a chyfranogwch trwy ffydd o holl fendithion a rhagorfreintiau pobl Dduw.

Yn awr, gadewch i mi lefaru,—

1. *Wrth y rhai sydd heb gymmuno erioed.* Y mae rhai dynion nad ydynt byth yn dyfod at fwrdd yr Arglwydd, i adgoffa i Grist gael ei "archolli am ein camweddau." Pa fodd y mae hyn? Y mae rhai yn dywedyd *na feiddiant ddyfod*. Ni feiddiwch ddyfod! Beth! a oes dim tosturi yn "llywodraethwr y wledd?" A oes dim cariad yn amcan y wledd? A fydd dim daioni i ganlyn o fod yn gyfranogion o'r wledd? Ni *feiddiwch* ddim dyfod! Beth! a feiddiwch ddim dyfod at Dad—at Iachawdwr—at yr Yspryd Glan—at addewidion gair Duw? Ni feiddiwch ddim dyfod? Paham na feiddiwch? Beth sydd mor ddychrynlyd a hynny mewn cymmundeb â phlant Duw, fel y mae arnoch *ofn* cyfranogi o'u holl freintiau? Ofn! ym mha le yr ydych yn ei ganfod? Ai yng nghariad Duw? Ai yn yr Iachawdwr, yr hwn a "roddodd ei einioes yn bridwerth

dros" bechaduriaid ar y groes? Ai yn yr Yspryd Glân, yr hwn sydd yn barod i'ch sancteiddio a'ch diddanu? Ai yn y Bibl? Dyna y llyfr sydd yn dadguddio trugaredd Jehofa, a'r cariad hwnnw sydd uwchlaw pob deall. Ofn! ym mha le yr ydych yn ei weled? Ai yn yr Eglwys? Gwrandewch beth mae yr Eglwys yn ddywedyd,—“Pob peth sydd barod.” Dyma iaith yr Eglwys; ac nid oes un angel yn y nef na atebai,—“Deuwch, canys pob peth sydd barod.” Ond ni *feiddiuch* ddyfod. Paham?—O herwydd nad ydych yn berffaith. Wel, a phwy sydd felly? I Ioan 1. 8. “Os dywedwn *nad oes ynom bechod, yr ydym yn ein twyllo ein hunain*, a'r gwirionedd nid yw ynom.” Nid ydym i ddyfod megis yn ddifrycheulyd, fel pe byddem wedi ein rhyddhau am byth oddiwrth bechod; ond yr ydym i ddyfod wrth orchymmyn pendant yr Iachawdwr, i goffhau ei ddiodefaint ef ar y groes, ac i dderbyn bendithion ysprydol i'n heneidiau anfarwol.

Y mae rhai yn dywedyd *nad ydynt i ddyfod!* Yn awr, yr ydym am wybod beth sydd yn rhwystro y rhai sydd wedi bod dan gysgod y groes, i ddyfod at y bwrdd i gymmuno. Yr ydych yn son am anghrediniaeth; yna deuwch, fel y caffo eich hanghrediniaeth ei symmud ymaith. Yr ydych yn son am yr ammheuaeth a'r ofnau sydd ynoch; yna deuwch, fel y caffo y rhai hyn eu gyrru ymaith. Yr ydych yn son am eich hanneilyngdod; yna deuwch, fel y gwnelo *Crist* chwi yn *deihwng*. Yr ydych yn son am eich anallu i amgyffred gwirioneddau yr efengyl; yna deuwch, fel y derbynioch oleuni oddiwrth yr Yspryd Glân. Yr ydych yn son am ddychryn *marwolaeth*; ond pwy sydd heb deimlo yr un peth? A pheth sydd mor effeithiol i lonyddu yr ofn hwn ag ystyriaeth o'i gariad *ef*, yr hwn yw'r ad-

gyfodiad a'r bywyd? Ond y mae eraill yn dywedyd *na allant* ddyfod! Wel, yma yr ydych yn cyffesu gwirionedd pwysfawr, yr hyn a ddylai fod yn annogaeth neillduol i *chwi* i ddyfod. Ni ddymunem ddim i neb ddyfod at *furdd* yr Arglwydd ag sydd heb fod wrth ei *groes ef*. Ond tra nad ydym yn gosod un terfynau ond y rhai a osododd Crist ei hun, etto, yr ydym yn gofyn, Paham na allwch ddyfod? Onid oes maddeuant am eich holl bechodau? Onid oes gras yn gymhorth cyfamserol? Onid oes addewidion yn addas i bob cyflwr? Onid yw yr Arglwydd yn dywedyd, "Haiarn a phres fydd dan dy esgid di; a *megis dy ddyddiau, y bydd dy nerth.*"

Pe byddai i chwi, yn wir, gael eich gadael i chwi eich hunain, fe fyddai yn annichonadwy i chwi gyrhaeddyd teyrnas nefoedd, neu i oresgyn y gelynion sydd yn eich gwrthsefyll. Ond gwrandewch pa beth y mae yr Arglwydd yn ddywedyd,—“Yna y dywedi yn y dydd hwnnw, Molaf di, O Arglwydd: er i ti sorri wrthyf, dychwelir dy lid, a thi a'm cysuri. Wele, Duw yw fy iachawdwriaeth; gobeithiaf, ac nid ofnaf.” A pheth sydd yn canlyn? Dyma y geiriau cysurus sydd yn canlyn,—“Canys yr Arglwydd yw fy nerth a'm cân; *efe hefyd yw fy iachawdwriaeth.*” Esa. 12. 1. 2.

Wel, fy nghyfeillion, os ydych yn wylo am eich pechodau; os ydych yn galaru am Grist; os ydych yn edrych arno ef megis eich hunig Waredwr; os ydych yn dywedyd yng ngeiriau St. Paul, “Na atto Duw i mi ymfrostio ond yng nghroes ein Harglwydd Iesu Grist,” yna deuwch ym mlaen yn gyhoeddus, a dangoswch eich bod yn deall geiriau y testyn, “Efe a archollwyd am ein camweddau ni, efe a ddrylliwyd am ein hanwireddau ni.”

2. Goddefwch i mi ddywedyd ychydig o eiriau wrthych chwi sydd yn *arfer cymmuno*. Y mae pedwar o bethau a ddylech gofio.

1. Mor agos y buoch i uffern! O! meddylwch am y drugaredd a'ch gwaredodd rhag dinystr tragywyddol. Dywedwch gyda St. Paul, "Trwy ras Duw yr ydwyf yr hyn ydwyf."

2. Ystyriwch y *fath drugaredd yw eich bod wedi cael eich dwyn yn agos at y groes*; eich bod yn cael eistedd dan ddiferiad cariad eich Iachawdwr, ac yn derbyn bendithion yn ei ordinhadau sanctaidd.

3. *Cofiwch eich bod etto yn yr anialwch*; eich bod etto yn cael eich hamgylchynu â pheryglon daearol. Ond os ydych yn meddwl am gyfnewidiadau, chwi a allwch edrych arno *ef* yr hwn sydd anghyfnewidiol. Os ydych yn dioddef tristwch a gofid ar eich taith tua'r wlad nefol, chwi a allwch feddwl am dano *ef* yr hwn yw ffynnon pob cysur a llawenydd; chwi a allwch lefain ar Iesu yn eich holl flinderau, a dywedyd, gyda'r hen Jacob duwiol, "Ni'th ollyngaf oni'm bendithi."

4. *Disgwyliwch am gysuron tragywyddoldeb*. Yr ydym yn dyfod ynghyd megis brodyr; yr ydym yn dyfod megis rhai wedi eu mabwysio i deulu Duw. Ac, O! y fath effaith sydd yn cael ei roddi i'r geiriau hynny,— "Os plant, etifeddion hefyd; sef etifeddion i Dduw, a chyd-etifeddion â Christ: os ydym yn cyd-ddioddef gydag ef, fel y'n cyd-ogonedder hefyd." "Gwelwch pa fath gariad a roes y Tad arnom, fel y'n gelwid yn feibion i Dduw." "Anwylyd, yr awr hon meibion i Dduw ydym, ac nid amlygwyd etto beth a fyddwn: ni a wyddom, pan ymddangoso efe, y byddwn gyffelyb iddo; oblegid ni a gawn ei weled ef megis ag y mae."

O! gan hynny, frodyr, gweddiwn ar yr Arglwydd bawb o honom, am gael bod o nifer y rhai hynny a fyddant gadwedig, trwy haeddiant y gwr "a archollwyd am ein camweddau ni, efe a ddrylliwyd am ein hanwireddau ni: cospedigaeth ein heddwch ni oedd arno ef: a thrwy ei gleisiau ef yr iachawyd ni."

PREGETH V.

JOB 14. 10.

—“DYN A DRENGA, A PHA LE Y MAE?” *Neu yn ol y Saesoneg*,—“DYN BYDD YN RHODDI I FYNU YR YSPRYD, A PHA LE Y MAE?”

EIN hamser yn y byd hwn, fy mrodyr, sydd fyr iawn. Ein dyddiau ar y ddaear a gymharir i flodeuyn, yr hwn sydd yn gwywo yn fuan, ac yn darfod; ac i gysgod, yr hwn sydd yn cilio. Job sydd yn dywedyd yn y rhan flaenaf o'r bennod o'r hon y cymmerais fy nhestyn, fel hyn am y pwnc,—“Dyn,” medd efe, “a aned o wraig sydd fyr o ddyddiau, a llawn o helbul. Fel blodeuyn y daw allan, ac y torrir ef ymaith; ac efe a gilia fel cysgod, ac ni saif.”

Nid ydym yma ond megis pererinion mewn gwlad ddieithr, yn teithio tua gwlad arall. Yr ychydig amser sydd gyda ni i dreulio yn y byd hwn sydd werthfawr iawn, canys y mae ein cyflwr tragwyddol yn ymddibynu ar y defnydd a wnelom o hono. Megis ag y byddom byw yma dros ychydig ddyddiau, y bydd ein llawenydd neu ein tristwch am byth. Nis gall neb alw yn ol un awr a gollom. Nis gall dim attal rhedfa amser. O! amser gwerthfawr; y mae yn fwy gwerthfawr na holl gyfoeth y byd! Mor fawr y mae pawb yn ei werthfawrogi yn y diwedd—ar wely angau! Ond, O! mor lleied y mae yn cael ei brisio gan lawer yn awr. Gan hynny, frodyr, bydded i ni oll wneuthur iawn ddefnydd o hono tra yr ydyn yn ei fwynhau,

o herwydd ein hamser sydd yn ehedeg ymaith yn fuan, a chyn bo hir cawn ein gosod yn y bedd, lle y mae llawer o'n cyfeillion wedi myned o'n blaen.

Y mae yn wirionedd difrifol a syml, sef y gosodir i bob dyn "farw unwaith, ac wedi hynny bod barn;" y mae yn wirionedd nas gall neb ei wadu. Y mae y ddaear yn cael ei hagar beunydd i dderbyn y meirw. Tystion ydym o farwolaeth rhai; yr ydym yn clywed am farwolaeth llawer. Ein perthynasau, ein cyfeillion, a'n cymmydogion sydd yn marw—yn rhoddi i fynu yr yspryd. Y mae rhai yn cael eu hir rybuddio, gan gael eu cymmeryd ymaith yn raddol; eraill sydd yn cael eu cippio ymaith yn ddisymmwth, mewn munudyn. Fel hyn, un genhedlaeth sydd yn myned heibio ar ol y llall. Ond nid ydym ni yn aros i ofyn, pa le y maent hwy? Llawer o orfucheddwyd nid ydynt yn meddwl mwy am danynt, mewn perthynas i'w cyflwr tragywyddol, nag y maent am yr anifeiliaid sydd yn trengi.

Gwir yw, nas gall ein meddyliau am y rhai sydd yn rhoddi i fynu yr yspryd, wneuthur na da na drwg iddynt hwy; ond gallent fod o les mawr i ni, pe byddai ein meddyliau yn addas i'r achlysur pwysig.

Pan y byddo angau yn gafaelu mewn dyn, buchedd yr hwn sydd adnabyddus i ni, ni a ddylem orphwys a gofyn, beth oedd efe? Beth oedd ei dyb a'i olwg am grefydd? Beth oedd ei yspryd? Pa fodd y bu efe byw? Yna awn at Dduw, a chwiliwn ei fuchedd ef yno. Pan y byddo hyn yn cael ei wneuthur, yr hyn oll a allwn ni ddywedyd yw, yr ydym yn ofni, neu yr ydym yn gobeithio.

Er nas gall ein meddyliau am y rhai sydd yn marw o'n hamgylch fod o un lles iddynt hwy, etto, hwy a allent fod o ddefnydd i ni, gan ein harwain i holi i

mewn i gyflwr ein heneidiau ein hunain ; canys rhaid i ni oll farw ; a phan y byddom, pa le y byddwn ni ? Ië, fy mrodyr, gofyniad pwysfawr yw, Pa le y bydd ein cartref tragywyddol yn ol marwolaeth ? Y mae pob angladd—pob galar-wisg—pob bedd agored—pob corph marw—pob cyfaill ag sydd yn ymadael â ni—yn ein rhybuddio yn ddifrifol i barottoi erbyn ein diwedd.

Fe allai y bydd yn fuddiol i ni fyfyrrio ychydig ar amryw fath o ddynion sydd yn marw—yn rhoddi i fynu yr yspryd, gan ofyn, yng ngeiriau y testyn,—“ Pa le y maent ? ”

Y *meddwyn* sydd yn “trengi”—yn rhoddi i fynu yr yspryd, “ a pha le y mae *efe* ? I ba le yr oedd yn myned pan ar y ddaear ? Ym mha le y caid ef fynychaf ? Yn y tafarndy. Wel, ceisiwch ef yno yn awr. A ydyw *efe* i'w gael yno ? Nac yw ; y mae ei hen gyfeillion-meddw yno, ond y mae *efe* ar goll. A welir dim o hono ef yn awr yn hongian trwy yr ystrydoedd ? Na welir. A ydyw *efe* ar ei wely yn cysgu ymaith ei feddwdod ? Nac ydyw. A welir dim o hono ef yn myned allan at ei waith, â'i lygaid yn gochion, ei ben yn ddolurus, a'i galon yn boenus ? Na welir. Y mae wedi myned i'w “hir gartref,”—y mae wedi trengi. Trwy yfed gormod, fe ddinystriodd ei gorph, a chollodd ei enaid ! *Efe* a gamarferodd drugareddau Duw ; ac yn awr y mae yn ddigon tebyg ei fod yn teimlo ei ddigofaint ! Yn fynych y sigl-gerddodd trwy yr heol-ydd, ond o'r diwedd fe syrthiodd i uffern ! *Efe* a fu byw yn boddhau ei flys cnawdol ; ond yn y diwedd fe roddodd i fynu yr yspryd, “ a pha le y mae ? ” Bu o'r diwedd farw yn ei bechodau, ac i ba le yr ehedodd ei enaid ? Ei gorph a osodwyd yn y bedd, ond beth a

ddaeth o'i ran anfarwol?—Attebed gair Duw. Beth y mae y Bibl yn ddywedyd am dano? Wel, gwrandewch,—“Amlwg yw gweithredoedd y cnawd; y rhai yw, Tor-priodas, godineb, aflendid, anlladrwydd, delwaddoliaeth, swyn-gyfaredd, casineb, cynhennau, gwynfydau, llid, ymrysonau, ymbleidio, heresiaau, cenfigenau, llofruddiaeth, *meddwod*, cyfeddach, a chyffelyb i'r rhai hyn: am y rhai yr wyf fi yn rhag-ddywedyd wrthyh, megis ag y rhag-ddywedais, na chaiff y rhai sydd yn gwneuthur y cyfryw bethau etifeddu teyrnas Dduw.” Gal. 5. 19—21.

Bydded i'r meddwyn gofio hyn,—Os na edy efe ei arfer ddrygionus, ac edifarhau am ei bechodau, na chaiff fyned i mewn i deyrnas nefoedd. O! gan hynny, frodyr, gadewch eich arferion drwg, a dychwelwch at yr Arglwydd eich Duw, yr hwn sydd yn barod i drugarhau wrthyh, i faddeu eich holl bechodau, ac i achub eich eneidiau gwerthfawr.

Y mae y *tyngwr a'r rhegwr* yn rhoddi i fynu yr yspryd, “a pha le y mae *efe*?” Ei lais oedd i'w glywed yn yr heolydd, yn ei deulu, ac ym mha le bynag yr elai, yn galw ar Dduw i ddamnio ei hun, ac i ddamnio eraill. Cableded oedd yn dyfod allan o'i wefusau; ar y cyffroad lleiaf tywalltai allan felldithion arno ei hun ac ar eraill; a'i ymddiddan cyffredin oedd yn cael ei gymmysgu â llwon a rhegfeydd. Ond a ydyw ei lais i'w glywed yma yn hwy? O! nac yw; ei wefusau sydd wedi eu cau yn angau, a'i dafod sydd yn ddistaw yn y bedd. Ond pa le y mae ei enaid? Y mae yn y lle y bydd tyngu a rhegu am byth! Y mae yn awr yn rhegu ei ffolineb ei hun—yn rhegu ei Greawdwr—yn rhegu angylion—yn rhegu cythreuliaid—yn rhegu ei gymdeithion tynglyd a rheglyd—a rhegu a wna i dragy-

wyddoldeb. Y rhai sydd yn byw yn dyngwyr a rhegwyr, ac yn marw yn dyngwyr ac yn rhegwyr, a barhant yn dyngwyr ac yn rhegwyr am byth. Y maent *yma* yn rhegu yn eu *hyfrydwch*, ond yn *uffern* hwy a gant regu mewn *poenau*.

Fe allai na regant hwy ddim ar WELY ANGAU; ond os byddant feirw yn anedifeiriol, ardaloedd tywyllwch a fydd eu cartref tragywyddol. Na atto Duw fod neb o honoch chwi o'u nifer!

Y dyn bydol cybyddlyd sydd yn rhoddi i fynu yr yspryd, "a pha le y mae *efe*?" Beth oedd yn cymmeryd i fynu, yn llwyr feddiannu ei galon, ei enaid, ei lygaid, ei glustiau, ei wefusau, ei draed, ei ddwylaw, ei amser, ei dalentau, ei oll?—Y byd! Crafangodd yr hyn oll a allai o hono, ac yr oedd yn annigonawl yn ei syched am gyfoeth; yr oedd yn ocheneidio o tan lwyth o ofalon bydol, ac etto yn hoffi y baich. Yr *oedd yma* yn llawn ffwdan a thrafferth am bethau y byd *yn unig*, yn darparu i'r corph, ac yn esgeuluso yr enaid; ond pa le y mae *efe* yn awr? A ellwch ei weled yn awr yn edrych dros ei lyfrau, yn twyllo ei gymmydogion, neu yn rhifo ac yn addoli ei aur a'i arian? O! na ellwch. Y mae yntau hefyd wedi trengi—wedi rhoddi i fynu yr yspryd, "a pha le y mae?" A ydyw yn mwynhau ffrwyth ei lafur? Ydyw, yn sicr; ond ffrwyth chwerw iawn yw—tloedi a siomedigaeth. Y pethau yr oedd yn garu ac yn addoli fwyaf sydd wedi cael eu cymmeryd oddi wrtho; a pheth sydd gydag ef yn awr? Dim! canys y mae yn llefain allan, "O! mor ffol y bum, mi a ofelais am y corph yn unig, ac yn awr y mae yn pydru yn y llwch; mi a esgeulusais yr enaid, ac yn awr y mae yn cael ei boeni yn y fflam hon! Gweithiais yn *unig* am yr hyn nis gallaswn gario gyda mi. Fy ngolud a'm

trysorau sydd ar y ddaear, a minnau yn uffern! Nis gallant hwy byth ddyfod attaf fi, ac nis gallaf finnau ddychwelyd attynt hwythau. Beth wyf fi well o'm holl lafur yn awr? Fe ddywedwyd wrthyf, tra yr oeddwn ar y ddaear, yng ngeiriau yr Ysgrythyr,—“*Na chaisff* na godinebwyr, nac eilunaddolwyr, na thorwyr-priodas, na masweddwyr, na gwrryw-gydwyr, na lladron, na *chybyddion*, na *meddwon*, na difenwyr, na chrib-ddeilwyr, etifeddu teyrnas Dduw.” 1 Cor. 6. 9, 10. Ac ym mhellach, fod y “cybydd” yn “ddelw-addolwr;” a bod delw-addoliaeth yn bechod damniol, ac o ganlyniad “nad oes iddo etifeddiaeth yn nheyrnas Crist, a Duw.” Eph. 5. 5. Yr wyf yn teimlo yn awr fod hyn i gyd yn wir. Ennillais lawer o'r hen fyd, ac a'i haddolais, yn lle gwneuthur daioni i'm cyd-greaduriaid â'm cyfoeth; ond yr wyf yn canfod yn awr, pan y mae yn rhy ddiweddar, mai eilun-dduw oedd, canys mi a gollais fy enaid fy hun!

O! ynte, frodyr, llafuriwch lai am bethau darfodedig y byd, a mwy am Grist ac iechydwriaeth; mwy am yr “un peth angenrheidiol, y rhan dda, yr hon ni ddygir oddi arnoch.” “Canys pa leshad i ddyn, os ynnill efe yr holl fyd, a cholli ei enaid ei hun? neu pa beth a rydd dyn yn gyfnewid am ei enaid!”

Y dyn ieuangc hoenus amystyriol sydd yn rhoddi i fynu yr yspryd, “a pha le y mae” efe?

Gair Duw a orchymmynodd iddo “gofio ei Greawdwr yn nyddiau ei ieuengctid;” ond i hyn yr oedd ei galon yn wrthwynebol. Hudoliaeth y byd a dynnodd ei sylw, ac a ddenodd ei galon. Fe syrthiodd mewn cariad â gwagedd ac oferedd, ac a'u canlynodd megis ei hapusrwydd penaf. Digrifwch bydol oedd ei holl hyfrydwch. Yr oedd wedi addaw iddo ei hun *lawer* o ddifyrwch y

byd; ond, O! arswydus! tra yn ddiotal am ei enaid, angau a ddaeth yn ddisymmwth, a bu farw, “a pha le y mae?” A wnai Duw ei arbed ef o herwydd ei ieuengctid? Na wnai. Yr oedd yn ddigon hen i ddewis, i garu, ac i arferyd duwioldeb; ond yn lle hynny, dewisodd, carodd, a chanlynodd bechod. Yr oedd yn ddigon hen i ddewis y da, ac i wrthod y drwg; ond, gan iddo farw a'i bechodau heb eu maddeu, nis gallasai fyned i mewn i deyrnas Dduw. O! am hynny, bobl ieuaingc, “Cofiwch yn awr eich Creawdwr yn nyddiau eich hieuengctid.” “Ceisiwch yr Arglwydd tra y galler ei gael ef; gelwch arno tra fyddo yn agos.”

Yr *hen bechadur penllwyd* sydd yn rhoddi i fynu yr yspryd, “a pha le y mae” efe? Fe fu *ef* byw yn hir ar y ddaear; a pha fodd y treuliodd ei dri ugain, neu ei bedwar ugain mlynedd? Heb Dduw, heb Grist, ac heb un gofal am ei enaid gwerthfawr! O! gyflwr erchyll. O! sefyllfa ofnadwy. Llauer o'i flynnyddoedd a aethant heibio heb un meddwl am Dduw na chrefydd. Weithiau yr oedd yn tybied ei hun mor grefyddol ag y dylasai fod, neu y byddai ef mor debyg o gael ei achub ag eraill, a mwy tebyg na rhai o'i gymmydogion; ac os byddai ei gydwybod yn ei geryddu ambell waith, Satan a'i galon ddrwg ei hun a'i distawai yn union. Fel hyn, blwyddyn ar ol blwyddyn a dreiglodd dros ei ben; ond o'r diwedd rhoddodd i fynu yr yspryd, yn anwybodus o hono ei hun, ac yn anwybodus o Grist, ffynnon y bywyd, “a pha le y mae” *efe*? Rhodded gair yr Arglwydd yr ateb,—“Y pechadur yn fab canmlwydd a *feldiùhir*.” Esa. 65. 20. O! mor arswydus yw gweled hen wr penllwyd yn rhodio y llwybrau sydd yn arwain i ddinystyr tragywyddol. O! bobl, ffowch rhag y llid a fydd, cyn machludo eich haul.

Y *rhagrithiwr mewn crefydd* sydd yn rhoddi i fynu yr yspryd, “a pha le y mae” efe? Yr oedd efe yn cadw holl ordinhadau crefydd. Yr oedd yn siaradwr mawr am bethau crefyddol. Yr oedd yn gwneuthur proffes uchel iawn; ond, galarus meddwl, nid oedd yn ystyr-ied yr hyn oedd yn ddywedyd, nac yn *caru* yr hyn oedd yn arferyd. Nid oedd ei wefusau a'i galon yn cyttuno. Yr oedd yn gwisgo ffug-wyneb. Ei eiriau oeddynt mor llyfn a'r ymenyn, ond ei feddyliau a'i ddymuniaidau oeddynt mor aflan ag uffern! Nid oedd yn wirioneddol yr hyn yr oedd yn ymddangos i ddynion ei fod. O'r diwedd, âg arswyd yn ei enaid, efe a roddodd i fynu yr yspryd, “a pha le y mae?” Ein Iachawdwr sydd yn dywedyd wrthym yn y geiriau canlynol,—“Ac efe a'i gwahana ef,” sef y gwas drwg, “ac a esyd ei ran ef gyda'r *rhagrithwyr*: yno y bydd wylofain a rhingcian dannedd.” Mat. 24. 51. Ni a welwn oddi yma fod y rhagrithwyr ym myned i goll-edigaeth dragywyddol; gan hynny, O! gyfeillion, byddwch yn ddiragrith yn eich crefydd. Addolwch Dduw “mewn yspryd a gwirionedd.”

Y *Cristion crediniol gostymgedig* sydd yn rhoddi i fynu yr yspryd, “a pha le y mae” efe? Ym mha le y caid ef tra yma ar y ddaear? Mewn llefydd o ddifyrwrch a llawenydd cnawdol? Nagê. Yn uno â'r meddwyn? Nagê. Yn ymgyfeillachu â'r tyngwyr a'r rhegwyr, torwyr sabbothau, y godinebwyr, a'r cybyddion? Nagê. Efe a rodiodd yn ffyrdd yr Arglwydd, ac a'u cafodd hwynt yn “ffyrdd hyfrydwch, ac yn llwybrau heddwch.” Credodd athrawiaethau Crist, yfodd yn ddwfn o yspryd Crist, ufuddhaodd i orchymmynion Crist, carodd Grist, cyffesodd Grist, bu fyw ar Grist, a rhoddodd i fynu yr yspryd, ac y mae efe yn awr gyda Christ;

canys "lle yr wyf fi, yno y bydd fy ngweinidog hefyd," medd Crist. Tra yma, efe a redod yr yrfa gristionogol; ac y mae yn awr yn meddiannu y gamp. Tra yma, "ymdrechodd ymdrech deg;" ac yn awr y mae wedi cael ei goroni â buddugoliaeth. Tra yma, mwynhaodd yr Arglwydd yn ei ordinhadau; yn awr y mae yn ei fwynhau yn ei deyrnas. Tra yma, cashaodd a gwrthwynebodd bechod; yn awr y mae mewn lle nad oes un pechod. Tra yma, gwyddai a chyffesai mai uffern oedd ei haeddiant; ac yn awr, trwy ras, y mae yn y nefoedd; "canys yr hwn sydd yn ei ostwng ei hun, a ddyrchefir."

Wel, hyn a ddywedaf wrth ddibenu, os ydych chiwithau, fy mrodyr, yn dymuno myned at Grist yn ol marw, gwasanaethwch Grist tra byddoch byw; a phan roddoch i fynu yr yspryd, efe a'i derbyn atto ei hun, i'w orphwysfa dragywyddol.

PREGETH VI.

LUC 9. 26.

“CANYS PWY BYNNAG FYDDO CYWILYDD GANDDO FI A'M GEIRIAU, HWNNW FYDD GYWILYDD GAN FAB Y DYN, PAN DDELO YN EI OGOBIANT EI HUN, A'R TAD, A'R ANGYLION SANCTAIDD.”

YR ydym ni, fy mrodyr, yn ei gyfrif yn beth o'r pwys mwyaf yn ein swydd bwysfawr, megis gweinidogion yr efengyl, i gyhoeddi uwch ben pechaduriaid yr hawl sydd gan grefydd i galonau a serchiadau dynion. A chofiwch chwithau, gyfeillion, nas gallwch wrthod yr efengyl sanctaidd heb y canlyniadau mwyaf echryslawn;—“Canys pwy bynnag fydd cywilydd ganddo fi a'm geiriau, hwnnw fydd gywilydd gan Fab y dyn, pan ddelo yn ei ogoniant ei hun, a'r Tad, a'r angylion sanctaidd.”

Oddiwrth y geiriau hyn, ymdrechaf, trwy gymhorth Yspryd Duw, wneud rhai sylwadau ar y ddau beth canlynol:—

I. Yr *ymddygiad a feir arno yma*—“Bod â chywilydd o Grist a'i eiriau.”

II. Y *canlyniadau o'r ymddygiad hwn*—“*Hwnnw fydd gywilydd gan Fab y dyn*, pan ddelo yn ei ogoniant ei hun, a'r Tad, a'r angylion sanctaidd.”

I. Yr *ymddygiad a feir arno yma*—“*Bod â chywilydd arnom o Grist a'i eiriau.*”

Chwi a wyddoch, fy mrodyr, pan yr ymddangosodd Crist ar y ddaear, iddo ddyfod i'r byd i sefydlu crefydd

newydd. Yr oedd efe i ddadguddio i ddynolryw yr amryw bethau ag oeddynt i'w credu, a'r amryw wirioneddau pwysfawr trwy ba rai yr oedd eu heneidiau i gael eu hachub. Fe ddarfu iddo, yr amser hwnnw, dystio wrth ei ddisgyblion am y peryglon ag oeddynt yn agored iddynt, ynghyd â'r dioddefiadau a gaent gyfarfod â hwynt oblegid eu crefydd. Efe a ddywedodd wrthynt hefyd y canlyniadau o *anffyddlondeb* ac *ofn* dynion, yr hyn sydd fagl i lawer yn ein dyddiau ni.

Y geiriau hyn ydynt ei eiriau ef, ger bron pa un y gorfydd ar yr holl fyd cyn y byddo hir sefyll i roddi cyfrif am eu gweithredoedd—"Pwy bynnag fyddo cywilydd ganddo fi a'm geiriau, hwnnw fydd gywilydd gan Fab y dyn, pan ddelo yn ei ogoniant ei hun, a'r Tad, a'r angylion sanctaidd." Y mae'r ymddygiad hwn yn cynnwys ynddo,—

1. *Gwrthodiad o wirioneddau yr efengyl; o herwydd eu bod yn wrthwynebol i reswm cnawdol.* Y mae rhai yn gwrthod credu y pethau a gynnwysir yn yr efengyl sanctaidd; pethau a orchymmynir i ni i'w credu a'u cofleidio â'n holl galon; ond chwi a wyddoch am y cyfryw ddynion ag sydd yn gwrthod yr egwyddorion hynny yn y Gair, mai dynion â chalonau halogedig ydynt.

Y mae rhai yn gwadu dwyfol anfoniad Mab Duw; a phaham y maent yn ei wadu ac yn ei wrthod? Oblegid fod yr athrawiaeth ag y mae efe yn addysgu yn wrthwynebol iawn i'w hymddygiad—i'w hyspyrd hwynt. Yr athrawiaeth o fawrhydi Crist, megis Duw-dyn—megis "disgleirdeb gogoniant ei Dad, a gwir lun ei berson"—ei eiriolaeth a'i gyfryngdod ar ddeheulaw y Mawredd—gwerthfawrogrwydd ei aberth—yr angenrheidrwydd anhepgorol o hollol ymddiried yn ei gyf-

iawnder ef yn *unig* er iechydwriaeth i'n hanfarwol eneidiau; y mae y rhai hyn yn gosod dynion yn agored i wawd y byd, a dynion annuwiol; a pha le bynnag y mae gwrthodiad o'r gwirioneddau pwysfawr hyn, y mae yno "gywilydd o Grist a'i eiriau."

Y mae yr ymddygiad a feiir arno yma,—

2. Yn cynnwys ynddo hefyd y gwaith o wrthod rhoddi i fynu y pethau hynny ag y mae yr efengyl yn ofyn gennym, o herwydd eu bod yn ymddangos i ddyinion yn *gaeth*, "yn *ymadroddion celyd*;" yn gofyn *hunan-ymwadiad*.

Nid gwiw i ni gelu fod efengyl Crist yn gofyn arnom rod-di i fynu lawer o *bethau* ac *arferion* ag oeddem yn *goleddu* o'r blaen; ac hefyd fod llawer o ddiodeffiadau yn anwahanadwy gyssylltiedig â'n profes o honi. Digon gwir fod yr efengyl yn tywys dynion i anrhydedd a dedwyddwch; ond *syhoch*, y mae yn rhaid cyrhaeddyd yr anrhydedd a'r dedwyddwch hwn trwy rod-di i fynu yr holl bethau hynny ag ydym bawb wrth natur yn garu ac yn ymhyfrydu ynddynt. Fe dystiolaethodd ein Iachawdwr hyn yn eglur i'w ddisgyblion, pan y dywedodd,—“Os myn neb ddyfod ar fy ol i, ymwaded âg ef ei hun, a chyfoded ei groes, a chanlyned fi.” Nid oes y fath beth a *dilyn Crist*, *heb gario ei groes*. Peidiwch a thwylo eich hunain, frodyr, os nad ydych yn dwyn y groes, nid oes yna ddim canlyn Crist. Y mae yn rhyfel ac yn ymdrech parhaus ar y Cristion; rhyngddo a'i elynion ysprydol, rhyngddo a'i lygredigaethau, a rhyngddo a'i hen arferion pechadurus. Y mae yn rhaid fod ynom gasineb at y gwrthddrychau a fuom yn garu yn fwy na Duw. Y mae yn rhaid myned i'r maes, gan ddisgwyl cyfarfod â chaledi, croesau, a blinderau. Nid gwaith hawdd yw gwaith

y Cristion. Fe ddywedir am dano yn y Gair Dwyfol, ei fod yn farw i'r byd—fod yr hen ddyn wedi ei groeshoelio gyda Christ—ei fod yn “croeshoelio y cnawd a'i wŷniau a'i chwantau”—ei fod yn byw bywyd o ffydd yn Mab Duw—ei fod yn “marwhau ei aelodau y rhai sydd ar y ddaear,” &c. Y mae yn rhaid i'r serchiadau gael eu tynnu oddiar y byd; nid oes le i ymgysylltu gwasanaeth y byd â gwasanaeth Iesu. Y mae y ddwy deyrnas yn wahanol—*teyrnas* mab Duw, a *theyrnas* y diafol. “Ni ddichon neb wasanaethu *dau arghwydd*.—*Ni ellwch wasanaethu Duw a mammon*.” Ac, medd Ioan, “Na cherwch y byd, na'r pethau sydd yn y byd. O châr neb y byd, *nid yw cariad y Tad ynddo ef*.” Clywch hefyd beth a ddywed St. Iago,—“Oni wyddoch chwi,” medd efe, “fod cyfeillach y *byd* yn *elyniaeth* i Dduw? *Pwy bynnag* gan hynny a ewyllysio fod yn *gyfaill i'r byd*, y mae yn *elyn i Dduw*.” O! eiriau echryslon—yn *elynion* i'r Duw a'n gwnaeth ni!

Y mae yn rhaid i ni fyw, fy mrodyr, os mynnwn fod yn gyfeillion i Dduw, fywyd ffydd; y mae yn rhaid i ni edrych tu hwnt i'r bywyd hwn i'r bywyd tu draw i'r bedd; y mae yn rhaid i ni roddi i fynu ein hetifeddiaeth *ddaeiarol* i'r diben o gael “rhan o etifeddiaeth y saint yn y goleuni.” Y mae athrawiaethau a raid i ni eu credu—y mae gorchymmynion gennym i'w cyflawni—gofidiau a chystuddiau i'w dwyn—profedigaethau cryfion i'w gwrthsefyll—gelynion chwerwon i'w gorchfygu—y groes i'w chario—os gwnawn roddi derbyniad groesawus i “Grist a'i eiriau.”

Os bydd i neb droi yn ol—troi oddiwrth yr egwyddorion hyn a enwais, *pwy bynnag* ydyw, y mae yn un ag sydd arno “gywilydd o Grist a'i eiriau.” Yr un fath a'r “gwr ieuangc” yn yr efengyl, yr hwn, wedi

clywed Crist, “a aeth i’w ffordd yn drist;” nid oedd yn chwennych rhoddi i fynu ei eilunod; yr oedd arno ef “gywilydd o Grist a’i eiriau.” Chwi a wyddoch hefyd am y disgyblion hynny, y rhai a aethant yn eu hol, “ac ni rodiasant mwyach gydag ef,” pan y rhwystrwyd hwynt gan yr ymadroddion celyd hynny—fe ddangosodd y rhai hyn yn eglur bod yn *gywilydd ganddynt* “*Grist a’i eiriau.*” Lle bynnag y byddo neb yn cilio yn ol rhag cyfaddef yn hy ac yn gyhoedd athrawiaeth y groes—yr hwn a fyddo yn ymdrechu cael rhyw ffordd esmwythach i fyned tua’r nefoedd, na thrwy y llwybr cul o *human-ymwadiad* ag y mae’r efengyl sanctaidd yn ofyn, dyna *un* ag sydd arno gywilydd o “Grist a’i eiriau.”

3. Y mae yr ymddygiad a feir arno yn fy nhestyn yn cynnwys ynddo hefyd, *ymneillchuad* neu *ymadawiad* oddiwrth *broffes allanol* a *chyhoeddus* o’r *efengyl*, oblegid y *gwawd a’r dirmyg* o honi. Chwi a wyddoch fod ein Iachawdwr yn gofyn bob amser gan ei ddisgyblion i’w gyffesu ger bron dynion, fel eu *Hiachawdwr*, eu *Hathraw*, eu *Meistr*, a’u *Harweinydd*. Y mae yn rhaid i’r disgybl gyffesu ei Arglwydd. Fe wyddai Crist yn dda fod tramgwydd yn y groes, ac y byddai dynion yn dueddol i’w gochelyd. Chwi a wyddoch pa fodd y dywedodd ein Iachawdwr wrthynt mewn perthynas i hyn,—“Wele,” medd efe, “yr wyf fi yn eich danfon chwi fel *wyn* ym mysg bleiddiaid.”

Y mae yn angenrheidiol, fy mrodyr, i ni gyhoeddi rhybuddion difrifol, a bygythion hefyd, uwch ben y rhai hynny ag sydd yn tynnu yn ol—yn *gwrthgilio*. Y mae yn angenrheidiol i ni gyhoeddi “barnedigaethau yr Arglwydd” yn erbyn y rhai hynny ag sydd yn ymdrechu gochelyd y groes, yn eu gwaith yn *gwrthgilio*,

yn tynnu yn ol o achos dioddef rhyw ddirmyg gan ddynion annuwiol y byd. Yn wir y mae y *goreu* o ddynion mewn angen o rybudd yn hyn. O! byddwch wyliadwrus. Meddyliwch am Pedr—"Arglwydd," meddai efe, "pa ham nad allaf fi dy ganlyn?—Mi a roddaf fy einioes drosot." A phryd arall—"Pe goryddai i mi farw gyda thi, ni'th wadaf ddim." Ond cyn nemmawr o amser wedi hyn, ni a'i clywn ef yn ei wadu gyda llwon a rhegfeydd ofnadwy! Felly ei ddisgyblion eraill hefyd—hwy "oll a'i gadawsant ef, ac a ffoisant."

Gwir yw fod gwahaniaeth mawr rhwng yr amser ag yr ydym ni yn byw ynddo, a rhai oesoedd a aethant heibio, (byddwn ddiolchgar am ein breintiau,) ond *etto* y mae cyfesiad o Grist a'i eiriau yn anwahanol gysylltiedig â chario'r groes; a'r hwn *nas caria y groes* oblegid y *gwaradwydd*, sydd â chywilydd arno "Grist a'i eiriau." Nid oes gwir grefydd lle y mae y cywilydd hwn yn llettya. Dymunwn i *hyn* fod yn argraphedig ar eich *meddyliau*, hynny yw, nad oes le i dynnu yn *ol* mewn crefydd; dim lle i *gloffï rhwng dau feddwl, heddyw* o blaid *Iesu*, y *fory* gyda'r *byd*—ni thal hyn *ddim*; y mae yn rhaid sefyll *tir* yng ngwyneb *pob gelym*, megis milwyr da i *Iesu Grist*; ni thal dim i ni droi ein *cefnau* yn y frwydr; ië, y mae yn rhaid bod yn "ffyddlon hyd angau," cyn y gallom ddisgwyl cyflawniad o'r addewid honno, "a mi a roddaf i ti goron y bywyd." Nerth, gan hynny, a gaffom ni oll i fod yn ffyddlon gyda chrefydd. Dyma y pethau, ynte, a gynnwysir yn yr ymddygiad a feiir arno yn fy nhestyn. "Canys pwy bynnag fyddo cywilydd ganddo fi a'm geiriau, hwnnw fydd gywilydd gan Fab y dyn, pan ddelo yn ei ogoniant ei hun, a'r Tad, a'r angylion sanctaidd."

Fy mrodyr, yr ydych yn galw eich hunain yn Gristionogion; O! mynnwch wybod beth yw eich gwir gyflyrau. Y mae crefydd i *gael*, (a elwir felly gan y byd,) yr hon nid yw yn gofyn yr hunan-ymwadiad hwn a enwais eisoes. Y mae llawer ag ydynt yn profesu crefydd, yn byw yn yr ymarferiad gwastadol o'r pethau hynny ag y mae crefydd y *groes* yn *wahardd*; crefydd yw hon na thal hi ddim mewn awr o brofiad, yn awr angau, a dydd y farn. Ymorphwys ar y tywod y mae y dynion *hyn*; yn *twyllo* eu hunain, â chanddynt *enw* eu bod yn *fyw*, a hwythau yn *ysprydol* yn *feirw*. O! eneidiau anwyl, a oes arnoch *chwi gywilydd* o "Grist a'i eiriau?" neu a ydych yn derbyn athrawiaeth y groes o'ch calonau? A ydych yn ei derbyn fel ag y cyhoeddir hi ger bron ac ar gyhoedd y byd? A ydych yn ei chyfaddef yn ddiragrith, fel yr egwyddorion oddiar ba rai yr ydych yn hyderu cael bywyd tragwyddol? A ydych yn ei chyffesu yn hy, heb ofni *un gwaradwydd*, *un anhawsdra*, *un perygl*, er *gwaethaf pob gelyn*? Ai fel hyn y mae? O! holwch yn fanol. Y mae yn wir o'r canlyniad mwyaf—y mae o dragwyddol bwys!

Oblegid,—

II. Y canlyniadau o'r ymddygiad a feiir arno yn fy nhestyn—"Pwy bynnag fyddo cywilydd ganddo fi a'm geiriau, hwnnw fydd gywilydd gan Fab y dyn, pan ddelo yn ei ogoniant ei hun, a'r Tad, a'r angylion sanctaidd."

Yn awr, O! bydded i ystyriaeth a sobrwydd duwiol ein meddiannu oll, tra yr elwyf rhagof i sylwi ar y canlyniad o'r ymddygiad hwn—*y canlyniad o fod â chywilydd o Fab Duw!*

Mab y dyn, ar yr amser rhagderfynedig, a ddisgyn oddiar orsedd ei ogoniant, i'r dyben o chwilio i mewn

i ymddygiadau dynion. Fe fydd ei *ail-ddyfodiad* ef yn wahanol iawn i'r hyn yr ymddangosodd y waith *gynfaf*. Efe a ddaeth unwaith fel "gwr gofidus, a chynnefin â dolur." Dynion a'i cyfrifasant ef wedi ei faeddu, ei daro gan Dduw, a'i gystuddio. Ac er i ambell belydryn o'i ogoniant dywynu trwy'r llen o gnawd ambell dro; *etto*, efe a ymfoddlonodd fod dan *ddirmyg*, *poen*, ac *angau*. Ond y tro *nesaf*, efe a ddaw yn "ei ogoniant ei hun, a'r Tad." Efe a ddaw gyda *rhwyg* a *mawredd*, yn holl *ddisgleirdeb* ei ogoniant; efe a ddaw yn *anfeidrol* yn ei *allu*, nid fel y Nazaread dirmygedig; nid i gael ei fathru dan draed gan ddynion, ond megis Arglwydd *pawb oll*, a phob gallu yn ei law—*bywyd* a *marwolaeth*. "Holl lwythau y ddaear a welant Fab y dyn yn dyfod ar gymmylau y nef, gyda nerth a gogoniant mawr." "Yna yr eistedd ar orseddfaingc ei ogoniant." "A chyd-gesglir ger ei fron ef yr holl genhedloedd: ac efe a'u didola hwynt oddiwrth eu gilydd, megis y didola'r bugail y defaid oddiwrth y geifr." Mae yr Apostol hefyd yn son "am ymddangosiad *gogoniant* y Duw mawr, a'n Hiachawdwr Iesu Grist." Ac yma y mae efe ei hunan yn tystio y daw efe "yn ei ogoniant *ei hun*, a'i Dad, a'r angylion sanctaidd." Dyfodiad arswydus iawn fydd hwn! Dyfod i *farnu* a wna efe. Dyma yr amser y gorfydd i'r beddau agoryd, a'r meirw gyfodi. Wrth floedd yr udgorn diweddaf, fe ddihuna'r meirw ag sydd wedi bod ym mhriiddellau'r ddaear er ys miloedd o flynyddau; hwy a ddeuant i'r lan i gael eu barnu, a *Christ* fydd y Barnwr. "Pwy bynnag fyddo cywilydd ganddo fi a'm geiriau, hwnnw fydd gywilydd gan Fab y dyn, pan ddelo yn ei ogoniant ei hun, a'r Tad, a'r angylion sanctaidd."

Y mae perthynas agos rhwng ail-ddyfodiad Crist mewn gogoniant, a'i ddyfodiad cyntaf i'r byd â'i efengyl. Pan y llewyrodd ei efengyl gyntaf yn y byd, ac oddiar hynny hyd yr awr hon, hi a gafodd ei gwrthwynebu, ei dirmygu, a'i gwrthod gan ddynion. Yr oedd, ac y mae ar ddynion gywilydd o Grist a'i eiriau! Efe a ddaw drachefn yr ail waith, "yn ei ogoniant," gan "roddi *dial* i'r sawl nid adwaenant Dduw, ac *nid* ydynt yn ufuddhau i'w efengyl" ef.

Clywch eiriau ein Iachawdwr ei hun ar y pwngc,— Mat. 10. 32, 33. "Pwy bynnag gan hynny a'm cyffeso i yngwydd dynion, minnau a'i cyffesaf yntau yngwydd fy Nhad yr hwn sydd yn y nefoedd. A phwy bynnag a'm *gwado* i yngwydd dynion, minnau a'i *gwadaf* yntau yngwydd fy Nhad yr hwn sydd yn y nefoedd." O eneidiau! meddylwch am dano ar y dydd mawr hwnnw yn eistedd ar orseddfaingc ei frenhiniaeth, a chwi a minnau yn sefyll ger ei fron. O bechadur! yr hwn oeddit â chywilydd arnat *gyffesu* Crist yn y byd hwn—yr hwn *ddirmygaist* ac a *wrthodaist* ei *eiriau*—y mae arno yntau gywilydd dy arddel *dithau* yn awr; y mae efe yn dy wrthod di yn awr, ac yr wyt yn canfod tragwydd-oldeb maith o'th flaen, ac uffern yn lledu ei safn i'th lyngcu! O gyflwr arswydus! Duw a'n rhagflaeno, fel na byddo hwn yn gyflwr neb o honom ni ag sydd yma yn bresennol! Enaid *annuwiol*, yr hwn wyt yn dirmygu Mab Duw, yr hwn nid wyt yn talu na pharch nac ufudd-dod iddo yn awr, a wnai di ei gyffesu ef y pryd hwnnw? A âi di atto ef y pryd hwnnw? A ddywedi di wrtho ef y pryd hwnnw, "Henffych well, Athraw, gan ei gusanu ef?" O anghredadyn! ac O! tydi ddyn, yr hwn wyt yn cellwair â chrefydd, fe fydd yn rhy ddiweddar i ti fyned atto y pryd hwnnw! A

wna efe dy gyffesu *di* y pryd hwnw, yr hwn wyt yn rhy *uchel*—yn rhy *falch* i'w gyffesu ef yn awr? A wna efe dy *garu* di y pryd hwnnw, yr hwn wyt yn ei *gashau* ef yn awr? Na wna, yn sicr—hi a fydd yn rhy ddiweddar y pryd hwnnw—fe fydd tragywyddoldeb yn dechreu y pryd hwnnw! Dyma fydd ei iaith ef y pryd hwnnw, wrth annuwiolion, “*Nid adwaen ddim o honoch!*” Efe a'ch pwysa chwi yng nghlorianau cyf-iawnder, ac fe'ch ceir yn *rhy brin*; a dyma fydd y canlyniad—dyma y geiriau ofnadwy a seiniant fel taran yn eich clustiau, “*Ewch ymaith oddi wrthyf—nid adwaen ddim o honoch!*” O enaid gwerthfawr! yr hwn wyt yn gwneud yn fach o Fab Duw—yr hwn wyt yn dibrisio dy enaid—yr hwn wyt yn cablu y Duw a'th wnaeth—yr hwn wyt yn pechu â llaw uchel yn erbyn y Duw ag sydd yn dy lwytho â'i drugareddau tymhorol ac ysprydol—meddwl, O! meddwl yn ddwys am y diwrnod hwnnw, pan y cai dy alw ger bron y frawdle, yno yn fud—*dim* i ddadleu—*dim* esgusodion—wedi derbyn *pob* manteision—wedi cael dy rybuddio fil o weithiau—gweinidogion wedi galw ar dy ol—y *gydwybod* wedi dy gyhuddo—yr Yspryd wedi *ymryson* â thi, a thithau wedi ymgaledu yng ngwyneb y cwbl oll, wedi caru pechod, wedi glynu wrth dy gyfeillion annuwiol, ac heb roddi heibio dy hen arferion drygionus hyd y diwedd. Wel, enaid gwerthfawr, pa fodd y bydd hi arnat ti?—Wedi dy “*bwyso,*” (O clyw!) “*a'th gael yn brin yn y glorian.*” Hon fydd y ddedryd, “*Ewch oddi wrthyf, rai melldigedig, i'r tân tragywyddol, yr hwn a barottowyd i ddiafol ac i'w angylion.*” Mat. 25. 41. “*Ewch oddi wrthyf!*” Fe fydd i'r geiriau arswydus hyn ddadseinio trwy holl drigfannau y coll-edigion obry! Genau y pwll uffernol a agorir, a thi a

gai dy orchuddio â thywyllwch dudew obry dros oes-oedd rif y gwllith! O! er mwyn eich eneidiau, bobl, gochelwch y llwybrau sydd yn arwain i ddistryw. Pa lwybrau ydynt hwy? medd rhyw un. Y mae yn alarus gennyf ddywedyd, llwybrau ydynt ag y mae miloedd yn ein gwlad yn dramwy yn feunyddiol, ië, ym myned gyda'r buandra mwyaf i lawr i ddinystyr tragywyddol, *gorph ac enaid!* I ba le y mae y tyngwr a'r cablwr ym myned? Myned gyda brys i'r fflamiau tragywyddol y mae! Y mae hwn yn galw ar Dduw gyda'r *taerni* mwyaf i ddamnio ei enaid, fe allai gan' waith yn y dydd, am a wn i! Dyngwr a rhegwr, os wyt ti yma, cymmer bwyll, fe wrandewir dy *weddi* di yn ddigon clau! *Gweddi!* medd rhyw un—pa *weddi* sydd gan y tyngwr? O! y mae ganddo ef *weddi*; ac ni a'i clywn ef yn wir yn rhyfedd daer weithiau gyda'i *weddi*—ni a'i clywn ef yn aml yn gwaeddi yn daer ar y *diabol i larpio ei enaid!* Pe gwelem y dynion hyn mor daer wrth orsedd gras, yn gwaeddi am drugaredd, ag y maent yn galw ar y diabol, ië, (arswydus meddwl) ar *Dduw* hefyd, i'w *damnio*, fe gaid gweled agwedd arall arnynt. Fe allwn enwi etto, y meddwyn, y godinebwr, a'r torwr sabbothau, &c. Dyma y llwybrau sydd yn tywys i'r trigfanau hynny y buom yn son am danynt. Pan y gweloch ddynion ddydd ar ol y llall yn tramwy y llwybrau hyn, ni raid i chwi ofyn i neb pa le y maent yn myned? Myned tua'r fflamiau gyda brys y maent! Bydded i Dduw'r nefoedd ragflaenu y cyfryw â'i drugaredd rad, a'u hachub fel pentewynion allan o'r gynneu dân. Pan y meddyliom am yr annuw-ioldeb, yr anlladrwydd, a'r aflendid ag sydd yn ein gwlad, onid yw yn rhyfedd fod Duw heb ein gorddiwes â barnedigaethau tymhorol? Y mae bron yn syndod

na fuasem fel trigolion Sodom a Gomorrah, wedi cael ein dinystrio gan dân a brwmstan. Wel, cofied y pechadur annuwiol, mai hir amynedd Duw sydd wedi ei arbed; ac os na orddiwes barn ef *yma*, cofied fod tragywyddoldeb yn ddigon hir. Gras a gaffom, bawb, yn awr, i ffoi am noddfa, tra y mae noddfa i'w chael.

Ond mi a ddywedaf ychydig, yn awr, *paham y caiff y ddedfryd ofnadwy a soniais am dani, ei rhoddi, ynghyd â'r hyn a wna'r ddedfryd a'r farn ganlynol yn gyfiawn o du Dduw.*

1. Esgeulusdra yn y pethau a berthynant i'r enaid—gwrthodiad o wobr dragywyddol, am fwyniant pechod dros funud awr. Ewyllys a mwyniant y creadur yn ymddyrfafu yn erbyn ewyllys y Creawdwr. Y mae y pethau hyn yn gwneud y farn yn angenrheidiol ac yn gyfiawn o du Dduw; oblegid y mae Duw wedi addaw—wedi ymrwymo i gospi pechod.

2. Y mae yr ymddygiad hwn yn anniolchgarwch o'r mwyaf am *anfeidrol gariad*; oblegid beth yw Crist? Darllenwch eich Biblau. Dyma yr hanes a gawn yno am dano,—“Duw nid arbedodd ei briod Fab, ond a'i traddododd ef trosom ni oll.” Ac etto yn St. Ioan 3. 16. “Canys *felly y carodd Duw y byd*, fel y rhoddodd *efe ei unig-anedig Fab*, fel na choller *pwy bynnag a gredo ynddo ef*, ond caffael o hono *fywyd tragywyddol.*” Wel, dyma beth yw Iesu Grist, sef *rhodd o gariad Duw*. Efe a ddaeth i waered o'r nef i gadw'r euog—efe a ddaeth o'r nef i roi *iawn* am bechod—efe a ddaeth i waered o'r nef i dynnu pechaduriaid o *safn uffern*—efe a ddaeth i waered o'r nef i ddwyn rhai crwydredig adref at Dduw—efe a ddaeth i waered o'r nef i gauad pyrth dinystr tragywyddol, ac i agoryd drws y nefoedd. O! rhyfedd, ynte, fod ar neb o honom gywilydd o Iesu. Bod â

chywilydd o'n hunig Gyfaill, ein hunig Waredwr, a'n hunig Iachawdwr, rhag pechod, angau, ac uffern! Wel, ynte, a ydyw ddim yn gyfiawn i Dduw draddodi pechaduriaid i ddinystyr tragywyddol? "Oni wna Barnydd yr holl ddaear farn" uniawn? Gwna, yn sicr. Dywedwch, ynte, onid yw yn *gyfiawn* yn Nuw i ymddwyn fel hyn tuag at bechaduriaid? sef y cyfryw ag sydd arnynt gywilydd ei arddel *ef* a'i eiriau *yn awr*, y bydd ar yr Iachawdwr gywilydd eu harddel *hwythau*, "pan ddelo yn ei ogoniant ei hun, a'r Tad, a'r angylion sanctaidd."

Mi a gaf, yn y lle nesaf, ystyried y *canlyniad* a ddylai yr ystyriaeth o'r dyfarniad hwn ddwyn oddi amgylch. Dyma y canlyniad, sef, ei fod yn bechod o'r lliw dyfnaf i fod â chywilydd o Grist a'i eiriau; ac, oblegid ei fod yn gosod dynion yn agored i ddinystyr tragywyddol oddi ger bron yr Arglwydd, pan ddelo gyda'i angylion sanctaidd—y dylid ei ochelyd. O! gan hynny, fy mrodyr, penderfynwch, trwy bob peth, ddyfod at ei wasanaeth *yn awr* tra y parhao dydd gras. O! rhestrwch tan ei faner.

Fy mrodyr anwyl, yr wyf yn sefyll yma megis cennad Crist; yr wyf yn dyfod uwch eich penau yn ei enw sanctaidd *ef*; yr wyf megis yn agoryd ac yn codi y faner—*baner Iesu*—*baner Arglwydd y gogoniant*, wedi ei *throchi yng ngwaed y groes*; ac yr wyf yn eich gwahodd bawb i ddyfod oddi tani, i resu eich hunain fel milwyr tan faner Iesu, ac i ddywedyd bob enaid o honoch, "Na atto Duw i mi wybod dim yn eich plith, ond Iesu Grist, a hwnnw wedi ei groeshoelio." A ewyllysiech chwi ddim cael Iesu, Mab Duw, yn gyfaill i chwi, pan y delo efe yn ei holl rwysg a'i ogoniant? A fynnech ddim o hono yn Iachawdwr i chwi pan y

byddo y “defnyddiau gan wir wrês yn toddi,” “yr haul yn tywyllu” ac yn duo, “y lleuad yn troi yn waed, a’r sêr yn syrthio o’r nef?” O! mynnwn, mynnwn, medd pawb. Fe fydd *pob un* am ei gael yn *Geidwad y pryd hwnnw*. Wel, ynte, na *rwystre*r chwi oblegid yr Iachawdwr *yn awr!* Na *wrthodwch* yr Iachawdwr *yn awr!* Wel, ynte, *cedwch orchymmynion* yr Iachawdwr *yn awr!* *Ymddibynwch* ar *aberth Crist yn awr!* *Cyffeswch* ef yng ngwydd dynion *yn awr!* Byddwch ym mhlith ei *ganlynwyr* ef *yn awr!* Byddwch ffyddlon yn ei wasanaeth hyd nes y delo yn ei ogoniant. “Na fydded arnoch *gywilydd* o Grist a’i eiriau;” i.e., *cofiwch* hyn *bawb o honoch*—na *fydded arnoch gywilydd* o dystiolaeth yr Arglwydd. O! pwy a feiddia ei wadu, a ryfyga wrthod ei dystiolaeth, a’r geiriau *hyn* yn taranu yn ei glustiau?—“Pwy bynnag fyddo cywilydd ganddo fi a’m geiriau, hwnnw fydd *gywilydd* gan Fab y dyn, pan ddelo yn ei ogoniant ei hun, a’r Tad, a’r angylion sanctaidd.”

Cymhwysiad.

Yn awr, fy mrodyr, cyn darfod, mi a ddywedaf ychydig eiriau wrth amryw fath o ddynion—dynion o wahanol gyflyrau, ag a ddichon fod yn gwrando yma.

1. A oes rhyw na yma ag sydd yn gosod eu hunain yn *erbyn* yr Iachawdwr?—yn defnyddio eu talentau, eu cyfleusderau, &c., i “ddifenwi Yspryd y gras,” ac yn ddiotal ynghylch iachawdwriaeth eu heneidiau? Od oes neb o’r cyfryw *yma*, yr wyf yn eich rhybuddio, a diolch i’r nefoedd fod amser rhybuddio heb ddarfod arnoch etto. Bechadur! yr wyt hyd yr awr hon wedi *dirmygu* yr Iachawdwr, wele yr Iachawdwr *hwnnw* yn *disgwyl*, â’i *freichiau ar led*, yn barod i’th goffeidio ar dy ddychweliad atto. “Trowch eich gwynebau attaf fi,

holl gyrrau'r ddaear, fel y'ch achuber." O! "Cusenwch y Mab, rhag iddo ddigio, a'ch difetha chwi o'r ffordd, pan gynneuo ei lid ef, ond ychydig. Gwyn eu byd pawb a ymddiriedant ynddo ef."

2. A oes yma ryw un a ddarfu *broffesu* enw Crist, ac a wrthgilioedd? A oes yma un gwrthgiliwr? A oes yma ryw ddyn *ieuangc* ag a gymmerodd arno addunedau Duw unwaith? yr hwn a gyffesodd faint a wnaeth Crist drosto, trwy faddeu ei bechodau, a'i adnewyddu yn y dyn oddi mewn, ond sydd yn awr wedi *myned yn ol i'r byd* drachefn? Neu, a oes yma un "*henafgwr*," yr hwn sydd wedi bod yn proffesu am hir flynyddoedd, ac yn ymddangos yn wresog iawn yn achos Crist, ond yr hwn sydd wedi myned yn ol, ac nid yw mwyach yn teimlo grym duwioldeb—ei grefydd wedi oeri, a'i serchiadau wedi rhewi i fynu yn hollol? Wrthgiliwr!—wrthgiliwr *ieuangc*!—hen wrthgiliwr!—dychwel yn dy ol! Dychwel, dychwel, O! grwydryn tlawd. Dychwel at gariad—dychwel i fynwes—dychwel i dŷ dy Dad! Dychwel, O! dychwel at Grist. Y mae y gair ar dy ol di etto. Y mae Duw ei hun yn tystio, gan ddywedyd, "Meddyginiaethaf eu hymchweliad hwynt, (O! rhyfedd) caraf hwynt yn *rhad*: (anfeidrol gariad) canys *trôdd fy nig* oddi wrtho." Hos. 14. 4.

3. A oes yma ryw rai yn *cloffi rhwng dau feddwl*? Goddefwch i mi ofyn i *chwi*, ai peth bach yw yn eich golwg chwi, pa un a fyddoch *grefyddol* ai peidio? Ai peth *ysgafn* yw genych pa un ai gwasanaethu Duw, neu y diafol, a wnewch? Ai peth bach yw, pa un a fydd eich heneidiau yn *gadwedig* neu yn *golledig*? Ai peth bychan yw genych, pa un ai y *nefoedd* neu *uffern* fydd eich cartref tragwyddol? Paham y cloffwch fel hyn rhwng dau feddwl? Pa gymhariaeth sydd rhwng y

ddau? Cymmerwch glorianau y cyssegr, a dodwch yr hyn a'ch dena *chwi* i gadw yn ol yn un pen, a'r geiriau canlynol yn y pen arall,—“Pwy bynnag fyddo cywilydd ganddo fi a'm geiriau, hwnnw fydd gywilydd gan Fab y dyn, pan ddelo yn ei ogoniant ei hun, a'r Tad, a'r angylion sanctaidd,” a gwelwch y glorian yn codi. Y mae y geiriau yn *anfeidrol* fwy eu pwys nag unrhyw esgusodion a ellwch *chwi* wneuthur. Cofiwch mai geiriau *Duw* ei *hun* ydynt; a nerth a gaffoch i deimlo eu *pwys yn awr*.

4. Ac yn olaf. A oes yma *rai wedi derbyn Crist?* Gobeithiaf fod yma lawer wedi derbyn ei eiriau mewn cariad, wedi “cyffesu yngwydd dynion” eich serch a'ch cariad at ei achos. O! “daliwch ddechreuad eich hyder yn sicr hyd y diwedd.” “Bydd ffyddlawn,” medd Crist, “hyd angau, a mi a roddaf i ti goron y bywyd.” “I'r hwn sydd yn gorchfygu, y rhoddaf iddo fwytta o bren y bywyd, yr hwn sydd yng nghanol paradwys Duw.”

Yn awr, ynte, wrth ddiweddu, goddefwch i mi ofyn, beth yw y canlyniad—y penderfyniad o'r cwbl?

Fy eneidiau gwerthfawr, ni ddymunwn ddim eich gadael y tro presennol heb obeithio y caiff rhyw rai o honoch o'r newydd eu dwyn i gyduno dan faner y groes, ac i ddyfod gyda ffydd a gostyngieiddrwydd at Dduw am drugaredd a maddeuant trwy Iesu Grist.

Yr ydym yma ger bron yr Iachawdwr; yma y mae gair yr Iachawdwr, Yspryd yr Iachawdwr, disgyblion yr Iachawdwr; ac yn enw yr Iachawdwr hwnnw, yr wyf fi (ei was mwyaf annheilwng) yn erfyn arnoch *oll* i benderfynu, na fyddo arnoch, mewn amser, nac yn nhragywyddoldeb, mewn iechyd nac afiechyd, mewn bywyd nac yn angau, “gywilydd o Grist a'i eiriau.”

A pha beth fydd y canlyniad o'i dderbyn? Wel, eich iaith fydd, "Na atto Duw i mi ymffrostio ond yng nghroes ein Harglwydd Iesu Grist." Beth fydd y canlyniad? Dyma fydd,—“Ië, yr wyf yn cyfrif pob peth yn golled, o herwydd ardderchawgrwydd gwybodaeth Crist Iesu fy Arglwydd.” Beth fydd eich penderfyniad? Wel, dyma beth fydd,—“*Nid oes arnaf gywilydd o Efengyl Crist: oblegid gallu Duw yw hi er iachawdwriaeth, i bob un a'r sydd yn credu.*”

PREGETH VII.

PHIL. 3. 18, 19.

“CANYS Y MAE LLAWER YN RHODIO, AM Y RHAI Y DYWEDAIS I CHWI YN FYNICH, AC YR YDWYF YR AWRHON HEFYD DAN WYLO YN DYWEDYD, MAI GELYNION CROES CRIST YDYNT; DIWEDD Y RHAI YW DISTRYW.”—

Y MAE yn alarus meddwl mor gynted y daeth cyfeiliornad i mewn i eglwys Crist. Hyd yn nod yn nyddiau yr Apostolion, y gelyn a ddechreuodd hau efrau ym mhllith y gwenith; ac yr oedd rhai ag oeddynt yn profesu cofleidio gwir grefydd, tra ar yr un amser nid oedd ganddynt ond enw o fod yn gristionogion yn unig. Y mae yn amlwg, oddiwrth hanesion pob oes, nad yw purdeb yr Eglwys yn sicrwydd anffaeledig yn erbyn llygredigaeth. Pa Eglwys mor bur a'r un a sefydlwyd gan ein Hiachawdwr ei hun, ac a adeiladwyd gan ei Apostolion? ac etto yr oedd Judas yn y dechreuad. Yr oedd rhai ag oeddynt yn troi gras ein Duw ni i drythyllwch; a'r rhai ag yr oedd yr Apostol yn dywedyd am danynt, dan wylo, megis gelynion i'r grefydd honno ag oeddynt yn broffesu cofleidio. Yn yr adnod o flaen y testyn y mae yr Apostol yn cynghori y Philipiaid i'w ganlyn ef,—“Canys y mae llawer yn rhodio, am y rhai y dywedais i chwi yn fynich, ac yr ydwyf yr awrhon hefyd dan wylo yn dywedyd, mai gelynion croes Crist ydynt; diwedd y rhai yw distryw.”

Yr ydwyf yn bwriadu,—

I. Ystyried *pwyl sydd yn euog o fod yn elynion croes Crist.*

II. Dywedyd ychydig wrth amryw fath o ddynion ag a ddichon fod yma.

1. *Y mae pawb yn elynion croes Crist ag nad ydynt yn cofleidio ei iechydwriaeth.* Ein Iachawdwr a offrymodd ei hun dros fyd colledig; a'i wahoddiad yw, "Trowch eich gwynebaw attaf fi, holl gyrrau'r ddaear, fel y'ch achuber." Esa. 45. 22. "Yr wyf fi yn abl i gymmeryd eich achos mewn llaw. Yr ydych wedi dinystrio eich hunain, ond ynof fi y mae eich help. Yn unig deuwch attaf fi gyda theimlad o'ch hangen; yn unig dodwch eich hunain yn fy llaw, i gael eich hachub yn fy ffordd fy hun, a chwi a'm cewch i yn abl i achub hyd yr eithaf. Fy nghyfiawnder i a gaiff fod eich cyfiawnder *chwi*, eich gwisg briodas, eich hawl i'r nefoedd. Fy Yspryd a gaiff eich harwain i lwybrau uniondeb."

Yn awr, os esgeulusa neb yr iechydwriaeth hon, ac a wrthoda ddyfod at Grist, pa un ai trwy falchder, hunan-gyfiawnder, neu gariad at bechod, y mae efe yn elyn i groes Crist. Nid ydyw yn ddigon nad yw yn wrthwynebwr. Esgeulusdra yn y peth hwn sydd elyniaeth. Ein Iachawdwr a ddywedodd,—“Y neb nid yw gyda mi, sydd yn fy erbyn.” Nid oes dim ammhleidiaeth yn y matter hwn. Fe ddichon dyn ymfalchio o herwydd ei haelioni a'i fwyneidd-dra; ond os na phlyga i deyrnwialen cariad yr Iesu, fe orfydd arno blygu i wialen haiarnaidd ei ddigofaint, a chaiff ei gyfrif ym mysg y gelynion hynny, y rhai a orchymyn Crist eu dwyn o'i flaen, a'u lladd ger ei fron. Canys ystyriwch, frodyr, beth yw yr achos pennaf fod dynion yn esgeuluso iechydwriaeth Crist. Ni a welwn, mewn un ystyr, fod amryw o bethau yn gweithredu yn y ffordd hon, y rhai sydd yn deillo oddiwrth dymherau naturiol ac arferion dynion; ond fyfnonn y

cwbl yw y galon gnawdol, anianol, yr hon sydd elyn-iaeth yn erbyn Duw; canys nid yw ddarostyngedig i ddeddf Duw. Y mae dynion yn gwybod, yn gyffredin, fod arnynt eisiau iechydwrriaeth; ond hwy a ddewisant bob math o drefn o flaen yr un ag y mae Dwyfol ddoethineb wedi ddyfeisio; a'r achos yw, o herwydd bod y galon ddynol yn cashau Duw, ac nad yw yn dymuno gwybod ei ffyrdd. Os yw Duw wedi parottoi meddyginiaeth ar gyfer ein cyflwr colledig, a ninnau yn gwrthod ei derbyn, onid ydym wrth hynny yn dangos ein hanfodddhad iddo? Yr ydym yn dymuno cael ein hachub; gan hynny, os nad ydym yn cofleidio y ffordd a drefnodd Duw i achub pechaduriaid, yr ydym, yn ganlynol, yn dyfeisio rhyw un arall; a pha beth yw hyn ond gosod i fynu ein doethineb ein hunain yn erbyn doethineb Duw? Beth yw ond dywedyd, "Ni a awn i'r nefoedd, ond ni a awn trwy ein ffordd ein hunain?" A pheth yw hyn ond gelyniaeth i groes Crist? Beth yw ond sathru dan draed y bendithion sydd yn tarddu oddi wrtho? O! gwybyddwch yn sicr, os na ddaethoch gyda gwir deimlad o'ch gwendid a'ch heuogrwydd at groes Crist, gan erfyn arno eich hachub yn ei ffordd ei hun, fe'ch cyfrifir ym mhlith ei elynion, a chan farw felly, chwi a dderbyniwch eu cospedigaeth. O! ynte, "Cusenwch y Mab, rhag iddo ddigio, a'ch difetha chwi o'r ffordd, pan gynneuo ei lid ef, ond ychydig. Gwyn eu byd pawb a ymddiriedant ynddo ef." Psalm. 2. 12.

2. *Y maent hwy yn elynion croes Crist, y rhai sydd yn gwrthwynebu ei achos yn y byd.* "Nid hwnnw, ond Barab-
bas," oedd iaith yr Iuddewon mewn perthynas i'r Mes-
siah; ac ar achos arall, mewn perthynas i'r apostol
Paul, "Ymaith â'r cyfryw un oddiar y ddaear: canys

nid cymmwys ei fod ef yn fyw." Yr un yspryd sydd yn hanfodi hyd heddyw, nid yn unig ym mhlith y rhai sydd yn gwrthod crïstionogrwydd, ond hefyd y rhai a *ahwant* eu hunain yn grïstionogion; a'r un yspryd ag a gyffrodd yr Iuddewon i groeshoelio ein Iachawdwr, a gwrthwynebu ei Apostolion, sydd yn awr yn cyffroi dynion i wrthwynebu ei ganlynwyr, i ddywedyd yn ddrwg am ei achos, ac i rwystro cynnydd ei efengyl.

Ni fydd buddugoliaethau y groes yn gyflawn hyd nes y byddo pawb yn adnabod yr Arglwydd, o'r lleiaf hyd y mwyaf—hyd nes y derbynir ef i bob calon, ac yr anrhydeddir ef gan bob tafod; gan hynny, ofer yw pob gwrthwynebiad, ond dychrynlyd ac ofnadwy yw cyffwr yr holl wrthwynebwr. Y maent yn elynion croes Crist. Y maent yn rhwystro y gwaith ag a ddarfu yr Iachawdwr farw er ei gyflawni. Y maent yn dirmygu y rhai hynny, dros ba rai y mae yr angylion yn llawenhau. Y maent yn dibrisio y deg cyfiawn—halen y ddaear. Yn awr, frodyr, er ein bod ni yn byw mewn oes heddychol, ac nid oes galwad arnom i brofi cywirdeb ein hegwyddorion wrth y polyn a'r ffagodau; etto, onid yw yn wir fod y rhai ag sydd yn ymdrechu canlyn yr Iachawdwr, ac fel Moses, "yn dewis yn hytrach oddef adfyd gyda phobl Dduw, na chael mwyniant pechod dros amser; gan farnu yn fwy golud ddirmyg Crist, na thrysorau yr Aipht;" a chan fyw uwchlaw'r byd drygionus hwn, gan ymdeithio trwyddo megis dieithriaid a phererinion tua gwlad well; onid yw yn wir, meddaf, eu bod yn ddiareb, yn waradwydd, ac yn wawd ym mhlith dynion? Felly y mae wedi bod ym mhob oes, ac ym mhob gwlad. Y rhai a anwyd yn ol y cnawd, fel y dywed yr Apostol, sydd yn erlid y rhai a anwyd yn ol yr Yspryd. A

allaf fi ddim cyfeirio attoch chwi, a gofyn, er nad aeth eich gelyniaeth ym mhell, etto onid yw ei hadau oddi mewn i chwi? Onid yw y duwiolion yn wrthddrychau o'ch diystyrwch? O! ydynt. Y mae gormod o'r gelyniaeth hwn ym mhob calon ddiadgenhedledig. Ond gwybyddwch, gyfeillion, os yw y cyfryw yma, eich bod yn elynion croes Crist; ac os byddwch farw yn yr yspryd hwn, eich diwedd fydd distryw tragwyddol! Pa fodd y *gallwch* fyned i'r nefoedd, lle nad oes neb ond y rhai a ddarfu i chwi eu *dirmygu* a'u *gochelyd* yma ar y ddaear? Pa fodd y *gallwch* wynebu yr Iachawdwr, a chwithau wedi gwneuthur cymmaint ag a allas-ech i'w rwystro i weled o lafur ei enaid? Pa fodd y *gallwch* gyfranogi o'i fuddugoliaethau, ac eistedd gydag ef ar ei orsedd, pan yr ydych wedi sefyll ym mhell oddiwrth ei wasanaeth yma, ac wedi niweidio ei achos? Pa fodd y *gallwch* ddisgwyl mwynhau *ymgeledd y Bugail mawr*, pan y byddo eich bywyd wedi cael ei dreulio *oddi allan i'r gorlan*, ac yn y gwaith o aflonyddu a drygu ei ddefaid? O! na wnaech ystyried eich ffyrdd. *Os gwadwch chwi Grist, efe a'ch gwada chwithau.* Os gwrthodwch chwi ef, efe, yn y diwedd, a'ch gwrthoda chwithau. Ond y mae efe yn awr yn eich gwahodd yn ei drugaredd. "Yr ydym yn erfyn dros Grist, cymmoder chwi â Duw."

3. *Y maent hwy yn elynion croes Crist, y rhai ydynt yn gorthod carrio y groes.* Mat. 16. 26. "Yna y dywedodd yr Iesu wrth ei ddisgyblion, Os myn neb ddyfod ar fy ol i, ymwaded âg ef ei hun, a *chfyfoded ei groes*, a chanlyned fi." Yr Iachawdwr a esyd iau ar wddf pob un a fyn ei ganlyn i'r nefoedd; ac er ei bod yn wir fod ei iau yn esmwyth, a'i faich yn ysgafn, etto y mae yn "faen tramgwydd" yn ffordd llawer. Hwy a wyddant

nad oes iechydwriaeth yn neb ond yng Nghrist; etto, y mae ganddynt ryw beth i ymadael âg ef nas gallant roddi i fynu. Fe fyddai yn amhosibl cyfrif yr holl groesau a raid i ddynion eu dwyn, os mynnant fod yn ddisgyblion i Iesu Grist. Y mae yn rhaid i'r dyn nwyd-wyllt, poethlyd, attal ei natur ddrwg. Y mae yn rhaid i'r dyn cyfoethog, os myn fyned i'r bywyd tragywyddol, beidio bod yn rhy awyddus am bethau daearol, eithr rhoddi o'i helaethrwydd i'r gwan a'r anghenog; ond efe sydd yn myned i'w ffordd yn drist—dyma groes nas gall efe garrio. Y mae yn rhaid i'r dyn fod yn foddlon i dorri ymaith y llaw ddehau, ac i dynnu ymaith y llygad dehau ag sydd yn rhwystro. Pob pechod sydd barod i'n hamgylchu, pa mor anwyl bynnag y dichon fod, a raid i ni roddi i fynu; ond dyma "ymadrodd caled, a phwy a ddichon wrando arno?" Os myn neb dyn ganlyn Crist, y mae yn rhaid iddo ymfoddloni cyfarfod â'r un derbyniad oddiwrth y byd ag a gyfarfyddodd ei Iachawdwr, ymfoddloni cael ei wawdio a'i ddirmygu, colli ffafwr ei berthynasau a'i gyfeillion, fe allai, a chael y dybenion a'r bwriadau gwaethaf eu cyfrif iddo:—ond nis gall y dyn *oddef* chwerthin a gwg y byd. Fe *ddymunai* fod yn grefyddol; ond etto, fe a wyr nad oes ond ychydig yn rhodio yn yr un ffordd, ac wedi bwrw traul y bywyd crefyddol, *yntau* hefyd sydd yn myned i'w ffordd yn drist, fel y dyn ieuangc goludog hwnnw a gawn hanes am dano yn yr efengyl. Y mae efe yn dyfod yn elyn i groes Crist, gan wrthod cael ei groeshoelio gydag ef; gan anghofio fod yr Apostol yn dywedyd, "Os *diodd-efwn*, ni a *deyrnaswn gydag ef*."

Y cyfryw, fy mrodyr, yw rhai o'r llawer ag ydynt elynion croes Crist. Pawb ag sydd yn elynion sydd

yn esgeuluso ei iechydwriaeth, yn gwrthwynebu ei achos a'i ganlynwyr, yn anewyllysgar i ymwadu â hwynt eu hunain, a chyfodi eu croesau; ac, fe allai, eu bod hwy gyda'r gelynion mwyaf, y rhai sydd yn *proffesu eu bod yn ddisgyblion iddo, pan ar yr un amser y mae eu bywyd a'u rhodiad yn dangos yn eglur eu bod hwy ym mhlith ei elynion!* Gadewch i mi,—

II. Ddywedyd ychydig wrth amryw fath o ddynion a ddichon fod yma.

O! na wnai y rhai ag sydd yn elynion croes Crist, yn y ffordd y bum yn ddarlunio, ystyried eu diwedd— "*distryw*;" i.e., distryw tragywyddol, gorph ac enaid! Beth arall a allant ddisgwyl? A ydyw yn hyall y gwna Crist eich addef megis *cyfeillion* yn y dydd olaf, y rhai ydych *wedi byw eich holl fywyd yn elynion iddo?* O! na wna, yn sicr. Gan hynny, O! elynion croes Crist, os ydych yn gwerthfawrogi eich anfarwol eneidiau, taflwch arfau eich gwrthryfelgarwch i lawr. Gofynwch i'r Iachawdwr, beth a fyn ef i chwi wneud! Erfyniwch arno eich achub, a chwi a gewch fod yn ddisgyblion iddo, ac yn y diwedd cewch, trwy ei haeddiant, fwynhau bywyd tragywyddol.

Yn awr, gadewch i mi ddywedyd gair neu ddau wrth *wir gredinwyr*. Er fod *llawer* yn achos o wylo i weinidog ffyddlon, y mae *rhai* yn llawenydd ac yn goron gorfoledd iddo. Frodyr anwyl, ag sydd yn credu, byddwch ddiolchgar nad ydych ym mhlith y rhai hynny ag ydynt yn elynion croes Crist. Gogoneddwch a moliennwch eich Duw, yr hwn sydd wedi eich galluogi i ymneillduo oddiwrth y byd annuwiol o'ch hamgylch. Clodforwch ef o ddydd i ddydd. Ac er eich cynnorthwyo i fyw er ei ogoniant, goddefwch i mi roddi gair neu ddau o gynghor i chwi.

1. *Gwnewch y Bibl yn rheol eich dyledswydd.* Darllenwch yr Ysgrythrau yn fynych, fel y caffoch wybod beth mae yr Arglwydd yn ddywedyd am danoch. Y mae dynion yn dueddol iawn i ddywedyd,—“Y mae hwn a hwn yn rhy fanwl o lawer.” Ond y gofyniad yw, beth mae y *Bibl* yn ddywedyd? Cyfeiriwch bob peth at y rheol hon. Pwyswch y cwbl yn y glorian hon, gyda thaer weddi ar Dduw am ei gyfarwyddiad dwyfol.

2. *Penderfynwch garrio'r groes.* Chwi a allwch gyfrif hyn megis peth sicr, mai yn ol y gradd y byddo eich rhodiad yn cyttuno â rheol yr Ysgrythyr, y bydd i'r byd eich cashau. Y mae ein Harglwydd yn ein harwain i ddisgwyl hynny, pan y mae yn dywedyd yn St. Ioan 15. 19, 20. “Pe byddech o'r byd, y byd a garai yr eiddo; ond oblegid nad ydych o'r byd, eithr i mi eich dewis allan o'r byd, am hynny y mae y byd yn eich cashau chwi. Cofiwch yr ymadrodd a ddywedais i wrthyh; Nid yw'r gwas yn fwy na'i arglwydd. Os erlidiasant fi, hwy a'ch erlidiant chwithau.” A'r apostol Paul a ddywed, “Ië, a phawb a'r sydd yn ewyllysio byw yn dduwiol yng Nghrist Iesu, a erlidir.” Chwi a allwch ddisgwyl, ynte, y bydd galwad arnoch garrio y groes, gan hynny, gwnewch barottoad angenrheidiol tuag at hynny; ac y mae tri o bethau a fyddai yn dda i chwi gadw yn eich cof er eich annogaeth, sef eich cymbelliad, eich gwrthddrych, a'ch nerth. Eich *cymbelliad* yw cariad Crist. Os ydych yn ei garu ef, chwi a fyddwch yn barod i ddiodef pob colled er ei fwyn ef. “Y mae cariad Crist yn ein cymhell ni,” medd yr Apostol. Gall dynion fostio eu hufudd-dod; ond nis gall fod yn ufudd-dod gwir efengylaidd, hyd nes y byddo cariad Duw wedi ei dywallt ar led yn y galon.

Heb hyn y mae arnom eisiau ein cymhelliad, ein hegwyddor gyntaf o weithrediad; ac edrychwch ar y gwrthddrych sydd o'ch blaen. Yr ydych yn teithio tua'r nefoedd, ac nid yw y profedigaethau a'r cystuddiau a ddichon i chwi ddioddef ar y ffördd yn haeddu cael eu cymharu â'r tragwyddol bwys gogoniant sydd wedi ei barottoi ar eich cyfer. Ein Iachawdwr, "yn lle y llawenydd a osodwyd iddo, a ddioddefodd y groes, gan ddiystyru gwaradwydd, ac a eisteddodd ar ddeheulaw gorseddfaingc Duw."

Wel, frodyr, byddwch foddlon i ddioddef gydag ef dros ychydig amser, canys cyn y byddo hir chwi a gewch deyrnasu gydag ef yn oes oesoedd.

Ystyriwch hefyd eich *nerth*. Nid oes gennych ddim o'ch eiddo eich hunain. Profiad pob dydd a ddysg hyn i chwi. Ond y mae gallu Crist wedi ymrwymo o'ch plaid. Y mae iddo ef allu tragwyddol; a'r rhai a ymddiriedant ynddo ef, ni flinant. Cedwch yr ystyriaethau hyn yn wastad yn eich cof, ac yna chwi a deimlwch eich hunain yn barod, nid yn unig i ddioddef gwaradwydd er mwyn Crist, ond i ymadael â phob peth ag y mae ei air ef yn warafun.

3. "Gwelwch pa fodd y rhodioch," fel y dywed yr Apostol, "yn ddiesgeulus; nid fel annoethion, ond fel doethion." Llauer o lygaid sydd arnoch, a llauer sydd yn disgwyl am eich cwmp;—ond bydded eich *daioni* yr unig achos o ddywedyd yn ddrwg am danoch. Bydded gan y byd achos yn unig i achwyn, eich bod chwi mor farw i'w olrheiniadau hwynt, mor ofnus o bechu yn erbyn Duw, o ddianrhydeddu Crist, ac o ddwyn gwaradwydd ar eich proffes—na chyttunwch chwi â hwynt yn eu drwg arferion. Na fydded ganddynt sail i ddywedyd, er eich bod yn broffeswyr, eich

bod yn byw fel hwythau, ac yn waeth na rhai o honynt; a thra yr ydych yn "hidlo gwybedyn, eich bod yn llyngcu camel." Os bydd anghyttundeb eglur rhwng eich proffes a'ch hymddygiad, yr ydych yn dyfod eich hunain yn "elynon croes Crist," ac yn gwneuthur drwg i'w achos.

O! gan hynny, byddwch yn sobr ac yn wyliadwrus. "Dyfal barhewch mewn gweddi." Pwyswch ar fraich yr Iachawdwr. Cedwch yn agos atto ef. Bydded eich "hymarweddiad yn y nefoedd; o'r lle hefyd yr ydym yn disgwyl yr Iachawdwr, yr Arglwydd Iesu Grist: yr hwn a gyfnewidia ein corph gwael ni, fel y gwneler ni yr un ffurf a'i gorph gogoneddus ef, yn ol y nerthol weithrediad trwy yr hwn y dichon efe, i'w ddarostwng pob peth iddo ei hun." Philippiaid 3. 20, 21.

PREGETH VIII.

HEB. 4. 14.

"GAN FOD WRTH HYNNY I NI ARCH-OFFEIRIAD MAWR, YR HWN A AETH I'R NEFOEDD, IESU MAB DUW, GLYNWN YN EIN PROFFES."

DIBEN neillduol yr Apostol, yn yr epistol hwn at yr Hebreaid, oedd, cryfhau a chadarnhau y credinwyr yn eu plith yn y ffydd Gristionogol.

Am y ddeddf, y mae efe yn dywedyd wrthynt nad oedd dim o werth ynddi, *nas* ceir yn yr efengyl mewn mwy o berffeithrwydd. Y mae'r ddeddf megis "athraw" yn ein dwyn at Grist. A oedd yr Iuddewon yn ymfrostio ym Moses megis prophwyd Duw? Y mae gennym ninnau yn yr efengyl Grist megis prophwyd. "Duw," medd yr Apostol, "wedi iddo lefaru lawer gwaith, a llawer modd, gynt wrth y tadau, trwy y prophwydi, yn y dyddiau diweddaf hyn a lefarodd wrthym ni yn ei Fab." A oedd yr Iuddewon, etto, yn arfer ymfrostio am fod Aaron a'i ganlynwyr yn y swydd offeiriadol? Y mae'r Apostol yn dangos yma fod gennym *ni* ryw beth mwy rhagorol. Y mae gennym ninnau hefyd, fel pe buasai yn dywedyd, Arch-offeiriad, ond yn anfeidrol o uwch radd nag Aaron; canys fe'i gelwir yn neillduol yn "Arch-offeiriad *mawr*, yr hwn a aeth i'r nefoedd, Iesu Mab Duw." Yn wir, ynte, gyfeillion, dyma ddigon o annogaeth i ni i "lynu yn ein proffes." Sylwn ychydig, yn—

I. Ar yr annogaeth sydd yma i “lynu yn ein proffes.”

Wrth “ein *proffes*” y mae i ni weithiau ddeall y gwrthddrych yr ydym yn broffesu ei addoli. Yn y drydedd bennod o'r epistol hwn at yr Hebreaid, y mae y gair yn golygu y grefydd ag ydym yn broffesu. Y mae weithiau hefyd yn arwyddocau y weithred ei hun. Dyma a feddylir yn y fan honno, lle y dywedir, “Dal-iwn gyffes ein gobaith yn ddisigl.”

Y mae yn y byd Cristionogol ddau fath o broffeswyr.

1. Y rhai hynny ag ydynt gristionogion *mewn enw yn unig*. Nid wyf yn golygu dynion proffesedig, a dim ond enw ganddynt, ond y rhai hynny a gyfrifant eu hunain yn gristionogion, o herwydd eu bod yn *byw mewn gwlad gristionogol*. Y rhai hynny ag sydd yn dywedyd eu bod yn ddisgyblion i'r Iesu er nad ydynt felly mewn gwirionedd—y rhai sydd am ddangos i eraill eu bod yn proffesu'r ffydd. Gyda llawer o addasrwydd y gellir annog y cyfryw i “lynu yn eu proffes.” Yn wir y mae yn werth glynu wrthi. Ond fe ddylem fyned ym mhellach, a dywedyd, *byddwch byw yn addas i'ch proffes*. “A phob un ag sydd yn enwi enw Crist, ymadawed oddiwrth anghyfiawnder.” Ond galarus yw meddwl fod llawer, pe dywedem wrthynt am y rhwymedigaeth sydd arnynt i rodio yn addas i'r *enw* y maent yn ddwyn—pe dywedem wrthynt am eu rhodiad anweddaidd, hwy a atebent, fe allai gyda digllonedd, *nad ydynt hwy yn gwneud un broffes* o grefydd, ac am hynny nad oes arnynt un rhwymedigaeth i fod mor fucheddol a'r rhai *sydd yn proffesu*. Yn y lle blaenaf, Onid yw yn arswydus clywed neb rhyw ddyn yn dywedyd nad yw ddim cymmaint ag yn *proffesu caru y Duw a'i creodd*, nac yn anrhydeddu Crist, yr hwn a

dywalltodd ei waed drosto—nad yw ddim yn *proffesu* gwneud un math o barottoad gogyfer a thragywyddoldeb, tua pha un y mae yn prysuro yn gyflym!

Y mae yn sicr nad yw yr esgus hwn, nad ydych yn arddel crefydd, yn eich rhyddhau oddiwrth y rhwymedigaeth sydd arnoch. Y mae yn ddyledswydd arnaf ddywedyd wrthyich, *chwi a ddylech fod yn grefyddol*. Eich dyledswydd yn *gyntaf yw bod yn grefyddol*, ac yna gwneud *proffes allanol* o grefydd, a rhodio yn addas i'ch proffes. Bod heb grefydd sydd un pechod, peidio proffesu sydd bechod arall. Hyn sydd yn ychwanegu at euogrwydd a phechod y dynion hynny ag sydd yn ymddifad o grefydd, am nas gallant wneud un broffes, ac o ganlyniad nas gallant anrhydeddu Duw.

2. Y rhai hynny ag sydd yn proffesu eu bod yn gristionogion *mewn gwirionedd*, iddynt dderbyn croes Crist, a'u bod yn cyflwyno eu hunain i'w wasanaeth ef—tebyg i'r rhai hynny ag y mae yr Apostol yn son am danynt yn yr epistol hwn, pan y mae yn dywedyd, “Frodyr sanctaidd, cyfrannogion o'r alwedigaeth nefol; y rhai a oleuwyd, ac a brofasant y rhodd nefol.” Yn awr y mae proffes y gwir gristion yn cael ei gwahan-iaethu oddiwrth yr hon sydd mewn *enw* yn unig, trwy y nodau canlynol:—

1. Y mae proffes y gwir gristion yn *ysgrythyrol*, wedi ei sylfaenu ar dystiolaeth yr ysgrythyrau. Y mae y cristion yn hyderus fod y Bibl sanctaidd yn cynnwys ynddo ddadguddiad o ewyllys Duw i ddyd; am hynny y mae yn chwilio ac yn darllen yr ysgrythyr fel gair y gwirionedd, ac yn credu ei fod yn abl i'w wneuthur yn ddoeth i iechydwriaeth.

2. Y mae proffes y gwir gristion yn *brofiadol*; hynny yw, y mae gan y cristion, yn ei brofiad ei hun, dystiol-

aeth o wirionedd yr efengyl. Y mae *efe* wedi ei phrofi, ac wedi ei chael yn sancteiddiol ac yn achubol—yn achubol i'w werthfawr enaid. “Nid oes arno gywilydd o efengyl Crist: oblegid gallu Duw yw hi er iachawdwriaeth, i bob un a'r sydd yn credu.” Nis gall un dyn yn iawn broffesu serch at yr efengyl, oni fydd yr efengyl wedi gwneud rhyw beth erddo—oni bydd *efe* wedi profi rhyw beth o'i melusder hi. Yr oedd yr Hebreaid hyn yn brofiadol o werthfawrawgrwydd yr efengyl—yr oeddynt wedi credu er iechydwrriaeth eu heneidiau—yr oeddynt yn gyfrannogion o Grist—yn gyfrannogion o haeddiant ei farwolaeth, yr hyn oedd wedi cael ei gymhwyso at eu cydwybodau trwy yr Yspryd Glân, gan eu “puro oddiwrth weithredoedd meirwon, i wasanaethu y Duw byw.”

3. Y mae proffes y gwir gredinwyr yn *weithredol*; hynny yw, y mae eu hymddygiad a'u rhodiad yn *brawf* eglur o wirionedd a ffyddlondeb eu proffes. Gwir broffes yw honno ag sydd yn peri i ddyinion, nid yn unig son a siarad am grefydd, ond i *lafurio* yn, ac i *addurno* eu proffes. Y mae y dyn duwiol wedi derbyn yspryd yr efengyl, ac y mae *efe* yn dwyn yr yspryd hwnnw gydag ef yn ei holl fasnach a'i ymarweddiad yn y byd. Y mae *efe* yn un ag sydd yn credu, nid mewn gair yn unig, ond mewn *gweithred* ac mewn *gwirionedd*. Dyma fel yr oedd hi gyda'r Hebreaid hyn, fel yr ymddengys yn eu gwaith yn dioddef yn amyneddgar ewyllys Duw. “Gelwch i'ch cof,” medd yr Apostol, “y dyddiau o'r blaen, yn y rhai, wedi eich goleuo, y dioddefasoch ymdrech mawr o helbulon.” Yr oeddynt yn ei chyfrif yn fraint i gael bod yn gyfrannog o “ddirmyg Crist,” gan “edrych ar daledigaeth y gwobrwy.” Yr oedd eu proffes yn ymddangos, nid

yn unig yn eu *llwyddiant* a'u *gwynfyd*, ond hefyd yn eu *hadfyd* ac yn eu *herledigaeth* er mwyn Crist a'r efengyl; a thyma'r amser i brofi ein crefydd. Rhoddwch yr holl bethau hyn ynghyd, a chwi a ganfyddwch fel y mae *gwir broffes* yn wahanol oddiwrth *enw yn unig*. Y mae yn *ysgrythyrol*, yn *brofiadol*, ac yn *weithredol*. Y mae yn cael ei hamlygu trwy *uneud* a *dioddef* yn amyneddgar ewyllys Duw. Dyma y fath broffes a orchymynir i ni *lynu* wrthi—" *Glywn yn ein proffes*." Y mae y gorchymyn hwn yn dal allan ein bod mewn perygl o *wadu* ein proffes; ac y mae y perygl hwn yn tarddu oddiar amryw achosion. Mi a enwaf rai o honynt. Y mae y diafol, gelyn Duw a dyn, "yn rhodio oddi amgylch" yn feunyddiol, "gan geisio y neb a allo ei lyngu." Dyna un achos mawr. Llawer o gyfeiliornadau mewn ffydd hefyd, y rhai, trwy wadu y pethau mwyaf *cysurus* mewn crefydd, y cwbl ag sydd werth i'r pechadur goffeidio, sydd trwy hynny yn ei gwneuthur yn ddiwerth i lynu wrthi; oblegid os bydd y fath wirioneddau a Duwdod Crist, haeddiant ei aberth a'i waed, dylanwadau yr Yspryd Glân—os cymmerir y rhai hyn ymaith, beth fydd yn ol?—dim trwy ba un yr achubir pechadur. Nid yw y gyfraith a'i holl ofyniadau a'i bygythion, yn cynnwys un newydd da i'r rhai hynny ag sydd wedi ei thorri. Yr efengyl, a'r efengyl yn unig, sydd yn dwyn newyddion da o lawenydd mawr i fyd o bechuriaid euog. Nid oes un ffordd o ddihangfa i'r pechadur euog yn y gyfraith. "Gwna hyn, a byw fyddi;"—dyma y gyfraith—"A'r enaid a becho, hwnnw a fydd marw." Daliwn ein hyder, i'e, "glywn yn ein proffes," ynte, er y cwbl a wnel y rhai hynny ag sydd am ddifeddiannu yr efengyl o'r gwirioneddau mwyaf pwysfawr ag a fedd hi, a'r mwyaf

hyfryd a melus i'r pechadur edifeiriol. Y byd—dyma etto elyn arall. Rhag hwn “glynwn yn ein proffes.” Y mae'r byd, trwy ei wŷg a'i wên, yn ymdrechu siglo ein gobaith a'n hyder, am hynny, ein dyledswydd yw “glynwn yn ein proffes.” A'r olaf a gaf enwi yw, y galon dwyllodrus, yr hon sydd yn fwy ei thwyll na dim. Rhag yr hon yr wyf yn neillduol yn eich cyng-hori i “lynwn yn ein proffes.” “Glynwn yn ein proffes,” medd yr Apostol. Ymwrolwch dros y gwirionedd. Glynwch yn athrawiaeth yr efengyl. “Ymdrechwch ym mhlaidd y ffydd yr hon a rodded unwaith i'r saint.” Gwyliwch yn ddyfal rhag yr athrawiaeth honno ag y mae rhai yn haeru, sef, na *waeth* beth a fyddo cred dyn—nad yw ei gred ef ddim—pan y mae Crist yn tystio am athrawiaeth yr efengyl,—“Yr hwn *sydd* yn credu, ni ddemnir: eithr yr hwn *nid yw yn credu*, a ddamniwyd eisoes; o *herwydd na chredodd*.”

“Glynwch yn eich proffes,” etto, mewn *profiad efengylaidd o'i bendithion*. Tra yr ydym yn ddiolchgar am Grist yn ein *Biblau*, am Grist yn cael ei bregethu yn y *pulpud*, ac am Grist pan yn ymddiddan â'n gilydd; edrychw'n uwchlaw y cwbl am gael Crist yn ein *calonau*; ac felly, “Glynwn yn ein proffes.”

Sylwn ychydig, yn—

II. Ar y calondid i hyn, oddiar *offeiriadaeth Crist*.

Offeiriadaeth Crist sydd athrawiaeth bwysfawr o'r efengyl. Megis ag yr oedd yr offeiriad o dan y gyfraith yn offrwm i fynu aberthau dros bechod, felly y mae i ninnau “Arch-offeiriad mawr,” yr hwn a offrwm, odd ei hun i Dduw megis aberth o arogl peraidd; *un* na dderfydd byth o rinwedd ei aberth; *un* ag sydd yn byw i ddadleu haeddiant ei aberth dros bawb a ddelont at Dduw trwyddo am faddeuant o'u pechodau. Y mae

“i ni Arch-offeiriad mawr,” anfeidrol fwy nag un o dan y gyfraith—yn fwy mewn amrywiol ystyriaethau.

Mi a grybwyllaf dri o bethau yn mha rai y mae efe yn rhagori.

1. Oblegid y lle ym mha un y mae efe ynddo. Efe a aeth i fynu “i'r *nef ei HUN, i ymddangos yn awr ger bron Duw trosom ni.*” Fe ddarfu i Aaron a'i ganlynwyr wasanaethu yn y deml; ond nid oedd y deml, er ei bod yn ogoneddus iawn, ond gwaith llaw, ac yn agored i ddadfeilio; a phe gofynem am y deml yn awr, nid oes yno faen ar faen i'w gael. Ond ein “Harch-offeiriad mawr” ni a aeth i'r nefoedd, y deml honno oddi uchod, y tŷ nid o waith llaw; a thyna lle y mae efe heddyw ar ddeheulaw'r Marwedd yn eiriol drosom ni. “Gan fod wrth hynny i ni Arch-offeiriad mawr, yr hwn a aeth i'r nefoedd, Iesu Mab Duw, glynwn yn ein proffes.”

Gwelwn y rhagoriaeth etto,—

2. Oblegid y *lleshad a'r bendithion sydd yn dylifo oddiar gyflawniad ei swydd ef.* Analluawl oedd i un gwerth nac un fendith fod yn yr aberthau ag oedd yr offeiriaid yn offrymu o dan y ddeddf, *ynddynt eu hunain.* Nid oedd dim rhinwedd mewn gwaed teirw a geifr, &c. ac nis gallent gymmeryd ymaith bechod, na phuro cydwybod neb. Yr holl rinwedd ag oedd yn y rhai hyn oedd oddiar yr Aberth mawr ag oeddynt yn gysgodi—arwyddion a chysgodau oeddynt o aberth Crist, yr hwn a aberthwyd dros ein pechodau ni. Yr oeddynt yn arwain y bobl i edrych ym mlaen at yr Aberth gwell a rhagorach hwnnw, yr hwn oedd i gael ei offrwm i fynu yng nghyflawnder yr amser. Ond y mae Iesu, nid yn unig yn “Arch-offeiriad,” ond hefyd yn Iachawdwr ac yn Waredwr:—“Ti a elwi ei enw ef Iesu,”

meddai yr angel, “oblegid efe a *ward ei bobl oddiwrth eu pechodau.*” Yr oedd Aaron yn arch-offeiriad i'r Duw byw, ond nid oedd efe ddim yn *Iachawdur*—yr oedd ei ganlynwyr yn y swydd offeiriadol yn arch-offeiriaid i Dduw, ond nis gallent ward rhag pechod. Ond Iesu, ein Harch-offeiriad mawr ni, a ddichon ein prynu rhag pob anwiredd—“Efe a ddichon yn *gwbl iachau* y rhai trwyddo ef sydd yn dyfod at Dduw, gan ei fod ef yn byw bob amser i eiriol drostynt hwy.”

Ond y mae efe yn fwy,—

3. Oblegid mawr anrhydedd ei natur, sef, “Mab Duw.”

Aaron oedd arch-offeiriad i Dduw; ond mab *dyn* oedd Aaron, a dim yn ychwaneg; ac fel dyn yn unig yr oedd yn un *pechadurus*; yr oedd y natur lygredig ynddo, ac yr oedd ef ei hun mewn angen o haeddiant y gwaed hwnnw ag oedd efe yn daenellu dros eraill. Yr oedd yr arch-offeiriad dan y gyfraith yn agored i *angau* hefyd—yn marw un ar ol y llall; ond ein “Harch-offeiriad mawr” ni “sydd o dragywyddoldeb hyd dragywyddoldeb; yn ddisgleirdeb gogoniant ei Dad, ac yn wir lun ei berson ef.” Fel “Mab Duw,” yr oedd efe yn *ddibechod*. Fel “Mab Duw,” y mae efe yn *anfarwol*. Nis gall efe farw mwyach, eithr byw yn oes oesbedd. Ac, O! y fath drugaredd yw hon mewn byd cyfnewidiol fel hwn, lle mae cynnifer yn cael eu torri ymaith o'n hamgylch, ein bod yn gallael dyrchafu ein golygon tua'r nef, a'n bod yn abl i gyflwyno ein hunain a'n hachosion i ddwylaw ein Prynwr bendigedig, yr hwn sydd yn byw yn oes oesoedd.

Pa annogaeth sydd yn hyn, medd rhyw un, i ni lyngu yn ein profes? Wel, o herwydd mai yn *offeiriadaeth Crist y mae ardderchawgrydd y grefydd gristion-*

ogol yn gynnwysedig. “Beth sydd raid i mi ei wneuthur, fel y byddwyf gadwedig, sydd ofyniad pwysfawr? Ond y mae'r efengyl yn ateb y gofyniad; y mae yn tystio am Grist ein Harch-offeiriad—y mae yn dywedyd wrthym yr hyn a'n llona yng ngwyneb yr argyhoedd-iadau dyfnaf. Beth a fynnwch yn ychwaneg nag y mae yr efengyl yn gynyg i chwi? Eich euogrwydd a dystia—eich cydwybodau a dystiant—eich Bibl a dystia, eich bod chwi wedi *pechu*. Yr ydych wedi ymddwyn megis gelynon i Dduw, wedi colli ei ffafwr, ac wedi dyfod yn agored i'w ddwyfol lid!

Yn awr, nid oes un grefydd yn werth ei chael, heb iddi nodi allan y ffordd i chwi gael dychwelyd yn ol i ffafwr Duw. Wel, y mae'r efengyl sanctaidd yn dangos y ffordd i chwi i ymheddychu â'ch Creawdwr. Y mae yn tystio wrthyh fod Crist yn Arch-offeiriad mawr, iddo farw drosoch, ei fod wedi esgyn i'r nef i ddadleu gwerth ei waed, ac i hidlo i waered o'i fendithion. Ond yr ydych yn *llygredig*; eich natur sydd elyniaeth yn erbyn Duw. A ydych am wybod pa fodd y cewch galon newydd, ac yspryd uniawn o'ch mewn? Y mae yr efengyl yn dywedyd wrthyh fod ffynnon wedi ei hagoryd i olchi ymaith bechod ac aflendid—fod Crist wedi dyrchafu i'r uchelder, a derbyn rhoddion i ddynion—fod yr Yspryd Glân yn cael ei dywallt i lawr i galonau dynion; ac y mae yn dywedyd wrthyh y modd y gallwch ddwyn eich holl ofidiau, fel na byddo un baich yn rhy drwm i chwi ei garrio, nac un groes yn rhy drom i chwi ei dioddef.

Cadwch yr efengyl, ynte, beth bynnag arall a golloch. Glynwch wrthi fel eich gobaith goreu, i'e, fel eich *hunig* obaith am y nefoedd. Ond, ysgatfydd, fod rhyw un yn barod i ateb, nad yw yn bwriadu ei rhoddi i fynu;

ond ei ofn mwyaf yw, na fydd yn abl i "*lynu yn ei broffes,*" a pharhau hyd y diwedd. Yr ydwyt yn teimlo y fath liaws o brofedigaethau, ac yn cael dy amgylchynu â chynnifer o elynion, fel ag yr wyt yn ofni yn fawr, ar droion, y bydd i ti ryw ddydd syrthio i'w dwylaw. Ac, yn wir, felly y gwnait, pe gadewid di i'th nerth dy hun. Ond bendigedig fyddo Duw, nid ydym wedi ein gadael i'n nerth ein hunain; y mae yr efengyl yn dywedyd wrthym fod gennym "*Arch-offeiriad mawr, yr hwn a aeth i'r nefoedd, Iesu Mab Duw,*" yr hwn sydd yn barod i'n cynnorthwyo bob amser. Enaid gwan, ti a elli "*lynu yn dy broffes*" er gwaethaf dy holl elynion, canys y mae Crist yn eiriol drosot ar ddeheulaw y Tad. Gan gael dy gynnal â'i alluog fraich, a'th dywys â'i ddoethineb, a'th fywiocau â'i Yspryd, ti a fyddi mewn ychydig bach yn *fwy na chongwerwr*, trwy yr hwn a'th garodd, ac a'th olchodd yn ei werthfawr waed ei hun.

"Gan fod wrth hynny i ni Arch-offeiriad mawr, yr hwn a aeth i'r nefoedd, Iesu Mab Duw, glynwn yn ein proffes."

PREGETH IX.

IOAN 3. 16.

“CANYS FELLY Y CARODD DUW Y BYD, FEL Y RHODDODD EFE EI UNIG-ANEDIG FAB, FEL NA CHOLLER PWY BYNNAG A GREDO YNDDO EF, OND CAFFAEL O HONO FYWYD TRAGY-WYDDOL.”

YN nechreu y bennod hon ni a glywn Iesu Grist yn dywedyd wrth Nicodemus, pennaeth yr Iuddewon,—“Yn wir, yn wir, meddaf i ti, oddieithr geni dyn drachefn, ni ddichon efe weled teyrnas Dduw ;” yr hyn sydd yn ddigon i wneuthur un dyn yn ystyriol, yn enwedig pan ystyriwn iddo gael ei lefaru wrth ddyd mewn oedran—wrth ddyd crefyddol—wrth ddydsgawdwr yn Israel. Yn niwedd y bennod fe ddywedir wrthym,—“Yr hwn sydd *heb gredu i'r Mab*, ni wêl fywyd, eithr y mae digofaint Duw yn aros arno ef.” Y mae hyn yn ddigonti beri i'r anghredadyn grynu. Ac yng nghanol y bennod y mae i ni newyddion da o lawenydd mawr ; canys fe ddywedir,—“Ni ddanfonodd Duw ei Fab i'r byd, i ddamnio'r byd, ond fel yr achubid y byd trwyddo ef. Megis y dyrchafodd Moses y sarph yn y diffaethwch, felly y mae yn rhaid dyrchafu Mab y dyn ; fel na choller pwy bynnag a gredo ynddo ef, ond caffael o hono fywyd tragywyddol. Canys felly y carodd Duw y byd, fel y rhoddodd efe ei unig-anedig Fab, fel na choller pwy bynnag a gredo ynddo ef, ond caffael o hono fywyd tragywyddol.” Dyfodiad Iesu Grist i'r byd hwn, y gwaith a gyflawnodd, a'r brynedigaeth a

wnaeth, ydynt y pethau mwyaf a adnabu y byd erioed, ac a ellir eu mynegi i ddynion. Y digwyddiad hwn a ddadguddiwyd i ddynion trwy y prophwydi sanctaidd, a fynegwyd trwy leferydd angylion, a gof-lyfrwyd trwy bin ysgrifenu ysprydoliaeth, ac y mae o'r pwys mwyaf i ni.

Geiriau y testyn ydynt yn ein harwain i ystyried,—
I. *Gwrthddrychau cariad Duw*. “Felly y carodd Duw y *byd*.”

Yr ymadrodd hwn, y byd, sydd o amryw ystyr-iaethau yn yr Ysgrythyr. Weithiau y mae yn arwyddocau y ddaear ar ba un yr ydym ni yn byw, fel y dywedir,—“Yn y byd yr oedd efe, a'r byd a wnaethpwyd trwyddo ef; a'r byd nid adnabu ef.” Weithiau yr ydym i ddeall wrth yr ymadrodd hwn y Cenhedloedd ym mhob gwlad, oes, ac amgylchiad, fel ag yn cael eu gwahaniaethu oddiwrth yr Iuddewon; fel y gwelwn yn y geiriau hyn,—“Os ydyw eu cwmp hwy (hynny yw yr Iuddewon) yn olud i'r byd, a'u lleihad hwy yn olud i'r Cenhedloedd; pa faint mwy y bydd eu cyflawnder hwy?” Yma ni a welwn fod y gair *byd* a'r Cenhedloedd o'r un ystyr. Yn awr, Duw a garodd y *byd*—y byd Cenhedlig—byd ag oedd yn farw mewn anwybodaeth ac eilunaddoliaeth, fel ag y rhoddodd ei Fab i farw drostynt.

Y mae y gair *byd*, hefyd, yn arwyddocau y *rhan annuwiol* o ddynolryw, megis ag yn cael eu gwahaniaethu oddiwrth gredinwyr, y rhai sydd wedi myned “trwodd o farwolaeth i fywyd.” Ioan 15. 19. “Pe byddech o'r byd, y byd a garai yr eiddo; ond oblegid nad ydych o'r byd, eithr i mi eich dewis allan o'r byd, am hynny y mae y byd yn eich cashau chwi.” Ond yn fwyaf cyffredinol, y mae y gair *byd* yn arwyddo *holl*

ddynolryw, holl blant Adda. Yn yr ystyr hyn y darllenwn “fod yr holl *fyd* yn gorwedd mewn drygioni.” Yma, ynte, y mae genym sail i obeithio, canys yr ydym ni yn wrthddrychau cariad Duw. Duw sydd wedi rhoddi gorchymmyn i’w weinidogion i fyned i’r holl *fyd*, ac i bregethu yr efengyl “*i bob creadur.*” Ac “felly y carodd Duw y *byd*, fel y rhoddodd efe ei umig-anedig Fab, fel na choller pwy bynnag a gredo ynddo ef, ond caffael o hono fywyd tragywyddol.”

Ystyriwn,—

II. *Natur a graddau y cariad hwn.*

1. *Ei natur.* Wrth lefaru am natur y cariad hwn, y mae yn llawer hawddach dywedyd yr hyn nid ydyw, na’r hyn ydyw. Nis gallasai fod yn gariad o ymfodddhad, neu o foddlonrwydd. Yr ydym ni yn caru gwrthddrychau o herwydd eu hardderchawgrwydd, eu glendid, neu eu haddasrwydd i’n gwneuthur yn ddedwydd. Ond nid oes mewn dyn wrth natur ddim ardderchawgrwydd, dim egwyddor uniawn, dim glendid sancteiddrwydd. Mae ei natur yn llygredig, ei egwyddorion yn halogedig, ei weithredoedd yn aflan, a’i enaid yn frwnt gan bechodau—“y pen oll sydd glwyfus, a’r holl galon yn llesg.” Y mae mor ymddifad o gyfiawnder, fel nad oes ganddo ddim i guddio noethder ei natur. Nid rhyfedd, ynte, os yw Duw yn edrych ar y fath greadur gyda’r casineb mwyaf.

Rhaid, ynte, mai cariad o *dosturi* oedd. Duw a edrychodd i lawr o’i breswylfod sanctaidd, ac a ganfyddodd ddynion ym mhob man wedi eu llenwi âg anghyfiawnder, eu clwyfo gan bechod, yn gorwedd yn ardaloedd angau, ac yn soddi i drueni tragywyddol! Gwelodd ddyn yn anwybodus o’r hyn oll sydd angenrheidiol iddo wybod, ac heb neb i’w ddysgu. Gwel-

odd ef ym mhlith yr aberthau mwyaf costfawr, yn analluog i roddi iawn addas dros bechodau ei enaid. Gwelodd ef ym mron suddo yn ysglyfaeth i angau ac uffern, ac heb neb i'w waredu. Yn y cyflwr truenus hwn tosturiodd wrtho, a disgynodd wrth ei ochr fel ag yr oedd yn gorwedd yn ei bechodau a'i waed, ac a ddywedodd, "Yr wyf fi wedi'th garu yn dy gyflwr colledig, ac wedi danfon fy Mab, fy unig-anedig Fab, i'th waredu a'th brynu!"

Y cariad hwn oedd un *na haeddwyd*. Nid oeddem ni yn haeddu y fath gariad. Nid oedd y dynion i ba rai ei hamlygwyd yn gweled un angen o hono, nac yn gwneuthur un ymdrech i'w gael. Pe buasai gweithred grefyddol, gair da, neu feddwl graslawn yn ddigon i haeddu y nefoedd, nid oedd gan ddyn hynny i roddi. I'r gwrthwyneb, dynion a'i gwrthododd, a dirmygasant y daioni ag oedd yn cael ei gynnyg iddynt. "Gwelwch," medd Ioan, "pa fath gariad a roes y Tad arnom." Pa fath gariad? Wel, cariad anhaeddedig, rhad, ac ym mhob ffordd yn addas i Dduw.

2. Sylwn ar *radd y cariad hwn*. Y mae mor uchel fel nas gall un dychymmyg ei gyrhaedd, mor ddwfn fel nas gall un meddwl ei blymio, mor äang fel nas gall un tafod ei fynegi. Y rhodd ei hun sydd yn arddangos ei maintioli. "Felly y carodd Duw y byd, fel y rhoddodd efe."—Beth?—gorsedd o oleuni? Nagê. Beth?—rhyw weinidog o'i bresennoldeb, rhyw gyntaf-anedig fab y goleuni? Nagê. Beth, ynte?—"Felly y carodd efe y byd, fel y rhoddodd efe ei *Fab*, ei unig-anedig Fab, disgleirdeb ei ogoniant, gwir lun ei berson, ac etifedd pob peth."

Y gwrthddrychau hefyd ar ba rai y rhoddwyd y cariad hwn sydd yn ychwanegu ei faintioli. "Felly y carodd

Duw y byd," hynny yw, *dynion*; y rhai, pan ddywedir am danynt mewn cymhariaeth i'w Creawdwr, a elwir yn abwydod, dim, llai na dim, a gwagedd; etto, felly y carodd Duw y dyn gwael, annheilwng hwn, fel ag y trefnodd ffordd i'w ddwyn ef yn ol i ffafr, i ddedwyddwch, ac i fywyd tragywyddol.

Yr ydym yn dysgu gŵadd y cariad hwn, etto, oddiar *ymadroddion Crist tuag at ei clymion*. Gwelwch ef am y waith olaf yn myned i fynu i Jerusalem—Jerusalem, lle enwog am greulondeb—tŷ lladdfa gweision Duw; ac, fe allai, cyn pen wythnos, yn le o'i ddiennyddiad ei hun. Y mae efe yn edrych dros ben malais y Phariseaid, bradwriaeth Judas, anffyddlondeb Pedr, creulondeb ei holl gyhuddwyr, gwaradwydd y groes, a phoenau angau; ac y mae efe yn sefydlu ei olygon ar y ffrwd o ddigofaint ag oedd yn dyfod ar y ddinas bechadurus. Gallasai edrych ar hyn i gyd gyda theimladau o lawenydd, megis tâl cyfiawn am yr holl waed gwirion a gollwyd yno. Ond nid felly, efe a edrychodd ar y lliid oedd yn agoshau, a'i lygaid a gyffrodd ei galon, ei galon a gyffrodd ei dafod, ac yn y modd mwyaf tosturiol efe a lefodd allan, "O Jerusalem, Jerusalem, yr hon wyt yn lladd y prophwydi, ac yn llabyddio y rhai a ddanfonir attat, pa sawl gwaith y mynnaswn gasglu dy blant ynghyd, megis y casgl iâr ei chywion dan ei hadenydd, ac nis mynnech!" Y mae efe yn gweled ei gyhuddwyr wedi ymgynnull ynghyd, i geisio ei waed gwirion; y mae yn eu clywed yn llefain yn uchel am ei fywyd, gan ddywedyd wrth Pontius Pilat, "Croeshoelia, croeshoelia ef." Nid yw yn galw am leng o angyllion, i'w hysgubo i uffern, fel ag yr oeddynt yn haeddu, ond y mae yn *treulio ei anadl olaf, ac yn colli ei waed gwerthfawr i brynu maddeuant i'w leiddiaid!* Ac

nis anghofiodd hwynt wedi adgyfodi o'r bedd. Efe a roddodd orchymmyn i'w ddisgyblion i fyned a phregethu iddynt,—“Ewch i'r holl fyd, a phregethwch yr efengyl yn fy enw i, gan ddechreu yn Jerusalem.” “Gan ddechreu yn Jerusalem!” Beth! yn y ddinas waedlyd honno! Fe allesid meddwl yn hytrach y buasai iddo ddywedyd, “Ewch at y paganiaid, ymwelwch â chyrau pellaf y byd; y rhai hyn, er eu bod wedi pechu yn ddwfn, nid ydynt wedi pechu yn erbyn *gras a thrugaredd*. Ond nac ewch yn agos at y genedl annuwiol accw sydd yn byw yn Jerusalem. Y maent wedi lladd fy ngweision y prophwydi, wedi torri pen Ioan Fedyddiwr, yr hwn a anfonais attynt; ac yn olaf, wedi tywallt fy ngwaed fy hun! Os ymwelwch â *rhai* o ddefaid colledig tŷ Israel, etto, peidiwch a myned yn agos i'r Jerusalem ddrygionus accw; na fydded i'r efengyl fyned i mewn trwy'r porth hwnnw trwy ba un y darfu iddynt fy arwain i, ei hawdwr, i gael fy nghroeshoelio.” Ond, O! nagê, nid dyma ei iaith ef; ond efe a ddywedodd wrthynt, “Ewch i Jerusalem; ac, i ddangos gwerth fy efengyl, effeithioldeb fy iawn, a gallu fy nghariad, ewch yno yn *gyntaf*. Bydded y rhai a dywalltasant fy ngwaed, y cyntaf i brofi ei rinwedd iachäol; bydded y rhai a ddarfu gynhyrfu y dwfr, y cyntaf i gyfranogi o'i effaith daionus; bydded y rhai a ddarfu daro'r graig, y cyntaf i yfed o'i ffrydiau iachusol. Ewch i Jerusalem; ac os bydd i chwi gyfarfod, yn eich mynediad, â'r milwr pechadurus hwnnw, yr hwn a wanodd fy ystlys â gwaywffon, dywedwch wrtho fod y clwyf a wnaeth yn fy nghalon yn ddigon mawr i'w gymmeryd ef i mewn, a bod digon o rinwedd yn y gwaed a'r dwfr a berodd efe ddylifo o'm hystlys i faddeu ei holl bechodau, ac i buro ei gydwy-

bod euog. Dechreuwch yn Jerusalem; trigolion y ddinas honno a ddywedasant yn ddiweddar, "Bydded ei waed ef arnom ni, ac ar ein plant." Ac felly y byddo; ond nid mewn digofaint ar eu penau, ond yn ei holl effaith i dyneru eu calonau, a'i holl allu i achub eu heneidiau. Bydded ar eu cydwybodau, gan eu gwneuthur hwynt "yn gymmwys i gael rhan o etifeddiaeth y saint yn y goleuni."

Graddau y cariad hwn sydd yn ymddangos, hefyd, oddiwrth *ddioddefiadau yr Iachawdur*. O'r preseb i'r groes efe a ddaeth yn "wr gofidus, a chynnefin â dolor." Efe a ddioddefodd boen a blinder, ac nid oedd ganddo le i roddi ei ben i lawr. Fe'i bradychwyd gan un o'i gyfeillion, fe'i gadawyd gan ei holl ddisgyblion yn awr adfyd, ac a roddwyd i fynu gan ei Dad nefol! Ond dilynwch ef i ddiwedd ei boen; gwelwch ef yn dringad bryn garw Calfaria! Wele, fel y paent yn ei hoelio wrth y groes! Y mae efe yn wyllo, a'i ddagrau sydd yn diffoddi yr haul! Y mae efe yn ocheneidio, a'i ochenaidd sydd yn hollti y meini! Y mae efe yn griddfan, a'i riddfan sydd yn peri i'r ddaear grynu! Holl natur a gyd-ymdeimlodd, ac a addefodd bresennoldeb Creawdwr y byd! "Felly y carodd Duw y byd, fel y rhoddodd efe ei unig-anedig Fab, fel na choller pwy bynnag a gredo ynddo ef, ond caffael o hono fywyd tragywyddol."

Ond sylwn,—

III. *Ar ddiben y cariad yma*. Beth oedd bwriad Duw wrth garu'r byd? Wel, ei fwriad oedd achub pechaduriaid, fel na chollid *ni*, ond fel y caffem fywyd tragywyddol.

1. Ni a allwn sylwi fod y *byd*, o herwydd *pechod*, yn *haeddu ei gollu*. Dyma gyflwr naturiol y byd,—y mae

mewn cyflwr o golledigaeth. Y gair *colli* sydd weithiau yn cyfeirio at *farwolaeth y corph*. Fel hyn y dywedodd meistr y llong wrth Jonah, "Beth a ddarfu i ti gysgadur? Cyfod, galw ar dy Dduw; fe allai yr ystyr y Duw hwnnw wrthym, fel na'n *coller*,"—fel na byddom farw yn y dymhestl. Fel ag y mae pawb wedi pechu, "ac ydynt yn ol am ogoniant Duw," felly dedfryd marwolaeth sydd wedi ei chyhoeddi ar bawb,—“Pridd wyt ti, ac i'r pridd y dychweli.” Nid oes neb yn diangc rhag saethau angau. Ond trwy haeddiant Crist y mae Duw wedi penderfynu na chaiff y gwir gredadyn ei golli yn dragywydd—na chaiff efe weled llygredigaeth am byth. Crist sydd wedi “diddymu angau,” medd yr Apostol; y mae efe wedi dinystrio ei allu, ac wedi cael buddugoliaeth arno. (Gwelwch ef ar gyfer y dydd heddyw, dydd y Pasgc yma, yn cyfodi o'r bedd yn fuddugoliaethus ar ei holl elynion; efe a orchfygodd angau, ac a ddrylliodd farrau'r bedd.) Ac yn awr nid oes gan y gwir gredadyn achos i ofni angau, uffern, na'r bedd; o braidd y gallwch ddywedyd ei fod yn marw, y mae efe yn hytrach yn huno ym mreichiau ei Arglwydd, tra y mae yn clywed Duw yn dywedyd wrtho mewn effaith, “Nac ofna fyned i lawr i'r bedd, canys mi a af i lawr gyda thi, ac a'th ddygaf di i fynu drachefn. Yr ydwyf fi wedi bod yn y bedd o'th flaen di, ac wedi ei chyssegru â'm presennoldeb. Os âi di i lawr mewn gwendid, mi a'th gyfodaf di mewn nerth; os âi di i lawr mewn llygredigaeth, mi a'th gyfodaf di mewn anllygredigaeth; os âi di i lawr yn gorph anianol, mi a'th gyfodaf di yn gorph ysprydol. Fel hyn ni'th gollir, ond ti a gai dy gyfodi i fywyd tragywyddol.” O! frodyr, gweddiwch ar Dduw eich gwneuthur chwi yn gyfrannogion o'r bywyd hwn.

Y gair *colli* sydd yn arwyddocau *damnedi*gaeth *dragywyddol* hefyd. Yn yr ystyr hyn y dywedir gan yr Apostol,—“Cynnifer ag a bechasant yn ddiddeddf, a *gyfrgollir* hefyd yn ddiddeddf.” Yr ystyr hyn o'r gair sydd yn cynnwys “dinystr tragywyddol oddi ger bron yr Arglwydd, ac oddiwrth ogoniant ei gadernid ef”—cael ein damnio heb un gallu i ddyfod yn ol i ffafur Duw yw—cael ein tafu i'r “llyn sydd yn llosgi â thân a brwmstan, yr hon yw'r ail farwolaeth” yw—cael teimlo cnofeydd y pryf nad yw yn marw, llosgfeydd y tân nad yw yn diffodd, a phoenau diderfyn angau tragywyddol yw. Pob dyn wrth natur sydd yn agored i golledigaeth dragywyddol, gorph ac enaid. Ond trwy y maddeuant rhad a brynir trwy waed Iesu Grist, ac a dderbynir trwy ffydd, y mae efe yn cael ei wared, ac arno ef nid oes gan yr ail farwolaeth ddim gallu. Ond, yn—

2. Fe gaiff *fywyd tragywyddol*. Y bywyd hwn sydd gynnwysedig yn y “digonolrwydd o lawenydd sydd ger bron Duw,—y digrifwch sydd ar ei ddeheulaw yn dragywydd.” Hyn sydd yn cynnwys agosach a mwy cyflawn olwg o'r Iachawdwr—undeb agosach â Thad ein hyspryoedd. Pob rhwystr i wasanaethu Duw a symmudir—pob dymuniad da a gyflawnir—pob peth drwg a deflir allan o'r ffordd—yr enaid a gaiff ei lenwi â gwynfyd ac â dedwyddwch annhraethadwy, ac a gaiff ei gynnysgaeddu â “thragywyddol bwys gogoniant.”

Ystyriwn, yn—

IV. Y ffordd y mae i ni gael rhan yn y bendithion ag sydd yn deillio oddiwrth y rhodd hon.—“Felly y carodd Duw y byd, fel y rhoddodd efe ei unig-anedig Fab, fel na choller pwy bynnag a gredo ynddo ef, ond caffael o

hono fywyd tragywyddol." "Fel na *choller*" ni, ynte, ond fel y caffom fywyd tragywyddol—y mae *credu* yn hollol angenrheidiol. Nid yw *credu* na mwy na llai na *chymmeryd Duw ar ei air*.

1. Y mae yn rhaid i ni gredu yr hanes ag y mae Duw wedi roddi i ni am ddyn. A pha beth yw hynny? Wel, ei fod ef yn anwybodus, yn ddrygionus, yn llygr-edig, ac yn farw mewn pechodau; fod "y pen oll yn glwyfus, a'r holl galon yn llesg." Pan y deallom, y credom, ac y teimlom ni hyn, y mae yn darostwng ein hysprydoedd uchel, yn peri gwir edifeirwch yn y galon, ac yn ein cymhell i ffoi am noddfa oddiwrth y llid sydd ar ddyfod.

2. Y mae yn rhaid i ni gredu y dystiolaeth ag y mae Duw wedi roddi am ei Fab. A pheth yw hynny? Ei fod ef yn ogyfuwch â Duw—iddo ef gael ei "archolli am ein camweddau ni, a'i ddryllio am ein hanwireddau ni"—iddo "ddibenu camwedd, a gwneuthur cymmod dros anwiredd"—iddo foddloni dwyfol gyfiawnder—iddo gael ei wneuthur yn bech-aberth drosom—mewn gair, iddo ef drefnu ffordd o iechydwriaeth i bawb a gredant ynddo. Y mae yn rhaid fod parhad o'r ffydd hon—mae'n rhaid i ni barhau i gredu hyd nes y derbynion goron y gogoniant, yr hon sydd wedi ei pharottoi yn y nefoedd i bob gwir gredadyn.

Oddiwrth yr hyn a ddywedwyd, gwelwn, yn—

1. *Ddrwg pechod*. Y mae yn rhaid ei fod yn ddrwg mawr—yn beth chwerw neillduol, pan yr oedd yn gofyn y fath aberth—y fath ddioddefiadau i wneud iawn am ei gyflawniad; canys pe buasai Duw yn rhoi *mwy* nag oedd yn angenrheidiol, fe fuasai mor anaddas o'i ddoethineb a phe buasai yn rhoddi *rhy fach*. Os "rhoddodd Duw ei unig-anedig Fab," yr oedd yn

hollol angenrheidiol iddo wneuthur hynny, “fel na choller ni, ond caffael o honom fywyd tragywyddol.”

2. *Gwelwch werth yr enaid.* Nid yw y rhan fwyaf o ddynion yn meddwl ond ychydig am eu heneidiau; y corph sydd yn cymmeryd i fynu eu holl ofal hwy, tra mae'r enaid, mewn cymhariaeth i ba un nid yw yr holl fyd ond megis gronyn o dywod y môr, yn cael ei hollol esgeuluso ganddynt. Nid ydynt yn gofalu ond ychydig am yr enaid, er fod eu prynedigaeth wedi costio mor ddrud. Ewch i Bethlehem! Ymwelwch â Chalfaria! Gwelwch yr haul yn tywyllu, y beddau yn agoryd, y meini yn hollti, a'r ddaear yn crynu! Ac yn nioddef- iadau Mab Duw canfyddwch werth yr enaid, a dysg- wch ddywedyd,—“Pa leshad i ddy, os ynnill efe yr holl fyd, a *cholli ei enaid ei hun?* neu pa beth a rydd dyn yn gyfnewid am ei enaid?”

3. *Gwelwch gollfarniad pechaduriaid—eu condemniad.* Er yr hyn oll ag y mae Duw wedi wneuthur, y mae y rhan liosocaf o ddynolryw yn llygredig, yn ddrygionus, yn ddiotal am eu heneidiau, ac heb dalu na pharch nac ufudd-dod i Dduw na dyn! Ac, a oes *yma* neb mewn perygl o golli ei enaid am byth—mewn perygl o fyned o oleuni yr efengyl i dywyllwch uffern—o gael ei ddamnio ym mysg galwadau trugaredd, ac ymddangos- iad o gariad Dwyfol? Sicr yw na fydd cospedigaeth y cyfryw yn ysgafn! O! frodyr, gan ein bod wedi cael y fraint o ddarllen a gwrando geiriau'r testyn,—“Felly y carodd Duw y byd, fel y rhoddodd efe ei unig-anedig Fab, fel na choller pwy bynnag a gredo ynddo ef, ond caffael o hono fywyd tragywyddol;”—edrychwn na ddelont megis maen melin am ein gyddfau, i'n suddo i ddyfnderau colledigaeth, i oddef gwg a sorriant Duw dros oesoedd diderfyn tragywyddoldeb.

4. *Gwelwch yr annogaeth y mae yn roddi i'r rhai sydd yn ceisio yr Arglwydd mewn gwirionedd, y rhai sydd wedi blino ar wasanaeth y byd, pechod, a Satan. Y maent fel y mab afradlon, wedi dyfod attynt eu hunain, yn canfod eu cyflwr colledig. Y mae ystyriaeth o'u hanniolchgarwch a'u pechadurusrwydd yn peri iddynt waeddi allan,—“Amlach yw fy mhechodau na gwallt fy mhen!—yr wyf yn bechadur truenus!—yr wyf yn annheilwng o'r lleiaf o drugareddau Duw!” Hyn i gyd sydd wir; ac y mae yn wir hefyd fod Duw yn dy garu di—yn dy garu â chariad o dynerwch a thosturi, ac yn *anewyllysgar* i ti gael dy golli. O! cred dystiolaeth y nefoedd—cred y dystiolaeth a roddodd Duw am ei Fab—cred i Grist ddyfod i'r byd i geisio ac i gadw yr hyn a gollasid—i gadw pechaduriaid, y penaf o bechaduriaid! Derbyn y dystiolaeth hon; gafaela ynnddi â'th holl enaid. Dywed, “y mae yn haeddu pob derbyniad—y mae yn haeddu fy nerbyniad i.” A Duw a'th alluogo i gredu yn y fath fodd ag y byddo dy enaid fyw yn ddedwydd yn oes oesoedd. Amen.*

PREGETH X.

ESAIAH 26. 1.

**“Y DYDD HWNNW Y CENIR Y GAN HON YN NHIR JUDAH:
DINAS GADARN SYDD I NI; DUW A ESYD IACHAWDWRIAETH
YN GAERAU AC YN RHAGFUR.”**

Y MAE y prophwyd yn cyfeirio yn y geiriau hyn at ryw amser hynod, pan y mae yn dywedyd, “y dydd hwnnw,” sef dydd, ag oedd i fod yn nodedig am ddinystyr gelynion yr Eglwys, am iechydwrriaeth ei chyfeillion, ac am daeniad gogoneddus o'r efengyl trwy holl deyrnasoedd y byd. Hyn a allwch chwi weled yn y bennod flaenorol, lle y dywedir,—“Ac Arglwydd y lluoedd a wna i'r holl bobloedd yn y mynydd hwn wledd o basgedigion, gwledd o loyw-wîn; o basgedigion breision, a gloyw-wîn puredig. Ac efe a ddifa yn y mynydd hwn y gorchudd sydd yn gorchuddio yr holl bobloedd, a'r llen yr hon a daenwyd ar yr holl genhedloedd. Efe a lwngc angau mewn buddugoliaeth; a'r Arglwydd Dduw a sych ymaith ddaerau oddiar bob wyneb; ac efe a dyn ymaith warthrudd ei bobl oddiar yr holl ddaear: canys yr Arglwydd a'i llefarodd.” Ac yna y canlyn darluniad helaeth o ddistryw gelynion yr Eglwys, a'r bendithion oedd yng nghadw iddi,—“Y dydd hwnnw y cenir y gân hon.” A pheth yw sylwedd y gân? Dyma yw,—“Dinas gadarn sydd i ni; Duw a esyd iachawdwriaeth yn gaerau ac yn rhagfur.” A pha le y mae i gael ei

chanu? “Yn nhir Judah.” Fe’i canwyd pan y cyflawnwyd yr iachawdwriaeth fawr trwy offrymiad Crist ar y groes; ac yn ol i’r Iachawdwr adgyfodi, dywedodd wrth ei ddisgyblion,—“Ewch i’r holl fyd, a phregethwch yr efengyl i bob creadur.” Felly y newyddion da a gyhoeddwyd, a’r efengyl a bregethwyd yn gyntaf yn Jerusalem, a gafodd ei seinio allan trwy yr holl wledydd; ac y mae genym sylfaen dda i obeithio, er fod yr Iuddewon wedi eu taflu allan yn bresennol, y caiff y gân hon, mewn amser dyladwy, ei chanu yn eu plith *hwy*,—“Dinas gadarn sydd i ni; Duw a esyd iachawdwriaeth yn gaerau ac yn rhagfur.” Ond yn gymmaint a bod y bobl hynny wedi cael eu torri ymaith, ni a allwn gymhwyso y geiriau at eraill hefyd,—“Canys nid yr hwn sydd yn yr amlwg sydd Iuddew; ac nid enwaediad yw yr hyn sydd yn yr amlwg yn y cnawd: yr enwaediad ydym ni, y rhai ydym yn gwasanaethu Duw yn yr yspryd, ac yn gorfoleddu yng Nghrist Iesu, ac nid yn ymddiried yn y cnawd.”

Ni a welwn, ynte, fod y gân hon yn dyfod i lawr attom *ni*; a chwi a ellwch ei chanu, y rhai ydych yn trigo yn Sion ysprydol Duw.

Gadewch i ni, ynte, ystyried, yn—

I. *Y darluniad cysgodol a roddir yma o’r Eglwys.*

II. *Ei mawr ddiogelwch.*

III. *Pa fodd y mae i ni gael sicrwydd Ysgrythyrol fod genym ni hawl bersonol yn ninas y Brenin mawr.*

I. Ystyriwn y darluniad cysgodol a roddir yma o’r Eglwys. Y mae yn cael ei chyffelybu i “ddinas.” “Dinas” yw, “dinas gadarn.”

I. Y mae yn “ddinas.” Oddiwrth ba ddarluniad neu gyffelybiaeth y tardda y tri pheth mewn perthynas iddi, sef ei helaethrwydd, ei threfn, a’i harddwch.

1. *Ei helaethrwydd.* Nid teulu, neu bentref, neu randir, neu dref wladol fechan, yw yr Eglwys; nagê, ond "dinas," i.e., dinas helaeth. Y mae yn cynnwys fel ei thrigolion, yr holl dduwiolion yn y nef ac ar y ddaear. Mesurau y ddinas hon ydynt y cyfryw ag sydd yn cyttuno â mawr amcanion y Tad, gwerth-fawrawgrwydd aberth y Mab, ac amrywiol ddylanwadau yr Yspryd Glân. Y mae y ddinas a sonir am dani yma yn debyg iawn i'r ddinas fry, yn yr hon y dywedir fod "tyrfa fawr, yr hon ni all neb ei rhifo," yn preswyllo yn nhŷ eu Tad, ym mha un "y mae llawer o drigfanau."

2. *Ei threfn.* Ni pharhaodd un ddinas erioed yn flodeuog yn hir heb reolaeth a threfn. Crist yw Brenin y ddinas hon, ac y mae efe yn sefydlu ei gyfreithiau ynddi. Psalm 2. 6. "Minnau a osodais fy Mrenin ar Sion fy mynydd sanctaidd." Ac etto, Esaiah 33. 22. "Yr Arglwydd yw ein barnwr, yr Arglwydd yw ein deddfwr, yr Arglwydd yw ein brenin." Yn awr, "nid yw Duw awdwr anghydfod, ond tangnefedd; gan hynny, cyfraith ei deyrnas yw,—“Gwneler pob peth yn weddaidd ac *mewn trefn.*”

3. Y mae'r ymadrodd hefyd yn dal allan ei *harddwch*. "Tegwch bro, llawenydd yr holl ddaear," medd y Psalmydd, "yw mynydd Sion, dinas y Brenin mawr." Gwir yw, nad ydym i edrych am harddwch ac ardderchogrwydd yr Eglwys yn ei gwychder a'i glendid *allanol*, eithr yn ei sancteiddrwydd, yn ei hegwyddorion a'i hymarferiad sanctaidd, yn ei phurdeb, ei gwirionedd, a'i duwioldeb; canys "Merch y Brenin sydd oll yn ogoneddus *o fewn.*" Ac etto,—“Chwi yw goleuni y byd. Dinas a osodir ar fryn, ni ellir ei chuddio. Llewyrched felly eich goleuni ger bron dynion, fel y

gwelont eich gweithredoedd da chwi, ac y gogoneddont eich Tad yr hwn sydd yn y nefoedd.”

2. Y mae i'r ddinas hon *enw* rhagorol,—“dinas gadarn” yw hi. A hyn a ymddengys, os ystyriwn, yn—

1. *Y sylfaen ar ba un y mae yn gorphwys*, sef “Iesu Grist, yr hwn sydd ddoe a heddyw yr un, ac yn dragwydd.” Yr Arglwydd, yn llefaru trwy y prophwyd Eisaiah, a ddywed,—“Wele fi yn sylfaenu maen yn Sion, maen profedig, cangl-faen gwerthfawr, sylfaen safadwy; ni frysia yr hwn a gredo.” Yn awr, er mwyn dangos i chwi ein bod yn esponio yr adnod hon yn iawn, pan yr ydym yn ei chymhwysio at yr Arglwydd Iesu Grist, gwrandewch beth a ddywed Pedr, 1 Pedr 2. 4—6. “At yr hwn yr ydych yn dyfod, megis at faen bywiol, a wrthodwyd gan ddynion, eithr etholedig gan Dduw, a gwerthfawr: a chwithau megis meini bywiol, ydych wedi eich adeiladu yn dŷ ysprydol, yn offeiriadaeth sanctaidd, i offrymmu aberthau ysprydol, cymmeradwy gan Dduw trwy Iesu Grist. O herwydd paham y *cynhwysir yn yr Ysgrythyr*, Wele, yr wyf yn gosod yn Sion ben-congl-faen, etholedig a gwerthfawr: a'r hwn a gred ynddo, nis gwaradwyddir.” Ac yn gyfiawn y gellir galw y ddinas honno yn gadarn, yr hon sydd yn cael ei hadeiladu ar allu, athrawiaethau, a haeddiant yr Arglwydd Iesu Grist. “Ar y graig hon yr adeiladaf fy Eglwys; a phyrth uffern nis gorchfygant hi;” a'r graig a grybwyllir yma yw yr Arglwydd Iesu Grist ei hun.

2. Y mae y ddinas hon yn *gadarn*, os ystyriwn yr *ymgeledd y mae yn fwynhau*. Y mae Duw ei hun yn preswyllo yn y ddinas hon, a'i bresennoldeb *ef* yw ein hamddiffynfa ni. Ei holl briodoliaethau, ei berffeith-

iadau, a'i addewidion, ydynt yn gyssylltiedig â'r diogelwch hwn. A ydyw yr Eglwys yn cael ei chymharu i *winllan*? "Myfi yr Arglwydd a'i ceidw; ar bob moment y dyfrhaf hi: cadwaf hi nos a dydd, rhag i neb ei drygu." Pan y cafodd gweinidog Eliseus ei lenwi â dychryn o herwydd y llu arfog ag oedd yn amgylchynu ei feistr, i'r diben o'i gymmeryd yn garcharor, ac y llefodd allan mewn ofn, "Aha, fy meistr, pa fodd y gwnawn ni?" Y prophwyd a ddywedodd wrtho, "Nac ofna; canys amlach yw y rhai sydd gyda ni na'r rhai sydd gyda hwynt. Ac Eliseus a weddiodd, ac a ddywedodd, O Arglwydd, agor, attolwg, ei lygaid, fel y gwelo. A'r Arglwydd a agorodd lygaid y llanc; ac efe a edrychodd; ac wele, y mynydd yn llawn meirch a cherbydau tanllyd o amgylch Eliseus." 2 Bren. 6. 15—17. Dyma lle yr oedd ymgeledd i berson y gwr duwiol; Duw ei hun a'i hamddiffynodd ef â meirch ac â cherbydau tanllyd rhag ei elynion. Ac yn wir y mae gwarchawdlu anweledig o angylion yn amgylchynu ac yn amddiffyn pob gwir gredadyn, nos a dydd, pa le bynnag y byddo. O! oes; canys gwrandewch beth a ddywed yr Ysgrhythyr,—“Onid ysprydion gwasanaethgar ydynt hwy oll,” sef yr angylion, “wedi eu danfon i wasanaethu er mwyn y rhai a gânt etifeddu iachawdwriaeth?” Ac etto, “*Angel yr Arglwydd a gastella o amgylch y rhai a'i hofnant ef, ac a'u gwared hwynt.*” Ewch lle y mynnoch, ynte, os ydych yn dduwiolion, chwi a gewch Arglwydd y lluoedd yn ymgeledd i chwi. Fel hyn y dywed y Psalmydd,—“Duw sydd noddfa a nerth i mi; cymmorth hawdd ei gael mewn cyfyngder.” “Y mae Arglwydd y lluoedd gyda ni; ymddiffyna i ni yw Duw Jacob.” “Dinas gadarn sydd i ni.”

3. "Dinas gadarn" yw, os ystyriwn yr *egwyddorion trwy ba rai y mae ei hundeb yn cael ei gysylltu*. Yn iawn y dywedir fod undeb yn gryfder. Yr undeb sydd rhwng aelodau y ddinas sydd mor gadarn fel nas gall un gallu daearol ei ddattod. Yr egwyddorion trwy ba rai y mae aelodau eglwys Crist yn cael eu huno ydynt y rhai canlynol, sef, gwirionedd a chariad. Yn gyntaf, *gwirionedd*; i.e., anffaeledig a diysgog wirionedd Duw. "Pob cnawd sydd wellt, medd Esaiiah, "a'i holl odid-awgrwydd fel blodeuyn y maes. Gwywa y gwelltyn, syrth y blodeuyn; ond *gair* ein Duw ni a saif byth." A thyma y *gair* a bregethwyd i chwi. Gwrandewch, ynte, beth y mae yr apostol Ioan yn ddywedyd wrth ysgrifenu at yr etholedig arglwyddes, a'i phlant,—“Yr henuriad at yr etholedig arglwyddes, a'i phlant, y rhai yr wyf fi yn eu caru yn y *gwirionedd*; ac nid myfi yn unig, ond pawb hefyd a adnabuant y gwirionedd, yr hwn sydd yn aros ynom ni, ac a fydd gyda ni yn dragwydd.”

Y mae egwyddor arall, etto, yr hon sydd yn rhwymo credinwyr ynghyd, sef, *chariad cristionogol*; a thyma y cwlwm cryfaf o bob cylymau. Pan y gweloch, ynte, ddynion ag sydd wedi bod am hir flynyddoedd yn addoli yn yr un deml, yn gwasanaethu yr un Arglwydd, ac yn ymborthi wrth yr un bwrdd sanctaidd, yn anfoddlawn i ymadael â'u gilydd, na ryfeddwch. Paham, meddech chwi? Wel, dyma paham, o herwydd eu bod wedi eu rhwymo ynghyd yng nghwlwm y gwirionedd, a chariad cristionogol. Fe ddichon i rwymyn y rhai sydd yn cael eu huno ynghyd trwy elw a chariad bydol gael ei ddattod yn fuan, eithr y gadwyn efengylaidd, yr hon sydd yn cyssylltu gwir gristionogion ynghyd, sydd gadarn ac annatodol.

4. "Dinas gadarn sydd i ni," os ystyriwn *ei bod wedi dala i fynu yn erbyn yr holl ymosodiadau a wnawd i'w herbyn*. Nis gwyddom ni ddim beth yw cryfder un peth hyd nes y delom i'w brofi. Yr Eglwys sydd wedi bod yn agored i wrthwynebiadau daear, a ffyrnig- rwydd uffern. Y mae pob math o ymdrechadau wedi, ac yn cael eu gwneuthur i'w dinystrio; ond er gwaethaf yr holl dymhestloedd sydd wedi curo arni, y mae yn sefyll i fynu etto, a hi a saif, er gwaethaf ei holl elynion, hyd nes y gorphenir yr adeiladaeth, ac y "dygir allan y maen penaf," neu uchaf, "gan waeddi, rhad, rhad iddo."

Sylwn, yn—

II. *Ar fawr ddiogelwch yr Eglwys*. Od oes yma ryw rai yn gofyn pa fodd yr ydym yn gwybod y parha y ddinas hon, ac y caiff ei hachosion eu dwyn yn y blaen, hyd nes y cyrhaeddo y gradd uchaf o ogoniant? Yr ydym yn ateb,—o herwydd "Duw a esyd iachawdwriaeth yn gaerau ac yn rhagfur" iddi. Y mae hyn yn dal allan elyniaeth, yn dwyn i'ch sylw y moddion amddiffynol, ac yn arwyddocau diweddedd gogoneddus.

1. Y mae yn dal allan fod i'r ddinas hon elynion. Y mae y caerau a'r rhagfur yn arwyddocau hynny. Y mae gelynyon wedi bod i Eglwys Crist ym mhob oes, ac fe fydd gelynyon iddi yn wastadol. Ond moliant i'r nefoedd, y mae, yn—

2. Foddion *amddiffynol* wedi cael eu parottoi yn helaeth. Y mae un gair cynnwysfawr neillduol yn y testyn; sef, *iachawdwriaeth*. Nid yn unig *diogelwch*, ond *iachawdwriaeth*; a'r iachawdwriaeth hon sydd yn cael ei sicrhau trwy arfaeth achubol Duw, trwy haeddiant achubol yr Arglwydd Iesu Grist, a'i eiriolaeth o fewn y llen, a thrwy ddylanwadau yr Yspryd Glân. Y mae

yn cael ei sicrhau trwy air ei wirionedd, trwy ei ddoniau a'i rasmusau, trwy ei weinidogion, a thrwy ei holl ordinhadau. "Duw a esyd *iachawdwriaeth* yn gaerau ac yn rhagfur."

3. Y mae yn arwyddo diwedd neu derfyn gogoneddus. Y moddion hyn a fyddant yn effeithiol. Yr amrywiol elynion ag sydd yn codi i fynu yn erbyn yr Eglwys a gânt, nid yn unig eu gorchfygu, ond fe orfydd arnynt fod yn dystion o'i buddugoliaeth, pan galwo ei Harglwydd hi i osod ei thraed ar yddfau ei gelynyon; ac i sylwi ar ei gorfoledd pan clywir llef "megis llef tyrfa fawr, ac megis llef dyfroedd lawer, ac megis llef taranau cryfion yn dywedyd, Aleluia; oblegid teyrnasodd yr Arglwydd Dduw Hollalluog."

Gadewch i ni holi, yn—

III *Pa fodd y mae i ni gael sicrwydd ysgrythyrol fod genym ni hawl bersonol yn ninas y Brenin mawr.*—Canys "y dydd hwnnw y cenir y gân hon, Dinas gadarn sydd i ni.

Nid yw yn ddigon, cofiwch, fy mod i yn pregethu, a chwithau yn gwranddo, mewn perthynas iddi; ond y mae o'r pwys mwyaf i ni bawb, gael *hawl bersonol* yn holl ddiogelwch a gwynfyd y "ddinas gadarn." A hyn a allwch chwi gael, yn—

1. *Os ydych wedi dewis Iesu Grist megis sylfaen eich hymddiried am iechydwriaeth.* Y mae yn rhaid i bob dyn ag sydd ym meddwl dim, ystyried ei fod yn teithio yn gyflym o fyd o amser tua'r byd tragwyddol. Yn awr y mae llawer yn adeiladu am ddiogelwch ar y tywod—ar eu daioni eu hunain. O! meddai y cyfryw ddynion, nid ydym ni ddim llawer *gwaeth* nag *eraill*; ac, yn wir, yr ydym yn llawer *gwell* na *rhai* o'n cymmydogion. Felly y maent hwy yn ymddiried yn eu

cyfiawnder eu *hunain*, yn lle cyfiawnder *Iesu*, pen mawr yr Eglwys. Ond os ydych wedi dewis Crist megis gwrthddrych eich gobaith am y nefoedd—os ydych wedi credu yn wirioneddol ynddo ef—os efe yw eich hyder, eich llawenydd, eich oll yn oll, yna chwi a allwch ddywedyd, “Dinas gadarn sydd i ni.” Canys od oes genych hawl yn y sylfaen, y mae genych hefyd hawl yn yr adeiladaeth.

2. Nôd arall o’ch diogelwch yw, *os ydych wedi uno yn weledig â thrigolion y ddinas hon*. Y mae yn ddrwg genyf ddywedyd fod llawer o’r rhai yr wyf yn llefaru wrth-ynt *heb* uno yn weledig â phreswylwyr y “ddinas gadarn.” Chwi a ddylech uno yn weledig â phobl Dduw; dylech ddangos yn *eghur* eich bod yn ceisio gwlad well.” Chwi a ddylech “*gyfaddef* mai dieithriaid a phërerinion ydych ar y ddaear;”—dylech ddyfod allan o blith pobl y byd, a’ch cael ym mhlith y rhai sydd yn trigo yn Jerusalem, fel y galloch gael eich cydnabod yn feibion ac yn ferched i’r Arglwydd hollalluog, a bod yn gyfranogion o holl fendithion a rhagorfreintiau y ddinas ysprydol. Y mae llawer nad ydynt yn rhoddi digon o bwys ar yr *undeb hwn*; y maent yn ymfoddloni gwersyllu o’r *tu allan* i’r muriau a’r caerâu, yn lle dyfod *i mewn* i’r “ddinas gadarn.” Ond “agorwch y pyrth, fel y dêl y genedl gyfiawn *i mewn*, yr hon a geidw wirionedd.” Yn awr, os ydych *wedi* dyfod i mewn, ac wedi dywedyd, “Trwyddo ef y mae i ni ein dau ddyfodfa mewn un Yspryd at y Tad;” yna y gellir dywedyd am danoch, “Weithian, gan hynny, nid ydych chwi mwyach yn ddieithriaid a dyfodiaid, ond yn *gyd-ddinasyddion* â’r saint, ac yn *deulu* Duw; wedi eich *goruwch-adeiladu ar sail* yr apostolion a’r prophwydi, ac *Iesu Grist ei hun* yn ben congl-faen. *Yn yr hwn y*

mae yr holl adeilad wedi ei chymmwys gyd-gyssylltu, yn cynnyddu yn deml sanctaidd yn yr Arglwydd: yn yr hwn y'ch *cyd-adeiladwyd chwihau* yn breswylfod i Dduw trwy yr Yspryd." Eph. 2. 18—22.

3. *Os ydych yn dwyn nodau amlwg dinasyddion Sion.* Canys cofiwch nad ydyw yn ddigon i chwi broffesu eich ymddiried yng Nghrist, a'ch bod wedi eich corphori yn weledig â phobl Dduw yn unig; ond y mae yn rhaid i chwi hefyd ddwyn nodau y rhai sydd mewn gwirionedd yn ddinasyddion y Jerusalem ysprydol. Os ydych yn gofyn i mi beth yw y nodau hynny, yr ydwyf yn ateb yng ngeiriau yr Ysgrythyr; ac yn wir y mae ychydig o eiriau yr Ysgrythyr yn well na llawer o resymau dynol. Psalm. 15. "Arglwydd, pwy a drig yn dy babell? pwy a breswylia ym mynydd dy sancteiddrwydd? Yr hwn a rodia yn berffaith, ac a wnel gyf-iawnder, ac a ddywed wir yn ei galon: heb absennu â'i dafod, heb wneuthur drwg, i'w gymmydog, ac heb dderbyn enllib yn erbyn ei gymmydog. Yr hwn y mae'r drygionus yn ddirmygus yn ei olwg; ond a anrhydedda y rhai a ofnant yr Arglwydd: yr hwn a dwng i'w niweid ei hun, ac ni newidia. Yr hwn ni roddes ei arian ar usuriaeth, ac ni chymmer wobr yn erbyn y gwirion. *A wnelo hyn, nid ysgogir yn dragywydd.*" Ac os trwy ddwyfol ras y galluogwyd chwi i wneuthur hyn, chwi a ellwch ddywedyd, "Dinas gadarn sydd i ni;" canys "wrth eu ffrwythau yr adnabyddwch hwynt." Wrth ddiweddu, erfyniaf arnoch,—

1. *I fod yn ddiolchgar i Dduw, yr hwn sydd wedi parottoi y fath noddfa i chwi.* "Dinas gadarn sydd i ni; Duw a esyd iachawdwriaeth yn gaerau ac yn rhagfur." Yno y cyrchaf fi ym mhlith holl gyfnewidiadau y byd twyllodrus hwn.

2. Goddefwch i mi eich gwahodd i ddyfod i mewn i'r ddinas hon. A ydych yn ofalus am ddiogelwch, am fendithion i'ch eneidiau, ac am ddedwyddwch tragwyddol? Yna deuwch i mewn i'r ddinas noddfa hon. Deuwch *yn awr!* Yn awr, cyn yr elo y gorchymmyn allan, "Tor ef i lawr!" "Y mae etto le,"—lle i bawb—i bawb a ddeuant trwy Grist, y "ffordd newydd a bywiol," i drigfanau o dangnefedd, purdeb, a llawenydd. "Deuwch," canys "y mae pob peth yn barod;" mae drws y nefoedd yn agored—mae gwahoddiad wedi myned allan—cymhellir chwi i ddyfod,—“Deuwch attaf fi bawb a'r y sydd yn flinderog ac yn llwythog, a mi a esmwythaf arnoch.”—“A'r hwn a ddêl attaf fi, nis bwriaf ef allan ddim.”—“Yr hwn sydd a syched arno, deued; a'r hwn sydd yn ewyllysio, cymmered ddwfr y bywyd yn rhad, heb arian ac heb werth.”

3. Bydded i ni roddi heibio bob ofnau, pan yr elom unwaith i mewn i'r ddinas hon; i'e, yn hytrach “caned preswylwyr y graig.” Y mae rhai dynion yn barod iawn i waeddi allan, os coda rhyw gwmmwl bach, fod yr Eglwys mewn perygl! Nid ydwyf yn canfod un perygl, tra y mae ei Phen mawr yn dywedyd, “Wele, ar gleidr fy nwyllaw y'th argreffais; dy furiau sydd ger fy mron bob amser.” Perygl! Pa le y mae y perygl, tra y mae *efe* yn byw, yr hwn sydd wedi ymrwymo i'w chadw, ac i osod ei haelodau “ger bron ei ogoniant ef yn ddifeius mewn gorfoledd?” Pa le y mae y perygl, tra mae *efe* yn teyrnasu, yr hwn sydd ganddo bob awdurdod yn y nef ac ar y ddaear; a thra y cenir y gân hon, “Aleluia! oblegid teyrnasodd yr Arglwydd Dduw Hollalluog?” “Credwch yn unig.” Pe byddai mwy o *ffydd*, fe fyddai llai o *ofn*. Rhoddwn ein holl ofnau i'r gwynt, ynte, a chanwn, “Dinas gadarn sydd i ni;

Duw a esyd iachawdwriaeth yn gaerau ac yn rhagfur.”
Ac yn—

4. *Ymdrechuch ddwyn cymmaint ag a alloch i fod yn breswylwyr y Sion honno, rhagorfreintiau a bendithion pa un yr ydych chwi yn fwynhau.* Os byddwch yn offerynol i gyfarwyddo ond un o'ch cyd-bechaduriaid at yr Iachawdwr, fe fydd genych achos i lawenhau na fuoch fyw yn ofer. O! ymegniwch, ynte, i ddwyn pechaduriaid at Iesu. O! cyfeiriwch hwynt at “Oen Duw, yr hwn sydd yn tynnu ymaith bechodau'r byd.” Gweddiwch am droedigaeth holl deyrnasoedd y ddaear, a'u dyfodiad i mewn i'r “ddinas gadarn” hon, fel y caffont ran yn ei bendithion, ac yr unont yn y gân hon a genir ynddi am byth,—“Iachawdwriaeth i'n Duw ni, yr hwn sydd yn eistedd ar yr orsedd-faingc, ac i'r Oen.” “Y dydd hwnnw y cenir y gân hon,—Dinas gadarn sydd i ni; Duw a esyd iachawdwriaeth yn gaerau ac yn rhagfur.” “Am hynny diddenwch eich gilydd â'r ymadroddion hyn.”

PREGETH XI.

I COR. 13. 9, 10.

“CANYS O RAN Y GWYDDOM, AC O RAN YR YDYM YN PROPHWYDO. EITHR PAN DDELO YR HYN SYDD BERFFAITH, YNA YR HYN SYDD O RAN A DDILEIR.”

Y MAE yn hawdd i ni feddwl fod amgylchiadau yn y prif Eglwysi ag oeddynt yn gofyn holl ddoethineb yr Apostolion; felly yr ydoedd yn Eglwys Corinth. Yr oedd St. Paul wedi bod yn offerynol i blannu Eglwys flodeuog iawn yno; ond nid oedd wedi ymadael â hwynt yn hir cyn i ymraniadau dorri allan yn eu plith. Rhai oeddynt yn dewis Paul, ac eraill Apolos; a diben Paul yn ysgrifenu yr epistol hwn oedd, i gyweirio a therfynu yr ymraniadau a'r ymbleidiau hynny. Y mae efe yn arferyd ei awdurdod fel Apostol; yn chwilio i mewn i honiadau y rhai oeddynt wedi peri y rhaniadau yn eu mysg; ac y mae yn myned yn y blaen i ddangos natur doniau ysprydol, i ba ddibenion y dylent gael eu harferyd, a'r unig ffordd y gallent fod yn ddefnyddiol i'r Eglwys. Ac wedi dangos fod cariad, hynny yw, serch tuag at Dduw a dyn, yn fwy perffaith, ac yn rhagori ar bob dawn arall, y mae efe yn cymharu y doniau darfodedig â'r ddawn sydd barhaus. “Cariad byth ni chwymp ymaith,” medd ef; “eithr pa un bynnag ai prophwydoliaethau, hwy a ballant; ai tafodau, hwy a beidiant; ai gwybodaeth, hi a ddiffana. Canys o ran y gwyddom, ac o ran yr ydym yn pro-

phwydo. Eithr pan ddelo yr hyn sydd berffaith, yna yr hyn sydd o ran a ddileir.”

Tra y byddwyf fi yn sylwi ar y geiriau hyn, O! holwch chwithau eich hunain, frodyr, pa hawl sydd genych yn y wlad honno ag y mae yr Apostol yn ddisgwyl mor hyderus yma.

Y mae y testyn yn cynnwys, yn gyntaf, *gyfaddefiad o ddiffyg presennol*; ac, yn ail, *disgwyliad o berffeithrwydd rhagllaw*.

I. *Cyfaddefiad o ddiffyg presennol*. “O ran y gwyddom, ac o ran yr ydym yn prophwydo.” Yma yr ydym i sylwi ar y doniau a grybwyllir, amherffeithrwydd y doniau hynny, a’r rhesymau paham y maent hwy felly.

1. Y doniau a grybwyllir,—“gwyddom.” Y wybodaeth at ba un y mae yr Apostol yn cyfeirio yma yw, gwybodaeth anghyffredin, effaith dylanwadau goruwch-naturiol, ac nid yr hyn a gyrhaeddir trwy y ffordd gyffredin o ddysgu. Yn y bennod flaenorol y mae yn dywedyd,—“Eglurhad yr Yspryd a roddir i bob un er lleshad. Canys i un, trwy yr Yspryd, y rhoddir ymadrodd doethineb; ac i arall, ymadrodd *gwybodaeth*, trwy yr un Yspryd; ac i arall ffydd, trwy yr un Yspryd; ac i arall ddawn i iachau, trwy yr un Yspryd; ac i arall, wneuthur gwyrthiau; ac i arall, brophwydoliaeth; ac i arall, wahaniaeth ysprydoedd; ac i arall, amryw dafodau; ac i arall, gyfieithad tafodau. A’r holl bethau hyn y mae yr un a’r unrhyw Yspryd yn eu gweithredu, gan rannu i bob un o’r neilldu megis y mae yn ewyllsio.” Chwi a ganfyddwch fod *gwybodaeth* yn cael ei rhesu yma gyda doniau goruwch-naturiol yr Yspryd. Ac yn hyn y cynnwysid y ddawn o siarad amryw ieithoedd, fel y dysgwn oddiwrth y bedwaredd bennod ar ddeg. Dynion anllythyrenog oedd y rhan fwyaf o’r

Apostolion, gan hynny hwy a gawsant oll eu cynnysg-aeddu â'r ddysgeidiaeth uchel a gogoneddus honno, trwy ba un eu galluogid i fyned allan "i'r holl fyd, a phregethu yr efengyl i bob creadur." Ac o herwydd hynny, ni a glywn un o'r penaf o honynt yn dywedyd, —"Ni a dderbyniasom, nid yspryd y byd, ond yr Ys-
 pryd sydd o Dduw; fel y gwypom y pethau a rad-
 roddwyd i ni gan Dduw. Y rhai yr ydym yn eu
 llefaru hefyd, nid â'r geiriau a ddysgir gan ddoethineb
 dynol, ond a ddysgir gan yr Yspryd Glân; gan gyd-
 farnu pethau ysprydol â phethau ysprydol." 1 Cor. 2.
 12, 13.

Mewn cyssylltiad â dawn "gwybodaeth," y mae yr Apostol yn son am ddawn "prophwydoliaeth." Y mae y ddawn hon yn cynnwys llawer iawn. Weithiau y mae y gair yn arwyddocau gallu i ragfynegi pethau i ddyfod; fel y dywedir yn Mat. 11. 13. "Canys yr holl brophwydi a'r gyfraith a brophwydasant"—hynny yw, a ragfynegasant bethau i ddyfod—"hyd Ioan." Y mae yn arwyddocau hefyd moliannu Duw trwy Ddwyfol ysprydoliaeth; fel y darllenwn am Zacharias, tad Ioan Fedyddiwr, yr hwn a "gyflawnwyd o'r Yspryd Glân, ac a brophwydodd, gan ddywedyd, Bendigedig fyddo Arglwydd Dduw Israel: canys efe a ymwelodd ac a wnaeth ymwared i'w bobl," &c. Mewn manau eraill o'r Ysgrythyr, y mae y gair yn arwyddocau gallu i ddysgu athrawiaethau yr efengyl trwy ddylanwadau Yspryd Duw. Hyn yw ei ystyr ef yma. Y mae'r gair *prophwydoliaeth* o'r un ystyr yma a'r gair *dysgu*. Yr oedd yr Apostolion wedi eu hysprydoli—yr oeddynt wedi eu dysgu gan Dduw beth i lefaru. "Gan wybod hyn yn gyntaf," medd Pedr, "nad oes un brophwydoliaeth o'r Ysgrythyr o ddehongliad priod. Canys nid

trwy ewyllys dyn y daeth gynt brophwydoliaeth : eithr *dynion sanctaidd Duw a lefarasant megis y cynhyrfwyd hwy gan yr Yspryd Glân.*"

Wedi dywedyd ychydig fel hyn am y doniau a grybwyllir, sylwn, yn—

2. Ar eu *hamherffeithrwydd*. "O *ran* y gwyddom, ac o *ran* yr ydym yn prophwydo." Nid oedd y wybodaeth na'r brophwydoliaeth yn gyflawn. Ni roddodd Yspryd Duw erioed lawn eglurhad o'i holl ddadguddiadau. Nid wyddai hyd yn nod yr Apostolion eu hunain yr hyn oll ag oedd yn ddichonadwy i'w wybod am Iesu Grist. St. Paul, tra y mae yn hyspysu mor fawr oedd ei wybodaeth am Grist, sydd yn dywedyd,—“Ië, yn ddiammau, yr wyf hefyd yn cyfrif pob peth yn golled,—*fel* yr adnabyddwyf ef,—nid fel pe bawn *wedi* ei gyrhaeddyd eisoes, neu fod eisoes *wedi fy mherffeithio*.” Y mae yn amlwg, ynte, fod gwybodaeth yr Apostolion yn ammherffaith ; ac fel ag yr oedd y *wybodaeth* yn ammherffaith, felly yr oedd y *brophwydoliaeth*. Gwir yw i St. Paul ddywedyd wrth eglwys Ephesus, nad oedd efe wedi ymattal rhag mynegi iddynt “holl gynghor Duw.” Ond wrth hynny yr ydym i ddeall iddo fynegi iddynt yr hyn oll ag oedd yn angenrheidiol a buddiol, ac nid yr hyn oll ag oedd yn wirioneddol yn bod ; canys y mae yn annichonadwy i dafodau dynion ac angyllion byth fynegi yr hyn oll a ellid ddywedyd am ddoethineb, gallu, gras, a gogoniant yr Arglwydd Iesu Grist. Yr Apostol a ganfyddodd ei fod yn sefyll ar lan môr mawr diderfyn, a gwaeddodd allan mewn syndod,—“O ! ddyfnder golud doethineb a gwybodaeth Duw ! Mor anchwiliadwy yw ei farnau ef ! A'i ffyrdd mor anolrheinadwy ydynt !” Ac yng ngeiriau y testyn, “O *ran* y gwyddom, ac o *ran* yr ydym yn prophwydo.”

Y mae, fy mrodyr, yr un amherffeithrwydd yn glynu yn gryf wrthym ninau. Y mae yn rhaid i'r Cristion mwyaf goleu—y dyn sydd wedi meddwl mwyaf am y pethau a berthynant i'w iechydwriaeth—yr hwn sydd wedi codi uchaf uwchlaw swm a mwg y byd hwn, y mae yn rhaid, hyd yn nod iddo ef, ddywedyd, “O *ran* yr ydwyf yn gwybod, ac o *ran* yr ydwyf yn prophwydo,” neu yn dysgu. Ystyriwch, frodyr, beth a wyddoch chwi am Dduw, am ei lywodraeth, am ei ragfwriadau, ac am gynghorion ei ewyllys, a chyssylltiad y rhai hyn â'i weithredoedd, ac yna chwi a welwch mor amherffaith yw eich gwybodaeth. Meddyliwch beth a wyddoch am Grist megis Cyfryngwr, am gyflawn newidiad yr enaid i'w ddelw sanctaidd, am gospedigaeth yr annuwiol rhagllaw, am ddedwyddwch y nefoedd, ac am drueni uffern. Y mae genych, digon gwir, wirioneddau i'w credu, ond nis gallwch amgyffred eu llawnder; yr ydych yn astudio, yn myfyrio, yn darllen, ac yn chwilio; ond wedi y cwbl yr ydych yn gorfod cyffesu, mai “O *ran* yr ydych yn gwybod, ac o *ran* yr ydych yn prophwydo,” neu yn dysgu. Tra y byddom ni yma ar y ddaear, y mae yn rhaid i ni ymfoddloni gweled trwy ddrych, ac i amgyffred megis mewn dammeg. Nis gallwn sefyll ond megis ar drothwy y deml yn awr; yn y byd a ddaw y caiff y llen ei rhwygo, y caiff y cyssegr sancteiddiolaf ei agoryd i'n golwg, a'r tân sydd yn llosgi ar yr allor aur ei amlygu i ni. Yn nhragywyddoldeb y mae i ni edrych am berffeithrwydd. Yn bresennol y mae yn rhaid i ni fod yn foddllawn i ddywedyd,—“O *ran* y gwyddom, ac o *ran* yr ydym yn prophwydo.”

3. Sylwn ychydig ar y rhesymau paham y mae doniau yma yn amherffaith. Paham yr ydym ni

yn gwybod ond mewn rhan yn unig yn y bywyd hwn?

1. O herwydd *halogrwydd moesol dyn*. Ein pechadurusrwydd yw yr achos ein bod yn gwybod mor lleied Y rhai mwyaf pechadurus ydynt bob amser y rhai mwyaf anwybodus mewn pethau ysprydol. Adda, trwy droseddu, a gollodd lawer o'i wybodaeth; ac yn ol y gradd y cynnyddodd pechod, yr ychwanegodd anwybodaeth. Erbyn amser Noah yr oedd y byd yn llawn o anwybodaeth, halogrwydd, a phechod. Pechod sydd yn rhwymo ein meddyliau i lawr wrth yr hen ddaear yma, yn ein rhwystro i ddyrchafu ein calonau at Dduw, ac yn ein lluddias rhag cyrhaeddyd gwybodaeth bur ac uchel mewn pethau crefyddol. Felly y mae yn rhaid i ni gyfaddef, mai melldith pechod ydyw yr achos ein bod yn gorfod dywedyd,—“O *ran* y gwyddom.”

2. Yr achos arall yw *gwendid dealldwriaeth dyn*. Y mae llawer o bethau mewn gwybodaeth Ddwyfol nad oes genym ni allu i ddeall. Pe byddem yn gallu codi uwchlaw effaith halogrwydd moesol, etto fe fyddai genym achos i ddywedyd gyda'r Psalmydd,—“Dyma wybodaeth ry ryfedd i mi: uchel yw, ni fedraf oddi wrthi;” neu yng ngeiriau y testyn,—“O *ran* y gwyddom, ac o *ran* yr ydym yn prophwydo.”

Yn awr, nid ydym yn gofyn i chwi a ellwch chwi arferyd iaith y testyn, canys ni a wyddom *y gallwch*; ond yr ydym yn gofyn, Beth a wyddoch chwi? A ydych chwi yn gwybod rhyw beth? Neu, A oes yma ryw rai etto yn hollol anwybodus?—etto yn gorwedd yn eu pechodau?—etto yn anianol, ac heb dderbyn yr Yspryd Glân? O! cofiwch, bawb, os nad oes genych Yspryd Crist, nad ydych yn eiddo ef. Heb yr Yspryd

chwi a fyddwch byw mewn anwybodaeth nes byddoch farw; ac yna chwi a gyrhaeddwch y wlad honno lle nad oes dim ond tywyllwch ac anobaith ynnddi am byth! O! ynte, frodyr, ymdrechwch am gael y fath gyfran o wybodaeth nefol ag a'ch galluogo i ddywedyd gyda St. Paul,—“Mi a wn i bwy y credais; ac y mae yn ddiammau genyf ei fod ef yn abl i gadw yr hyn a roddes atto erbyn y dydd hwnnw.” 2 Tim. 1. 12.

Ond, yn—

II. Y mae y testyn yn cynnwys *disgwyliad o berffeithrwydd rhagllaw*. “Eithr pan ddelo yr hyn sydd *berffaith, yna*, yr hyn sydd o ran a ddileir.”

1. Ein disgwyliadau a ddichon gael eu cyfeirio at *ryw gyflwr rhagllaw o'r Eglwys ar y ddaear*. Y mae yr Apostol yn son yma am ddoniau neillduol; ac y mae yn edrych arnynt mewn perthynas i'r Eglwys. Y doniau o wybodaeth a phrophwydoliaeth a roddasid i'r Eglwys tra yr oedd mewn cyflwr o fabandod a gwendid, er mwyn profi gwirionedd yr efengyl, a dinystrio anghrediniaeth, trwy'r gwyrthiau ag oeddynt yn cael eu cyflawni. Ond nid oedd y doniau yma i barhau, canys yr oedd trefn fwy perffaith i ddyfod, pan y byddai i'r amherffeithrwydd hwn gael ei ddileu. “Pa un bynnag ai prophwydoliaethau,” medd yr Apostol, “hwy a ballant; ai tafodau, hwy a beidiant; ai gwybodaeth, hi a ddiflana. Canys o *ran y gwyddom*, ac o ran yr ydym yn prophwydo. Eithr pan ddelo yr hyn sydd *berffaith, yna*, yr hyn sydd o ran a *ddileir*.” Felly yn oesoedd canlynol yr Eglwys, pan oedd yr efengyl wedi ei sefydlu, gwyrthiau a ddilewyd. Nid yw gwialen y disgybl yn hwy yn cyflawni gwyrthiau—nid yw y tafod megis tân yn disgyn yn hwy ar ei ben—nid yw dawn i ddeall ieithoedd yn cael ei roddi iddo

yn wyrthiol mwy. O! nac yw; y mae yr amser hynny wedi myned heibio.

Edrychwch ar yr Eglwys yn ein dyddiau ni; gwelwch mor helaeth y mae ei gwybodaeth wedi cynnyddu. Ac etto y mae yr Eglwys mewn cyflwr ammherffaith iawn yn awr mewn cymhariaeth i'r hyn a fydd yn y dyddiau olaf. Yr amser hynny galluoedd crïstionogion a ehangant, a gwybodaeth a ledana i'r fath radd, fel ag y cyrhaedd yr Eglwys radd helaeth o berffeithrwydd. Mor ychydig, frodyr, a wyddom ni yn awr! Mor ychydig a allwn ni fyfyrio! Mor fuan ein digonir! Ond cyn y byddo hir, "llawer a gynniweiriant, a gwybodaeth a amlheir." "Ac ni ddysgant mwyach bob un ei gymmydog, a phob un ei frawd, gan ddywedyd, Adnabyddwch yr Arglwydd: o herwydd hwynt-hwy oll, o'r lleiaf o honynt, hyd y mwyaf o honynt, a'i hadnabyddant" ef. "Canys y ddaear a fydd lawn o wybodaeth yr Arglwydd, megis y mae y dyfroedd yn toi y môr." Ac yna y gellir arferyd y geiriau hyn,—Yr hyn sydd berffaith a ddaeth, a'r hyn sydd o ran a ddileir.

2. Y mae yn rhaid i ni gymmeryd y geiriau mewn ystyr uwch. Mae yn rhaid i ni eu hystyried megis yn cyfeiriog at *gyflwr yr Eglwys yn y nefoedd*. Ac od oes ystyr ym mha un y gellir galw yr Eglwys yn berffaith ar y ddaear, pa faint mwy addas y gellir ei gymhwyso at gyflwr yr Eglwys yn y nefoedd? Yno crïstionogion a fyddant berffaith, fel y mae eu Tad yr hwn sydd yn y nefoedd yn berffaith." Yna y dywedir yn wirioneddol,—“Yr hyn sydd berffaith sydd wedi dyfod.”

Wel, frodyr, fe fydd yn y nefoedd, yn—

1. *Berffeithrwydd o burdeb*. Yr ydym yn crybwyll hyn yn gyntaf, o herwydd mai hyn a ddylai ein llonni

fwyaf. Y mae pechod yn ein hafonyddu naill ai mewn ffordd o hudoliaeth, profedigaeth, neu ofn; ac efe a barha i wneuthur hynny, hyd nes cyrhaeddom y wlad nefol. Ond yno cawn fod yn sanctaidd, megis ag y mae efe yr hwn a'n galwodd sanctaidd—ni a gawn ein cyfnewid a'n haddasu cyn myned i mewn i'r nefol Baradwys. A oes yma bechadur yn chwennych myned i'r nefoedd? Yr wyf yn dy rybuddio nas gelli byth fyned i mewn i'r lle hwnw, heb yn gyntaf gael dy sancteiddio. Ystyriwch,—y mae y nefoedd yn sanctaidd—y mae Duw yn sanctaidd—y mae yr angylion yn sanctaidd—y mae y trigolion yn sanctaidd—y mae eu gwaith a'u pleserau oll yn bur ac yn sanctaidd—ac nis gall *dim aflan* byth fyned i mewn yno. Yno y mae y bobl sanctaidd yn moliannu Duwdod sanctaidd. Wedi eu prynu trwy waed yr Oen, a'u gwneuthur yn offeiriad i Dduw, maent yn ei glodfori ef yn oes oesoedd. Dyma sylwedd eu cân, “Sanct, Sanct, Sanct, Arglwydd Dduw Hollalluog!” Yn y nefoedd, ynte, y mae perffeithrwydd o burdeb. Ac, yn—

2. Y mae yno *berffeithrwydd o nerth neu allu*. Yma yr ydym yn wan, ac yn wan o herwydd ein bod yn bechadurus; yn y nefoedd, megis ag y byddwn yn bur, felly y byddwn yn nerthol. Yno ni chawn deimlo na gwendid, na nychdod, na methiant. Ein cyrph a gyfnewidir yn hollol. Yma, O! mor ddrylliedig y maent! —mor egwan!—mor gynted yn blino!—mor fynych yn gofyn ymborth a gorphwysdra! “Hwy a gant eu hau mewn llygredigaeth, a'u cyfodi mewn anllygredigaeth: hwy a gant eu hau mewn ammharch, a'u cyfodi mewn gogoniant: hwy a gant eu hau mewn *gwendid*, a'u cyfodi mewn *nerth*: hwy a gant eu hau yn gyrph anianol, a'u cyfodi yn gyrph *ysprydol*!” wedi eu gwneud

yn drigfanau addas i'r enaid; yn sanctaidd, yn ieuaingc, yn nerthol, yn anfarwol, yn ehedeg wrth orchymmyn uchel y nefoedd, ac yn ysprydion gwasanaethgar, yn hoffi gwneuthur ewyllys eu Duw.

3. *Fe fydd yno berffeithrwydd o wybodaeth.* Ni a gawn wybod yn y nefoedd, yn berffaith, holl amcanion Duw mewn perthynas i'r byd hwn. Yno cawn wybod y rhwymedigaethau yr ydym danynt i dragywyddol Fab Duw, yr hwn erom ni a adawodd ei ogoniant, a fu byw yma ar y ddaear, a riddfanodd, a ddiodefodd, ac a fu farw. Yno cawn wybod yn berffaith yr achos o'n holl gystuddiau, ein blinderau, a'n gofidiau. Ac, O! mor ddedwydd y byddwn tra y galwom yr holl bethau hyn i gof, a gweled, mai er bod "cymmylau a thywyllwch" wedi bod "o'i amgylch ef," etto mai "cyfiawnder a barn yw trigfa ei orsedd-faingc ef."

Yr wyf am eich cyfeirio yn neillduol at y pethau hyn:

Paham y mae dynion yn cashau Duw? Dyma paham, o herwydd eu bod yn anwybodus. Beth yw yr achos eu bod yn grwgnach o tan ei lywodraeth, ac yn erbyn ei ragluniaeth, ac yn ewyllysio cyfnewid y trefniadau Dwyfol? Yr achos yw, o herwydd eu bod yn anneallus ac yn dywyll mewn pethau ysprydol. Ond pan y gwybyddom yr hyn oll ag yr oedd Duw yn fwriadu wrth y pethau yr ydym yn ddiodef ar ein taith tua'r Ganaan Nefol, fe fydd genym achos i fod yn ddiolchgar am y cwbl, ac i ddywedyd,—“Bendigedig fyddo ei enw, y mae yn gwneud pob peth yn dda.” Yn y nefoedd y mae perffeithrwydd o wybodaeth,—“Pan ddelo yr hyn sydd berffaith, yna yr hyn sydd o ran a ddileir.” Ond, yn—

4. *Fe fydd yno berffeithrwydd o ddedwyddwch.* Ni wn i a oes angenrheidrwydd i mi ddywedyd dim am hyn;

o herwydd pan yr wyf yn dywedyd fod yno berffeithrwydd o burdeb, o nerth, ac o wybodaeth, yr wyf yn cynnwys perffeithrwydd o ddedwyddwch; canys beth sydd yn peri trueni, ond pechod, tywyllwch, a gwendid? Ond yn gymmaint ag y byddwn yn bur, yn nerthol, ac yn wybodus yn y nefoedd, gan hynny ni a fyddwn yn ddedwydd.

Fe ddichon fod yma ryw rai yn cael eu gwasgu i lawr tan deimlad o'u hammherffeithrwydd. Yr ydych mor druenus o herwydd eich bod yn ammhur "o ran." Wel, byddwch amyneddgar dros ychydig amser, canys yn y nefoedd y mae perffeithrwydd o sancteiddrwydd. Yr ydych yn gofidio o herwydd nad ydych yn gryf ond mewn rhan.—Wel, yn y nefoedd y mae perffeithrwydd o nerth. Yr ydych yn galaru eich bod yn gwybod ond "o ran."—Wel, yn y nefoedd y mae perffeithrwydd o wybodaeth. Yr ydych yn cwyno am eich bod yn cael mor lleied o happusrwydd.—Wel, yn y nefoedd y mae perffeithrwydd o wynfyd. Yno chwi a fyddwch yn berffaith happus. Yno chwi a gewch y dedwyddwch hynny ag yr ydych yn hiraethu ac yn ymofyn cymmaint am dano yn awr. Yno chwi a fyddwch yn wirioneddol ddedwydd, oblegid chwi a fyddwch yn agos at Dduw, ac yn debyg iddo—yn agos at yr Iachawdwr, ac yn debyg iddo—yn agos i ddyinion da, ac yn debyg iddynt. Fe fydd yno gariad, cariad at Dduw, cariad at Grist, a chariad at ddyinion da; a'r *cubl* mewn *perffeithrwydd*. Canys "pan ddelo yr hyn sydd *berffaith*, yna yr hyn sydd *o ran* a ddileir." O! llefwch ar Dduw, frodyr, i blannu yr yspryd o gariad yn eich calonau. O! codwch eich llygaid o ddyfnderoedd trueni i uchelderau gwynfyd. Beth bynnag a fyddo eich cyflwr yn bresennol, O! medd-

gliwch am y perffeithrwydd sydd i ddyfod; ac yna cyfodwch, trwy fyfyrdod, oddiwrth flinderau amser i lawenydd tragywyddoldeb.

Cyn diweddu, goddefwch i mi ofyn i chwi, fy mrodyr, yn—

1. *A oes genych ryw wybodaeth am y pethau yr ydym yn sôn am danymt.* A wyddoch *chwi* ryw beth am gariad Duw yng Nghrist i'ch eneidiau? Ac a ydych yn chwennych cael rhagor o wybodaeth am yr Arglwydd Iesu? A ydych yn dymuno o'ch calonau i gael eich "iachau trwy ei gleisiau ef?" Dyma ofyniadau pwysfawr; ac, O! na welai yr Yspryd fod yn dda eu dwyn hwynt adref at gydwybod pob un o honoch, fel ag i beri i chwi lefain am heddwch trwy rinwedd gwaed y groes. Y mae yn ddigon tebyg na wyr rhai o honoch ddim yn y byd am Grist; yr ydych etto "mewn bustl chwerwder, ac mewn rhwymedigaeth anwiredd." O! nac ewch allan oddi yma heb weddio. O! ymbiliwch am drugaredd, trwy Iesu, yr Arch-offeiriaid mawr. O! deuwch, a thafiwch eich hunain, trwy ffydd, ar y "cyfaill a lyn wrthych yn well na brawd." Yr ydych wedi clywed yn fynych, a chaiff ddyfod i'ch clustiau y tro presennol,—"*Y mae yn rhaid eich geni chwi drachefn.*" —"*Y mae yn rhaid eich geni chwi drachefn.*" Nid oes iachawdwriaeth i'r rhai hynny nad ydynt yn llefain trwy Yspryd y mabwysiad, "Abba, Dad." Felly y dywed Crist ei hun,—"*Oddi eithr geni dyn o ddwfr ac o'r Yspryd,*" medd efe, "*ni ddichon efe fyned i mewn i deyrnas Dduw.*" St. Ioan 3. 5. Pe byddai i Grist ofyn i bob un yn y gynulleidfa yma heddyw, "A wyt ti yn fy ngharu i?" Fe orfyddai ar rai o honoch ateb,—nac wyf! Eraill o honoch ag sydd etto yn ei anhoffi ef a arosent yn ddistaw. Ond yr wyf yn gobeithio fod

yma amryw a allent ddywedyd yn wirioneddol,—“ Arglwydd, ti a wyddost bob peth ; ti a wyddost fy mod i yn dy garu di.” Wel, yr wyf yn erfyn arnoch chwi, frodyr, uwchlaw pob peth arall, i geisio adnabod cariad Crist, wedi ei dywallt yn eich calonau trwy yr Yspryd Glân.

2. *Od oes genych ryw gyfran o'r wybodaeth hon, ymdrech-
wch gynyddu ynddi.* Ac, yn wir, os yw gwreiddyn y
matter wedi ei blannu yn och, nis gallwch aros yn eich
cyflwr presennol. Gwrandewch beth a ddywed yr
apostol Paul,—“ Ië, yn ddiammau, yr wyf hefyd yn
cyfrif pob peth yn golled, o herwydd ardderchogrwydd
gwybodaeth Crist Iesu fy Arglwydd.—Nid fel pe bawn
wedi ei gyrhaeddyd eisoes, neu fod eisoes wedi fy
mherffeithio ; eithr dilyn yr wyf, fel y gallwyf ymaflwyd
yn y peth hwn hefyd yr ymaflwyd ynof gan Grist Iesu.
Y brodyr, nid wyf fi yn bwrw ddarfod i mi gael gafael:
ond un peth, gan anghofio y pethau sydd o'r tu cefn,
ac ymestyn at y pethau o'r tu blaen, yr ydwyf yn cyrchu
at y nôd, am gamp uchel alwedigaeth Duw yng Nghrist
Iesu.” Wrth y Cristion, ynte, yr ydym yn dywedyd,
Yn y blaen â thi ;—a thrachefn yr ydym yn dywedyd,
yn y blaen. Ar faner Crist yr ydym yn darllen yr ar-
graff hwn, Yn y blaen ! “ Yr hwn, yn lle y llawenydd
a osodwyd iddo, a ddiodefodd y groes, gan ddiystyru
gwaradwydd, ac a eisteddodd ar ddeheulaw gorsedd-
faingc Duw.” Dyna y lle y mae efe, sef yn y nefoedd,
mewn gogoniant annhraethadwy ; ac y mae yn galw ar
y rhai sydd ar y ddaear, gan ddywedyd, Yn y blaen !
Yr ydym yn derbyn y llais, ac yn dadseinio, Yn y
blaen ! Wel, ynte, frodyr,

“ Ym mlaen â chwi fel milwyr da,

Yn llon er gwaetha'r llid.”

3. Gadewch i ni edrych yn y blaen am goron y cwbl, sef *meddiant o berffeithrwydd*. Yn y nef ni a fyddwn yn hollol berffaith; canys ni a "fyddwn yn gyffelyb iddo" *ef*, yr hwn yw ffynnon pob perffeithrwydd. Ac, O! pwy na ddymunai fod yn gyffelyb i Dduw—yn fwy cyffelyb iddo nag oedd ein rhieni cyntaf cyn y cwmp. Yn gyffelyb i Dduw—yn gyffelyb iddo mewn purdeb, mewn gwybodaeth, mewn gallu, mewn gwynfyd, ac mewn gogoniant. Dyna nefoedd, frodyr, ac a ydych yn ewyllysio trigo dros byth ar y ddaear? Dyna nefoedd! ac a ydych chwi yn dymuno aros yma? Dyna nefoedd! ac a foddlonir chwi â'r byd hwn a'i deganau? Na atto Duw! Eithr dywedwch, y mae y cwbl wedi ei drysori fynu fry gyda'r Iesu—fry ym mhlith y gorsedd-feingciau o oleuni—fry yn yr "etifeddiaeth anllygredig, a dihalogedig, a di-ddiflanedig"—fry yn y "trigfanau" hynny a brynwyd ac a "barottowyd" gan fy Iachawdwr—fry,—ac, "O! na byddai i mi adenydd fel colomen, yna yr ehedwn ymaith, ac y gorphwyswn." Ond dros yr amser presennol dywedwch, mi a weithiaf—yn bresennol mi a "dreuliaf, ac a ymdreuilaf"—yn bresennol mi a ddioddefaf gystuddiau a blinderau—yn bresennol mi a wyliaf, ac a "ymdrechaf hardd-deg ymdrech y ffydd"—yn bresennol mi a "gyfodaf fy nghroes, ac a ganlynaf" Grist trwy bob ystormydd—hyn i gyd yn bresennol. Yna am y diwedd,—“Pan ddelo yr hyn sydd berffaith, yna yr hyn sydd o ran a ddileir;”—a thyma derfyn ar ddisgwyliad.

PREGETH XII.

DAT. 2. 4, 5.

“EITHR Y MAE GENYF BETH YN DY ERBYN, AM I TI YM-ADAEI A’TH GARIAD CYNTAF. COFIA GAN HYNNY O BA LE Y SYRTHIAIST, AC EDIFARHA, A GWNA Y GWEITHREDOEDD CYNTAF: AC ONID E, YR WYF FI YN DYFOD ATTAT TI AR FRYD, AC MI A SYMMUDAF DY GANHWYLLBREN DI ALLAN O’I LE, ONI EDIFARHAI DI.”

NI fydd i gyfaill ein Hiachawdwr byth gael ei adael—beth bynnag a ddichon fod ei amgylchiadau yn y byd hwn, ni fydd i gyfaill Crist byth gael ei adael ganddo—beth bynnag a fyddo y trallodion a’r cystuddiau a’i cyferfydd, ni chaiff efe ddim ei adael yn amddifad; fe fydd presenoldeb Duw gydag ef bob amser. Ni chaiff efe ei adael, oblegid Crist a ddaeth i geisio ac i gadw ei enaid—i gadw yr hyn a gollasid. Nis gadewir ef ddim, canys y mae holl briodoliaethau Duw yn gweithredu o’i blaid—y mae pob peth a’i cyfarfyddo yn cydweithio i’w ddwyn ym mlaen ar ei daith, hyd nes yr â adref i’r nef, i gael gweled Duw megis ag y mae.

Dyma fel yr oedd gydag Ioan. Yr oedd wedi cael ei alltudio o wlad ei enedigaeth i le anghyfannedd, a chafodd ei adael yno hyd ei farwolaeth; eithr *ni adawodd Duw ddim o hono*. Ond fe gafodd Ioan amlygiadau mawrion o Ddwyfol ogoniant yn ynys Patmos; fe amlygodd yr angel bethau rhyfeddol iddo, pethau mwy rhyfeddol, fe allai, nag a gawn hanes am danynt mewn un rhan o’r Gair Dwyfol, yr hyn a elwir “Dadguddiad

Sant Ioan y Difnydd.”—“Eithr y mae genyf beth yn dy erbyn, am i ti ymadael â’th gariad cyntaf. Cofia gan hynny o ba le y syrthiaist, ac edifarhâ, a gwna y gweithredoedd cyntaf: ac onid ê, yr wyf fi yn dyfod attat ti ar frys, ac mi a symmudaf dy ganhwyllbren di allan o’i le, oni edifarhâi di.”

Tra y byddwyf fi yn ymdrechu gwneud rhai sylwadau oddiar y geiriau hyn, bydded i bob un o honoch chwithau chwilio a phrofi eich cydwybodau eich hunain, fel y galloch wybod beth yw eich cyffyrau ysprydol.”

Sylwaf ychydig, yn—

I. Ar y cyflwr truenus ag y mae y geiriau yn ddarlunio,—“Eithr y mae genyf beth yn dy erbyn.”

II. Ychydig ar yr addysgiadau a allwn gasglu oddi wrth y geiriau,—“Cofia o ba le y syrthiaist, ac edifarhâ.”

III. Mi a ddywedaf ychydig am y bygythion,—“Oni edifarhâi di.”

I. Y cyflwr galarus ag y mae y geiriau yn osod o’n blaen,—“Eithr y mae genyf beth yn dy erbyn, *am i ti ymadael â’th gariad cyntaf.*” Ac, O! fy nghyfeillion, y fath dueddiad sydd mewn dynion, i’w, ac mewn Eglwysi hefyd, i *ymadael â’u cariad cyntaf.* Nis gall dim llai nag anfeidrol allu Duw ein cynnal rhag syrthio. Mor aml y canfyddwn wrthgilwyr, yn troi eu cefnau ar yr hyn y buont unwaith yn fawr eu zêl drosto. A phwy sydd yn *hollol rydd* oddiwrth yr achwyniad yn y testyn? “Y mae genyf beth yn dy erbyn di!” Pwy a all ddywedyd ger bron Duw, yr hwn sydd chwiliwr y calonau, fod ei ymddygiad ef wedi bod bob amser yn gyson ac yn addas *i’w broffes*? Ond beth yw y cŵyn, beth yw yr achwyniad? Ai am bechu yn erbyn Duw

y mae? Nagê. Wel, beth yw yr achos, ynte? ai am ymadael âg athrawiaeth iachus, a chymmeryd i fynu ryw gyfeiliornadau y mae? Nagê; nid am y pethau hyn y mae y cyhuddiad yn cael ei ddwyn i'th erbyn; ond dyma'r achos o hono, "*am i ti ymadael â'th gariad cyntaf.*" Yr wyt wedi myned yn ddiog gyda'th grefydd—mae dy serchiadau wedi oeri—yr wyt wedi myned yn farwaidd yng ngwasanaeth Duw—yr wyt wedi dwyn gwarth ar yr enw sanctaidd ag wyt yn broffesu—yr wyt yn peri i'r byd annuwiol gablu yr enw sanctaidd ag wyt yn ddwyn, er y cwbl a wnaethum erot a throsot, fel pe buasai Crist yn dywedyd,—"*ti a ymadaeist â'th gariad cyntaf.*" Pan agoro Yspryd yr Arglwydd lygaid y pechadur gyntaf i weled ei gyflwr wrth natur, pan y mae efe megis yn cael ei ysgwyd uwch ben tân uffern, ac yn cael ei wared megis pentewyn o'r gynneu dân, a phan y clywo efe gyntaf lais trugaredd yn dywedyd wrtho, "*Maddeuwyd i ti dy bechodau*"—pan y mae efe yn profi rhyw beth o nerthoedd y byd a ddaw, O! mor hyfryd yw ei deimladau, mor wresog a bywiog yw ei serchiadau; mae *cariad* yn ennyn ei ymysgaroedd. Y mae un o'r fath yma yn synu yn fawr wrth ganfod mor oerlyd a difywyd yw llawer o gristionogion. "Os yw'r rhai hyn," medd efe, "yn caru Crist, paham y maent mor farwaidd yn ei wasanaeth?" Ond canlynwch y dyn hwn ychydig, a chwi a welwch agwedd arall arno. Beth yw efe yn awr? Pa le mae ei *zél*?—pa le mae ei wresogrwydd?—pa le mae ei *gariad ef yn awr*? Y maent wedi oeri! Y mae y dyn wedi cyfnewid! A thyma yr achwyniad,—"*Am i ti ymadael â'th gariad cyntaf.*"

Mi a debygwn fy mod yn clywed rhyw un yn dywedyd, pa le y cawn ni y fath ddyn a hwn? un mor

amlochgar? Mi a ddywedaf wrthyt,—*Ti yw y gwr!* Myi! medd y dyn; ië, *ti yw y gwr!* Fy mrodyr anwyf, pell y byddo oddi wrthyf i dafu dim yn *bersonol* at neb. *Profioch a chwiliwch eich calonau eich humain;* nid wyf yn cyfeirio at neb o honoch yn neillduol—yn *bersonol*. Ond y mae arnaf braidd ofn y dichon fod yma ryw rai o'r cyfryw—chwiliwn am dano, ynte. Wel, mi a ofynaf i chwi yn y modd hyn,—A ydych chi yn ymhyfrydu yn yr ordinhadau sanctaidd fel y buoch unwaith? A ydych yn hoffi gweddi fel y buoch unwaith? A ydyw yr un taerni ynoch wrth orsedd gras ag a fu unwaith? A ydych yn hiraethu am y nefoedd, ac yn dymuno cael eich haddasu gogyfer â'r lle sanctaidd hwnnw? Pan gymharoch eich teimladau a'ch serchiadau â'r hyn a fuoch yn deimlo unwaith, a oes genych ddim achos da yn wir i waeddi allan,—“O! na bai hi gyda mi megis yn y dyddiau gynt.” Yn awr, os hyn yw cynhyrfiadau eich meddwl, yr wyf yn erfyn arnoch er mwyn yr enw yr ydych yn ddwyn; yr wyf yn galw arnoch trwy yr addunedau a gymmerasoch arnoch, er mwyn griddfanau y groes, er mwyn dioddefiadau yr Iesu croeshoeliedig, er mwyn anrhydedd yr efengyl sanctaidd ag ydych yn broffesu, ac er mwyn eich heneidiau anfarwol—yr wyf yn erfyn arnoch—*dychwelwch!* O! afradloniaid, dychwelwch. Grwydryn, dychwel! Wrthgiliwr, dychwel yn dy ol! A thra mae'r Arglwydd yn dywedyd, “Caraf hwynt yn rhad; canys trôdd fy nig oddi wrtho;” dywedwch chwithau wrtho, “dychwelwn attat ti, oblegid yr Arglwydd ein Duw ydwyt ti.”

Sylwn, yn—

II. Ar yr addysgiadau a allwn ni dderbyn oddiwrth y geiriau yn y testyn,—“Cofia o ba le y syrthiaist, ac

edifarhâ, a gwna y gweithredoedd cyntaf." Yma chwi a welwch nad yw Duw fel dyn—ein Cyfaill yn y nef-oedd sydd wahanol iawn i'n cyfeillion yn y byd hwn. Pe byddai i ni roddi rhyw dramgwydd i'n cyfeillion daearol, hwy a droent eu cefnau arnom. Ond nid dyma fel y mae Iesu yn ymddwyn; er ein bod ni yn cilio yn ol, nid yw efe ddim yn ein gadael. Bendigedig fyddo ei enw, cyfaill a lyn yn well na brawd yw efe. Nid yw efe ddim yn ein condemnio ni, ond, wele, yn cynghori y mae efe; ac y mae efe yn ein *cynghori* ni lle y gallasai yn gyfiawn ein *condemnio*. Ydyw, clod fyddo i'w enw, y mae efe yn myned ar ol y ddafad golledig, ac yn ei dwyn hi adref ar ei ysgwyddau ei hun yn llawen, gan ddywedyd, "Llawenhewch gyda mi; canys cefais fy nafad a gollasid."

Y mae yn y testyn dri o addysgiadau, y rhai a ddylem yn *neillduol* sylwi arnynt.

1. Fe elwir arnom i *ystyried*,—"Cofia," neu ystyria, "o ba le y syrthiaist." Nid oes un ddyledswydd ag yr ym ni mor dueddol i'w hesgeuluso ag *ystyried ynom ein hunain*. Pe byddai dynion yn ystyried eu ffyrdd yn amlach, ni byddai achos i'w cyhuddo mor aml yn y geiriau hyn, "*Cofia o ba le y syrthiaist*." Un achos fod dynion yn oeri gyda chrefydd yw, eisiau *ystyried*. Cofia mor ddedwydd yr oeddit unwaith—pob man megis tŷ Dduw—pob gwasanaeth grefyddol megis blaen-brawd o'r nefoedd. Pa fodd yr oeddit yn dyfod at orsedd gras gyda llawenydd—pa fodd y byddit yn arfer dywedyd, "O! nas gwyddwn pa le y cawn afael arno." Pa fodd yr oeddit yn dywedyd gyda Phedr, "Arglwydd, ti a wyddost *bob peth*: ti a wyddost fy mod i yn dy garu di." Ond yn awr mae dy ddyledswyddau, ysgatfydd, yn *faich trwm i ti*. Yn lle *goleuni*, mae'n *dywyllwch* ar dy

enaid—yn lle mwynhau heddwch a thangnefedd, mae'r meddwl yn derfysglyd yn dy fynwes. O! galw i gof y dyddiau hynny a aethant heibio, pan yr oeddit yn byw mewn cymmundeb hyfryd â'th Dduw.—“Cofia o ba le y syrthiaist.”

Addysg arall a rydd y testyn yw, yn—

2. *Edifeirwch.* “Ac edifarhâ—Oni edifarhâi di.” A pha fodd y dychwel y gwrthgiliwr, oni edifarhâ? Pwy erioed a ddychwelodd heb edifarhau; ïe, heb ddihidlo dagrau heilltion? Dacw Pedr, wedi iddo wadu ein Iachawdwr deirgwaith,—“Yr Arglwydd a drôdd, ac a edrychodd ar Pedr. A Phedr a gofiodd ymadrodd yr Arglwydd, fel y dywedasai efe wrtho, Cyn canu o'r ceiliog, y gwedi fi deirgwaith. A Phedr a aeth allan, *ac a wylodd yn chwerw-dost.*” Oerfelgarwch mewn crefydd, fy mrodyr, sydd bechod yn erbyn Duw fel Tad, yn erbyn Crist fel Iachawdwr, ac yn erbyn yr Yspryd Glân fel Sancteiddydd. Pechod yw hwn ag sydd yn amlygu llygredd yr holl natur, a'r anniolchgarwch mwyaf yn erbyn Dwyfol drugaredd a gras. Pan y mae rhyw un yn cael ei argyhoeddi am y pechod hwn, sef ymadael oddiwrth Dduw, nid rhyfedd ei glywed yn ocheneidio, nid rhyfedd gweled y dagrau heilltion yn cael eu tywallt, ac nid rhyfedd ei glywed ef yn griddfan. O! wrthgiliwr, beth a orfydd i ti deimlo!—faint a raid fod dy ocheneidiau! O! fel y gorfydd i'th galon gael ei dryllio, cyn y derbynio Duw di yn ol i'w ffafr drachefn. Cyfod a cherdd at dy Dad, a dywed wrtho, “Fy nhad, pechais yn erbyn y nef, ac o'th flaen dithau; ac mwyach nid ydwyf deilwng i'm galw yn fab i ti.” O! na welai Duw fod yn dda, i bob un ag sydd wedi cilio oddi wrtho, yn y fan yma gael eu dychwelyd yn ol fel hyn, dan wylo, dan ocheneidio,

a than weddio am drugaredd. O! na chaniattâi yr Arglwydd i ryw un yma heddyw allu curo ei ddwyfron gyda'r edifeiriol, a dywedyd, "O! Dduw, bydd drugarog wrthyf bechadur."

Y mae yma un addysg yn ychwaneg, sef, yn—

3. *Diwygiad*,—"Gwna y gweithredoedd cyntaf." Galw i gof gynhyrifiadau a serchiadau y cariad cyntaf; tyred etto gyda'r un serchiadau, yr un zêl, a'r un diwydrwydd.

1. Y mae'r diwygiad hwn yn *angenrheidiol*. Nid yw yn ddichonadwy bod yn *wir edifeiriol* heb ddiwygiad yn y fuchedd. Edifeirwch yw'r hâd, diwygiad yw yr eginyn; edifeirwch yw'r wawr, diwygiad yw'r goleu ddydd. Lle bynnag y byddo edifeirwch, fe ymddengys y ffrwythau yn yr ymarweddiad, yn y bywyd, a'r rhodlad. Fe fydd diwygiad yn sicr o ganlyn.

Ond heblaw bod yn *angenrheidiol*, y mae'r diwygiad yma, yn—

2. Yn *rhesymol* hefyd. O! pwy a all wneud gormod dros Iesu. Ewch hyd Bethlehem, ac ewch oddi yno hyd at y groes; dilynwch ef trwy ei holl fywyd; ewch gydag ef hyd y bedd lle y bu ef yn gorwedd ym mhlith y meirw, a dywedwch, os gallwch chwi wneuthur gormod dros Iesu!

O! fy mrodyr, pan y gallom ni ddywedyd i ni wneud yr hyn oll a *ddylasem* ei wneuthur, *yna* ni fydd i eiriau'r testyn gael eu dwyn i'n herbyn,—“Edifarhâ, a gwna y gweithredoedd cyntaf: ac onid ê, yr wyf fi yn dyfod attat ti ar frys, ac mi a symmudaf dy ganhwyllbren di allan o'i le, oni edifarhâi di.”

Ond sylwn ychydig, yn—

III. Ar y bygythiad,—“*Onid ê*, yr wyf fi yn dyfod attat ti ar frys, ac mi a symmudaf dy ganhwyllbren di

allan o'i le, *oni edifarhâi di.*" Y mae hwn, yn wir, yn fygythiad a ddylai ddihuno'r pechadur o'i gysgadrwydd a'i segurddod. Dyma'r farnedigaeth fwyaf—hon yw'r wae fwyaf a all fod yng nghrog uwch ein penau yn y byd hwn, sef *symmud ein canhwyllbren*, a'n gadael i dywyllwch a llygredd ein calonau; gadael Eglwysi yn ymddifad o foddion gras, a chyfryngau'r iachawdwr-iaeth. Edrychwch ar hyn gyda golwg ar unrhyw *wlad neu genedl.*

Digon gwir, fe ddichon i'r haul yna ddisgleirio yn y ffurfafen, ond ni fydd i *Haul mawr y cyfiawnder roddi ei oleuni meddyginiaethol.* Fe fydd i'r lleuad a'r sêr roddi eu llewyrch yn y ffurfafen y nos, ond ni fydd "y Seren foreu eglur" i'w chanfod. Er i'r afonydd redeg eu cylch arferol, ni fydd dim o'r "afon" honno i'w chael, "ffrydiau" pa un sydd yn "*llawenhau dinas Duw*;" nac ychwaith "y ffynnon" honno a "*agorwyd*" i *olchi ymaith* "*bechod ac aflendid.*"

Gwael fyddai arnom, yn wir, fy nghyfeillion, pe symmudid y canhwyllbren o'n plith! O! edifarhawn, a dychwelwn, rhag iddo gael ei ddwyn oddi arnom. O! gweddiwn ar Dduw na f'o iddo ymweled â ni fel gwlad ac Eglwys â'r fath farnedigaeth. Chwi a wyddoch pa fodd yr ymwelodd efe âg Ephesus gynt am y pechod hwn. Yr oedd Eglwys Ephesus yn flodeuog iawn unwaith, ond Ephesus a "*ymadawodd â'i chariad cyntaf,*" ac y mae hi yn *awr* yn ymgrymu i lawr dan iau Mahometaniaeth! Ac a allwn ni anghofio ein gwlad ein hunain—gwlad ein genedigaeth! O! Frydain, yr wyt wedi llenwi yr holl fyd â'th ogoniant, fel cenedl nerthol; mae swm dy arfau a'th ryfeloedd yn taro braw ar genhedlaethau cymmydogaethol. Ond os bydd i'th "*ganhwyllbren gael ei symmud o'i le,*" ti a golli dy

holl ogoniant, a'th harddwch a ffy ymaith! O! na fyddai ein gweddi ni yn fwy taer ar Dduw am ein harbed; ië, bydded gweddi pob enaid, pa un ai Eglwyswr neu Ymneillduwr—bydded ein gweddi ar Dduw na chymmero efe ein canhwylbren ni allan o'i le! Arglwydd, “na chymmer dy Yspryd Glân oddi wrthym.”

Yn wir, y mae gelynion Crist yn ymdrechgar neillduol yr amser hwn; y mae anghrist am godi ei ben yn ein gwlad, ac y mae rhai arwyddion fod barnedigaethau Duw ar led. O! gochelwn, bobl, rhag i'n goleuni gael ei ddywllu. Gweddiwn am fod rhyw gynhwrf yn awr ym mhlith yr esgyrn sychion. “O! anadl, tyred oddiwrth y pedwar gwynt, ac anadla ar y lladdedigion hyn, fel y byddont byw.” Duw ein Tad! Duw ein trugareddau! yr hwn a wyddost am ein cyflwr presennol, edrych arnom yn dy drugaredd, a dwg ni bawb i iawn wybodaeth o honot ti! Llanw ein calonau â'th ras. Caniatta, O! Arglwydd, i lais ein gweddiau ddyrchafu attat ti ym mhob man fel teyrnas, fel gwlad, ac fel cenedl; bydded i ni ddyrchafu ein llef attat ti; a bydd di, o hyn allan, yn Dduw i ni, yn Iachawdwr i ni, ac yn Gyfaill i ni.

Y mae'r farn a fygythir yn y testyn mor ofnadwy gyda golwg ar *gynnulleidfaoedd* ag yw wrth olygu *teyrnasoedd*. Fe all Duw, ac y mae yn fynych, nid yn unig yn symmud ymaith y canhwylbren oddiwrth ddynion fel gwlad a chenedl, ond hefyd oddiwrth *gynnulleidfaoedd pennodol*. Llauer o demlau lle bu yr hen ddiwygwyr, yr hen Ferthry duwiol, yn pregethu'r efengyl yn hyf uwch ben cynnulleidfa liosog, sydd yr awr hon yn ymddifad o wrandawyr, neu ysgatfydd, heb y *gwirionedd* yn cael ei draethu! A pheth yw'r achos? Wel,

hyn yw, syrthio oddiwrth Dduw—*ymadael oddiwrth rym crefydd*—oerfelgarwch gyda chrefydd. Pan y mae dynion fel hyn yn *dechreu oeri*, yn dechreu *disflasu* gyda chrefydd, y mae'r rhybudd hwn yn y testyn yn cael ei roddi,—“Eithr y mae genyf beth yn dy erbyn, am i ti ymadael â'th gariad cyntaf. Cofia gan hynny o ba le y syrthiaist, ac edifarhâ, a gwna y gweithredoedd cyntaf: ac *onid é*, (O! eiriau arswydus,) yr wyf fi yn dyfod attat ti ar frys, ac mi a symmudaf dy ganhwyllbren di allan o'i le, *oni edifarhâi di*.” Os bydd i ddynion esgeuluso'r rhybudd hwn, y maent mewn cyflwr per- yglus! O! y gwaeau ofnadwy sydd uwch eu penau oni edifarhant hwy, a dychwelyd. Yn wir, gyfeillion, yr ym ni dan rwymau i ddiolch i'r Arglwydd fod y bygythiad hwn heb ei gyflawni tuag attom ni etto; ond os ydym ni yn dymuno mwynhau ffafr Duw, mae yn rhaid i ni *ofni'r bygythiad, a gwrando ar y rhybudd*.

“*Cofia o ba le y syrthiaist*.” Pan y mae yn llwyddiannus gyda ni, ni a ddylem gymmeryd rhybudd, ac *ystyried*. O! na anghofiwn byth yr angenrheidrwydd o weddio ar Dduw am lwyddiant ar yr achos. Pan y mae pob peth yn llwyddo wrth ein bodd, yr ydym ni yn rhy barod i anghofio ein dyledswydd tuag at Greawdwr a Chynnaliwr ein bywyd.

Goddefwch i mi eich rhybuddio bawb oll mewn perthynas i hyn. Pa fodd y gallwch chwi ddioddef y meddwl o ymadael â'ch cariad cyntaf! Meddylwch am gariad Iesu ym marw dros och ar y groes! Meddylwch am ddychrynfeydd yr ail farwolaeth! O! gochelwch rhag llaesu eich dwylaw, rhag tynnu yn ol, rhag *ymadael â'ch cariad* cyntaf! O! pa fodd y gallech oddef y meddwl i'r canhwyllbren gael ei symmud o'r *fan hon*, o herwydd eich diystyriaeth chwi,

a'ch oerfelgarwch gyda'r gwaith mawr. O! gochelwn rhag trwy ein hanffrwythlondeb, ein cysgadrwydd, a'n diofalwch am grefydd, i Dduw dywyllu ein canwyll, ac y gorfydd i ni alaru fod *Duw wedi ymadael â ni!* Gwell fyddai i'r gweinidog farw! Gwell fyddai fod yr eistedd-leoedd yna yn wag! Gwell fyddai fod y parwydydd yma yn dyfod i lawr yn chwilfriw, nag i Dduw symmud ein canhwylbren oddi yma, ac ymadael â ni trwy ei Yspryd! O! ynte, ymdrechwch *gadw eich cariad cyntaf*. Gochelwch grwydro o gorlan Duw. Gochelwch, er mwyn eich henaid, yspryd gwrthgiliad, yspryd ysgafn, ac yspryd y cyfeiliorni!

Y mae Crist yn dywedyd wrthyh,—“Y mae genyf beth yn dy erbyn, am i ti ymadael â'th gariad cyntaf. Cofia gan hynny o ba le y syrthiaist, ac edifarhâ, a gwna y gweithredoedd cyntaf: ac onid ê, yr wyf fi yn dyfod attat ti ar frys, ac mi a symmudaf dy ganhwylbren di allan o'i le, oni edifarhâi di.”

Yn awr, cyn darfod, mi a ddywedaf air neu ddau wrth ddau fath o bobl a ddichon fod yn gwrando yma.

1. Wrth y rhai hynny nas gwyddant ddim am yr hyn ag y mae Crist yn alw yma “*eu cariad cyntaf*.” O! rhyfedd, fod neb na ddarfu iddynt erioed garu Crist, yr Iachawdwr bendigedig. Rhyfedd fod neb nas gwyddant ddim am “ras ein Harglwydd Iesu Grist, yr hwn, ac efe yn gyfoethog, er ein mwyn ni a aeth yn dlawd.” O! y trueni fod *miloedd* o'n hamgylch nad ydynt yn canfod “na phryd na thegwch” ynddo, fel y dymument ef. Y mae efe, yn wir, oll yn hawddgar, ond nid ydynt hwy yn canfod un hawddgarwch ynddo! O! clywed y cyfryw ddynion eiriau yr apostol Paul, 1 Cor. 16. 22. “Od oes neb *nid yw* yn caru yr Arglwydd Iesu Grist, bydded Anathema, Maranatha.”

Hynny yw, bydded yn felldigidig! Ond yr wyf yn gobeithio fod yma rai ag y mae efe yn rhagori yn eu golwg ar ddeng mil. Y maent wedi gweled cymmaint o'i brydferthwch, fel nas gorphwysant hyd nes iddynt gael eu llenwi â'i ogoniant ef, pan y gwelont ef megis ag y mae, ac y caffont fod yn debyg iddo. Nid ydynt, yn wir, ar y goreu yn awr, ond yn cael derbyn ambell ddiferyn; ac y mae hyn yn lloni'r enaid. O! beth fydd eu cyflwr, ynte, pan y cânt drachtio yn ddidrai o'r môr mawr o ddedwyddwch sydd yng nghadw ar eu cyfer tu draw i'r bedd. O! am hynny, gan fod y fath bethau gogoneddus ar eich cyfer, glynwch wrth eich cariad cyntaf; ie, os yw bosibl, bydded yn fwy gwresog o ddydd i'w gilydd. Bydded hyn eich gweddi,—“Tyn di ni, a ni a redwn ar dy ol.” Yr ydym am fod yn eiddo i ti tra y byddom *byw*, yn eiddo i ti pan y byddom *farw*, a chael bod gyda thi am dragwyddoldeb.

Mi a ddywedaf, yn—

2. Air wrth y rhai hynny, y rhai y mae'r geiriau yn y testyn yn berthynol iddynt. Od oes yma rai o'r cyfryw yn gwrando, goddefwch i mi ofyn, pa fodd y mae arnoch fel hyn? A oedd dim esgeulusdra o weddi cyn i chwi syrthio i'r cyflwr hwn? Wel, ynte, byddwch yn aml wrth orsedd gras *yn awr!* A oedd dim o'ch cariad at y *byd yn achos arall?* Yna, na cherwch y byd a'i bethau mwyach. “Na cherwch y byd,” medd Ioan, “na'r pethau sydd yn y byd. O châr neb y byd, nid yw cariad y Tad ynddo ef.” Meddyliwch lawer am y byd hwnnw, tua pha un yr ydych yn prysuro yn fuan. Ac er mwyn eich heneidiau gwerthfawr, “cofiwch o ba le y syrthiasoch, ac edifarhewch, a gwnewch eich gweithredoedd cyntaf,” rhag i Grist “ddyfod atoch chwi ar frys, a symmud eich canhwyl-

bren allan o'i le." Ac, O! bydded i'r hwn sydd yn galw arnom yn y testyn i edifarhau, i roddi i ni bawb oll y *gras o edifeirwch*, fel y gallom ni ddynesu at y bwrdd sancteiddiol yna, i adnewyddu ein coffadwriaeth am angau'r groes, yn y wisg briodas a ofyn Duw yn yr Ysgrythyr lân. Deuwch, fy nghyfeillion, â'ch calonau yn hiraethu am ei fwynhau. Deuwch mewn cariad, a bydded yn dda yn ei olwg, tra y byddoch yn ei win-dy, i faner ei *gariad* fod drosoch.

A Duw, yn ei ras, a ganiattao i'r rhai hynny ag sydd yn *dechreu oeri* yn ei wasanaeth, gael teimlo heddyw wir "edifeirwch," a dychweliad yn ol at eu "cariad cyntaf."

PREGETH XIII.

PSALM. 84. 11.

“CANYS HAUL A THARIAN YW YR ARGWLWYDD DDUW: YR ARGWLWYDD A RYDD RAS A GOGONIAINT: NI ATTAL EFE DDIM DAIONI ODDIWRTH Y RHAI A RODIAINT YN BERFFAITH.”

Y MAE yn amlwg fod awdwr y Psalm hon, pan yr oedd yn ei chyfansoddi, mewn yspryd cariadus iawn tuag at Dduw, ei bobl, a phob peth perthynol iddo. Y mae yn torri allan, ac yn gwaeddi mewn hyfrydwch,—
“Mor hawddgar yw dy bebyll di, O Arglwydd y lluoedd: fy nghalon a'm cnawd a waeddant am y Duw byw,” yr hwn sydd yn trigo yno. Ac yn y dull hwn y mae yn parhau y Psalm hyd nes delo at y testyn; yr hyn a ymddengys yn reswm am ei fod yn son mor fynych am Dduw, ei oraclau, a'i gynteddau. “Canys haul a tharian yw yr Arglwydd Dduw: yr Arglwydd a rydd ras a gogoniant: ni attal efe ddim daioni oddi wrth y rhai a rodiant yn berffaith.”

Oddiwrth eiriau y testyn, gadewch i ni ystyried, yn—

I. Beth yw Duw,—“haul a tharian.”

II. Beth mae Duw yn wneuthur,—yn rhoddi “gras a gogoniant,” a phob “daioni.”

III. Pwy a allant ddisgwyl yn hyderus am gyfran o'r bendithion neillduol hyn,—sef, “y rhai a rodiant yn berffaith.”

I. Beth yw Duw? Y mae efe yn ddaioni, ië, yn ddaioni mawr.

1. Y mae yn "haul;" hynny yw, y mae i eneidiau dynion yr hyn ag yw yr haul naturiol i'r ddaear a'i phreswylwyr. Yn awr, yr haul, chwi a wyddoch, yw ffynnon goleuni, tyfiant, ac hyfrydwch.

Yr haul yw ffynnon *goleuni*. Mor dywyll, mor erchyll, ac mor druenus fyddai y ddaear hon, pe bai yr haul yn cael ei ddiffoddi! Felly, ynte, y mae ei oleuni o'r lleshad mwyaf. A pha beth fyddem ni heb Dduw? Megis bodau rhesymol ac anfarwol ni a fyddem yn llawer gwaeth ein cyflwr na phe buasem heb un haul yn y byd naturiol. Er prawf o hyn, darllenwch yr ail bennod o'r Ephesiaid, lle darlunir y Cenhedloedd fel mewn rhyw gyflwr arswydus cyn i'r efengyl gael ei phregethu iddynt. Ac, yn wir, frodyr, beth yw yr hyn sydd yn gwneud gwahaniaeth rhyngom ni ac eilunaddolwyr paganaidd? Hyn yw,—nid ydynt *hwy* yn adnabod Duw; nid yw goleuni gwybodaeth ei ogoniant a'i ras wedi llewyrchu yn eu plith; gan hynny, y maent yn ymbalfalu ac yn tripio, megis y dall ar hanner dydd. "Eithr dedwydd yw *eich llygaid chwi* am eu bod yn gweled; a'ch clustiau am eu bod yn clywed;" a'ch calonau am eu bod yn deall. "Gwyn eu byd y bobl," medd y Psalmydd, "a adwaenant yr hyfryd lais: yn llewyrch dy wyneb, O Arglwydd, y rhodiant *hwy*."

Etto, yr haul sydd achos o *dyfiant*. Heb yr haul ni fyddai ond anffrwythlondeb cyffredinol, a marwolaeth ar y ddaear yma. Ond, medd rhyw un, nid yr haul yw'r unig achos o dyfiant a ffrwythlondeb, canys yr ydym ni yn cael gwlaw. Gwir; ond, a fyddai y gwlaw yn llesol heb yr haul? A pheth sydd yn peri y gwlaw

ond y tarth sydd yn cael ei dynnu i fynu gan yr haul i'r awyr-gylch, ac wedi hynny yn cael ei daenu oddi amgylch ar hyd wyneb y ddaear? Cymmerwch ymaith yr haul, a'r cwbl a fyddai yn ddidrefn. Ac, onid yw Duw, fy mrodyr, yn ffynnon, yn achos o bob tyfiant a chynnydd? Gwrandewch beth a ddywed Solomon,— “*Bendith yr Arglwydd a gyfoethoga.*” Ein holl ddedwyddwch, ein holl obaith, a'n holl ddiagwyliadau rhagllaw, ydynt yn tarddu oddiwrth Dduw; a hyn wyf yn feddwl yn ysprydol yn gystal ag yn dymhorol.

Ym mhellach, yr haul yw ffynnon pob *hyfrydwch* naturiol. “Hyfryd yw,” medd Solomon, “i'r llygaid weled yr haul.” Pa fath londer, pa fath bleser, a pha fath fywiogrwydd diniwed y mae yn beri mewn anifeiliaid! Pa fath gryfder a glendid yn llysiau y maes! Ac, a oes, fy mrodyr, unrhyw beth fel Duw i wneud yr *enaid* yn ddedwydd? i wneuthur y creadur yn llawen? Efe yw ein llawenydd; ië, ein “gwobr mawr iawn.” O! fel y mae yn llewyrchu i'n *calonau* tywyll ni, gan “roddi goleuni gwybodaeth ei ogoniant, yng ngwyneb Iesu Grist.” O! fel y mae yn llewyrchu ar ein *llwybrau* pan yr ydym yn “rhodio mewn tywyllwch, ac heb lewyrch;” pan yr ydym wedi dyrysu, ac heb wybod beth i wneuthur, hyd nes y codom ein llygaid tua'r nef. “Arglwydd, dyrcha arnom lewyrch dy wyneb,” medd y Psalmydd, “rhoddaist *lawenydd* yn fy nghalon, mwy na'r amser yr amlhaodd eu hyd a'u gwin hwynt.” Fel hyn y mae yr Arglwydd Dduw yn *haul*. O! bobl, bydded i ni ymheulo yn ei belydr—bydded i ni breswyllo yn ei oleuni—bydded i ni fyfyrto ar ei natur, ei lywodraeth, a'i ffyrdd. O! erfyniwn arno amlygu ei garedigrwydd a'i hawddgarwch i'n heneidiau, ac yna ni a allwn “redeg heb flino, a rhodio heb ddiffygio.”

Ond pa beth arall yw Duw ?

2. Y mae yn "*darian*." Yn ol dull o ryfela yn yr hen amser, y *darian* oedd offeryn milwraidd, yn cael ei ddefnyddio yn hollol i ymddiffyn y milwr rhag saethau a gwaywffyn ei elynion. Arf amddiffynol oedd. "A tharian," fy mrodyr, "yw yr Arglwydd Dduw." Fel hyn y dywedodd wrth Abram, Genesis 15. 1. "Nac ofna, Abram; myfi ydyw dy *darian*, dy wobwr mawr iawn." "Yr Arglwydd," medd Dafydd, "yw fy nerth a'm *tarian*." Ac medd Duw ei hun wrth ei bobl, "Ni lwydda un offeryn a lunier i'th erbyn," Esa. 54. 17. Bydd iddynt yr hyn a addawodd fod i Jerusalem yn nyddiau Zechariah; sef, "yn fur o dân o amgylch" iddynt, ac "yn ogoniant yn eu canol." O! ynte, frodyr, ymddiriedwch yn yr Arglwydd bob amser, "canys yr Arglwydd Dduw yw eich haul a'ch *tarian*.' Y mae efe yn *darian* i'ch personau, neu eich *cyrph*. "Na chyffyrddwch," medd efe, "â'm rhai enneiniog, ac na ddrygwch fy mhrophwydi." "A ddeliaist ti ar fy ngwas Job," medd yr Arglwydd wrth Satan? Do, medd Satan; "Oni chawaist o'i amgylch ef, ac o amgylch ei dŷ? Rhyfedd ragorfraint y duwiolion, y mae Brenin y brenhinoedd yn cau o'u hamgylch, ac yn eu hamddiffyn â mur o dân rhag eu gelynon.

Y mae efe yn *darian* i'n *grasusan* hefyd. Gwrthwyn-ebiad a malais Satan sydd yn cael ei annelu yn neillduol tuag attom pan y byddom yn dyfod yn ddarostyngedig i ddylanwad dwyfol. Luc 22. 31. "A'r Arglwydd a ddywedodd, Simon, Simon, wele, Satan a'ch ceisiodd chwi, i'ch nithio fel gwenith: eithr mi a weddiais drosot, na ddiffygiai *dy ffydd* di." Dyma lle yr oedd *tarian* i ffydd plentyn Duw. Ac nid hyn yw y cwbl, bydd ef yn *darian* i'ch *meddiannau*;—"Oni chawaist o'i

amgylch ef, ac o amgylch ei dŷ, ac ynghylch yr hyn oll sydd eiddo oddi amgylch?" Er i Job gael ei brofi dros ychydig amser, ni chafodd ei feddiant ond ei osod allan ar lŵg, canys efe a ddaeth yn ol yn fuan iawn ar ei ganfed. Ac efe a ennillodd heblaw hynny lawer ychwaneg o wybodaeth, ac a dderbyniodd lawer o ddwyfol ras. Ië, "yr Arglwydd Dduw sydd darian," am hynny fe a orchuddia eich penau yn nydd y frwydr; —"Canys meirw ydych, a'ch bywyd a guddiwyd gyda Christ yn Nuw. Pan ymddangoso Crist ein bywyd ni, yna hefyd yr ymddangoswch chwithau gydag ef mewn gogoniant." Col. 3. 3, 4.

O! y fath fendith yw, fy mrodyr, i roddi ein hunain i fynu i gadwraeth Jehofah. Y fath drugaredd yw ein bod yn cael ein cadw rhag tafu ymaith ein gobaith! Po fwyaf a wnelom â Duw megis ffynnon gwybodaeth, doethineb, bywyd, iechydwrriaeth, a hapusrwydd; po fwyaf, meddaf, y rhoddom ein hunain i fynu i Dduw megis ein hyfforddwr a'n hamddiffynwr, goleuach fydd ein llwybrau, ac ni a gawn fyned ym mlaen "o nerth i nerth," hyd nes yr ymddangosom ger ei fron yn y nefoedd. O! ffown atto, canys efe yw ein "haul a'n tarian."

Ond, yn—

II. Beth y mae Duw yn wneuthur? Wel, "Yr Arglwydd a rydd ras a gogoniant," a phob "daioni." Yn awr, dyma ddywedyd llawer mewn ychydig o eiriau. Mi a fum ym mron a dywedyd, na all Duw roddi ychwaneg na hyn i ni, sef, "gras a gogoniant," a phob "daioni."

1. Beth yw *gras*? Dyma air ag yr ydym bawb yn hoffi, ac y mae yn cynnwys llawer iawn. Gras ydyw ewyllys da Duw tuag attom. Yr hyn oll a fu genym

erioed, yr hyn oll *sydd* genym yn awr, a'r hyn oll yr ydym yn obeithio *gael*, sydd yn tarddu oddiwrth ewyllys da Duw. Titus 3. 5. "Nid o weithredoedd cyfiawnder y rhai a wnaethom ni, eithr yn ol ei drugaredd yr achubodd efe nyni." Ein prynedigaeth trwy Iesu Grist sydd waith gras; hynny yw, ewyllys da Duw tuag at ddynion yw,—“Canys felly y carodd Duw y byd,” megis gweithred o ewyllys da a thrugaredd, “fel y rhoddodd efe ei unig-anedig Fab, fel na choller pwy bynnag a gredo ynddo ef, ond caffael o hono fywyd tragywyddol.” Gweithrediadau a chynnydd y cyfammod gras yn yr enaid o'r dechreuad hyd y diwedd sydd weithred o ras, ac amlygiad o ewyllys da Duw tuag attom. Y sylfaen sydd yn cael ei gosod mewn gras, yr adeiladaeth sydd yn myned ym mlaen mewn gras, a'r cwblhad sydd mewn gras, neu ewyllys da Duw. Y mae efe wedi rhoddi gras i ni yn ei anwyl Fab, gras yn ei amcanion, a gras yn ei gyfammod; felly y cwbl sydd o ras. “Yr Arglwydd a rydd ras.”

Gras yw *gwaith da Duw ynom ni*. Beth yw y gwaith hwnnw ag sydd yn cael ei ddwyn yn y blaen yn yr enaid, ac yn ei ddull-newidio i ddelw sanctaidd Duw? Wel, gwaith Hollalluog allu yw,—“Nid trwy lu, ac nid trwy nerth, ond trwy fy Ysryd, medd Arglwydd y lluoedd.” Zech. 4. 6. Dyma ei waith oddi mewn i ni; a phaham y mae yn cael ei alw yn ras? Y mae felly mewn perthynas i'w *ddechreuad*. Y mae yn deillio oddiwrth ewyllys da, a thrugarog fwriad Duw tuag at ddyn euog. Ac y mae felly hefyd, mewn perthynas i'w *effaith*. Y mae gallu yn Nuw, yr hwn sydd yn creu pob peth, a gallu ag sydd yn cynnal pob peth, a gallu ag sydd yn attal pob peth. Yr olaf sydd yn cael ei arferyd ar gythreuliaid; ond nid yw yn gwneuthur

dim daioni iddynt hwy, ac nid yw yn effeithio un cyfnewidiad yn eu cyflwr. Ond y gallu yr ydym ni yn son am dano sydd yn cyfnewid. Egwyddor newydd a sanctaidd yn yr enaid yw, ac y mae yn ein haddasu i gadw cymmundeb â Duw, i'w wasanaethu ef "wrth ei fodd, gyda gwylder a pharchedig ofn," i'w "ogoneddu ef yn ein cyrph ac yn ein hysprydoedd, y rhai sydd eiddo Duw."

Fel hyn, chwi a welwch, fy mrodyr, fod yr Arglwydd yn rhoddi gras. Y mae dwy fendith ar y ddaear hon na ddylech byth golli eich golwg arnynt,—rhoddiad o Grist, a rhoddiad o'r Yspryd Glân. Crist i rod-di iawn drosom, ac i'n prynu oddiwrth euogrydd; yr Yspryd i'n cyfnewid a'n sancteiddio, a'n haddasu er gwasanaeth y nefoedd.

Y mae yr Arglwydd yn rhoddi gras ar ras; gras i faddeu, gras i'n hadgenhedlu, a gras i'n sancteiddio. Fel hyn y mae cristionogion yn derbyn gras nes byddont feirw. A pha beth sydd yn dyfod o hono wedi hynny? Wel, gwrandewch beth y mae'r testyn yn ddywedyd,—

2. "Yr Arglwydd a rydd ogoniant." A pheth yw gogoniant? Gogoniant yw cyflawniad neu berffeithrwydd; diben mawr ein creadigaeth, a chwblhad o'n holl ddymuniadau yw; prif amcan marwolaeth yr Arglwydd Iesu yw, canys y mae efe yn dwyn llawer o feibion i ogoniant. Amlygiad o'r hyn oll sydd ogoneddus yn Nuw ydyw. Heblaw hynny, y mae gogoniant yn waredigaeth oddiwrth yr hyn oll sydd niweidiol a thrallodus—y mae yn gyflwr o berffeithrwydd moesol—yn gyflwr o bleser mwyaf diniwed—yn gyflwr o wynfydedigrwydd tragywyddol—yn gyflwr o undeb â brenhinoedd, â g offeiriaid, â phrophwydi, â merthyri,

âg angylion, ac â'r gogoneddus Drindod yn Undod; mewn gair, gogoniant yw'r gradd uchaf o ddedwyddwch gyda Duw, ac yn Nuw.

"Yr Arglwydd a rydd ogoniant." "Dyn," medd un awdwr call, "yw gogoniant y byd hwn; yr enaid yw gogoniant dyn; gras yw gogoniant yr enaid; a'r nef-oedd yw gogoniant gras." Y nefoedd neu ogoniant, yw gras wedi addfedu a'i ddwyn i berffeithrwydd; yno ni a gawn weled yr Iesu wyneb yn wyneb; ei enw a gaiff ei ysgrifenu ar ein talcenau; ac ni a gawn deyrnasu gydag ef yn oes oesoedd. O! frodyr a chwiorydd, llefwch am gael rhan yn y gogoniant hwn.

"Yr Arglwydd a rydd ogoniant." Y mae efe yn ei *roddi*. Ychydig amser yn ol, aeth gweinidog i ymweled â dyn tlawd annuwiol, ar ei wely angau, yr hwn oedd wedi bod yn euog o bechodau gwaradwyddus iawn; ac fel ag yr oedd y gweinidog yn ei holi mewn perthynas i'w gyflwr ysprydol,—“O!” eb efe, “ni chaf i ddim o'r nefoedd megis *rhodd*; yr wyf *fi* yn hyderu ar fy *ngweithredoedd da!*” Wel, gwybyddwch, fy mrodyr, os na dderbyniwch chwi y nefoedd fel *rhodd*, yr ydych yn sicr o gael uffern fel *gwobr*. “Yr Arglwydd a rydd ogoniant.” Ac at beth yr ydych *chwi* yn cyrchu? “At y nôd, am gamp uchel alwedigaeth Duw yng Nghrist Iesu,” medd un. Erbyn peth yr ydych *chwi* yn parottoi? Erbyn “swpper neithior yr Oen,” medd un arall. Am beth yr ydych *chwi* yn ymdrechu? “Am goron y bywyd,” medd y trydydd. A pha beth yr ydych *chwi* yn ddisgwyl? I fod gydag ef—i'w weled ef fel ag y mae—i “deyrnasu mewn bywyd, trwy un, Iesu Grist.”

Wel, fy ngwrandawyr, bydded y gogoniant hwn yn werthfawr yn eich golwg *chwi*; gwerthfawrogwch er uwchlaw pob peth arall. Y ddaear hon a ddiplana yn

fuan megis breuddwyd ; “golud a eheda ymaith megis eryr tua'r wybr ;” pechaduriaid a yspeilir o'u holl fri, eu hanrhydedd a osodir yn y llwch, eu coffadwriaeth a anghofir, a hwythau a yrir ymaith at gythreuliaid i uffern, lle y mae wylofain a rhingcian dannedd. Ond eich dedwyddwch a'ch llawenydd penaf chwi, os ydych yn wir gristionogion, sydd i *ddyfod* ; y mae ef fry yn y nefoedd, lle y mae eich trysor wedi ei guddio, eich meddyliau wedi eu sefydlu, a'ch enwau wedi eu hysgrifenu yn llyfr y bywyd. O! ynte, peidied neb o honoch gyfnewid y nefoedd am ryw ychydig o gyfoeth darfodedig. Peidiwch a chyfnewid Paradwys am yr hen ddaear hon. Peidiwch a chyfnewid gogoniant tragywyddoldeb am deganau a phleserau amser. Yr oedd rhai, i'e, yr oedd llawer a ddywedasant, “Pwy a ddengys i ni ddaioni?” Ac yr oedd un arall, yr hwn a lefodd allan, “O! feistriaid, beth sydd raid i mi ei wneuthur, fel y byddwyf gadwedig?”

Pa un o'r ddau ymfyniad yr ydych chwi yn meddwl oedd fwyaf addas, doeth, a phwysfawr? O! meddech chwi, Yr un oedd ynghylch iechydwrriaeth, yn sicr. Wel, yr Arglwydd a'ch tueddo *chwi*, bawb o honoch, i ymfyn am iechydwrriaeth tra y mae'r efengyl yn seinio yn eich clustiau, i'e, cyn machludo eich haul.

3. Ac yn eich ffordd tua'r gogoniant, “ni attal efe ddim *daioni* oddi wrthyhych.” Pob peth angenrheidiol er bywyd a roddir i chwi. Fe fydd yr hwn sydd yn dilladu llyisiau y maes, yn addurno lili y dyffrynoedd, ac yn porthi cywion y gigfran, yn sicr o ofalu am ei blant a'i bobl. Os rhoddodd efe ei Fab i farw drostynt, os ydyw yn rhoddi gras iddynt, ac yn parottoi dinas barhaus ar eu cyfer, sicr yw na attal efe ddim *daioni* rhagddynt. Ond, ysgolhaig, chwi a wyddoch, sydd yn

rhoddi ei hun dan hyfforddiad ei feistr, trafaelwr sydd yn gosod ei hun dan gyfarwyddiad ei hyfforddwr, a dyn claf sydd yn gosod ei hun dan ofal ei feddyg. Felly y mae hefyd mewn pethau crefyddol. Y mae yn rhaid i Dduw gael ein hymddiried—y mae yn rhaid i ni gredu y bydd Duw yn sicr o gyflawni ei addewidion; ac yn wir ni a ddylem roddi ein hyder arno, canys ni a allwn ddywedyd gyda'r Psalmydd, “Ni welais y cyfiawn wedi ei adu.”

Gadewch i ni sylwi ychydig yn awr ar y rhan olaf o'r testyn, sef, yn—

III. *Pwy yw y rhai a allant ddisgwyl cyfranogi o'r rha-gorfreintiau a'r dedwyddwch hwn.*

Y rhai a allant ddisgwyl pob daioni ydynt “y rhai a rodiant yn berffaith.” Y testyn a ddywed, “Ni attal efe ddim daioni oddiwrth y rhai a rodiant yn berffaith.” Y gair perffaith yn yr adnod hon sydd yn arwyddocau yr un peth a'r geiriau *ffyddlon* a *chrysiawn* mewn manau eraill o'r Ysgrhythyr. Ei ystyr yw, *fod* y dyn yn wirioneddol, yr hyn y mae yn broffesu ei fod, “Israeliad yn wir, yn yr hwn nid oes dwyll.” Y mae efe yn yr ystyr hyn, yn rhodio yn berffaith gyda Duw, ac yn berffaith gyda dynion. Y mae y cyfryw ddyn yn gyfiawn tuag at ei enaid ei hun. Ni fynai, er dim, niweidio ei gymmydog, i dwyllo ei hunan, i dristau yr Yspryd, na chlwyfo ei Iachawdwr. Y mae efe yn “rhodio yn berffaith.” Y cyfryw a gânt fwynhau gwên eu Tad nefol—hwy a gânt eu hamddiffyn â'i darian—hwy a gânt “ras yn gymmorth cyfamserol;” ac o'r diwedd, cânt eu dwyn i ogoniant tragywyddol. O! frodyr, ymdrechwch fod o'u nifer. “Cyfyd goleuni i'r rhai uniawn,” neu berffaith, “yn y tywyllwch,” medd y Psalmydd. O! gwna. Y mae Duw yn gwneud

“y tywyllwch yn oleuni o’u blaen hwynt, a’r pethau ceimion yn uniawn.” Y perffaith a gaiff ryw dda yn ei feddiant, bob amser ychydig, a ffydd i hyderu am ragor. Ac “ystyriwch y perffaith, ac edrychwch ar yr uniawn; canys diwedd y gwr hwnnw fydd tangnefedd.” Nid oes gan y perffaith, ynte, y gwir grïstion, ddim i ofni ond ei *human*, ei hen *galon* ddrwg dwyllodrus.

Yn awr, chwychwi ag sydd yn ateb i nodau y gwr perffaith, gobeithiaf fod yma lawer o honoch, cofiwch eich bod yn gyfoethog iawn, canys Duw sydd yn eiddo i chwi, Crist sydd yn eiddo i chwi, yr Yspryd Glân sydd yn eiddo i chwi, a’r *addeuidion* sydd yn eiddo i chwi. Meddyliwch faint sydd yn eich meddiant, frodyr; ac, O! meddyliwch faint y mae Mab Duw yn barottoi i chwi fry yn nhŷ ei Dad.

Rhai o honoch a allant ddywedyd, “Y Duw hwn yw *ein* Duw *ni* byth ac yn dragywydd;” ac “efe a’n tywys hyd angau.” Eraill o honoch a ddywedant ar brydiau, “Marw a wnelwyf o farwolaeth yr uniawn, a bydded fy niwedd fel yr eiddo yntau.” Caniattaed yr Arglwydd mai felly y byddo; a chaniattaed ym mhellach i chwi yn awr gael eich dwyn i gyduno â’r “uniawn, a dyfod o dan enw y “rhaf a rodiant yn berffaith, er mwyn Iesu Grist *ein* Iachawdwr.” O! frodyr, peidied neb o honoch esgeuluso iechydwrïaeth eich heneidiau. Os yw eich cydwybod yn dywedyd wrthy ch nad ydych mewn cyflwr o barodrydd erbyn awr angau, a dydd y farn, O! nac oedwch un funud yn hwy i wneuthur heddwch â’ch Duw, trwy Iesu, yr Arch-offeiriad mawr. O! defnyddiwch foddion gras, gweddiwch, darllenwch eich Biblau, ymgynnullwch i dŷ yr Arglwydd, gadewch eich pechodau, ac erfyniwch am drugaredd trwy eich

Prynwr bendigedig; ie, cymmerwch afael ar fywyd tragywyddol. O! diengwch am eich einioes. Ffowch i'r noddfa rhag yr ystorm ofnadwy sydd yn ymaros yr annuwiol! Ffowch at y Duw hwnnw, yr hwn sydd yn "haul a tharian" i bawb a ymddiriedant ynddo. Ymgesglwch o tan esgyll Crist, "Haul cyfiawnder," yr hwn a ddioddefodd ddigofaint Duw drosoch, a dalodd eich dyled, a foddlonodd y gyfraith ddwyfol, "a archollwyd am eich camweddau, ac a ddrylliwyd am eich hanwireddau chwi."

O! ewch at Iesu am feddyginiaeth i'ch eneidiau. O! pwyswch ar yr Iachawdwr, canys "haul a tharian" yw efe i bawb a gredant ynddo.

PREGETH XIV.

LUC 22. 15.

“AC EFE A DDYWEDODD WRTHYNT, MI A CHWENNYCHAIS YN FAWR FWYTТА Y PASG HWN GYDA CHWI CYN DIODDEF O HONOF.”

Y GEIRIAU graslawn hyn a lefarwyd gan ein Iachawdwr bendigedig, y nos honno cyn iddo gael ei adael gan ei ddisgyblion, y rhai yr oedd efe yn garu mor anwyl; ac ychydig amser cyn iddo gael ei gollfarnu gan farnwr anghyfiawn, a'i osod i farwolaeth. Llefarodd y geiriau pan oedd yn canfod dioddefiadau ac angau y groes ym mron a'i orddiwes. O! y fath gariad a welwn ni yma, ei fod ef yn llefaru wrth ei ddisgyblion yn y fath eiriau tyner a graslawn, yng ngwyneb y dioddefiadau ag yr ydoedd ar fyrder i fyned oddi tanynt, a'i ymdrech â galluoedd y tywyllwch. Y mae efe yma yn parottoi ar gyfer ei ffyddlon ganlynwyr werthfawr foddion gras, er eu cysur a'u diddanwch, tra yn teithio trwy anialwch y byd hwn tua'r Ganaan nefol. “Mi a chwennyichais yn fawr fwytta y pasg hwn gyda chwi cyn dioddef o honof.”

Gwelwn yma daer ddymuniad Crist, cyn ymadael â'r byd hwn, i roddi i'w ganlynwyr un o'r bendithion mwyaf a all dynion dderbyn, ac i sefydlu yr ordinhad sanctaidd y sacrament o'i gorph a'i waed, er coffadwriaeth am ei ddiodefiadau; yr hyn, trwy fendith Duw, sydd foddion i ddwyn gras ac iachawdwriaeth i galonau pechaduriaid.

Y geiriau hyn, ynghyd â'r modd y llefarodd Crist hwynt, a ddylent dywys ein meddyliau i fyfyrion, gyda diolchgarwch, ar gariad annhraethol ein Prynwr bendigedig, yn cymmeryd arno ei hun y gosp oedd ddyledus am ein pechodau ni, ac felly yn dioddef, y cyfiawn dros yr anghyfiawn, fel y dygai ni at Dduw; ac yn gosod y sacrament sanctaidd fel coffadwriaeth "am ei werthfawr angau hwnnw, nes ei ddyfod drachefn." "Gwnewch hyn er coffa am danaf."

Pe byddem ond myfyrion yn syml ar ryfeddodau cariad prynedigol ein Iachawdwr, ac ar y sacrament o'i gorph a'i waed, ni theimlem ddim cymmaint o anewyllysgarwch i gyflawni y gorchymmyn pendant hwn; ac ni wnai pob gwael esgus ein cadw rhag amgylchynu ei fwrdd, i wneud hyn er cof am dano *ef*, yr hwn a wnaeth ac a ddioddefodd gymmaint yn ein lle ni.

Frodyr anwyl, gwnai aml feddwl am y pethau hyn, gyda gweddi ac ymbiliau ar Dduw pob gras ddarostwng y pechadur, parai iddo fod yn isel, ac i'r Iachawdwr fod yn ddyrchafedig; a byddai yn foddion i ddyrchafu ein serchiadau oddiar bethau gwael y byd hwn, a'u sefydlu ar bethau nefol ac ysprydol.

Y mae y matter sydd yn gynnwysedig yn fy nhestyn yn haeddu ein dwys ystyriaeth. Y mae Crist yma yn bwriadu dangos i'w ddisgyblion, ac i'w holl ganlynwyr, y diben y drylliwyd ei gorph, ac y tywalltwyd ei waed ar y groes.

Gwledd y pasg a sefydlwyd er coffadwriaeth am wardigaeth yr Israeliaid allan o'r Aipht, a rhag gallu yr angel dinystriol, pan darawodd Duw bob cyntaf-anedig yng ngwlad yr Aipht, (ond yr ydym ni yn cadw gwyl y pasg er coffadwriaeth am adgyfodiad Crist o'r bedd.) Yr oedd oen yn cael ei ladd yr amser hwnnw, a'r gwaed

a daenellid ar y ddau ystlys-bost, ac ar gappan drws tai yr Israeliaid, fel y byddai i'r angel dinystriol fyned heibio iddynt hwy, pan yr oedd yn lladd yr Aiphthiaid. Y mae hyn yn arwyddocau yn *neillduol* haeddiant marwolaeth Crist, a rhinwedd iachusol ei waed gwerth-fawr, wedi ei daenellu ar galonau credinwyr trwy ras Yspryd Duw.

Marwolaeth Crist a bwrcasodd *fywyd* i'n heneidiau ni, a'i waed sydd yn ein glanhau ac yn ein sancteiddio rhag pob pechod ac euogrwydd. Y mae hyn hefyd yn dangos i ni y modd y mae eneidiau y credinwyr yn cael eu meithrin a'u porthi. Chwi a wyddoch fod yr Israeliaid yn bwytta yr oen, ac yn ymborthi arno, tra yr oedd y gwaed wedi ei daenellu yn attal yr angel dinystriol. Fel hyn hefyd y mae yn rhaid i'n henaidiau ninau ymborthi trwy ffydd ar gorph Crist yn cael ei dorri trosom; a bywyd ffydd a raid gael ei feithrin a'i gynnal yn y blaen trwy haeddiant gwaed y groes. "Crist ein pasg ni a aberthwyd trosom ni: am hynny cadwn wyl."

Etto, yr oedd *holl gynnulleidfa* pobl Israel yn cael gorchymmyn i fwytta o'r pasg. Felly hefyd, 'fe orchymmynir i *bob* gwir gristion fod yn gyfranog o "swpper yr Arglwydd," er coffadwriaeth am angau a dioddefiadau Iesu, Oen Duw, ac o gariad am ei drugaredd a'i ras, yn marw dros bechaduriaid. O! fel y dylai hyn dywys dynion ag sydd yn ofni ac yn caru Duw, i iawn deimlad ac ystyriaeth o'r ddyledsdydd anhepgorol o gyfranogi o'r wledd sancteiddiol hon, ac i ystyried y golled a'r euogrwydd y maent yn ddwyn ar eu cydwytodau, trwy esgeuluso yr ordinhad ag y mae Crist ei hun wedi osod yn ei Eglwys er cof am dano, pan yr oedd ym mron a dioddef angau y groes drostynt. O! eneidiau, meddylwch yn syml am y pethau hyn, a

thrwy ras Duw peidiwch a byw mewn esgeulusdod o'r hyn ag ydyw eich rhagotfaint fwyaf.

Y mae derbyn y sacrament bendigedig yn beth ag sydd yn rhwymedig ar bob crïstion, yr hyn nis gall un ag sydd yn proffesu ffydd a chariad at ein Iachawdwr ei esgeuluso. Y mae yn weithred o *gariad* a *diolchgarwch* i Grist, ag sydd yn ddyledus oddiwrth bob gwir grïstion. Y mae yn weithred o ufudd-dod hefyd, yr hon nis gall crïstionogion esgeuluso, heb ddwyn euog-rwydd arnynt eu hunain, a dianrhydeddu eu proffes o efengyl Crist. Y mae yn orchymmyn mor bendant, ac mor rhwymedig, fel ag y mae yn anhawdd gwybod pa fodd y mae y rhai hynny ag ydynt yn byw yn yr esgeulusdra o honi, yn ateb i'w cydwybodau am hyn.

Ond er ei bod yn ddyledswydd ar bob *crïstion* i fod yn gyfranog o'r cynmun bendigedig, etto, nid wyf ddim yn golygu y bydd hyn, o *hono ei hun*, yn llesiol i'r enaid. Na fydd; ond fel moddion eraill o ras, y mae yn cael ei fendithio i'r enaid *hunnu yn unig*, ag sydd yn ei dderbyn yn *deilwng*, gyda golygiadau cywir, a chydag yspryd cywir.

Wel, dyma y pethau a'n gwnant ni yn gymmunwyr addas wrth fwrdd yr Arglwydd, sef *ffydd fywiol*, *gwir edifeirwoch*, a *chariad diragrith*. Dyma y wisg briodas a'n gwna ni yn dderbynwyr teilwng wrth y bwrdd sanct-aidd; dyma yr hyn a bâr i ni allu cyffwrdd âg yml ei wisg ef, fel ag y delo rhinwedd allan i'n hiachau ni. Nid oes ond y ffyddloniaid yn unig a dderbyniant gorph a gwaed Crist yn y "cymmun bendigaid." Nid yw y dyn *ffurfiol*, y *rhagrithiwr*, y *pechadur anedifeiriol*, ddim yn derbyn gras yn y sacrament hwn. Ond y mae yn gymmaint o ddyledswydd ar bob crïstion profedig dderbyn y cymmun ag yw yn ddyledswydd ar bech-

aduriaid a rhagrithwyr i edifarhau a chredu yr efengyl. Dylai pob un ag sydd yn credu ddyfod ym mlaen i amlygu ei gariad a'i ddiolchgarwch i'w Brynwr mawr, ac i dderbyn oddi wrtho bob cynnorthwyadau o ras a fyddo yn angenrheidiol i ddwyn ym mlaen waith ffydd yn ei enaid.

Yma y dylai y *gwan* ddyfod i gael ei nerthu, yr *ammheus* i gael ei gadarnhau, y *galarus* i gael ei gysuro a'i ddiddanu, a'r *ofnus* i gael ei wneud yn hyderus yn yr Arglwydd, ac yng ngallu ei gadernid ef, ac fel y byddo i *baob* anrhydeddu Crist, ac i ogoneddu Duw, trwy eu cariad a'u hufudd-dod i'w orchymmynion sanctaidd.

Yn wir, mi a gyfaddefaf, ac y mae yn ofidus meddwl, fod llawer yn dyfod i'r cymmun yn ammharod, ac yn ymddifad o'r wisg, y rhai nid ydynt yn teimlo baich eu pechodau, y rhai nid ydynt yn dirnad corph yr Arglwydd, ac heb ddim cariad tuag at Grist yn eu calonau. Y mae yn ofidus meddwl am y fath bobl, canys nid ydynt ond cellwair â Duw! Yr Arglwydd a welo yn dda i agoryd llygaid y cyfryw mewn pryd, ac, onidê, y mae eu cospedigaeth *hwy* yn sicr!

Ond, O! faint sydd yn *gwrthod* dyfod, y rhai a *ddylent* ddyfod, i glodfori trugaredd dwyfol ras!

Y mae rhai, fe allai, yn anwybodus o natur y wledd sanctaidd hon. Y mae eraill nad ydynt yn ystyried y rhwymedigaethau sydd arnynt i fod yn gyfranogion o swpper yr Arglwydd. Eraill sydd yn cael eu cadw yn ol oblegid rhyw rwystrau neu gilydd, y rhai yn aml sydd heb un sail ysgrythyrol iddynt. O! eneidiau, peidiwch a gadael rhyw esgusodion gwael o'r fath hyn eich rhwystro *chwi* rhag dyfod. Peidiwch a gwneud un esgus ag a fyddai arnoch *gywilydd* ac *ofn* ei wneud ar *wely angau*, neu yn *nydd y farn*.

Y mae lle i ofni fod llawer o esgusodion ag ydynt yn ddigonol i'n cadw rhag y bwrdd *yn awr*, na dderbynrir ddim o honynt ar *ddydd mawr y cyfrif*. Fe fydd yn rhy ddiweddar y pryd hwnnw i chwi *edifarhau* am eich hesgeulusdra. *Yn awr* yw yr amser i chwi ddefnyddio eich breintiau, am hynny peidiwch a'u hesgeuluso. Pa le y mae y dyn yn eich plith a ryfygai esgeuluso yr alwad o drugaredd, pe gwyddai yn sicr mai y *nos hon* y gofynid ei enaid oddi wrtho?

Wel, am nad oes un awr o'ch bywyd a ellwch alw yn eiddo chwi, am nas gwyddoch pa un a gewch un awr yn rhagor, nac oedwch gyflawni gorchymmyn pennodol Crist,—“Gwnewch hyn er coffa am danaf.”

O! deuwch ym mlaen, mewn ffydd ac edifeirwch; amgylchynwch fwrdd yr Arglwydd, i dderbyn gyda diolchgarwch y gwystlon o gariad tragywyddol, cariad a gymhellodd unig-anedig Fab Duw i adael ei orsedd o ogoniant yn y nefoedd, a dyfod i waered i iselderau y ddaear, ac i fyw a marw, fel y byddai i *ni* gael teyrnasu gydag ef yn oes oesoedd!

Gwnaf yn awr ddilyn esiampl yr Apostol, a gwahodd *paob* i ddyfod. Y credadyn yng Nghrist i fod yn gyfranog o'r “bara a ddaeth i waered o'r nef;” a'r pechadur i edifarhau am ei bechodau, a dychwelyd, fel y byddo i'w enaid gael ei addasu trwy ffydd ac edifeirwch, i ddyfod a derbyn y gras a'r bendithion ag sydd yn y sacrament bendigedig i'r gwir gredadyn. Na fydded i un o'r ddau—y crïstion, a'r pechadur anedifeiriol, esgeuluso y gwahoddiad. Yr wyf yn dy wahodd *di* grïstion—tyred at y bwrdd; ddyn annuwiol, yr wyf yn galw arnat tithau—*edifarha* a *dychwel*, ac yna, ar dy edifeirwch gyda ffydd a gostyngeddwrwydd, gwna dithau hyn er cof am dano.

Wrth *bawb* y dywedaf, “Holed dyn ef ei hun; ac felly bwyttaed o’r bara, ac yfed o’r cwppan.” Cofiw’n, *bawb*, fod Crist ein pasg ni wedi ei aberthu drosom ni; am hynny cadwn wyl, nid â hen lefain, nac â lefain malais a drygioni; ond â bara croyw purdeb a gwirionedd.” 1 Cor. 5. 8. Ac y mae addewid werthfawr iawn hefyd i *bawb* a ddelont at Grist mewn ffydd ac edifeirwch; canys clywch pa beth y mae yn ddywedyd wrth ei ddisgyblion,—“Myfi yw bara y bywyd. Yr hwn sydd yn dyfod attaf fi, ni newyna; a’r hwn sydd yn credu ynof fi, ni sycheda un amser.” St. Ioan 6. 35.

“Mi a chwennychais yn fawr fwytta y pasg hwn gyda chwi cyn dioddef o honof.” Bechadur annuwiol, yr hwn wyt yn ymgaledu yng ngwyneb pob moddion, O! na wnai y geiriau hyn dy dywys i ystyried *y pris a dalodd Crist dros dy enaid*, i feddwl am ddioddefiadau chwerwon Mab Duw ar y groes, i’r diben i’th achub rhag colledigaeth uffern! A wnai di goffeidio dy gadwynau, a byw yn yr ymarferiad o’th bechod, *pan y mae unig-anedig y Nefoedd wedi tywallt gwaed ei galon drosot!* O! tyred yn rhydd o’th gadwynau. Ysgwyd ymaith dy lyffetheiriau, a dos yn rhydd; dos i’r rhyddid ag sydd yng Nghrist Iesu, fel y byddo holl fendithion y cyfammod gras yn eiddo i ti.

Wele gariad anfeidrol Crist! Efe a fu farw, “y Cyfiawn dros yr anghyfiawn, fel y dygai” bechaduriaid yn ol at Dduw, ac y gwnai hwynt yn etifeddion y gogoniant tragywyddol! O! na chaid dy weled yn toddi mewn dagrau o dristwch edifeiriol, ac o ddiolchgarwch am y fath gariad ag sydd i’w ganfod yn angau y groes tuag attat ti. Llef am drugaredd, a gobeithia am faddeuant, trwy gariad Crist. Edrych ar y groes, ac edifarha am dy bechodau. Edrych ar y groes, a

ffieiddia dy hun. Edrych ar Iesu, a thra y byddo dy galon yn tyneru o'th fewn, dos mewn gweddi ostyngedig at Dduw, a derbyn faddeuant rhad ganddo. O! dychwel, a bydd fyw, yn awr, tra y mae breichiau dwyfol drugaredd ar led i'th dderbyn, i'th fendithio, ac i'th achub rhag euogrwydd pechod, a cholledigaeth y pwll uffernol!

Enaid ammheus, edrych ar y groes, a thaff ymaith dy holl ofnau. Gwel yno, ar y groes, "ddigonol aberth, offrwm, ac iawn dros bechodau yr holl fyd." Ni fydd i'r hwn a hoeliwyd wrth y groes dy wrthod, er gwaned yw dy ffydd. Yr Iesu a fu farw i bwrcasu maddeuant a thangnefedd i bob enaid a gredo ynddo, ac ni wrthyd efe ddim o'th weddi. Y mae efe yn edrych arnat gyda golwg o dosturi. "Corsen ysig nis tyr, a llin yn mygu nis diffydd." Y mae yr Iesu yn gallu cydymdeimlo â ni yn ein holl wendidau. Er mai tywyll yw arnat, disgwyl wrth Dduw. Y mae yr amser y cai waredigaeth, fe allai, yn neshau, pan y byddo i'th holl ofnau a'th ammheuaeth gael eu cyfnewid am lawenydd, a phan y byddo i'th ddagrau o dristwch gael eu troi yn ddagrau o ddiolchgarwch a mawr orfoledd.

Etto,—*enaid crediniol*, ag sydd dan flinderau a phrofedigaethau, y mae genyf air o ddiddanwch i ti. Yng ngwynneb dy holl brofedigaethau edrych ar y groes i dderbyn cyfraniadau o ras oddiwrth Grist, y ffynnon anhyspyddadwy o bob gras a thrugaredd, a thi a ddeui allan o'r brofedigaeth, er poethed y byddo, "yn fwy na chongcwerwr." Mae y ffynnon hon yn agored yn awr; tyred a thyn allan o honi ddwfr y bywyd. Tyred, a bwytta o'r bara hwnnw a ddaeth i waered o'r nef. Wele ef yn cael ei barottoi ar dy gyfer ar y bwrdd. Tyred, canys pob peth sydd barod.

Gristion gwan, y mae genyf air o gysur i tithau hefyd —“Edrych ar Iesu,” fel y nerther di â phob nerth yn ol ei allu gogoneddus ef, ac fel y “derbyniot drugaredd, ac y caffot ras yn gymmorth cyfamserol.” Dos wrth alwad trugaredd, fel y cryfhaer di â’r ymborth na dderfydd o hono byth, ac fel y byddot yn gryf yn y gras sydd yng Nghrist Iesu.

Chwithau ag ydych yma wedi eich cadarnhau,—“Edrychwch” chwi hefyd “ar Iesu,” o ddydd i ddydd, am “gynnydd mewn gras,” ac am ddiogelwch rhag pob perygl ar daith eich pererindod. Dewch â chalonau yn llawenychu, ac eneidiau yn llawn cariad a diolchgarwch, i adgoffau dioddefiadau y groes. Dewch, a groesaw sydd i chwi, i’r wledd hon o gariad, lle y cewch ymborthi ar gorph a gwaed Crist, a chyfranogi o holl olud ei ras.

Prodyr anwyl, ai *dymuniad* eich calonau yw, i glodfori cariad Crist yn y sacrament bendigedig? Wel, dewch gyda bendith Duw, os ydych yn dyfod mewn edifeirwch, mewn ffydd a chariad, a thaer weddi, a chyfranogwch o’r wledd sanctaidd; a bydded i chwi trwy hynny “gynnyddu mewn gras,” anrhydeddu Crist, addurno yr efengyl; a bydded i chwi *fod* a *byw* megis etifeddion y gogoniant, a “mynegi rhinweddau yr hwn a’ch galwodd allan o dywyllwch i’w ryfeddol oleuni ef.” “O! deuwch i’r dyfroedd, bob un y mae syched arno, i’e yr hwn nid oes arian ganddo; deuwch, prynwch, a bwyttewch; i’e deuwch, prynwch win a llaeth, heb arian, ac heb werth.” Deuwch *bawb* ag sydd yn “newynu ac yn sychedu am gyfiawnder.” Chwi a gewch yma gyfiawnder o fendithion; chwi a gewch “dangnefedd yr hwn sydd uwchlaw pob deall,” a gorphwysfa i’ch eneidiau. Deuwch *bawb* ag sydd

yn caru Crist mewn gwirionedd; ufuddhewch i'r alwad nefol, a byddwch ddedwydd yn y mwynhad o gariad prynedigol.

Deuwch, a chyssegrwch eich hunain yn hollol i Grist, fel y derbynioch ras i fyw *arno*, ac *erddo*, fel y byddoch yn barod i fyw *gydag ef* mewn gogoniant, lle y mae "digonolrwydd llawenydd a digrifwch yn dragywydd."

PREGETH XV.

JOSUA 1. 5.

—“MEGIS Y BUN GYDA MOSES, Y SYDDAF CYDA THITHAU :
NI'TH ADAWAF, AC NI'TH WETHODAF.”

Y GEIRIAU hyn a lefarwyd wrth Josua, yr hwn a ddewisodd yr Arglwydd yn flaenor yn lle Moses ei was, yr hwn oedd wedi marw yr amser hwn.

Gwir yw nad ydym ni ddim yn yr un amgylchiadau ag yr oedd Josua ynddynt ar yr amser hwn; etto, y mae rhywbeth yn y geiriau hyn ag sydd yn berthynol i ni, bawb o honom. Y mae rhai pobl ieuaingc yma; ni wyddoch ddim i ba gyfyngderau y dichon i chwi gael eich galw, ac ni wyddoch ddim beth all eich cyfarfod tu yma i'r bedd. Eraill a allant fod yma mewn *tristhoc* a *galar*, dan ofidiau a thrallodion. Dichon rhai fod yma ag sydd yn agos wynebu “dyffryn cysgod angau.” Felly, ni a welwn fod rhywbeth yn y testyn ag sydd yn perthyn i ni, bawb o honom. Ac y mae'r Apostol, yn wir, yn dangos i ni fod yr addewid a gynnwysir yn y testyn yn perthyn i bawb a gredo. Heb. 13. 5, 6. “Bydded eich ymarweddiad yn ddiariangar; gan fod yn foddlon i'r hyn sydd genych. Canys efe a ddywedodd, Ni'th roddaf di i fynu, ac ni'th lwyradawaf chwaith. Fel y gallom ddywedyd yn hyf, Yr Arglwydd sydd gymmorth i mi, ac nid ofnaf beth a wnêl dyn i mi.”

Oddiwrth eiriau y testyn, yr wyf yn bwriadu dywedyd ychydig, yn—

I. Ynghylch yr *addewid*,—"Megis y bum gyda Moses," &c.

II. Am y *sicrwydd o gyflawniad* yr *addewid*.

III. Am y buddioldeb a'r lleshad a ganlynant yr *addewid*.

Ond, yn—

I. Beth sydd i ni i'w feddwl wrth yr *addewid*,—
Mi a "fyddaf gyda *thithau*: ni'th adawaf, ac ni'th wrthodaf?"

1. Y mae yr *addewid* hon yn cynnwys ynnddi rywbeth yn rhagor na *phresenoldeb hanfodol* Duw, yr hwn sydd yn llenwi pob man a lle ar yr unwaith. Nid oes un congl yn y nefoedd, ar y ddaear, nac yn uffern chwaith, nad yw presenoldeb a gallu Duw yn ei gyrhaeddyd. Psalm. 139. 7—10. "I ba le yr âf oddiwrth dy Yspryd? ac i ba le y ffoaf o'th wydd? Os dringaf i'r nefoedd, yno yr wyt ti: os cyweiraf fy ngwely yn uffern, wele di yno. Pe cymmerwn adenydd y wawr, a phe trigwn yn eithafoedd y môr: yno hefyd y'm tywysai dy law, ac y'm daliai dy ddeheulaw." Y mae hyn, frodyr anwyl, yn ddirgelwch annirnadwy, yn rhy ddwfn i ni allu byth ei amgyffred, sef, bod Duw yn bresennol ar yr un pryd trwy yr holl greadigaeth. Os âf i'r maes i rodio wrthyf fy hun, y mae Duw o'm hamgylch! Os mewn cyfeillach y byddaf, y mae Duw yno hefyd! Os huno ar fy ngwely y nos yr wyf, y mae Duw o'm hamgylch! Pa le bynnag y byddwyf, y mae Duw o amgylch fy llwybrau!

Ond nid hyn a feddylir yn y testyn. Y mae Duw yn addaw bod gyda Josua mewn ystyr dra gwahanol i hynyna.

2. Y mae yn golygu *presenoldeb neillduol a graslawn Duw*. Y mae Duw, fel y dywedais, yn bresennol gyda phawb; ond y mae yn bresennol mewn modd neillduol gyda'i bobl. Adda a fwynhaodd bresenoldeb graslawn Duw tra parhaodd yn ei ddiniweidrwydd; ond wedi iddo droseddu, efe a ffodd, ac a ddywedodd, "mi a ofnais!" Ac efe a ymdrechodd "ymguddio ym mysg prenau yr ardd." Felly y gwna pob pechadur etto. Y mae yn *ofni* pan y mae Duw yn dynesu atto; y mae yn cilio oddi wrtho, rhag ei wyddfod, ac yn barod i ddywedyd,—“A ddaethost ti yma i'm poeni cyn yr amser?” oblegid y mae euogrwydd yn ei lanw â dychryn.

Ond y mae y fendith amhrisiadwy hon wedi ei hadferu drachefn i ni trwy Grist ein Iachawdwr—“Immanuel, Duw *gyda ni*.” Efe a wnaeth gymmod dros anwiredd, ac a ddibenodd gamwedd, ac a ddygodd gyfiawnder tragwyddol i mewn. Felly yn awr y mae y ffordd yn rhydd rhwng y pechadur a Duw—felly yn awr y mae Duw yn dyfod i lawr mewn gras a thrugaredd, ac yn rhoddi i ni amlygiadau o'i gariad a'i hedd. Ac y mae y presenoldeb hwn yn arwyddo *cyfeillach a heddwch*,—“Byddaf gyda thithau.” Pa fodd y “rhodia dau ynghyd, heb fod yn gyttun?”

Y mae y presenoldeb hwn hefyd yn arwyddo *syho* neillduol Duw; oblegid, medd efe, “Y mae holl wallt eich pen wedi eu cyfrif.” Ac mewn man arall y dywed, “Nac ofnwch; chwi a delwch fwy na llawer o adar y tô.”

Y mae y presenoldeb hwn yn arwyddocau, etto, fod Duw yn *arweinydd* i'w bobl, ei fod yn gwmmwl o niwl y dydd, a cholofn o dân y nos, i'w harwain a'u tywys trwy anialwch y byd hwn. “Cyfarwyddaf di,”

medd y Psalmydd, "a dysgaf di yn y ffordd yr elych, a'm llygaid arnat y'th gynghoraf." Ac medd y prophwyd Esaiah, "Yr Arglwydd a'th *arwain* yn wastad." Wel, fy mrodyr, os yr Arglwydd yw ein harweinydd, *byddwn yn sicr o rodio yn gywir.*

Heblaw hyn hefyd, y mae presennoldeb Duw yn arwyddocau ei *ddiogelwch*. "Fel y mae Jerusalem a'r mynyddoedd o'i hamgylch; *felly y mae yr Arglwydd o amgylch ei bobl.*" Pan y gwelodd gweinidog gwr Duw fyddinoedd y gelynion yn amgylchynu y ddinas, efe a ofnodd yn fawr, ac a ddywedodd, "Aha, fy meist, pa fodd y gwnawn? Ac efe a ddywedodd, Nac ofna: canys amlach yw y rhai sydd gyda ni na'r rhai sydd gyda hwynt. Ac Eliseus a weddiodd, ac a ddywedodd, O Arglwydd, agor, attolwg, ei lygaid ef, fel y gwelo. A'r Arglwydd a agorodd lygaid y llangc; ac efe a edrychodd: ac wele y mynydd yn llawn meirch a cherbydau tanlyd o amgylch Eliseus." 2 Bren. 6. 15—17. Felly etto, y mae Duw yn gwylio o amgylch ei bobl. Y mae cadwraeth oddeutu iddynt yn wastad. Pa le bynnag y byddo y duwiolion, yng nghwsg neu yn effro, y mae llu o angylion o'u hamgylch bob amser.

Ym mhellach, y mae y presennoldeb Dwyfol hwn yn cynnwys ynddo *ddarpariaeth*. Ni fydd i Dduw byth adael ei bobl i fod mewn eisiau o unrhyw ddaioni. Y mae pob cyflawnder yng Nghrist ar eu cyfer hwynt. Ni âd Duw hwynt fod mewn eisiau dim a fyddo er lleshad iddynt. A glywsoch chwi erioed am dad yn porthi ei *greaduriaid* yn y *maes*, ac yn gadael ei *blant* i newynu *gartref*?

A fydd i Dduw, ynte, ofalu am *ŷch* neu asyn? a fydd iddo wisgo mor hardd "lili y *maes*?" a fydd iddo borthi y gigfran pan lefo hi arno? ac a fydd iddo *ang-*

hofio ei bobl? a fydd iddo *adael ei bobl?* O! na fydd yn sicr. Gwrandewch beth a ddywed yr Ysgrythyr, “Pan geisio y trueiniaid a’r tlodion ddwfr, ac nis cânt; pan ballo eu tafod o syched, myfi yr Arglwydd a’u gwrandawaf hwynt, myfi Duw Israel nis gadawaf hwynt,” Esa. 41. 17. Felly, ynte, yn ol yr addewid hon, pan oedd y prophwyd yn llwybr ei ddyledswydd, gorchymynodd i’r cigfrain ei borthi; ac efe a yfodd o’r nant. Parodd Duw i’r adar ysglyfaethus hyn ddwyn bara a chig iddo fore a phrydnawn. Gwelwch mor ofalus yw Duw am ei blant a’i bobl.

Wel, hyn, ynte, a feddylir wrth *bresenoldeb neillduol* Duw gyda’i bobl. Y mae y rhai ag y mae yr Arglwydd yn alw i ryw swydd neu waith *neillduol* ac *anhawdd*, yn cael derbyn amlygiadau *neillduol* o’i bresenoldeb gyda hwynt yn y gwaith. “Megis y bum gyda Moses, y byddaf gyda thithau.” Duw a alwodd Moses i dywys ei bobl Israel allan o’r Aipht, a’u dwyn trwy y môr Coch hyd gyffiniau gwlad Canaan; ac yn awr wele ef yn galw Josua; ac “megis y bum gyda Moses, y byddaf gyda thithau: ni’th adawaf, ac ni’th wrthodaf.” Y mae rhyw beth yn yr addewid hon ag sydd berthynol i bob dyn. I ba sefyllfa bynnag y caffom ein galw, ni a allwn hyderu ar gyflawniad o’r addewid hon, “*Byddaf gyda thithau: ni’th adawaf, ac ni’th wrthodaf.*”

Sylwn, yn—

II. Ar y *sicrwydd* o *gyflawniad* yr *addewid* hon.

Y mae dau o bethau a gaf enwi, y rhai a wnant *gyflawniad* o’r *addewid* yn y testyn yn sicr. Y peth *cynaf* yw *awdwr* yr *addewid*; yn *ail*, *profiad* pob gwir *gredadyn*.

1. *Awdwr* yr *addewid* hon,—“*Byddaf i gyda thi: ni’th adawaf i di, ac ni’th wrthodaf i di.*” Duw yw yr

hwn sydd yn addaw; ac “nid dyn yw efe i ddywedyd celwydd, na mab dyn i edifarhau.” “Y mynyddoedd a giliant, a’r bryniau a symmudant; ië, nefoedd a daear a ant heibio,” ond *ni phall* addewidion Duw. Pan y mae addewid yn cael ei gwneud, y mae tri pheth i ni ystyried gyda golwg ar y person a fyddo i roddi yr addewid, neu y peth a addawyd. Yn gyntaf, a ydyw efe yn *ddidwyll*; yn ail, a ydyw yn *alluog* i gyflawni; yn drydydd, a ydyw yn *ffyddlon* i gyflawni ei addewid.

Y mae rhai dynion a’u tafodau yn myned ym mhellach na’u calonau. Hwyl a wnant faint a fynoch o addewidion, heb feddwl byth eu cyflawni. Ond y mae Duw bob amser yn *bwriadu* yr hyn y mae yn addaw; ac nid yw yn *addaw mwy* na fydd iddo gyflawni. Y mae dyn yn aml yn *analluog* i gyflawni ei addewid. Ond nid oes dim a ddichon attal na rhwystro y Jehofa bendigedig i gyflawni ei addewidion graslawn. Y mae efe hefyd mor *ewyllysgar* ag yw yn *alluog* i ddwyn ei air ben. “Ffyddlawn,” medd yr Apostol, “yw yr hwn a addawodd;” ië, ffyddlawn yw yr Arglwydd i gyflawni ei holl addewidion; gan hynny, ymddiriedwch ynddo.

2. Y mae *profiad* pob duwiol yn gwneud cyflawniad o’r addewid hon yn sicr,—“Megis y bum gyda Moses, y *byddaf* gyda thithau.”

Wel, gadewch i ni weled, a *fu ef* gyda Moses? Pwy oedd yn gwylio drosto, pan yr oedd yn faban bach yn nofio mewn cawell “o lafrwyn” ar lan afon yr Aipht? Pwy a wylodd drosto yn llys Pharaoh, rhag iddo gael ei lygru gan yr arferion annuwiol ag oedd yn weled yno? Pwy a’i dygodd i fynydd Horeb, ac a amlygodd iddo y Dwyfol ogoniant yno? Pwy a ddangosodd

iddo “y berth yn llosgi yn dân,” ac etto “heb ei difa,” ac a ddywedodd wrtho, “*Ydwyf yr hwn ydwyf?*” Pwy a roddodd nerth a hyder iddo i ymddangos yn hyf ger bron Pharaoh, ynghyd â’r doethion, yr hudolion, a swynwyr yr Aipht? Pwy a’i nerthodd y bore hwnnw, pan laddwyd y cyntaf-anedig yng ngwlad yr Aipht, i dywys yr Israeliaid allan, ac i ranu y Môr Coch, ac i’w dwyn hwynt ar eu taith i wlad yr addewid? Pwy oedd yr hwn ag oedd gydag ef ar y mynydd yn y mwg, a’r taranau, a’r ddaear-gryn? A phwy oedd yr hwn ag oedd gydag ef ar “ben Pisgah,” yng ngolwg terfynau y wlad? Pwy, meddaf, ond yr un Jehofa tragywyddol ag sydd yn dywedyd wrthyt *ti* heddyw yng ngeiriau y testyn,—“Megis y bum gyda Moses, y byddaf gyda thithau: ni’th adawaf, ac ni’th wrthodaf.”

Ond brysiat i nodi allan, yn—

III. *Y lleshad a’r bendithion a ganlynant yn eich bywyd oddiar gyflawniad o’r addewid hon.*

Bydded i hyn gael ei gyflawni, a chwi a fyddwch yn ddedwydd yn eich *bywyd*, yn *angau*, ac am *dragywyddoldeb*.

Sylwn ar yr effaith a gaiff arnom, yn—

1. Yn y *dirgel*, ac wrthym *ein hunain*. Y mae pob duwiol yn dymuno weithiau bod wrtho ei hun, yn y dirgel. Pan y mae yn agor ei Fibr, neu ynte ar ei ddeulin yn ei ystafell ddirgel, lle nad oes un llygad ond Duw ei hun yn ei ganfod, y mae cyflawniad o’r addewid hon yn gwneud ei ddirgeliad yn baradwys iddo. O! yr hyfrydwch! O! y gorfoledd! pan y mae y duwiol yn ymneillduo weithiau i’w ystafell, gan adael y byd a’i wagedd, a’i brofedigaethau, a’i ofalon ar ol, i gael *profi* fod Duw gydag ef yno.

Gristion anwyl, pan allan o olwg pawb, y mae yn gysurus i ti feddwl fod *Duw gyda thi*; ac y bydd i'r hwn sydd yn *gwelod* dy dagrau, ac yn *chlywed* dy ochneidiau yn y *dirgel*, dy wobrwyo di "yn yr *amlwg*."

Ond gwelwn hefyd yr effaith a gaiff hyn arno, yn—

2. Yn ei *ymarweddiad yn y byd*.

Er fod y duwiol yn chwennych bod ar ei ben ei hun, yn ei ystafell ddirgel weithiau, etto, nid yw yn chwennych llai na bod gyda'i oruchwyliaethau yn y byd hwn. Nid dyn segur yw y dyn duwiol. Yr ydym yn cael, pan y daeth Moses i waered o'r mynydd, i groen ei wyneb ddisgleirio. Felly, etto, os bydd Duw yn ei bresennoldeb dwyfol gyda'r cristion, fe ymddengys yn ei ymarweddiad. Fe fydd ei rodiad a'i ymddygiad yn tystio fod Duw gydag ef. Dywedir am Grist ei fod yn "cerdded o amgylch gan wneuthur daioni; oblegid yr oedd *Duw gydag ef*." Felly chwithau, os bydd *Duw gyda chwi*, chwi a ymdrechwch wneud a alloch dros ei enw mawr ef. A sylwch yma, fe ddichon fod moesoldeb heb wir grefydd, ond ni fydd gwir grefydd heb foesoldeb. Ni fydd i'r hwn a fyddo yn mwynhau presennoldeb graslawn Duw enllibo ei frawd neu ei chwaer grefyddol, ni fydd byw yn anaddas i'w broffes, ac ni fydd iddo orthrymu y tlawd a'r amddifad; nid hyn fydd ymddygiad yr enaid a fyddo yn mwynhau presennoldeb yr Arglwydd, eithr efe a addurna grefydd Crist ym mhob peth; fe fydd "i'w oleunni lewyrchu felly ger bron dynion, fel y gwelont ei weithredoedd da ef, ac y gogoneddont ei Dad yr hwn sydd yn y nefoedd."

3. Ymddengys effeithiau y cyflawniad o'r addewid hon *mewn cystuddiau a gorthrymderau*. Y mae trallodion o bob math yn cyfarfod y duwiol,—“Trwy lawer o

orthrymderau y mae yn rhaid i ni fyned i deyrnas Dduw." Act. 14. 22. Fe ddichon i chwi ddioddef yn eich personau—yn eich cyrph, trwy ryw haint neu glefyd; neu fe allai yn eich teuluoedd, trwy ryw swmbwl yn y cnawd. Fe fydd i chwi ddioddef, fe allai, yn eich perthynasau a'ch cyfeillion, neu, o bosibl, yn yr Eglwys, neu yn y byd. Wel, gadewch i hyn fod,—“Digon i ti fy ngras i; fy nerth i a berffeithir mewn gwendid: dy esgidiau a fyddant megis haiarn a phrês; ac yn ol dy ddydd, felly y bydd dy nerth.” “Mewn ing,” medd y Psalmydd, “*y byddaf fi gydag ef, ac y gwaredaf ef.*” Ac, medd Esaiah 43. 2. “Pan elych trwy y dyfroedd, *myfi a fyddaf gyda thi*; a thrwy yr afonydd, fel na lifant drosot: pan rodiech trwy y tân, ni'th losgir; ac ni ennyn y fflam arnat.” A phan ruthro profedigaethau ar y cristion, y mae yr Iachawdwr gerllaw i'w gynnorthwyo. “Simon, Simon,” eb efe, “wele Satan a'ch ceisiodd chwi, i'ch nithio fel gwenith: eithr mi a weddiais drosot, na ddiffygiai dy ffydd di.” Tra yr ydym ni yng ngwlad y gelyn, a thra byddo y diafol “megis llew rhuadwy, yn rhodio oddi amgylch, gan geisio y neb a allo ei lyngcu,” y mae yn rhaid i ni ddisgwyl cael cyfarfod â phrofedigaethau; ond os bydd Duw gyda ni, “Ni lwydda un offeryn a lunier i'n herbyn.” Ni a ddeuwn allan o'r frwydr yn “fwy na chongcwerwyr trwy yr hwn a'n carodd ni, ac a'n golchodd ni oddiwrth ein pechodau yn ei waed ei hun.” “Megis y bum gyda Moses, y byddaf gyda thithau: ni'th adawaf, ac ni'th wrthodaf.”

Ond etto, fe ymddengys yn hynod, yn—

4. Ac yn olaf. *Pan y byddom yn wynebu angau.*

Y duwiolion a gyfarfyddant â llawer o gystuddiau ar eu taith tua'r nefoedd. Eu perthynasau anwylaf, eu

cyfeillion ag oedd mor dda ganddynt am danynt, a'u heneidiau eu hunain yn cael eu cymmeryd ymaith gan angau un ar ol y llall, a phoen a blinder yn dyfod arnynt eu hunain, rhyw anhwylddeb yn yr aelod hwn a'r aelod arall, y llygaid yn dechreu tywyllu, y cof yn darfod, y dealldwriaeth a'r synwyrâu, fe allai, yn dechreu pallu, "y ceiliog rhedyn" yn dechreu dyfod "yn faich," a phan y byddont ym mron a myned "i dŷ eu hir gartref." Wel, yn yr amgylchiadau cyfyng hyn, pan y mae poen a dolur yn gafaelyd ynddynt, a'u cynheddfau yn pallu, a'u ceraint yn cefnu arnynt; etto, medd Duw, "Byddaf i gyda thi: ni'th adawaf i di, ac ni'th wrthodaf."

Pan y byddo i'r adeilad egwan hwn, ein corph priddlyd, ymgymmysgu â phridd y ddaear, yno i weled llygredigaeth, ni raid i ni ofni, fe gaiff ddyfod ynghyd drachefn; fe ddaw i'r lan ryw fore yn gorph gogoneddus. Crist "a gyfnewidia ein corph gwael ni," medd yr Apostol, "fel y gwneler ni yr un ffurf â'i gorph gogoneddus ef." "Efe a heuir mewn llygredigaeth, ac a gyfodir mewn anllygredigaeth; efe a heuir mewn ammharch, ac a gyfodir mewn gogoniant; efe a heuir mewn gwendid, ac a gyfodir mewn nerth; efe a heuir yn gorph anianol, ac a gyfodir yn gorph ysprydol." "Yna y bydd yr ymadrodd a ysgrifenydd, *Angau a lyngwyd mewn buddugoliaeth.*" "O herwydd hynny, fy nghnawd hefyd a orphwys mewn gobaith, canys ni adewi fy enaid yn uffern; i'e, pe rhodiwn ar hyd glyn cysgod angau, nid ofnaf niwed: *canys yr wyt ti gyda mi, dy wialen a'th ffon a'm cysurant.*" O! frodyr, dyma daith nas gall neb weinyddu cysur i chwi wrth fyned trwyddi, ond Duw yn unig. Bwlch yw hwn nad oes dim ond presenoldeb Duw ei hun a ddichon ei oleuo.

O! am gael o belydr disglaer y presennoldeb Dwyfol i'n goleuo trwy y dyffryn tywyll hwn. O! mor hyfryd fydd cael ei bresennoldeb pan y byddo ein taaed yn rhydio yr afon. Gall eich cyfeillion hoff ac anwyl an-turio gyda chwi hyd nes i'w traed fod megis yn cael eu trochi yn y dŵfr; ond y mae yn rhaid i chwi wynebu y tonnau ar eich pen eich hunain. Nis gall ein cyfeillion goreu ond canu yn iach, a dyhidlo dagrau; y mae yn rhaid i ni wynebu y glyn wrthym ein hunain. O! fraint y rhai hynny ag sydd â breichiau tragwyddol y Jehofa mawr oddi tanynt, ac yn tawelu grym y tonnau, tra y maent yn myned drosodd yn ddihangol i ardal-oedd gwynfyd.

Dedwydd, yn wir, yw y cyfryw ag sydd â hawl ganddynt yn addewid y testyn, "Megis y bum gyda Moses, y byddaf gyda thithau: ni'th adawaf, ac ni'th wrthodaf," canys hwy a gânt fwynhau bywyd tragwyddol.

Wrth ddarfod, goddefwch i mi ofyn i chwi, a oes genych *chwi* hawl ynddo? A ddarfu i chwi ddyfod at Dduw trwy Grist? A ydych *chwi* wedi cyssegru eich hunain i wasanaeth y Messia, "yr hwn a wnaethpwyd i ni gan Dduw yn ddoethineb, ac yn gyfiawnder, ac yn sancteiddrwydd, ac yn brynedigaeth?"

Os felly, y mae yr addewid yn eiddo chwi; a phe byddai bosibl i mi allu rhoddi i chwi holl berlau yr India, ni fyddent ddim mewn cymhariaeth i'r trysor hwn! O! ymddiriedwch yn Nuw am gyflawniad o'r addewid. Ymddiriedwch ynddo hyd y diwedd. Nis gallwch ddisgwyl gormod ar ei law, canys "y mae pob peth yn eiddoch chwi; a chwithau yn eiddo Crist; a Christ yn eiddo Duw."

PREGETH XVI.

HEB. 10. 12, 13.

“EITHR HWN, WEDI OFFRYMMU UN ABERTH DROS BECHODAU, YN DRAGYWYDD A EISTEDDODD AR DDEHEULAW DUW; O HYN ALLAN YN DISGWYL HYD ONI OSODER EI ELYNION EF YN DROED-FAINGC I’W DRAED EF.”

Y MAE hyn yn ein tywys i sylwi ar waith cyfryngol, ar ddyrchafiad cyfryngol, ac ar deyrnas gyfryngol Crist. Rhoddwch wrandawriad syml tra byddwyf yn ymdrechu dywedyd ychydig gyda golwg ar bob un o’r rhai hyn; a gweled Duw fod yn dda roddi i ni o’i gynnorthwyadau graslawn, fel y byddo ein dywedyd a’n gwrando er budd a lleshad tragywyddol i’n heneidiau.

I. *Gwaith* cyfryngol Crist. Dyma y peth cyntaf yr ydym i sylwi arno. “Eithr hwn,” y dyn hwn, yr arch-offeiriad mawr hwn, “wedi offrymmu un aberth dros bechodau.” Y mae hyn yn golygu yr *holl waith* a wnaeth Crist tra ar y ddaear. Diben neillduol yr Apostol yw gosod Crist allan dan y nodweddiad a’r swydd *offeiriadol*; a gelwir ef yn aml felly. Dyma fel y gelwir ef yn y geiriau canlynol, pan yr ydys yn dywedyd mai efe yw “Apostol ac Arch-offeiriad ein cyffes ni;” ei fod “yn offeiriad yn dragywydd, yn ol urdd Melchisedec.” Efe a elwir yn Arch-offeiriad, am iddo ddyfod i gyflawni yn ei berson ei hun y gwaith hwnnw, o’r hwn nid oedd gwaith Aaron a’i feibion

ond cysgod. Ond mewn ystyr ysprydol yn unig y cymmerodd Crist yr offeiriadaeth arno.

Wel, beth oedd gwaith neillduol Crist dan y swydd o arch-offeiriad? Ei ddiben yn dyfod i'r byd oedd, i *offrymmu ei hun yn aberth dros bechod*. Y mae hyn yn bwngc sylfaenol o'n ffydd. Ewyllys Duw oedd i'r byd gael ei achub trwy aberth Crist. Efe a edrychodd ar y byd, ac a'i gwelodd yn cael ei orchuddio gan bechod a thrueni; canfyddodd bechod yn bygwth taflu dynion i drueni a distryw tragywyddol, a thosturiodd wrthynt, a phenderfynodd eu hachub; a thyma y modd, sef, *trwy aberth*. Trwy *aberrth* y symmudodd efe y felldith oddiar filoedd aneirif—trwy *aberrth* yr agorodd byrth y nef i bawb a gredant ynddo. Offrymiad Mab Duw oedd y ffordd a drefnodd y Tad er iechydwriaeth dynolryw. Cafodd yr aberth hwn ei gysgodi yn y defodau dan y gyfraith, a chyflawnwyd hwynt yn ei berson bendigedig ef, yr hwn a ddywedodd yng ngeiriau y Psalmydd, "Wele fi yn dyfod i wneuthur dy ewyllys di, O Dduw!"

Ond wedi sylwi fel hyn ar Grist fel offeiriad, nodwn, yn—

2. *Ar y modd y cyflawnodd ei swydd*. Fe ddywedir iddo *offrymmu ei hun*. Yr oedd yr hen oruchwyliaethau yn gofyn anifeiliaid; yr oeddynt yn aberthu yr anner, y llwddn gafr, a'r oen. Ond nid oedd dim rhinwedd yn y rhai hyn o honynt eu hunain. Analluadwy oedd i waed teirw a geifr olchi ymaith bechodau. Yr oeddynt yn effeithiol yn unig fel arwyddion a chysgodau o'r Aberth mawr—yr aberth hwnnw a wnaeth Crist pan dywalltodd allan ei enaid i farwolaeth, fel Oen Duw, er tynnu ymaith bechodau y byd. Cofiwch, etto, y dywedir iddo *offrymmu un aberth*, "Trwy yr hwn ewyllys

yr ydym ni wedi ein sancteiddio, trwy offrymriad corph Iesu Grist *unwaith*." Felly, efe, yr hwn oedd yn offeiriad, a offrymmwyd yn aberth hefyd. Dyma yr aberth drud a offrymmwyd dros ein pechodau. Pan y meddyliom am ddiodefiadau Crist, cofiwn bob amser mai pechod oedd yr achos o honynt. Efe a adawodd orsedd ei ogoniant, ac a gymmerodd arno agwedd gwas, o herwydd *pechod*. Daeth yn "wr gofidus, a chynnefin â dolur," oblegid *pechod*. Diystyrwyd, cernodiwyd, poerwyd arno, a chablwyd ef am *bechod*. Efe a wylodd yng ngardd Gethsemane, a chwysodd megis defnynau o waed o herwydd *pechod*. Dygodd ei groes i ben Calfaria, dioddefodd gael ei hoelio ar bren melledigedig y groes, cafodd ei wawdio yno fel y gwaelaf o ddynion, a gwaeddodd mewn ing a loes, "Fy Nuw, fy Nuw, paham y'm gadewaist?" ac yn y diwedd, llefodd, "Gorphenwyd," a hyn i gyd o herwydd *pechod*! "Yr Arglwydd a roddes arno ef ein *hamwiredd ni i gyd*," medd y prophwyd Esaiiah. Ac, medd yr apostol Pedr, "Yr hwn ei *hun a ddyg ein pechodau ni yn ei gorph ar y pren*." I'r diben hwn y bu efe byw, i'r diben hwn y bu efe farw; dyma sylfaen ein holl obaith, ar hyn yr ymorphwys hyder ein ffydd, a thrwy hyn yr ydym yn disgwyl cael bywyd tragywyddol. Yma, ynte, y gwelwn yr aberth, a'r angenrheidrwydd o ffydd yn yr aberth hwnnw; canys "heb ffydd amhosibl yw rhyngu bodd Duw."

3. Ond y mae yma beth arall i sylwi arno,—"*Un aberth dros bechodau*." "Eithr hwn, *wedi offrymmu un aberth dros bechodau*, yn dragywydd a eisteddodd ar ddeheulaw Duw."

A phaham yr offrymmodd efe un aberth yn unig? Mi a enwaf ddau achos o hyn.

Yn gyntaf, i'r diben o ddangos holl *ddigonolrwydd* yr aberth hwnnw. Yr oedd hwn yn ddigonol. Nid oes un aberth arall yn y byd i'w gael, ac nid oes eisiau un arall. Y mae digon yn yr aberth hwn i filoedd o fyd-oedd. Y mae yn aberth *holl-ddigonol* ac anfeidrôl; yn dechreu gyda'r troseddiad cyntaf, ac yn parhau hyd ddiwedd amser. Trwy yr aberth hwn y mae efe yn achub, ac yn achub hyd yr eithaf,—“Canys âg un offrwm y perffeithiodd efe yn dragywyddol y rhai sydd wedi eu sancteiddio.”

Yr achos *arall* yw hyn, *sef*, i'r diben o ddangos ei *ardderchawgrwydd*. Nid oes ond un aberth yn unig dros bechod, er mor amrywiol yw ei weithrediadau. Iechydwrïaeth trwy aberth Crist yw yr unig ffordd i bechadur gael ei ddwyn yn ol i heddwch â Duw. Dyma yr *unig aberth*, yr *unig allor*, yr *unig waed*, a'r *unig iawn* dros bechod.

Cymmerwch ymaith y sylfaen hon, *sef* aberth Crist, dyna bob gobaith yn darfod. Hon yw yr unig noddfa, yr unig aberth, ac y mae yn holl-ddigonol; ac “os o'n gwirfodd y pechwn,” yn ein gwaith yn gwrthod hwn, cofiwn, “nid oes aberth dros bechodau wedi ei adael mwyach; eithr rhyw ddisgwyl ofnadwy am farned-igaeth, ac angerdd tân, yr hwn a ddifa y gwrthwyn-ebwyr.”

Ond brysiat i sylwi, yn—

II. *Ar ddyrchafiad cyfryngol Crist*. Efe “yn dragywydd a eisteddodd ar ddeheulaw Duw.”

Chwi a wyddoch fod yr offeiriad dan y gyfraith yn arferol o gymmeryd gwaed y creadur a aberthid gydag ef i'r “cyssegr sancteiddiolaf,” lle yr oedd y drugar-eddfa. Yr oedd y lle sanctaidd hwnnw yn gysgod o'r nefoedd, preswylfod Jehofa.

Felly hefyd, pan sonir am Grist, iddo ddyrchafu i'r uchelder, ni a gawn iddo fyned i fynu i'r nefoedd,— “Canys nid i'r cyssegr-o waith llaw,” medd yr Apostol, “portreiad y gwir gyssegr, yr aeth Crist i mewn; ond i'r nef ei hun, i ymddangos yn awr ger bron Duw trosom ni.” Ac yn y testyn y dywedir, “a eisteddodd ar ddeheulaw Duw.” Wedi iddo orphen ei waith, efe a esgynodd i'r nefoedd. Ei ddisgyblion a'i gwelsant yn esgyn i fynu, a'r cwmmwl a'i derbyniodd o'u golwg. “Ac fel yr oeddynt yn edrych yn ddyfal tua'r nef, ac efe yn myned i fynu, wele, dau wr a safodd ger llaw iddynt mewn gwisg wen; y rhai hefyd a ddywedasant, Chwi wyr o Galilea, paham y sefwch yn edrych tua'r nef? yr Iesu hwn yr hwn a gymmerwyd i fynu oddi wrthyach i'r nef, a ddaw felly yn yr un modd ag y gwelsoch ef yn myned i'r nef.” A *phaham* yr aeth efe i fynu i'r nefoedd? Megis *offeiriad*, aeth i mewn yno â choffadwriaeth o'r aberth a offrymmodd. Fel gorchfygwr, aeth i mewn i'r nefoedd gydag arwydd o fuddugoliaeth, ac eisteddodd ar ddeheulaw y Mawredd.

Sylwch yma, yn—

1. Ar y lle yr aeth efe iddo,—“deheulaw Duw.” Y mae yn rhaid i ni ddeall hyn mewn ystyr gyffelybiaethol; oblegid yspryd yw Duw, ac nis gellir dychymmygu am dano trwy un dull corphorol. Y mae yr ymadrodd yn arwyddocau *anrhydedd*, *gallu*, a *dedwyddwch*. Y mae gosod un i eistedd ar ddeheulaw yn arwydd o *anrhydedd*. Felly y darllenwn yn 1 Bren. 2. 19. “Bathseba a aeth at y brenin Solomon, i ddywedyd wrtho dros Adoniah. A'r brenin a gododd i'w chyfarfod hi, ac a ostyngodd iddi, ac a eisteddodd ar ei orseddfainge, ac a barodd osod gorsedd-faingc i fam y brenin; a hi a eisteddodd ar ei *ddeheulaw ef*.”

Etto, y mae yn arwyddo *gallu*. Am hyn y dywed, "Mi a'th gynhaliat â *ddeheulaw* fy nghyfiawnder." Ac mewn man arall, "Bydded dy law ar wr dy *ddeheulaw*." Arwydda *happusrwydd* hefyd. Am hynny y dywedir, "Digonolrwydd llawenydd sydd ger dy fron, ar dy *ddeheulaw* y mae digrifwch yn dragywydd."

Yn awr, cymhwyswch hyn at Iesu Grist. Y mae efe wedi ei ddyrchafu i *anrhydedd*, *mawredd*, a *dedwyddoch*. "Y llywodraeth a fydd ar ei ysgwydd ef;" efe a elwir "Tywysog tangnefedd;" "pob awdurdod a roddwyd iddo yn y nef ac ar y ddaear." Yn y bennod gyntaf o'r Ephesiaid, yr ydym yn cael i Dduw ei osod i eistedd ar ei *ddeheulaw* ei hun, yn y nefolion leoedd." Ac yn Hebreaid 12. 2. y dywedir, "Yr hwn, yn lle y llawenydd a osodwyd iddo, a ddioddefodd y groes, gan ddiystyru gwaradwydd, ac a eisteddod ar *ddeheulaw* gorsedd-faingc Duw."

Dyna lle y mae ein Harch-offeiriad mawr yn eistedd yn awr.

Efe yr hwn a gafodd ei ddirmygu, ei wrthod, ei wawdio, a'i erlid yn nyddiau ei gnawdoliaeth, sydd heddyw yn eistedd ar *ddeheulaw* y Mawredd

2. Sylwch ar ei *agwedd*,—"A eisteddodd." Y mae hyn yn arwyddocau *gorphwysdra*. Efe, yr hwn sydd yn eistedd, sydd wedi gorphwys oddiwrth ei lafur, ac wedi myned i'w *orphwysfa*. Y mae efe wedi myned i'w *anrhydedd*, i'w *happusrwydd*, ac i'w *orphwysfa*. Yno y mae yn byw, yno y mae yn gorphwys, ac yn cael ei addoli a'i foliannu gan seintiau, angyllion, ac arch-angylion, y rhai a orfoleddant yn ei iechydwriaeth. Yno y mae "holl gwmpeni'r nef" yn cyduno yn y gân honno o fawl iddo na dderfydd byth,—“Teilwng yw'r Oen, yr hwn a laddwyd, i dderbyn gallu, a chyfoeth,

a doethineb, a chadernid, ac anrhydedd, a gogoniant, a bendith, yn oes oesoedd." Amen.

Gadewch i ni gymhwyso y rhan hon o'r testyn at ein profiadau ein hunain, mewn ffordd o annogaeth.

Er fod Crist wedi ei ddyrchafu mor ogoneddus, etto, bendigedig fyddo ei enw, nid yw wedi ein hanghofio ni sydd ar y ddaear; nac yw, y mae ei ymysgaroedd yn ennyn o gariad tuag attom; y mae efe etto yn Arch-offeiriad ag sydd yn medru cydymdeimlo â ni yn ein holl wendidau. Ac y mae yma un peth ag wyf am i chwi sylwi arno yn neillduol. Fe ddywedir ei fod yn "ymddangos ger bron *Duw trosom ni.*" *Trosom ni* y mae efe yn dadleu—yn dadleu haeddiant yr hyn a wnaeth ac a ddioddefodd. Y mae efe "yn byw bob amser i eiriol drosom ni." Tra yr ydym ni yn addoli yma ar y ddaear, y mae efe fry yn eiriol drosom yn y nefoedd, yn eiriol er ein maddeuant, er ein sancteiddrwydd, ac er ein hyder a'n gorfoledd, yng ngwyneb ofn angau, a dychrynfeydd y farn ofnadwy.

Os yw Iesu Grist wedi ei ddyrchafu fel hyn, yna, yn—

1. Ni a ddylem hyderu ar ei eiriolaeth ef. "O phecha neb, (a phwy nad yw yn pechu yn feunyddiol,) y mae i ni eiriolwr gyda'r Tad, Iesu Grist y cyfiawn; ac efe yw yr iawn dros ein pechodau ni." Fy mrodyr anwyl, credwch yng Nghrist; y mae efe yn byw bob amser i eiriol drosoch. Rhoddwch eich achos yn ei law ef; ië, rhoddwch eich hunain a'r hyn oll a feddoch iddo, y mae efe yn ffyddlon i'w addewid. Y mae efe yn chwennych trugarhau wrthyh, yn barod ac yn ewyllysgar i faddeu eich pechodau, ac yn alluog i achub eich hanfarwol eneidiau; gan hynny, hyderwch arno am fywyd tragwyddol.

2. Y mae yn rhaid i ni *gyfaddef ei fawrhydi*. A oes rhyw un yma ag sydd yn gwrthod cyfaddef ei fawrhydi? Edrychwch arno yn ei ostyngyddrwydd. Ni a gawn weled ei fod yn fawr hyd y nod yn ei iselder mwyaf, yn anrhydeddus yn ei ddioddefiadau, ac yn anfarwol yn ei farwolaeth.

Wel, gwelwch ef yn ei ddyrchafiad, wedi ei ddyrchafu uwch pob tywysogaethau ac awdurdodau. "Yr hwn," medd St. Paul, "ac efe yn ddisgleirdeb ei ogoniant ef, ac yn wir lun ei berson ef, ac yn cynnal pob peth trwy air ei nerth; wedi puro ein pechodau ni trwyddo ef ei hun, a eisteddodd ar ddeheulaw y Mawredd yn y goruwch-leoedd."

Ond gwnaf adael hyn, i sylwi yn fyr, yn—

III. ac yn olaf, *Ar deyrnas neu lywodraeth gyffryngol Crist*. "O hyn allan yn disgwyl hyd oni osoder ei elynion ef yn droedfaingc i'w draed ef." Fe'i coronwyd ef, fel y caffai lywodraethu; ac y mae ei lywodraeth yn cyrhaedd dros holl derfynau'r byd. Ond y mae yr ymadrodd yn dal allan fod ganddo *elynion*. Pwy ydynt hwy, medd rhyw un? Mi a enwaf rai o honynt,—y *galon lygredig*, a'r *syniad cnawodol*, yr hwn "sydd elyniaeth yn erbyn Duw," wedi ymddieithrio oddi wrtho trwy weithredoedd drwg. Y mae Satan hefyd, ynghyd â'i holl ddichell a'i falais, yn elyn iddo. Dyma rai o'i elynion ef. Ond sylwch beth fydd eu diwedd,—*"Yn disgwyl hyd oni osoder ei elynion ef yn droedfaingc i'w draed ef."* "*Yn disgwyl.*" Y mae efe megis yn edrych i lawr oddiar ei orsedd-faingc yn y nefoedd, ac "yn disgwyl" yr amser, yn disgwyl y diwrnod pan y caiff ei holl elynion dan ei draed—yn disgwyl yr amser hyfryd, pan y byddo i bob gelyn gael ei ddarostwng, a phan y byddo i'w lywodraeth ehangu dros yr holl fyd.

Pa hawl sydd ganddo i ddisgwyl hyn?

1. *Oblegid addewid ei Dad.* Clywch beth a ddywed y Psalmydd, (Psal. 110. 1—4.) “Dywedodd yr Arglwydd wrth fy Arglwydd, *Eistedd ar fy neheulaw*, hyd oni osodwyf dy *elynion* yn *faingc* i’th draed. Gwialen dy nerth a enfyn yr Arglwydd o Sion: *llywodraetha* di yng nghanol dy *elynion*.—Tyngodd yr Arglwydd, ac nid edifarhâ, Ti wyt offeiriad yn *dragywyddol*, yn ol urdd Melchisedec.”

2. *Oblegid digonolrwydd ei waith ei hun.* Ac os ydyw gwaith Crist, fy mrodyr, yn ddigonol, fe fydd yn sicr o gael y fuddugoliaeth ar ei holl elynion. Yr ydym yn darllen am dano, mai efe yw “Oen Duw, yr hwn sydd yn tynnu ymaith bechodau’r *byd*,” mai “Efe yw yr iawn dros ein pechodau ni, ac nid dros yr eiddom ni yn unig, eithr dros bechodau yr *holl fyd*.” Yr ydym yn cael y dystiolaeth hon am Grist yn y Gair dwyfol; ac am hynny yr ydym yn credu y bydd yr holl fyd yn eiddo ef. A pha fodd lai na fydd hi felly? A fydd i oleuni gael ei orchuddio gan dywyllwch? A fydd i bechod fuddugoliaethu ar sancteiddrwydd? A fydd i ddioddefiadau y groes fod yn ofer? Na fydd, fy mrodyr; ond fe gaiff Iesu “weled o lafur ei enaid,” a’i ddiwallu yn y conglau hynny o’r byd ag sydd heddyw yn eistedd mewn tywyllwch a chysgod angau. Y mae “yn disgwyl hyd oni osoder ei elynion ef yn droed-faingc i’w draed ef.”

3. *O herwydd yr offerynau a’r moddion ag y mae wedi drefnu er taenu ar led ac ehangu ei lywodraeth.* Beth yw’r moddion a drefnodd efe? Pregethiad y groes. Beth yw’r offerynau? Gweinidogion yr efengyl. Pregethiad y groes sydd allu a doethineb Duw. “Arfau ein milwriaeth ni,” medd yr Apostol, “nid ydynt gnawdol,

ond nerthol trwy Dduw i fwrw cestyll annuwioldeb i'r llawr." Dyma y moddion trwy ba rai y mae y gelynion i gael eu gwneud "yn droedfaingc i'w draed ef." Er fod rhai yn eu diystyru, etto, y maent yn nerthol yn llaw yr Yspryd. Y mae Yspryd Duw yn rhoddi effaith yng ngair ei ras yn eu genau hwynt. Gwelwch y modd y cafodd hyn le yn yr oesoedd gynt. Ni a gawn hanes am dair mil yn cael eu dychwelyd mewn *un* diwrnod trwy ras Duw. Ond er yr holl lwyddiant hyd heddyw, mae llawer i'w wneud etto. Ein gweddi a ddylai fod, "Deued dy deyrnas." Cofiw'n, er ein hannogaeth, y bydd achos Crist yn sicr o lwyddo. Fe gyflawnir y prophwydoliaethau yn sicr; "canys y ddaear a lenwir o wybodaeth gogoniant yr Arglwydd, fel y toa y dyfroedd y môr." "Ac efe a lywodraetha," medd y Psalm-ydd, "o fôr hyd fôr, ac o'r afon hyd derfynau y ddaear."

Crist a ymddengys i "ddifetha" yr annuwiol "âg yspryd ei enau, ac a'i dilea â disgleirdeb ei ddyfodiad." Efe a ddadguddia lewyrch ei ogoniant, pan y marchogo ef "allan yn gorchfygu, ac i orchfygu." Fe fydd i'r nefoedd y pryd hwn megis i agoryd, ac angylion a floeddiant, "Aeth teyrnasoedd y byd yn eiddo ein Harglwydd ni, a'i Grist ef." Ac fe fydd i ddynion ac angylion, daear a nefoedd, gyduno yn y gân fuddugoliaethus,— "Aleluia: oblegid teyrnasodd yr Arglwydd Dduw Hollalluog." Y mae "o hyn allan yn disgwyl, hyd oni osoder ei elynion yn droedfaingc i'w draed ef." Edrychwch, O! gyfeillion, nad ydych chi yn elynion i'r Iesu; canys diwedd ei holl elynion fydd dinystr tragywyddol.

Wrth ddiweddu, goddefwch i mi ddwyn ar gof i chi, fod yr hyn a fu dan ein hystyriaeth y tro presennol, yn perthyn yn agos i ni bawb o honom, yn *bersonol*.

Ni ddarfu i mi ddim gosod ger eich bron deyrnas Crist yn ehangu o fôr i fôr, i'r diben i chwi anghofio eich rhan *berſonol* yn y pethau hyn. Na atto Duw i neb o honoch, wrth fyfyrrio ar y pethau gogoneddus a ddywedir am deyrnas Crist, anghofio eich hawl eich hunain yn y deyrnas honno. O! fy ngwrandawyr, pa hawl sydd genych yn y pethau hyn? A ydych *chwi* o ddeiliaid y deyrnas hon? Y mae yn alarus meddwl fod rhai yma, fe allai, ar ddarfod am danynt, ar gyffiniau y byd tragwyddol, ac *heb hawl* ganddynt yng Nghrist, ffynnon y bywyd! O! meddylied y cyfryw fod ganddynt enaid yn fwy ei werth na'r bydoedd, yr hwn a gedwir neu a gyfrgollir am byth!

Mi a ddywedais wrthych am Frenin Sion, iddo ef, tra yr oedd yma ar y ddaear yn ein natur ni, offrymmu ei hun yn aberth i Dduw drosoch. Bu *efe* farw, fel y byddech *chwi* fyw yn oes oesoedd. Efe a fu farw fel yr achubai *chwi*. Yn awr, y gofyniad yw, a ydych *chwi* yn *credu* ynddo? Clywch beth a ddywedodd efe cyn ei esgyniad ar ddeheulaw Duw,—“Ewch i'r holl fyd, a phregethwch yr efengyl i bob creadur. Y neb a *gredo* ac a fedyddier, a fydd *cadwedig*: eithr y neb *ni chredo a gondemnir*.” O! wrandawyr, y mae Duw yn dyst, i Iesu Grist gael ei bortreïadu o flaen eich llygaid, “wedi ei groeshoelio yn eich plith.” Ac, O! ystyriwch, yr wyf yn tystio wrthych heddyw, os byw a marw a wnewch yn *gwrthod yr iawn a'r aberth hwn am bechod*, fe fydd pechod o wrthod *Mab Duw* yn drymaç na'ch holl bechodau eraill, pe byddech byw cyhyd a Methuselah! Dyma yr euogrwydd dyfnaf a ellwch fod yn euog o hono, *gwrthod derbyn aberth Mab Duw dros bechod*! Na atto Duw fod neb o honom yn ei wadu, ac yn gwrthod ei aberth drud! Na atto Duw i chwi eistedd tan gysgod

ei groes, heb dderbyn un lleshad oddi wrtho! Na atto Duw, meddaf, i chwi gael eich damnio wedi y cwbl! Na atto Duw i chwi gael eich tafu i uffern wedi gwybod y ffordd i'r nefoedd!

Frodyr, yr wyf yn eich rhybuddio heddyw o'r canlyniad o'i wrthod! Yr wyf yn attolygu, ac yr wyf yn erfyn arnoch i'w *dderbyn*, fel y byddo byw eich eneidiau.

"Wele Oen Duw, yr hwn sydd yn tynnu ymaith bechodau'r byd."

Wrthych chwi y rhai sydd yn credu y dywedaf, ewch yn y blaen gyda llawenydd a gorfoledd. Ymladdwch yn wrol dan ei faner ef yn erbyn gelynyion eich heneidiau. Ewch a thalwch ufudd-dod i "Dywysog" mawr "eich iechydwrriaeth." Ewch allan, a rhoddwch y goron ar ei ben, ac efe a'ch corona chwithau ryw ddydd a ddaw. Efe a'ch hachub yn awr, a chwi a gewch sefyll ger ei fron yn nydd mawr yr ymweliad, i gael eich gwneuthur ganddo "yn frenhinoedd ac yn offeiriaid i Dduw," yn oes oesoedd. Amen.

PREGETH XVII.

MAT. 25. 13.

“GWYLIWCH GAN HYNNY; AM NA WYDDOCH NA'R DYDD
NA'R AWR Y DAW MAB Y DYN.”

YN y bennod flaenorol y mae Crist yn rhagfynegi dinystr Jerusalem, ac yn darlunio ei ddyfodiad i farnu y byd. Ond yn nechreu y bennod hon, y mae yn cyffelybu teyrnas nefoedd i ddeg o forwynion, y rhai a gymmerasant eu lampau, ac a aethant allan i gyfarfod â'r priod-fab.

Y mae y geiriau hyn yn cyfeirio at drefn arferedig ym mhlith yr Iuddewon yn amser Crist. Yr oeddynt yr amser hwnnw yn gyffredin yn priodi yn y nos, ac arferol oedd i gyfeillion y briod-ferch fyned allan â lampau yn eu dwylaw i gyfarfod y priod-fab.

Wrth y priod-fab yn y fan hon y deallir Iesu Grist; ac wrth y deng morwyn y deallir proffeswyr crefydd yn gyffredinol. Y pump gall yw gwir gredinwyr, sydd yn rhodio yn atebol i'w proffes. Wrth y rhai ffol y meddylir rhagrithwyr, a wnant broffes o grefydd, ac etto heb y gwirionedd. Er fod ganddynt lamp o broffes allanol, y maent heb egwyddor o ras yn eu calonau, heb gariad perffaith, na ffydd fywiol yn nhrugaredd Duw trwy Iesu Grist. Ond y mae y rhai call yn mynnu olew yn eu lampau. Y mae rhyw lef yn eu heneidiau am gael calonau wedi eu cyfnewid trwy ras, am gael anian newydd yn blannedig ynddynt.

Y maent yn ymdrechgar ym moddion gras, ac i rodio yn ol y gair; etto, nid ydynt yn ymorphwys yn hyn, ond y maent yn rhoddi y clod i'r Iesu am eu hachub-iaeth. Y maent yn credu mai trwy ffydd ynddo ef y cyfiawnheir hwynt. Y maent am eu cael ynddo ef, heb ddim o'u cyfiawnder eu hunain. Y mae doethineb y crïstion yn gynnwysedig yn hyn,—Nid digon ganddo gael lamp o broffes allanol, ond rhaid iddo hefyd gael crefydd dufewnol, a chalon wedi ei chyfnewid trwy waith yr Yspryd Glân. Y mae yn llefain allan gyda yr hen Psalmydd duwiol, "Crea galon lân ynof, O Dduw, ac adnewyddda yspryd uniawn o'm mewn." "A thra yr oedd y priod-fab," medd y ddammeg, "yn aros yn hir, yr hepiasant oll ac yr hunasant." Pan na byddo y grasusau yn cael eu cadw yn fywiol, pan fyddo awydd ysprydol, gofal, a gwyliadwriaeth yn lleihau, y mae yno radd o gwsg ysprydol, er nad yw y cwsg hwn yn gorchfygu y morwynion call. Os nad yw eu grasusau yn wastadol ar waith, etto nid yw eu cydwybodau ddim yn cysgu. Y maent fel yr Eglwys yn y Caniadau,— "Myfi sydd yn cysgu, a'm calon yn effro: llais fy anwylyd yw yn curo, gan ddywedyd, agor i mi." Y mae yr egwyddor hon o du Dduw. Y mae y gwir grïstion yn ocheneidio dan ei faich yn y cyflwr cysglyd hwn. O! gweddiwn, bawb, am gael bod ar ein gwyl- iadwriaeth beunydd, rhag i angau ein dala yn am- mharod.

Gwyn eu byd y rhai hynny y byddo eu lampau wedi eu trwsio, a'u lwynau wedi eu gwregysu, a'u canwyll- au yn llosgi; hynny yw, yr holl rasmusau ar waith, a holl ffrwythau yr Yspryd yn amlhau, pan ddelo y priod-fab. Caiff y cyfryw fynediad helaeth i deyrnas ein Harglwydd Iesu Grist.

Fe ddywedir yn y seithfed a'r wythfed adnodau o'r bennod hon, "Yna y cyfododd yr holl forwynion hynny, ac a drwsiasant eu lampau. A'r rhai ffol a ddywedasant wrth y rhai call, Rhoddwch i ni o'ch olew chwi: canys y mae ein lampau yn diffoddi." Y mae hyn yn dangos fod yr amser yn dyfod, pan y byddo i lawer geisio yr hyn y darfu iddynt dros eu holl fywyd ddibrisio. Y rhai sydd yn diystyru gras Duw yn awr, a fyddant yn sicr o ddywedyd ryw ddydd,—“O! rhoddwch i ni o'ch olew chwi: canys y mae ein lampau yn diffoddi.” Bydd ein lampau o broffes yn sicr o ddiffoddi, oni cheir gras i'w cadw yng nghynn. Yr ateb a roddodd y rhai call i'r rhai ffol oedd,—“Nid felly; rhag na byddo digon i ni ac i chwithau.” Gwelwch yma mai ei fydd ei hun, ac nid fydd un arall, a geidw ddyn. “Y cyfiawn,” medd y prophwyd Habacuc, “a fydd byw trwy ei fydd.” “Trwy ei fydd,” nid trwy fydd un arall.

Nid oedd gan y morwynion call ddim gras i rod-di i eraill. Rhaid i bob dyn fynu gras iddo ei hun. Nid yr hyn sydd gan arall a'th geidw di. A chofiwch, y bydd yr amser i geisio gras wedi myned heibio pan ddelo y “priod-fab.” Gwrandewch fel y bu ar y morwynion ffol,—“A thra yr oeddynt yn myned ymaith i brynu, daeth y priod-fab; a'r rhai oedd barod, a aethant i mewn gydag ef i'r briodas: a chauwyd y drws.” Y drws a gauir yn erbyn yr amharod—drws edifeirwch, drws gobaith, drws trugaredd, a drws iechydwr-iaeth, am byth; ac wedi y cauir ef, nis gall neb byth ei agor. Y mae hyn yn dangos yr amhosiblwydd o gyfnewid y cyflwr, pan unwaith yr elo dydd gras trosodd. Dyma yr amser y mae y ffol yn dechreu llefain am gael myned i mewn. Nis darfu iddynt

erioed o'r blaen lefain gyda'r fath daerni am fynediad i mewn i'r wledd. Ond yn awr y mae wedi myned yn gyfyngder arnynt, ac y maent yn gwaeddi yn uchel, "Arglwydd, Arglwydd, agor i ni." Ond yr Iesu sydd yn ateb, "Nid adwaen chwi." Dyma air fel saeth yn myned at y galon. Pwy a allasai lai na llewygu wrth glywed hyn yn cael ei ddywedyd wrthynt, "*Nid adwaen chwi!*" Y mae dynion yn awr a'u talcenau megis o brês; safant yn ddiiofn a gwargaled yn erbyn gwirioneddau Duw; nid ydynt ond megis gwegi yn eu golwg, ac nid ydynt yn gadael un argraff arnynt; y mae eu cydwybodau, fel y dywed yr Apostol, wedi ei serio megis â haiarn poeth. Ond yn y dydd olaf caiff annuwiolion ei glywed ef yn dywedyd, "*Ewch ymaith oddi wrthyf, nid adwaen chwi!*" Gan fod, ynte, amser difrifol yn dyfod, yr wyf yn erfyn arnoch yng ngeiriau y testyn, "Gwylwch gan hynny; am na wyddoch na'r dydd na'r awr y daw Mab y dyn."

Byddwch wyliadwrus, fel na fyddo i'r amser echrslon hwn ddyfod ar neb o honoch, a'ch cael fel y morwynion ffol gynt, yn ammharod, heb ras cadwed-igol, heb ffydd iachusol sydd yn gweithredu trwy gariad, heb adnabod Crist yn Gyfryngwr rhyngoch a Duw, ac heb y wisg briodas am danoch. Yn awr yw yr amser i ymofyn am y pethau hyn, sef amser bywyd ac iechyd, pan y mae drws trugaredd yn agored, tra mae yr Iesu yn parhau i eiriol, a thra mae yn curo trwy ei Yspryd yng ngweinidogaeth y gair wrth ddrysau eich calonau am i chwi agoryd iddo, fel y byddo iddo ddyfod i mewn a gwneud ei drigfa ynddynt. O! edrychwch na wrthodoch yr hwn sydd yn llefaru o'r nef, rhag i Grist dyngu yn ei lid, nad ymrysona ei Yspryd â chwi am byth, ac i chwi gael eich haddfedu i golled-

igaeth dragywyddol. "Gwyliwch gan hynny; am na wyddoch na'r dydd na'r awr y daw Mab y dyn."

Fe ddaw y dydd hwn yn ddisymmwrth, fel lleidr yn y nos. Bydd y dydd hwn yn dra thebyg fel yr oedd yn nyddiau Noah. Yr oeddynt y pryd hwnnw yn hollol anystyriol; yn myned ym mlaen yn hoff bethau y byd hwn, heb feddwl am eu diwedd; yn bwytta, yn yfed, yn priodi, &c. hyd y dydd yr aeth Noah i'r arch; ac ni ddarfu iddynt ystyried eu cyflwr hyd oni ddaeth y diluw, a'u cymmeryd oll ymaith; felly bydd dyfodiad "Mab y dyn." Yr oedd Noah, pregethwr cyfiawnder, wedi bod yn hir yn rhybuddio trigolion yr hen fyd; yr oedd pob ergyd ag oedd yn roddi ar yr arch megis rhybudd iddynt, ond nid oeddynt yn ei gymmeryd, eithr i'r gwrthwyneb, yr oeddynt yn gwatwar ac yn cellwair, ac ni chredent fod y diluw yn dyfod. Ond pan ddaeth, da iawn fuasai ganddynt gael lle yn yr arch. Y mae yn ddiammau fod llawer o'r annuwiolion hynny yn ceisio yr Arglwydd, pan oedd Noah a'i deulu wedi myned i mewn i'r arch, a'r dwfr yn chwyddo i fynu. Y mae yn ddigon tebyg eu bod yn crochlefain yr amser hwnnw, ac yn dywedyd, "Arglwydd, Arglwydd, agor i ni."

Fel ag yr oedd yn y dyddiau hynny, y mae yn ein dyddiau ni. Er dywedyd wrth ddynion y bydd i'r ddaear gael ei llosgi gan dân, y bydd i'r elfenau gan wir wrês doddi, y bydd i bechaduriaid lewygu gan ofn, "y daw Mab y dyn ar gymmlau'r nef," y cyd-gesglir ger ei fron ef yr holl genhedloedd, y didola efe hwynt oddiwrth eu gilydd fel y didola y bugail y defaid oddiwrth y geifr, y gesyd y defaid ar ei ddeheulaw, a'r geifr ar yr aswy, ac y caiff yr annuwiolion eu rhwymo yn ysgubau, a'u tafu i gerwyn digofaint Duw, i'w poeni

yn oes oesoedd. Er fod hyn i gyd yn cael ei lefaru wrth ddynion, etto y mae y rhan fwyaf yn hollol ddi-ofal; ac y mae genym achos i gwyno gyda y prophwyd *Esaiah*, "Pwy a gredodd i'n hymadrodd, ac i bwy y dadguddiwyd braich yr *Arglwydd*?" i.e. pwy a gredodd, mai gwir yw y *Gair*, ac a'i derbyniodd? Ni fyn pobl yn gyffredin roddi clust-ymwrandawriad i bregethiad y *Gair*; ni fynant ufuddhau i'r efengyl, a rhodio yn ol y *Gair*, eithr myned ym mlaen yn ol eu ffyrdd eu hunain y maent, ac yn ymddwyn, fel pe na bai un *Duw* yn bod, un *Barnwr* i'w barnu, un uffern i'w cospi am eu hannuwioldeb, nac un nefoedd i'w gwobrwyo!

Gwybydded annuwiolion, na phâr yr amser yn hir iddynt ddibrisio cynghorion *Duw*, halogi ei-Sabbothau, diystyru moddion gras ac ordinhadau yr efengyl. Ni chânt yfed cwppan melus pechod am byth; fe ddaw yr amser iddynt gael eu galw i'r farn, lle y cânt yfed gwaelodion cwppan digofaint *Duw*. Rhyw eiriau arswydus iawn yw y rhai hynny yr ydym yn gael yn y *Diarhebion*,—"Yn gymmaint ag i mi eich gwahodd, ac i chwithau wrthod; i mi estyn fy llaw, a neb heb ystyried; ond diystyrasoch fy holl gyngor i, ac ni fynnech ddim o'm cerydd: minnau hefyd a chwarddaf yn eich dialedd chwi; mi a wawdiaf pan syrthio arnoch yr hyn yr ydych yn ei ofni; pan ddél arnoch yr hyn yr ydych yn ei ofni megis distryw, ac y dél eich dialedd arnoch megis corwynt; a dyfod arnoch wasgfa a chaledi: yna y galwant arnaf, ond ni wrandawaf; yn foreu y'm ceisiant, ond ni'm cânt: canys câs fu ganddynt wybodaeth, ac ofn yr *Arglwydd* ni ddewisasant. Ni chymmerent ddim o'm cyngor i; dirmygasant fy holl gerydd. *Am hynny hwy a gânt fwytia ffrwyth eu ffordd eu hunain, a'u llenwi â'u cynghorion eu hunain.*" Beth y

mae miloedd yn wneud yn uffern heddyw, ond "bwytta o ffrwyth eu ffordd eu hunain," a hwy a gânt ei fwytta er eu gwae dros oesoedd diderfyn tragywyddoldeb? "Gwylw'n gan hynny; am na wyddom na'r dydd na'r awr y daw Mab dyn." Byddwch ar eich gwylfa, ar ddeffro. Nis gellir gwyllo tra byddir yn cysgu; felly, am na wyddom pa awr y cawn ein galw i'r farn, dylem fod yn ddeffrous yn ein heneidiau, rhag ofn y caiff angau gennad i'n torri i lawr pan y byddom yn cysgu, ac heb olew yn ein llestri.

Cadwn ein lampau yn llosgi, a byddwn byw bob dydd o'n bywyd megis pe byddem yn gwybod mai hwnnw yw y dydd olaf, oblegid nis gall neb addaw iddo ei hun y dydd y fory.

Gyfeillion anwyl, gan fod ein hamser mor fyr, ein bywyd mor ansicr, a thragywyddoldeb mor faith, O! gwylw'n, ac edrychw'n beth sydd genym erbyn cyfyng ddydd marwolaeth. Chwiliw'n a ydym ni yn barod i farw. Os yn annuwiol y deil angau ni, yn annuwiol y byddwn yn myned i'r farn. Lle y syrthio'r pren, yno yr erys.

Goddefwch i mi eich cynghori chwi, bobl annuwiol, y rhai ydych hyd yma wedi parhau yn wrthryfelgar yn erbyn Duw, i ymofyn am ei adnabod yn Dduw yr heddwch i chwi. O! ymofynwch am ras cadwedigol, am drysor a ddeil yn angau, am gyfiawnder Iesu yn wisg am eich heneidiau noethion; canys heb ei wisg ef am danoch, heb gyfiawnder Iesu yn gyfrifedig i chwi, fe fydd angau yn arswydus yn wir. Y mae lle i chwi etto ddiangc rhag y digofaint sydd ar ddyfod, am hynny ffowch am eich bywyd rhag y llid a fydd. Nac aros-wch mewn un lle tu yma i'r noddfa. "Trowch i'r ymddiffynfa, chwi garcharorion gobeithiol." Y mae ym-

ddiffynfa i gael a all eich gwaredu, pan fyddo y ddaear a'r gwaith sydd ynddi yn llosgi, pan fyddo yr elfenau gan wir wrês yn toddi, a'r môr a'i donnau yn rhuo. O! trowch i mewn i'r noddfa hon cyn yr elo yn rhy ddiweddar.

Nis gellir cyhoeddi i'r colledigion sydd yr ochr draw i'r gagendor, fod iddynt hwy ymddiffynfa i'w diogelu; nis gellir eu galw yn "garcharorion gobeithiol," oblegid nid oes iddynt un gobaith byth am ryddhad. Ond y mae i chwi etto obaith, yr ydych heddyw yn cael eich gwahodd. O! rhedwch at Iesu, fel y caffoch fywyd tragwyddol.

Gair wrthych chwi dduwiolion, y rhai sydd genych, nid yn unig lamp o broffes, ond hefyd olew yn eich llestri gyda'ch lampau, y rhai sydd genych ras cadwed-igol, anian newydd wedi ei phlanu yn eich calonau, byddwch yn effro, caffed ffydd ei pherffaith waith ynoch, a chwanegwch at eich ffydd rinwedd, ac at rinwedd wybodaeth. Gweddiwch lawer am gael nerth i gynnyddu mewn gras a gwybodaeth, fel yr ydych yn cynnyddu mewn dyddiau. Bydded eich ymarweddiad yn addas i'ch proffes; canys "chwi yw halen y ddaear: eithr o diflasodd yr halen, â pha beth yr helltir ef? ni thâl efe mwy ddim ond i'w fwrw allan, a'i sathru gan ddynion." Bydded eich lampau yn llosgi yn oleu yng nghanol byd tywyll. "Chwi yw goleuni y byd. Dinas a osodir ar fryn, ni ellir ei chuddio. Ac ni oleuant ganwyll, a'i doddi dan lestr, ond mewn canhwylbren; a hi a oleua i bawb sydd yn y tŷ. Llewyrched felly eich goleuni ger bron dynion, fel y gwelont eich gweithredoedd da chwi, ac y gogoneddont eich Tad yr hwn sydd yn y nefoedd." Rhodiwch megis wrth oleu dydd, fel plant y goleuni. Edrychwch ar eich

cerddediad, a gwyliwch ar eich camrau. “Gwelwch gan hynny pa fodd y rhodioch yn ddiesgeulus, nid fel annoethion, ond fel doethion; gan brynu yr amser, oblegid y dyddiau sydd ddrwg.” Y mae y diafol yn gwylio pob cyfleusdra i osod profedigaethau ar eich ffordd; gan hynny, gwyliwch a gweddiwch rhag i chwi syrthio i brofedigaeth. Y mae ganddo lawer o faglau i osod ar eich llwybrau, gwyliwch rhag iddo eich cael yn un o honynt. Dichon hudo y wraig i fod yn fagl i'r gwr, neu y gwr i'r wraig; y rhieni i'r plant, neu y plant i'r rhieni. Y mae llawer wedi eu hudo ganddo o eisiau yspryd gwylio.

Cofiwch fod llawer o edrych arnoch. Y mae Duw a'i angylion sanctaidd yn edrych arnoch; y mae y diafol a'i angylion yntau yn edrych arnoch; ac y mae annuwiolion y byd yn edrych arnoch. Bydded i chwi, ynte, daer weddio ar Dduw gyda'r Psalmydd, “Cynnal fy ngherddediad yn dy lwybrau, fel na lithro fy nhraed.” Ymegniwch lawer, trwy gymmorth Dwyfol ras, fod yn wylidwrus ac yn ddeffrous yn eich heneidiau, rhag i chwi syrthio i fagl y diafol, a thrwy hynny dristâu Glân Yspryd yr Arglwydd, rhoddi achos i annuwiolion wawdio, drygu eich hunain, a dwyn gwaradwydd ar yr enw mawr sydd arnoch.

Chwychwi ag sydd beunydd ar eich gwyliadwriaeth, a gewch ar fyr ddiangc o wlad y rhyfel, lle y mae y diafol yn hudo; chwi a gewch gyflawn waredigaeth oddiwrth bechod; chwi a gewch ganu buddugoliaeth ar blâ mynwesol, corph y farwolaeth, a holl elynion eich heneidiau.

Byddwch yn ffyddlon a diwyd yng ngwasanaeth yr Arglwydd hyd angau, ac efe a rydd i chwi “goron y bywyd.”

Fe gaiff y rhai sydd yn gwylio, ar ddiwedd eu gyrfa, y goron yn lle y groes, palmwydd yn lle y cleddyf, a theyrnas ddisigl yn lle byd ag sydd yn llawn o ofnan, tristwch, a galar. Disgwyliwch am y dydd hwn yn fwy na'r gwylwyr am y bore; a'r Arglwydd a roddo i chwi nerth i fod yn wyladwrus, ac yn barod i gyfarfod â'ch Duw, âg olew yn eich lampau.

PREGETH XVIII.

2 Cor. 5. 14, 15.

“CANYS Y MAE CARIAD CRIST YN EIN CYMMELL NI, GAN FARNU O HONOM HYN; OS BU UN FARW DROS BAWB, YNA MEIRW OEDD PAWB: AC EFE A FU FARW DROS BAWB, FEL NA BYDDAI I'R RHAI BYW FYW MWYACH IDDYNT EU HUNAIN, OND I'R HWN A FU FARW DROSTYNT, AC A GYFODWYD.”

Y MAE hwn yn destyn mor bwysfawr ag unrhyw y gallwn fyfyrion arno,—sonia am gariad anghymmarol Crist yn marw drosom.

Sylwn ychydig, yn—

I. Ar *gariad* Crist. Ei gariad a amlygir yn ei waith yn marw dros bechaduriaid. Ac oddiar hyn, sef ei farwolaeth; y gallwn ddisgwyl, “Os bu un farw dros bawb, *yna* meirw oedd pawb.” Ac, yn—

II. Ni a gawn sylwi ychydig ar effaith wynfydedig ei farwolaeth, “Efe a fu farw dros bawb, fel na byddai i'r rhai byw fyw mwyach iddynt eu hunain, ond i'r hwn a fu farw drostynt, ac a gyfodwyd.”

1. Sylwn ar y casgliad hwn oddiwrth farwolaeth Crist,—“Os bu un farw dros bawb, *yna meirw oedd pawb.*” Y mae yn angenrheidiol i ni sylwi yma pa fath farwolaeth a olygir; oblegid fe ellir dywedyd am ddyd, ei fod ef yn fyw ac yn farw yr un pryd, mewn gwahanol ystyriaethau. Y mae y dyn ag sydd yn *fyw* i Dduw, yn farw i bechod; ac y mae y dyn ag sydd yn *fyw* i bechod, yn *farw* i Dduw. St. Paul, yn ysgrifenu at

Timotheus, a ddywed, “Ond yr hon sydd drythyll, a fu farw, er ei bod yn fyw.” Dyma un yn fyw ac yn farw ar yr un amser; yn llawn *bywyd* gyda golwg ar *bechod*, ond yn *farw*, yn *ddiffwrth*, gyda golwg ar un daioni.

Fe ellir dywedyd am y farwolaeth a sonir am dani yma, yn—

1. Mai marwolaeth *farnol* ydyw,—“Yn y dydd y bwyttâi di o hono, gan farw y byddi farw.” Dyma y rhag-rybudd a roddodd Duw i Adda. Ni chymmerodd marwolaeth naturiol le yn ddioed, mae yn ddigon gwir; ond yr oedd Adda yn ddyn *marw* yng ngolwg cyfraith Duw y fynud y troseddodd y gorchymmyn. Pe byddai dyn yn yfed cwppanaid o wenwyn, fe ellid dywedyd mai dyn *marw* yw; y mae wedi yfed yr hyn a fydd yn sicr o'i ladd. Am y dyn, hefyd, sydd wedi troseddu cyfreithiau y wlad, ac wedi cael ei farnu yn haeddianol o farwolaeth, tra y mae efe etto yn y carchar, fe ellir dywedyd am dano, mai dyn marw ydyw. Felly y dyn ag a droseddodd gyfraith Duw, y mae dan goll-farn. Y mae dan farn marwolaeth; dyn marw ydyw. Chwi a arswydech yn fawr, pe canfyddech ryw ddyn yn cymmeryd cleddyf noeth, yn syrthio arno, ac yn lladd ei hunan. Ond y mae y dyn ag sydd yn torri gorchymmynion Duw yn tynnu cleddyf *hŵy*, cleddyf a gyrhaedd ei *enaid*!

Y mae pechod yn lladd corph ac enaid, y mae yn dinystrio happusrwydd y ddau, ac y mae yn parottoi y ddau gogyfer a'r pwll diwaelod!

Yn awr, y mae hyn, sef marwolaeth Crist, i'r diben o'n gwared rhag marw y farwolaeth *farnol*, yn profi yn eglur ein bod ni wedi troseddu cyfraith Duw, a'n bod yn agored i farwolaeth tu hwnt i'r bedd. “Crist a fu

farw dros *bawb*." Marwolaeth dros eraill oedd. "Crist a'n llwyr-brynodd oddiwrth felldith y ddeddf," medd St. Paul, "gan ei wneuthur yn felldith drosom," yr hyn sydd yn profi ein bod yn agored-i farwolaeth. Yr oedd marwolaeth Crist yn farwolaeth o foddlonrwydd hefyd,—“Eithr yr Arglwydd a *fynnai* ei ddryllio ef;” neu yn ol y Saesoneg, “rhyngodd bodd yr Arglwydd ei ddryllio ef.” Trwy hyn y cafodd cyfraith Duw ei hanrhydeddu—ei gwneud yn fwy anrhydeddus na phe buasai yr holl greadigaeth yn cyflawni pob iot o honi; i'e, ei gwneud yn anfeidrol mwy anrhydeddus na phe buasai holl ddynolryw yn cael eu taflu i'r pwll uffernol, i ddiodef y gospedigaeth, heb byth allu rhoddi iawn. “Os bu un farw dros bawb, yna meirw oedd pawb.”

Ond, yn—

2. Y mae yn *farwolaeth ysprydol*." Mewn ystyr ysprydol, fe'n genir ni oll yn feirw. Yr ydym wrth natur yn feirw mewn pethau ysprydol; fel delwau y Cenedloedd, llygaid sydd genym, ond nid ydym yn gweled; clustiau sydd genym, ond nid ydym yn clywed; traed sydd genym, ond nid ydym yn cerdded; dwylaw sydd genym, ond nid ydym yn teimlo. Llygaid sydd genym, nad ydynt yn canfod gogoniant Crist yr Iachawdwr, nac yn gweled dim o'i degwch; clustiau sydd genym, nad ydynt yn clywed ei orchymmynion; traed sydd genym, nad ydynt yn rhodio yn ffyrdd ei ddeddfau; a dwylaw sydd genym, nad ydynt yn cael eu defnyddio i wneuthur ei ewyllys ef. Yn awr, diben marwolaeth Crist oedd ein gwneud yn *fyw yn ysprydol*, ac i brynu i ni ddawn yr Yspryd Glân, heb yr hwn nis bywheir ni byth, ac nis gwneir ni yn addas i wasanaeth Duw. “Buddiol,” medd Crist, “yw i chwi fy myned i ymaith: canys onid âf fi, ni ddaw y Diddanydd

attoch." Yr Yspryd Glân yw Diddanydd pobl Dduw ; efe sydd yn eu codi "o angau pechod i fuchedd cyf-iawnder." A oedd Crist ddim yn ddiddanydd i'r ddwy chwaer yn Bethania, pan y dywedodd uwch ben eu brawd ag oedd yn pydru yn y bedd, "Lazarus, tyred allan?" A oedd efe ddim yn ddiddanydd i'r teulu hwnnw? Oedd, yn sicr. Wel, a ydyw efe ddim yn ddiddanydd etto, pan y mae yn dattod llyffetheiriau rhyw bechadur ag sydd yng ngafael y diafol, ac yn ei ddwyn i ryddid gogoneddus plant Duw? Ond, medd Crist, "Buddiol yw hyn i chwi." Fel pe dywedasai, "Ni fywheir yr enaid, ac ni chyssegrir ef, oni *fydd i mi farw*. Y mae yn rhaid *i mi*, i'r diben o godi enaid marw o bwll llygredigaeth, fyned i lys yr arch-offeiriad, y mae yn rhaid *i mi* gael fy nghondemnio i farwolaeth, y mae yn rhaid *i mi* ddwyn fy nghroes i fynydd Calfaria, yno i drengi rhwng nef a daear, ac y mae yn rhaid *i mi* ddisgyn i'r bedd, a chyfodi y trydydd dydd, ac esgyn i'r nefoedd, cyn y bywheir eneidiau ag sydd yn feirw yn ysprydol." "Os bu un farw dros bawb, yna meirw oedd pawb," yn *feirw yn farnol*, ac yn *feirw yn ysprydol*.

3. Y mae yn *farwolaeth boenus*. Y mae meddwl am farwolaeth *naturiol* bob amser yn boenus i ni. Y mae meddwl am farwolaeth *farnol*, hefyd, yn peri poen i'r meddwl bob amser. A ellwch glywed Duw yn dywedyd yn ei Air, "Ewch oddi wrthyf, rai melldigedig, i'r tân tragywyddol," heb deimlo poen, a galar, a thristwch? Y mae yn boenus i'r *enaid* gael ei gospi â distryw tanllyd "oddi ger bron yr Arglwydd;" ac y mae yn boenus i'r corph. Ein holl boenau, ein dioddefiadau, a'n cystuddiau, ydynt ganlyniadau pechod; pechod yw yr achos o honynt oll. Yr ydym yn dechreu teimlo

y rhai hyn yma ar y ddaear; a phe buasai Crist *heb* ddyfod a marw drosom, fe orfyddasai arnom eu dioddef am dragywyddoldeb. Ni a welwn pa mor fawr oedd ein pechod yn nioddefiadau Crist ar y groes,—“Trist iawn,” medd efe, “yw fy enaid hyd angau.” Yn yr ardd, yr oedd ei “chwys fel defnynau gwaed yn disgyn ar y ddaear.” Ar y groes efe a “ddolefodd, Fy Nuw, fy Nuw, paham y'm gadewaist?” a hyn i gyd drosom ni bechaduriaid!

Yng ngeiriau ei Iachawdwr, fe all y credadyn etto, dan ei ddiodeffiadau a'i helbulon, ddywedyd, “*fy* Nuw.” Ni elli di, ddyn annuwiol, ddim dywedyd, “*fy* Nuw.” O! na elli; ond pan y byddot farw, os marw yn dy *bechodau* a wnai, fe fydd i'th *enaid* gael ei soddi yn y poenau mwyaf annhraethadwy. O! ti a chwyset y gwaed, pe byddai yn ddichonadwy, pan y tyngo Duw yn ei lid, mai melldigedig fyddi.

Yn awr, ni a allwn gasglu oddiwrth farwolaeth Crist, pa fath farwolaeth boenus a fydd marwolaeth y pechadur. Os dioddefodd *Crist* y fath farwolaeth *boenus*, beth a raid fod marwolaeth y pechadur anedifeiriol?

Ond heblaw hyn, yn—

4. Y mae yn *farwolaeth dragywyddol*. Nis gall pechadur marw gyfnewid ei galon ei hun. Pa le mae y dyn hwnnw ag a gyfododd ei hun erioed o *angau* pechod i fuchedd cyfiawnder? Y mae marwolaeth Crist yn profi ei bod yn farwolaeth dragywyddol. Pe gallasem ni dderbyn yr Yspryd Glân, a phe gallasem fyw er gogoniant i Dduw, *heb* farwolaeth Crist, yna ni fuasai ei farwolaeth yn angenrheidiol. “Canys,” medd yr Apostol, “pe rhoisid deddf a allasai *fywhau*, yn wir o'r *ddeddf* y buasai cyfiawnder.” Yna, fe allesid gofyn, pa angenrhaid o waed a diodeffiadau y Cyfryngwr?

Paham y dioddefodd Crist yn ofer? Ond y mae marwolaeth Crist yn profi nas gallasai cyfiawnder ddyfod trwy y ddeddf; ac oni buasai i Grist farw, rhaid fuasai i *ni* farw *marwolaeth dragywyddol*. “Heb ollwng gwaed,” medd yr Apostol, “nid oes maddeuant;” ac heb faddeuant, nis gall fod bywyd i’r enaid.

Ac, yn—

5. Mae y *farwolaeth hon yn gyffredinol*. “Os bu un farw dros *bawb*, yna *meirw oedd pawb*.” Chwi a minau, a phawb o ddynolryw, ydym feirw wrth natur. Yn awr, gyda golwg ar ddigonolrwydd aberth Crist, fe ellir dywedyd iddo farw dros *bawb*. Mae digon o rinwedd ynddo i iachau pawb o ddynolryw,—“Ac o phecha neb, y mae i ni Eiriolwr gyda’r Tad, Iesu Grist y Cyfiawn: ac efe yw’r iawn dros ein pechodau ni: ac nid dros yr eiddom ni yn unig, eithr dros bechodau yr holl fyd.” 1 Ioan 2. 1, 2. Oddi yma ni a welwn fod digon o werth ym marwolaeth Crist dros bechodau yr holl fyd. Pe buasai trigolion y byd hwn gymmaint arall ag ydynt; pe baent yn lle wyth can’ myrddiwn, yn un cant ar bymtheg o fyrddiynau, etto, fe fuasai marwolaeth Crist yn ddigonol i’w hachub.

Ond er ei fod yn ddigonol fel hyn, etto, sylwch, y mae cyfyngiad o hono gyda golwg ar ei *gymhwysiad*. Ni a ddysgwn oddiwirth y Bibl y caiff rhai eu cyfodi i ogoniant, rhai hefyd a deflir i uffern; rhai a safant ar ddeheulaw y Barnwr, a rhai ar yr aswy. Wrth rai efe a ddywed y geiriau gogoneddus hyn, “*Deuoch, chwi fendigedigion* ;”—wrth eraill y dywed y geiriau echrydus hynny, “*Ewch oddi wrthyf, rai melldigedig*.”

Ond dyma y gofyniad, frodyr, Pa le y byddwn *ni*? Pa un ai ym mhlith y prynedigion, neu ynte y colledigion, yr ydym ni yn debyg o fod? Cofiwch fod cym-

hwysiad o farwolaeth a rhinwedd gwaed gwerthfawr Crist yn cael ei gyfyngu i'r rhai hynny yn unig ag sydd yn edifarhau ac yn credu yr efengyl. Hwy yw y bobl a dderbyniant leshad oddi wrtho.

Ni fyddi di, ddyn annuwiol, ddim gwell o farwolaeth Crist, os byw a marw a wnai *yn dy bechodau*. Y mae yn rhaid i waed Crist gael ei daenellu ar dy gydwybod, ac y mae yn rhaid i ti gymmeryd gafael ar Grist croeshoeliedig, a'i gofleidio â breichiau fydd, onidê ni fydd ei aberth haeddiannol o un lleshad i ti. Y mae yn rhaid i ti gymhwyso at dy gyflwr dy hunan yr hyn a wnaeth ac a ddioddefodd efe; heb hyn, er holl ddiodefiadau y groes, ti a soddi i ddinystyr tragwyddol. O! eneidiau, llefwch lawer am gael adnabyddiaeth o'r Arglwydd Iesu Grist, yn wirioneddol, yn Iachawdwr i *chwi*. Yr ydym ni, weinidogion, yn ei ddal allan yn Iachawdwr holl-ddigonol dros holl derfynau y greadigaeth; ond gofawch, eneidiau, am gael *hawl bersonol ynddo*. Dyma yr unig beth a wna leshad i *chwi*. Ei adnabod a gaffoch oll, a grym ei adgyfodiad. A ydych *chwi*, fy ngwrandawyr anwyl, wedi cael lle i gredu eich bod â *hawl bersonol* yng Nghrist a'i ddiodefiadau? O! holwch eich hunain yn fanwl yn hyn. A ydyw yr hyn sydd yn cael ei draethu yn dyfod adref, fel yn cael ei lefaru wrthy ch *chwi* eich hunain? Y mae y gair yn aml yn dyfod attom ni fel y daeth at Dafydd gynt. Fe ddechreuodd y prophwyd, fel y gwyddoch, lefaru mewn dammeg. Fe feddyliodd Dafydd mai lefaru am ryw un arall yr oedd; ond daccw y prophwyd yn cyfeirio yn bennodol at y brenin, gan ddywedyd, "*Ti yw y gwr.*"

Wel, enaid anwyl, pan yr wyt yn clywed pechod yn cael ei gollfarnu, pan y mae y gweinidog yn ei osod

ger dy fron, a wyt ti fel Dafydd, yn golygu rhyw un arall, pan, fe allai, y gellir gyda llawer o addasrwydd ddywedyd uwch dy ben, "Ti yw y gwr!" Y mae y testyn yn cyfeirio attat *ti*—attoch chwi *bob un yn bersonol*. Wel, beth y mae yn ddywedyd, "Os *bu un farw dros bawb, yna meirw oedd pawb*."

Ni a allwn ddywedyd am y farwolaeth hon, ynte, ei bod yn un *farnol*, yn *ysprydol*, yn *boenus*, ac yn *gyffredinol*; ac oni buasai i Grist farw yn ein *lle*, buasai yn farwolaeth *dragywyddol* hefyd i bob enaid o honom. Pan edrychom o'n hamgylch ar hyd y byd, y mae yn ymddangos i ni fel dyffryn y lladdedigion, yn y weledigaeth y mae Ezeziel yn son am dani, yn llawn o esgyrn; ond trwy farwolaeth Crist, y mae rhyw gynnwrf i'w weled ym mysg yr esgyrn sychion; ac os gallwn ond gweddio o'n calonau, "O! anadl, tyred oddiwrth y pedwar gwynt, ac anadla ar y lladdedigion hyn, fel y byddont byw," gallwn obeithio gweled nifer fawr, i.e. yn yr ardaloedd hyn, yn cael eu cyfodi i fywyd ysprydol. O! na welai Duw yn dda beri rhyw gynnwrf ym mhlith yr esgyrn sychion yn y dyddiau hyn. O! gweddiwn am iddo anadlu arnom trwy ddylanwadau ei Yspryd sanctaidd, fel y caffo ein heneidiau eu deffroi o gwsg pechod, a'u dwyn trwodd o farwolaeth i fywyd.

Ond mi a frysiaf i sylwi, yn—

II. Ar *effaith* marwolaeth Crist,—“Efe a fu farw dros bawb, *fel na* byddai i'r rhai byw fyw mwyach iddynt eu hunain, ond i'r hwn a fu farw drostynt, ac a gyfodwyd.”

Crybwyllais yn barod am ein cyflyrau, bawb o honom, wrth natur,—“Yna meirw oedd pawb:” ac mi a fum yn ymdrechu dywedyd rhyw faint am natur y

farwolaeth hon. Yn wir, fe ddywedwyd digon, mi a feddylw'n, pe byddai y gydwybod ar ddeffro, i ddychrynu y pechadur annuwiol.

Ond, clyw, enaid, y mae genyf air o gysur i ti. Paid a gwanobeithio, er cynddrwg yw dy gyflwr, y mae yma feddyginiaeth ar dy gyfer di,—“Cred yn yr Arglwydd Iesu Grist, a chadwedig fyddi.” Er fod pechod wedi archolli dy enaid, ac er nad oes na man glân na chyfan arnat ti, etto, onid oes *Balm yn Gilead*? onid oes *Physygw'r yno*? Oes; a bendigedig fyddo Duw, er dyfnded yw yr archollion, y mae rhinwedd i'w hiachau yng nghlwyfau Mab Duw,—“Gwaed Iesu Grist ei Fab ef, sydd yn ein glanhau ni oddiwrth bob pechod.” “Efe a fu farw dros bawb, fel na byddai i'r rhai byw fyw mwyach iddynt eu hunain, ond i'r hwn a fu farw drostynt, ac a gyfodwyd.”

Fe ymddengys oddiwrth hyn, mai yr effaith a fwr-iedir oddiwrth farwolaeth Crist yw hyn, sef, dwyn ein serch tuag atto, a'n cariad iddo, “fel na byddai i ni fyw mwyach i ni ein *hunain*, ond iddo *ef* yr hwn a fu farw drosom.”

1. Sylwn am funud ar y *rhesymoldeb* o hyn.

Yn wir, nis gall dim fod yn fwy rhesymol na hyn. Os derbyniasom ni ein bywyd *oddiwrth* Grist, rhesymol yw i ni fyw *i a thro*s Grist. Os ydych yn derbyn eich bywyd o *gyfiawnhad*, o sancteiddrwydd, ac o ogoniant, oddiwrth Grist, yna y mae yn rhesymol i chwi fyw i Grist. Pe byddech yn prynu tŷ, oni fyddai hawl genych i breswyllo ynddo? Wel, os prynodd Crist eich *heneidiau*, onid ei eiddo ydynt? Nid eich eiddo eich hunain ydych, frodyr, oblegid “er gwerth y prynwyd chwi;” Crist a'ch pia chwi. Nid yw efe yn dywedyd, mi a'ch *creais*, er fod ganddo ef hawl ynoch

fel Creawdwr, ond mi a'ch prynais. Do, efe a'ch prynodd hefyd, pan nad oedd genych fodd i brynu eich hunain; a thalodd, nid llai pris am danoch, na gwaed ei galon! gan hynny, byddwch byw er ei glod a'i ogoniant.

Y mae yr Apostol yn cyfeirio yn y testyn at *adgyfodiad* Crist yn gystal a'i farwolaeth. Adgyfodiad Crist sydd yn cadarnhau y cwbl. Dyma y sêl a roddodd y nefoedd ar haeddiant marwolaeth Crist,—“Hwn a seliodd Duw Dad;” a thrwy hyn yn fwyaf neillduol, sef ei *adgyfodiad* oddiwrth y meirw.

Ond yr hyn ag y mae yr Apostol yn olygu yn neillduol yma yw hyn, fod Crist yn cynnal y bywyd hwn oddiwrth y meirw, y bywyd ysprydol, trwy *ei eiriolaeth*. Dyma y modd y mae yn meithrin y bywyd hwn yn ei blant a'i bobl, trwy eiriol drostynt ar ddeheulaw y Tad. Efe a esgynodd; ac yn y nefoedd y mae efe yn cynnal y bywyd a blannodd yn enaid y duwiol. “Hwn,” medd yr Apostol, “am ei fod ef yn aros yn dragywydd, *am hynny*, efe a ddichon yn gwbl iachau y rhai trwyddo ef sydd yn dyfod at Dduw.” Ydyw, eneidiau, y mae efe yn abl i iachau eich holl glwyfau, ac i'ch gwared oddiwrth bob profedigaethau. “Efe a ddichon.” Crist a'ch dwg chwi trwy bob ofnau, *â llaw uchel, ac â braich estynedig*. Nid yw y mynyddoedd o anhawsderau ag ydynt o'ch blaen ddim yn rhy uchel iddo ef, ac nid yw y drain a'r mieri ddim yn rhy dew iddo ef dorri trwyddynt. Efe a'ch arwain ym mlaen, ac a'ch dwg allan yn ddihangol. Cymmerwch galon, gan hynny, yng ngwyneb pob ofnau; rhoddwch eich hyder arno, y mae efe yn ddigonol.

2. Sylwch, etto, ar *wresogrwydd* ei gariad,—“Canys y mae cariad Crist yn ein *cymmell* ni.” Beth oedd

teimladau y gwr enwog hwnnw, y Dr. Doddridge, pan yr aeth i mewn i'r carchar at garcharwr â rhyddfaint iddo, a phan y syrthiodd y carcharwr, druan, wrth ei draed, gan ddywedyd, "Eiddo chwi ydwyf! Pa le bynnag yr eloch, mi a fyddaf yn was i chwi. Y mae pob dafn o'm gwaed yn *diolch* i chwi, oblegid *achubas-och* fy mywyd!"

Os felly yr oedd hi am achub *bywyd*, fe allai, am ychydig o flynyddoedd yn hwy, faint o ddyled sydd arnom *ni*, frodyr, i Grist, yr hwn sydd yn achub ein *heneidiau*? Ai hyn yw eich teimladau *chwi*, pan yr ydych yn cael ond ambell ddiferyn o'r drugaredd hon? O! ynte, beth a fydd eich teimladau pan y caffoch eich dwyn i'r ffynnon fry, i drachtio yn ddidrai o honi i dragywyddoldeb! Yn wir, dyma amser y bydd i garriad Crist eich *cymmell*.

"Fel na byddai i'r rhai byw fyw mwyach iddynt eu hunain." Nid oes i ni fyw i ni ein hunain, ond er gogoniant Crist. Dyma yr hyn a ddylai fod bob amser mewn golwg. Rhoddwn yr *hunan* allan o'n golwg, a bydded gogoniant Duw, llwyddiant ei achos mawr, a daioni a lleshad ein cyd-greaduriaid mewn golwg gyda ni yn wastadol. Bydded i ni gywilyddio wrth feddwl mor lleied o'r cariad hwnnw ag oedd yn *cymmell* yr apostol Paul, sydd i'w ganfod ynom *ni* yn y dyddiau hyn! Ac, O! gweddiwn, am i ni gael ein dihuono, bawb o honom, i fod yn *ddiwyd* yn ein *galwad*, yn *wresog* yn yr Yspryd, yn *gwasanaethu* yr Arglwydd.

Gair neu ddau cyn dibenu, yn—

3. Am *barhad* y cariad hwn,—“Fel na byddai i'r rhai byw fyw *mwyach* iddynt eu hunain, ond i'r hwn a fu farw drostynt, ac a gyfodwyd.” “Mwyach”—tra fyddom byw ar y ddaear—holl ystod ein bywyd—yn

awr angau—tu hwnt i'r bedd—byth bythoedd—“*mwy-ach*.” Cyssegrwn ein hunain i'w wasanaeth ef, ynte, o hyn allan. Dywedwn wrtho, “Arglwydd, ti a'n pryn-aist â'th waed, eiddo ti ydym.” Beth bynnag a wneloch, gwnewch bob peth er gogoniant ei enw sanctaidd ef. Bydded iddo gael y cwbl a feddoch, eich amser, eich talentau, eich eiddo, a'ch *cochl*. Efe a roddodd ei hun *gorph* ac *enaid* drosoch chwi. Y mae y fath gariad, yn wir, yn gofyn y *cochl* a feddoch *chwithau*. Byddwch barod i fyw a marw, i.e., i dywallt eich gwaed drosto, os bydd achos. Yr ydym yn darllen am yr hen Bolycarp duwiol, un o hen dadau yr Eglwys, pan y cafodd ei ddwyn i ddioddef am enw yr Iesu bendigedig, ddarfod ei gymhell gan ei elynion drachefn a thrachefn i *ddifeni* Crist, a'i wadu ef. Eb yr hen wr duwiol, “Pedwar ugain a chwech o flynyddoedd y gwasanaethais i ef, ac ni wnaeth ef gam â mi erioed; a pha fodd y difenwaf fy Mrenin, yr hwn a'm hachubodd?”

O! frodyr, peidiwn ninau ei wadu ef, er dim. Y mae St. Paul yn galw ei hun yn weinidog, neu yn *was* Iesu Grist; a bydded sicr i chwi na chewch well Meistr yn un lle; pe chwiliach yr holl fyd, o Frydain i'r India draw, ni chaech well na chystal Meistr. Gwasanaethwch ef, gan hynny, “*mwyach*,” trwy eich *bywyd*, yn *angau*, ac am *dragrwyddoldeb*. “Canys y mae cariad Crist yn ein *cymhell* ni, gan farnu o honom hyn; os bu un farw dros bawb, yna meirw oedd pawb: ac efe a fu farw dros bawb, fel na byddai i'r rhai byw fyw *mwy-ach* iddynt eu hunain, ond i'r hwn a fu farw drostynt, ac a gyfodwyd.”

PREGETH XIX.

2 COR. 13. 5.

“PROFWCH CHWYCHWI EICH HUNAIN, A YDYCH YN Y FFYDD;
HOLWCH EICH HUNAIN.”

PE byddem mewn meddiant o ystad fawr, a bod ymryson yn codi mewn perthynas i'n hawl iddi, ni a fyddem yn awyddus iawn i brofi y pwngc trwy gyfraith, fel y gallem gael sicrwydd a boddlonrwydd ynghylch ein teitl. Fe ddywed yr Ysgrythyr wrthym fod Crist wedi parottoi etifeddiaeth fawr iawn i'r gwir gredinwyr. Ond y gofyniad yw, a ydym ni yn wir etifeddion, i ba rai y mae'r etifeddiaeth yn perthyn? Yn awr, er penderfynu hyn, y mae yn rhaid i ni holi yn ddifrifol pa hawl sydd genym yng Nghrist; canys trwyddo ef yr ydym ni yn derbyn pob peth. Ac i brofi ein hawl i Grist, mae yn rhaid i ni holi, a ydyw Crist ynom ni; ac i brofi fod Crist ynom ni, y mae yn rhaid i ni holi ein hunain, a ydym ni “yn y ffydd;” canys cyn i'r Apostol ddywedyd, “Ai nid ydych yn eich adnabod eich hunain, sef bod Iesu Grist *ynoch*,” y mae efe yn doddi yr ymfyniad hyn,—“Profwch chwydchi eich hunain, a ydych yn y ffydd; holwch eich hunain.” Crist sydd ynoch chwi, os ydych chwi yn y ffydd. Dyma lle y mae y matter yn sefyll, a oes genych ffydd? Hynny yw, a ydych yn credu, ac yn ymddiried yn hollol yn Iesu Grist am fywyd tragwyddol?

Yn awr, er mwyn penderfynu hyn, mi a ddangosaf i chwi, yn—

I. Y pethau sydd yn cyd-fyned â ffydd.

II. Priodol weithred ffydd. Ac, yn—

III. Ffrwythau ffydd.

I. Y peth cyntaf a gaf sylwi arno yw, y pethau sydd yn cyd-fyned â ffydd.

A'r peth cyntaf o'r rhai hyn yw *cydsymiad*. Y mae yr enaid yn awr yn cydsynio i gymmeryd Crist ar ei delerau ei hun. Y mae y credadyn yn ymfoddloni cymmeryd Crist, nid yn unig megis yn ddiddanydd iddo, ond hefyd yn lywodraethwr arno. Y pechadur a gymmerai addewidion Crist, ond nid ei gyfreithiau; fe fyddai yn dda ganddo gael bod dan fendith Crist, ond nid dan ei lywodraeth. Y gwir gredadyn sydd yn ewyllysgar i dderbyn Crist fel ag y mae; nid yw ef yn dewis un rhan o'r gyfraith, ac yn gadael y llall yn ol; ond fel y mae efe yn disgwyl cael teyrnasu gyda'i lachawdwr yn y nef, felly y mae efe yn rhoi ei galon yn orsedd iddo ar y ddaear.

Yr ail beth sydd yn cyd-fyned â ffydd yw *dymuniad*. Psalm. 42. 1. "Fel y brefa yr hŷdd am yr afonydd dyfroedd, felly yr *hiraetha* fy enaid am danat ti, O Dduw." O! medd yr enaid, na chawn i Grist; O! na chawn i gyffwrdd âg ymyl ei wisg." "Pwy a'm dioda i â dwfr o bydew Bethlehem?" Felly y dywed pechadur sychedig, "pwy a rydd i mi i yfed o'r ffrydiau bywiol hynny, ag sydd yn tarddu o waed Iesu. O! am y Seren fore i'm goleuo, y perl o fawr bris i'm cyfoethogi, a phren y bywyd i'm bywiocau. O! na chawn olwg ar lendid ac hawddgarwch Crist, a phrawf o'i felusderau." Y mae y fath syched yn codi yn yr enaid, nas gall dim ei dorri ond dwfr y bywyd, fel nad

oes dim a ddichon lonyddu plentyn sugno, ond y fron ; felly, nis gall dim ond agoriad bronau rhad ras gan Dduw, a rhoddiad o'i Fab o'i fynwes, lonyddu enaid hiraethus y gwir gredadyn.

Y trydydd peth sydd yn cyd-fyned â ffydd yw *yspryd drylliedig*—yr enaid sydd yn toddi mewn dagrau. Zech. 12. 10. “A hwy a edrychant arnaf fi yr hwn a wanasant, *galarant* hefyd am dano fel un yn galaru am ei unig-anedig.” Yspryd gras sydd yn diferu megis gwllith ar y galon, ac yn ei meddalhau. Y mae y pechadur edifeiriol yn wylo oblegid ei bechodau yn erbyn yr anwyl Iesu. “O!” medd efe, “i mi erioed bechu yn erbyn y fath Iachawdwr.” Y mae efe yn edrych ar Grist drylliedig â chalon ddrylliog ; y mae yn codi ei lygaid tua'r nef, ac yn llefain allan gyda'r Psalmydd, “Aberthau Duw ydynt yspryd drylliog : calon ddrylliog gystuddiedig, O Dduw, ni ddirmygi.” Y mae efe yn golchi archollion Crist â'i ddagrau. O'r blaen yr oedd yn wylo o herwydd *ofn* ; ond yn awr, y mae yn wylo o herwydd *cariad*. Dyma rai o'r pethau sydd yn cyd-fyned â ffydd gadwedigol, sef, *cydsyniad, dymuniad, ac yspryd drylliedig*.

Yn awr, fy mrodyr, a ydych *chwi* yn cydsynio ac yn boddloni cymmeryd Crist, “er gwell, er gwaeth?” A ydyw eich henaid yn hiraethu am gael gweled mwy o'i ogoniant? A ydych *chwi* yn wylo oblegid eich pechodau? O! “profwch chwychwi eich hunain, a ydych yn y ffydd ; holwch eich hunain.”

Sylwn ychydig, yn—

II. Ar briodol weithrediad ffydd, sef, ymorphwys neu ymddiried ar Iesu. Y mae enaid y gwir gristion yn ymorphwys ar Grist, ac ar Grist yn unig, am iechyd-wriaeth. Dyma yr unig ddrws trwy ba un y mae

yn rhaid i ni fyned i mewn i'r nefoedd. Ffydd sydd yn taflu ei hun ar Grist, megis ag y mae dyn yn taflu ei hun ar wyneb y dyfroedd i nofio. Credinwyr a elwir yn "feini bywiol," am eu bod yn ymddiried ac yn gorphwys ar Grist, y "maen profedig, y congl-faen gwerthfawr, y sylfaen safadwy." Y mae y duwiolion yn ymaffyd yng Nghrist trwy ffydd am ddiogelwch i'w heneidiau, megis ag yr "ymaflodd Joab yng nghyrn yr allor," rhag ofn Solomon. Dyma briodol weithrediad ffydd, sef, i'r enaid ymddiried yn ostyngedig ar Iesu Grist am fywyd tragywyddol. "Crêd yn yr Arglwydd Iesu Grist, a chadwedig fyddi."

Frodyr, a ydych chi yn credu yng Nghrist? A ydych chi yn adeiladu arno ef megis eich hunig sylfaen? A ydych chi yn ymorphwys arno ef megis Craig eich iechydwrriaeth? O! "profwch chwychwi eich hunain, a ydych yn y ffydd;" O! bobl, "holwch eich hunain."

Gadewch i ni sylwi, yn—

III. *Ar ffrwythau ffydd.* Y mae ffydd wirioneddol yn dwyn llawer o ffrwythau. Ffydd yw y gras sydd yn *bywchau y galon.* "Y cyfiawn," medd y prophwyd Habacuc, "a fydd byw trwy ei ffydd." Pan y byddom yn dechreu credu, yr ydym, mewn ystyr ysprydol, yn dechreu byw. Ffydd sydd yn bywiocau ein grasusau a'n dyledswyddau. Y mae yn rhoddi bywyd iddynt.

1. Ffydd sydd yn bywiocau ein *grasusau.* Fel ag y mae y *spring* fawr yn cyffroi yr holl rodau yn yr oriadur, felly y mae ffydd yn gosod yr holl rasusau ar waith. Pa fodd y mae cariad yn gweithio? Trwy ffydd. Pa fodd y mae gostyngyddrwydd yn gweithio? Trwy ffydd. Pa fodd y mae amynedd yn gweithio? Trwy ffydd. Ni a welwn yma fod ffydd yn rhoddi bywyd

yn yr holl rasmusau; gan hynny, gyfeillion, "Profwch eich hunain, a ydych *chwi yn y ffydd.*"

2. Ffydd sydd yn bywhau ein *dyledswyddau*. Pa beth oedd gwaed teirw a geifr o tan y gyfraith sere-moniol i gymmeryd ymaith bechodau? Nid oedd ddim yn sicr o hono ei hunan, onid cysgod. Pa sut, ynte, meddech chwi, yr oedd yr Iuddewon yn cael maddeu-ant o'u pechodau? Yr wyf yn ateb, mai trwy ffydd yn y Messia addawedig. Ffydd yn y Messia oedd yn gwneuthur eu haberthau difywyd hwynt yn aberthau bywiol. St. Paul a ddywed, yn yr unfed bennod ar ddeg o'r Hebraeid, yn ol dangos ffrwythau rhagorol ffydd yn yr hen dadau, "Mewn ffydd y bu farw y rhai hyn oll." Pa beth yw ordinhadau a dyledswyddau heb ffydd? Nid ydynt ond pethau meirwon; am hynny, y mae yr Ysgrythyr yn son am "weddi *ffydd*, ac ufudd-dod ffydd;" canys heb "*ffydd* amhosibl yw rhyngu bodd Duw." O! ynte, bobl, "holwch eich hunain, a ydych chwi yn y ffydd." Gweddiwch, "Arglwydd, anghwanega ein ffydd ni."

3. Y mae ffydd yn *puro y galon*. Actau 15. 9. "Ac ni wnaeth efe ddim gwahaniaeth rhyngom ni a hwynt, gan *buro* eu *calonau* hwy trwy ffydd." Y mae ffydd yn yr enaid fel mellten yn yr awyr, yr hon sydd yn puro; fel tân yn y mettel, yr hwn sydd yn coethi; fel phys-ygwriaeth yn yr corph, yr hwn sydd yn gweithio allan yr afiechyd. Y mae ffydd yn gweithio allan falchder, anonestrydd, a rhagrith o'r galon, ac yn ei chyssegru i wasanaeth Duw. "Yn dala dirgelwch y ffydd," medd St. Paul, "mewn *cydwybod bur.*" O! frodyr, holwch eich hunain, a ydyw ffydd wedi puro eich ca-lonau a'ch cydwybodau. Tydi yr hwn wyt yn proffesu dy fod yn ganlynwr Iesu, a ydyw dy ffydd wedi sym-

mud y mynydd mawr o bechod yr hwn oedd yn sefyll rhyngot ti a Duw, ac wedi ei dafu i'r môr? Beth, yn broffeswr, ac etto yn feddwyn! Beth, yn broffeswr, ac etto yn dyngwr a rhegwr! Beth, yn broffeswr, ac etto yn wrthgiliwr! O! dyna ymddygiad cywilyddus. Naill ai gadewch eich pechodau, neu gadewch eich proffes; canys nis gall ffydd a chariad at bechod gytuno mwy na thywyllwch a goleuni.

4. Ffrwyth arall ffydd yw, *heddwch cydwybod*. Heddwch yw merch ffydd. Rhuf. 5. 1. "Gan ein bod wedi ein cyfiawnhau trwy ffydd, y mae genym *heddwch* tuag at Dduw, trwy ein Harglwydd Iesu Grist." Y mae ffydd yn impio yr enaid yng Nghrist, ac yna y canlyn tangnefedd. "Y pethau hyn," medd ein Iachawdwr, "a ddywedais wrthyh, fel y cafech *dangnefedd ynof*." Pan fyddo y gydwybod mewn twymyn, ac yn llosgi megis tân uffern, y mae *ffydd* yn agor y clwyf yn ystlys yr Iesu bendigedig, ac yn sugno i mewn effaith ei waed gwerthfawr ef, yr hwn sydd mor rinweddol i dawelu, i heddychu, ac i sancteiddio y gydwybod euog.

Etto, y mae ffydd yn *cryfhau y galon*, ac yn ein galluogi i wrthsefyll profedigaethau, i oddef cystuddiau, ac i ddiffoddi picellau tanlyd y diafol. "Uwchlaw pob dim," meddai yr Apostol, "wedi cymmeryd *tarian y ffydd*, â'r hon y gallwch ddiffoddi holl bicellau tanlyd y fall."

Darllenwch Heb. 11. 33, 34. ym mha le y gallwch weled mor gryf ac mor ffrwythlon yr oedd ffydd yn yr hen dduwiolion, "Y rhai trwy ffydd a oresgynasant deyrnasoedd, a wnaethant gyfiawnder, a gawsant addewidion, a gauasant safnau llewod, a ddiffoddasant angerdd y tân, a ddiangasant rhag min y cleddyf,

a nerthwyd o wendid, a wnaethpwyd yn gryfion mewn rhyfel, a yrasant fyddinoedd yr estroniaid i gilio." Dyma bethau mawrion wedi cael eu gwneuthur trwy ffydd. Dyma "ffydd etholedigion Duw." Dyma y ffydd sy'n "gweithio trwy gariad," "yn gorchfygu y byd," ac yn "cymmeryd gafael ar y bywyd tragywyddol." Wel, frodyr, "Profwch chwydwi eich hunain, a ydych yn y ffydd." O! holwch a oes genych chwi ffydd!

Wedi dangos i chwi fel hyn yn fyr natur a ffrwythau ffydd, goddefwch i mi ddywedyd ychydig, yn gyntaf, wrth anghredinwyr; ac yn ail, wrthydych chwi y rhai sydd yn credu.

O! chwi, wrandawyr, ag sydd yn ymddifad o'r ffydd honno ag sydd yn rhoddi hawl i iechydwrriaeth, beth a ddywedaf wrthydych—ewch adref, ac wylwch oblegid eich pechodau; ië, wylwch, meddaf, canys arswydus yw eich cyfiwr! dychrynlyd yw eich sefyllfa! yr ydych ar fin pwll uffern! Nid oes ond cam byr rhyngoch â'r poenau tragywyddol! Nid oes dim ond edau frau eich bywyd yn eich cadw rhag syrthio i'r tân anniffoddadwy! O! meddyliwch, beth pe byddech ym marw yn awr!—yn awr cyn darfod y bregeth!—yn awr cyn myned allan o'r Eglwys! Beth pe byddai eich henaid yn cael ei ofyn oddi wrthydych y nos hon, beth ddeuai o honoch? A ydych yn barod i gyfarfod â'ch Duw? Cofiwch *chwi*, y rhai ydych wedi penderfynu myned ym mlaen mewn pechod, y byddwch cyn y byddo hir yn gwaeddi allan gyda'r rhai colledig yn Gehena, "O! am ddafn o ddwfr oer i oeri fy nhafod, canys fe a'm poenir yn y fflam hon." Dyma yr hyn yr wyf yn haeddu am esgeuluso iechydwrriaeth gymmair, dyma yr hyn yr wyf yn dderbyn am wrthod gwahoddiadau yr efengyl, a thyma fydd fy rhan i am byth, o

herwydd i mi fathru Mab Duw, a barnu yn aflan waed y cyfammod. Y mae dydd gras wedi myned heibio, y mae pob gobaith wedi darfod, ac y mae drws y nef-oedd wedi ei gau yn fy erbyn am byth!" O! "peth ofnadwy yw syrthio yn nwyllaw y Duw byw." Hyn fydd y canlyniad dychrynlyd o fyw a marw yn anghredinwyr! Gwrandewch beth y mae yr Ysgrythyr yn ddywedyd ar y pwngc, Marc 16. 16. "Y neb a gredo ac a fedyddier a fydd *cadwedig*: eithr y neb *ni chredo a gondemnir*." Ac etto, St. Ioan 3. 36. "Yr hwn sydd yn credu yn y Mab, y mae ganddo fywyd tra-gywyddol: a'r hwn sydd *heb gredu* i'r Mab, *ni wél fywyd*; eithr y mae *digofaint Duw yn aros arno ef*." O! fy ngwrandawyr, gweddiwch, ynte, am *wir* fydd.

Ond, fe allai fod yma ryw un yn barod i ddywedyd, "Mi a ddymunwn gredu ac edifarhau, ond yr wyf yn bechadur mawr iawn." Wel, a phwy ond pechaduriaid "y daeth Mab y dyn i geisio ac i gadw?" Pwy y mae Duw yn gyfiawnhau ond yr annuwiol? Pwy mae yr Yspryd yn sancteiddio, ond rhai aflan? Ond, medd y dyn, y mae fy mhechodau o liw dwfn iawn! Wel, onid yw gwaed Crist o ddyfnach lliw? A oes dim mwy o rinwedd yn yr un, nas gall fod o wenwyn yn y llall? Beth, os yw y diafol yn mawrhau dy bechodau, a elli dithau ddim mawrhau dy Iachawdwr? Oni all Duw foddi un môr yn y llall, dy bechodau di ym môr ei drugaredd ef? O! deuwch, a thafwch eich hunain ar drugaredd Iesu. O! deuwch, a thafwch eich hunain ar rinwedd gwaed y groes. O! deuwch a chredwch yn "Oen Duw, yr hwn sydd yn tynnu ymaith bechodau y byd." Ac yna, "Pe byddai eich pechodau fel ysgarlad, ant cyn wynnied a'r eira; pe cochent fel porphor, byddant fel gwlan." Esa. 1. 18.

Gadewch i mi ddywedyd gair neu ddau yn awr wrthych chwi gredinwyr. Yr ydych chwi "yn y ffydd," yr ydych yn credu yn Iesu Grist am fywyd tragywyddol, ac yr ydych yn ymddiried ynddo yn hollol am iechydwrriaeth i'ch eneidiau.

Wel, hyn a ddywedaf wrthych, *dangoswch eich ffydd trwy eich gweithredoedd*; canys yr Apostol a ddywed am "ffydd heb weithredoedd," mai "marw yw." Byddwch byw yn addas i'ch proffes. Ymdrechwch ganlyn ol traed "Tywysog eich iachawdwriaeth," mewn sancteiddrwydd, gostyngeddwrwydd, a chariad.

1. Mewn *sancteiddrwydd*. Crist a fu byw fywyd sanctaidd. "Pwy o honoch," eb efe, "a'm hargyhoedda i o bechod?" Er iddo gael ei wneuthur yn bechod drosom ni, etto nid adnabu ef bechod. O! byddwch gyffelyb i Grist; canlynwch ol ei draed ef. Yn y sacrament yr ydym yn dangos *marwolaeth* yr Arglwydd, ac mewn rhodiad ac ymarweddiad sanctaidd a duwiol yr ydym yn dangos ei fywyd. O! dangoswch eich ffydd trwy eich sancteiddrwydd. "Megis y mae y neb a'ch galwodd chwi yn sanctaidd," medd St. Pedr, "byddwch chwithau hefyd sanctaidd ym mhob ymarweddiad." Ac meddai St. Paul, "Dilynwch heddwch â phawb, a sancteiddrwydd, heb yr hwn ni chaiff neb weled yr Arglwydd."

2. *Rhodiwch* megis ag y gwnaeth Crist, *mewn gostyngeddwrwydd*. Ei fywyd ef oedd yn esiampl o ostyngeddwrwydd. Efe oedd etifedd y nef, a'r Duwdod yn preswyllo ynddo yn gorphorol; etto efe a gymmerodd arno *agwedd gwas*, ac a ddarostyngodd ei hun, gan fod yn ufudd hyd angau, i'e, angau y groes!" O! anfeidrol ostyngeddwrwydd. Beth, Iachawdwr y byd yn dyfod yn *was*! Arglwydd nef a daear yn diosg ei hun o'i

ogoniant, ac yn gwisgo llen o gnawd! Dyma ostyng-eiddrwydd digyffelyb. Nid hyn yw y cwbl, ond efe a olchodd hyd yn nod draed ei ddisgyblion, ac a'u sychodd â'r tywel, er esampl o ostyng-eiddrwydd iddynt. O! ynte, frodyr, os ydych chi yn profesu eich hunain yn ddisgyblion Iesu, rhodiwch yn isel a gostyngedig gyda'ch Duw; "a byddwch bawb yn ostyngedig i'ch gilydd, ac ymdrwsiwch oddi fewn â gostyng-eiddrwydd. Oblegid y mae Duw yn gwrthwynebu y beilchion, ac yn rhoddi gras i'r gostyngedig." Fel yma, dangoswch i'r byd, trwy eich rhodiad hardd a gostyngedig, eich bod chi yn "y ffydd, yr hon a rodded unwaith i'r saint."

2. Byddwch gyffelyb i Grist mewn *cariad*. Dangoswch trwy eich *brawdgarwch* eich bod "yn y ffydd." Canys, "Os dywed neb," medd Ioan, "Yr wyf yn caru Duw, ac efe yn casâu ei frawd, celwyddog yw: canys yr hwn nid yw yn caru ei frawd yr hwn a welodd, pa fodd y gall efe garu Duw yr hwn nis gwelodd? A'r gorchymmyn hwn sydd genym oddi wrtho ef; Bod i'r hwn sydd yn caru Duw, garu ei frawd hefyd." Yn wir, y mae yn alarus meddwl fod llawer o broffeswyr yn ymddwyn mor ddiserch ac enllibus a phe byddai y gorchymmyn canlynol wedi ei ddileu o'u Biblau,—St. Ioan 13. 34, 35. "Gorchymmyn newydd yr wyf yn ei roddi i chi, *Ar garu o honoch eich gilydd*: fel y cerais i chi, ar garu o honoch chwithau bawb eich gilydd." A thyma'r nodweddiad, frodyr anwyl, trwy ba un y gellir eich gwahaniaethu oddiwrth ragrithwyr,—“Wrth hyn y gwybydd pawb mai disgyblion i mi ydych, os bydd genych gariad i'ch gilydd.” Yr oedd bywyd Crist yn fywyd o gariad, ac nis anadlodd efe ddim ond cariad. Ei wefusau a ddiferasant fêl, ei ystlys a ddifer-

odd waed, a'i galon a ddiferodd gariad. O! ynte, frodyr, os ydych yn disgwyl cael mwynhau presennoldeb eich Prynwr mawr yn y nefoedd am dragywyddoldeb, byddwch fyw yn ol ei orchymmyn a'i esampl ef, *mewn cariad*.

Y mae dau yspryd aflan, y rhai sydd heb gael eu tafu allan yn hollol o bobl Dduw, sef yspryd o "wag-ogoniant ac anghariadoldeb."

O! bobl, os ydym yn wir gredinwyr, onid ydym yn gyd-ddinasyddion? onid ydym yn gobeithio am yr un nefoedd? onid ydym yn frodyr? Fe ddylai hyn, ynte, ein rhwymo ynghyd mewn cariad. Y mae i ni oll yr un Tad, Duw y trugareddau; fe'n ganwyd oll o'r un fam, yr Eglwys Gristionogol; fe'n cenhedlir o'r un hâd ysprydol, Gair y bywyd; yr ydym yn sugno yr un bronau, addewidion yr efengyl; yr ydym yn ymborthi wrth yr un allor, bwrdd yr Arglwydd; yr ydym yn gwisgo yr un dillad, cyfiawnder Adda yr ail; yr ydym yn gyfranogion o'r un gogoniant, etifeddiaeth y saint yn y goleuni; ac a allwn ni anghofio caru ein gilydd? Y mae y rhai sydd yn y *ffydd* yn caru Duw, yn caru gair Duw, yn caru tŷ Dduw, yn caru ordinhadau Duw, ac yn caru ei bobl.

Frodyr anwyl, a ydych *chwi* yn caru Duw, yn caru ai Air, yn caru ei Dŷ, yn caru ei ordinhadau, ac yn caru ei bobl?

Crist sydd oll yn oll yng ngolwg y gwir gredadyn. "O!" medd efe, "mor sanctaidd yw cyfraith fy Iachawdwr!—mor werthfawr yw ei addewidion!—mor anghyfnewidiol yw ei wirionedd!—mor annhertynol yw ei drugaredd tuag at bechaduriaid!—mor felus yw cysuron ei yspryd i'm henaid!—O! na allwn ni ei garu ef yn well—O! na allwn ni rodio yn fwy perffaith yn

ei ddeddfau. 'Crea galon lan ynof, O Dduw ; ac adnewyddda yspryd uniawn o'm mewn.' 'Arglwydd, anghwanega fy ffydd, cryfha fy ngobaith, ac ennyna fy nghariad.'" Frodyr, ai dyma iaith eich calonau chwi?

O! "profwch chwychwi eich hunain, a ydych yn y ffydd ; holwch eich hunain."

PREGETH XX.

RHUF. 8. 31—39.

“BETH GAN HYNNY A DDYWEDWN NI WRTH Y PETHAU HYN? OS YW DUW TROSOM, PWY A ALL FOD I'N HERBYN? YR HWN NID ARBEDODD EI BRIOD FAB, OND A'I TRADDODDODD EF TROSOM NI OLL; PA WEDD GYDAG EF HEFYD NA DDYRY EFE I NI BOB PETH? PWY A RYDD DDIM YN ERBYN ETHOLEDIGION DUW? DUW YW'R HWN SYDD YN CYFIAWNHAU: PWY YW'R HWN SYDD YN DAMNIO? CRIST YW'R HWN A FU FARW, IE, YN HYTRACH, YR HWN A GYFODWYD HEFYD; YR HWN HEFYD SYDD AR DDEHEULAW DUW, YR HWN HEFYD SYDD YN ERFYN TROSOM NI. PWY A'N GWAHANA NI ODDIWRTH GARIAD CRIST? AI GORTHYMDER, NEU ING, NEU YMLID, NEU NEWYN, NEU NOETHNI, NEU ENBYDRWYDD, NEU GLEDDYF? (MEGIS Y MAE YN YSGRIFENEDIG, ER DY FWYN DI YR YDYS YN EIN LLADD NI AR HYD Y DYDD; CYFRIFWYD NI FEL DEFAID I'R LLADDDFA.) EITHR YN Y PETHAU HYN OLL YR YDYM NI YN FWY NA CHONGCWERWYR, TRWY YR HWN A'N CARODD NI. CANYS Y MAE YN DDIOGEL GENYF, NA ALL NAC ANGAU, NAC EINIOES, NAC ANGYLION, NA THYWYSOGAETHAU, NA MEDDIANNAU, NA PETHAU PRESENNOL, NA PETHAU I DDYFOD, NAC UWCHDER, NA DYFNDER, NAC UN CREADUR ARALL, EIN GWAHANU NI ODDIWRTH GARIAD DUW, YR HWN SYDD YNG NGRIST IESU EIN HARGLWYDD.”

LLEFWN ar Dduw, fy nghyfeillion, roddi i ni galonau crediniol, tra byddom yn myfyrio ar y geiriau hyn am ychydig amser; ac, O! na welai Duw fod yn dda roddi i ni o'i Yspryd Glân, fel y gallem iawn ddirnad y rhan bwysfawr hon o'r Gair dwyfol, fel ag y byddo yn wir fendith i'n heneidiau.

1. Sylwn ar feddwl yr Apostol yn yr adnodau dan ein hystyriaeth.

Y mae yr Apostol, yn adnodau y testyn, yn symio i fynu yr hyn a fu yn draethu yn y pennodau blaenorol. Y mae yn profi yn y pennodau blaenorol fod Iuddewon a Chenhedloedd mewn cyflwr o bechod a cholledigaeth, y mae yn nodi allan y ffordd o gyfiawnhau pechadur trwy ffydd yng nghyfiawnder Crist, y mae yn dangos yr effaith ag y mae yr athrawiaeth hon yn gael ar y credinwyr, ac yn nodi allan y rhwymedigaethau sydd arnynt i rodio yn addas, ac i fyw bywyd o ffydd a sancteiddrwydd. A'r casgliad, y penderfyniad o'r cwbl yn y testyn yw hyn,—“Beth gan hynny a ddywedwn ni wrth y pethau hyn?” sef y pethau y bu yn son am danynt o'r blaen. Y mae yn edrych o'i amgylch, ac yn rhoddi yr herr hon i bawb, “Os yw Duw trosom, pwy a all fod i'n herbyn? Pwy a rydd ddim yn erbyn etholedigion Duw?”

Y mae y geiriau, wrth eu hystyried fel hyn, yn amlygu i ni yr hyn a olygir wrth gariad Crist a chariad Duw, a grybwyllir am dano yn y 35 adnod, “Pwy a'n gwahana ni oddiwrth gariad Crist?” A ydyw yr Apostol yn son am ein cariad *ni* tuag at Dduw, neu gariad Duw tuag attom *ni*? Y mae yn llefaru, nid am ein cariad ni tuag at Dduw a Christ, ond am ein rhagorfrant uchel o fod yn wrthddrychau o gariad Duw trwy Grist. Cariad ac anghyfnewidioldeb Duw yw sylfaen ein gorfoledd. Pwy a'n gwahana ni oddiwrth gariad Duw? Neb. Y rhai y mae Duw yn garu, efe a'u câr hwynt hyd y diwedd. Dyma yr hyder sydd gan y credinwyr, sef, bod cariad Duw fel ef ei hun, yn anghyfnewidiol a thragywyddol. Ni a allwn ddysgu oddiar ystyriaeth o'r geiriau, attebiad i ofyniad arall hefyd, hynny yw, *pwy yw y rhai hynny ag y mae iaith orfoleddus y testyn yn perthynu iddynt?* Yr atteb yw, y

cyfryw ag ydynt yn cael eu galw trwy ei ras, y rhai ag ydynt yn cydymffurfio â delw ei Fab, a'r rhai sydd â hawl ganddynt yng Nghrist trwy ffydd. Dyma yr unig rai a allant gymhwyso attynt eu hunain iaith fuddugoliaethus y testyn. Dyma, ynte, yr hyn sydd i chwi holi yn ei gylch, Pa dystiolaeth sydd genych chwi o gariad Duw, ac o hawl yn yr Arglwydd Iesu Grist? Dyma ofyniad pwysfawr. A ydyw cariad Duw yn trigo ynoch *chwi*? Dyma nodau wrth ba rai y gellwch adnabod eich hunain,—“Y rhai sydd yng Nghrist” yw “y rhai sydd yn rhodio, nid yn ol y cnawd, eithir yn ol yr Yspryd.” Dyma y bobl ag sydd ganddynt hawl yng nghariad Duw, y rhai sydd yn “byw, nid yn ol y cnawd,” ond y rhai sydd “trwy yr Yspryd yn marweiddio gweithredoedd y corph.” “Canys y sawl a arweinir gan Yspryd Duw, y rhai hyn sydd blant i Dduw.” Wrth y nodau hyn, chwi a ellwch ganfod beth yw eich cyflyrau. Y rhai hynny ag sydd a'u cydwybodau yn tystio yn eglur eu bod yn “rhodio yn ol y cnawd,” ac nad ydynt yn cydymffurfio âg esampl Crist, nac yn cael eu tywys gan Yspryd Crist, *sicr yw, nad yw y cyfryw yn wrthddrychau cariad Crist!* Ond y sawl a rodiant yn ol yr Yspryd, y rhai sydd âg Yspryd y bywyd oddi mewn iddynt, a'r rhai sydd yn marweiddio gweithredoedd y corph, fe all y rhai hyn gymmeryd iaith fuddugoliaethus y testyn yn eu genau, a dywedyd, “*Os yw Duw trosom, pwy a all fod i'n herbyn?*” Fe ellir dywedyd, “*Os yw Duw trosom, y mae pob peth arall trosom; ac os yw Duw i'n herbyn, y mae pob peth i'n herbyn.*”

Mi a ddywedaf ychydig, yn—

II. *Am yr hyder â pha un y mae yr Apostol yn llefaru yma.* Ac y mae yr *hyder* hwn yn tarddu, yn—

1. Oddiwrth *holl-ddigonolrwydd Duw*. Y mae y credadyn yn teimlo ei hun yn y byd hwn yn agored i lawer o beryglon. Y mae yn agored i boen, blinder, afiechyd, i.e. *hyd yn nod ei fywyd sydd yn ansicr*. Y mae yn cael ei amgylchynu gan elynion oddi fewn ac oddi allan; ond y mae ganddo le i ymgysgodi rhag y rhai hyn i gyd, yn yr ymarferiad o'r moddion ag y mae Duw wedi drefnu. Y mae efe yn ffoi at Grist, craig yr oesoedd; ac ar y graig hon y mae yn sefyll yn gadarn yng ngwyneb pob tymhestloedd. Pan y mae pob peth dan haul yn annigonol,—cyfoeth yn cymmeryd adenydd eryr, ac yn ehedeg ymaith, cyfeillion yn cefnu, perthynasau anwylaf yn myned i'w hir gartref, y byd yn gwgu, a phob peth oddi amgylch yn cyfnewid ac yn myned heibio; etto, fe all y cristion sefyll yn ddiogel, a chanu am ddaioni a thrugaredd y Duw ag sydd holl-ddigonol, gan ddywedyd, “Os yw Duw trosom, pwy a all fod i'n herbyn?” “Gwyn eu byd y bobl, ynte, y mae yr Arglwydd yn Dduw iddynt.”

Sylfaen arall o'i hyder etto yw, yn—

2. *Y berthynas gyfsummodol ag sydd rhwng Duw a'i bobl*, —“Os yw Duw trosom,” neu, gan fod Duw trosom. Duw a welodd yn dda fyned heibio i'r angylion, ac a roddodd ei gariad ar hil syrthiedig Adda. Y mae yr hwn sydd yn credu yng Nghrist yn cael sicrwydd fod Duw yn gweled bod yn dda, yn ei *gariad anghyfnawid-iol*, beri i bob peth gydweithio er daioni iddo yn y diwedd. Er fod pethau yn ymddangos yn aml yn lled dywyll, etto y mae efe yn gallu credu fod Duw yn trefnu pob peth mewn doethineb, ac y bydd i drefn fawr Rhagluniaeth weithio er ei ddaioni tragywyddol; gan hynny, “os yw Duw trosto, pwy a all fod i'w erbyn?”

Tra y mae Duw yn tywys yr haul, y lleuad, a'r sêr accw yn y ffurfafen, yn eu cylchdroadau, gyda'r manylrwydd mwyaf rhyfeddol, y mae yn gysurus i ti feddwl, gristion gwan, ei fod ef yn edrych arnat tithau, fel tad ar ei anwyl blentyn; ei fod yn cydymdeimlo â thi yn dy holl ofidiau, ei fod yn dy dywys â'i anfeidrol ddoethineb, ac yn dy amddiffyn â'i alluog fraich; ei fod yn gwylio drosot ddydd a nos, fel tad tosturiol yn gofalu am ei blentyn anwyl. Wel, "os yw Duw trosom, pwy a all fod i'n herbyn?"

Y mae yr hyder hwn yn ymorphwys, yn—

3. *Ar yr amlygiadau o gariad ag y mae Duw wedi ddangos eisoes*,—"Yr hwn," medd yr Apostol yn y testyn, "nid arbedodd ei *briod Fab*, ond a'i traddododd ef trosom ni oll; pa wedd gydag ef hefyd na ddyry efe i ni bob peth?" A all fod un peth yn awr yn *ormod* iddo ef wneuthur? A fydd i'r hwn nid arbedodd ei *Fab*, ei *briod Fab*, attal un daioni rhag y rhai a'i carant ef? Sylwch ar yr ymadrodd, "*ei briod Fab*." Y mae eraill yn feibion i Dduw trwy fabwysiad, trwy adnewyddol ras; ond *efe* mewn ystyr wahanol i neb arall, ei *briod Fab*, trwy fod yn gyfranog o'r un natur, o'r un hanfod a'r Tad. Wel, *nid arbedodd efe ei briod Fab*, ond efe a'i traddododd ef, a'i rhoddes ef i fynu i ddioddef gwawd a dirmyg, fe'i traddododd ef i gael ei eni ym Methlehem Judea, ac fe'i traddododd ef i gael ei groeshoelio ar ben Calfaria rhwng dau leidr. O! clywch yr Iesu bendigedig, pan yn rhoddi i fynu ei yspryd mewn ing a loes, yn llefain, "Eli, Eli, lama sabachthani? hynny yw, Fy Nuw, fy Nuw, paham y'm gadewaist?" Y mae y cariad a amlygodd Duw yn y rhodd hon, sef ei *Fab*, yn gymmaint, fel nad oes dim arall ganddo i roddi yn haeddu ei gystadlu â hi; rhodd y rhoddion

yw hon,—“Pa wedd gydag ef hefyd, na ddyry efe i ni bob peth?”

Y mae yr hyder hwn yn tarddu, yn—

4. Oddiwrth *berffeithrwydd gwaith cyfryngol Crist*,—
 “Pwy yw yr hwn sydd yn damnio?” Dyma ofyniad arall, ac fe'i attebwr hefyd,—“Crist yw yr hwn a fu farw, i.e. yn hytrach, yr hwn a gyfodwyd hefyd; yr hwn hefyd sydd ar ddeheulaw Duw, yr hwn hefyd sydd yn erfyn trosom ni.” Yma ni a ganfyddwn *anrhydedd* ac *anfeidroldeb Mab Duw*. Yr ydym yn cael yma hefyd i Grist farw, ac iddo farw *drosom ni*. Y mae haeddiant ei aberth digonol yn cael ei osod allan yn y geiriau hyn, Rhuf. 3. 24, 25. “A hwy wedi eu cyfiawnhau yn rhâd trwy ei ras ef, trwy y prynedigaeth sydd yng Nghrist Iesu: yr hwn a osododd Duw yn *iawn*, trwy ffydd yn ei waed ef.” Dyma y sylfaen ar ba un y mae yr Apostol yn ymresymu yn y testyn,—“Pwy yw yr hwn sydd yn damnio? Crist yw yr hwn a fu farw.” Efe a ddioddefodd, yn ei waith yn offrymmu ei hun yn aberth, yr hyn oedd yn gosp ddyledus am bechod. Efe “a ddioddefodd dros bechodau, y Cyfiawn dros yr anghyfiawn, fel y dygai ni at Dduw.” “*Crist yw yr hwn a fu farw.*” Gwelwch ef yn tywallt ei waed sanct-aid! Meddyliwch am yr Aberth mawr! Meddyliwch am dano megis Duw yn y cnawd, wedi ei gymhwyso at waith y prynedigaeth! Gwelwch gyfiawnder yn cael ei foddloni!

Pe buasai i phioleidiau ei ddwyfol sorriant ddisgyn ar ben y pechadur, pe buasai i'r rhai a bechasant ddi-oddef pwys y felldith, a phe buasai efe yn ein danfon ni bawb o honom i waered yn ei ddigofaint, i'r lle nad yw y pryf yn marw, na'r tân yn diffoddi, *ni fuasai dwyfol gyfiawnder yn cael ei foddloni gymmaint a phan y*

tywalltodd Crist ei waed ar y pren melltigedig. Pwy, ynte, a rydd ddim yn erbyn y rhai hynny, dros ba rai y bu efe farw? “Crist yw yr hwn a fu farw, i.e., yn *hytrach*, yr hwn a gyfodwyd hefyd.” Ac os ydwyf fi yn canfod fy Mechnïydd wedi ei ryddhau, a'i rwymau wedi eu dryllio, y mae yn sicr genyf, i.e., mor sicr a'i fod ef wedi ei ryddhau, y caf finau fy rhyddhau hefyd. “Pwy,” ynte, “yw yr hwn sydd yn damnio? Crist yw yr hwn a fu farw, i.e., yn *hytrach*, yr hwn a gyfodwyd hefyd; yr hwn hefyd sydd ar *ddeheulaw Duw.*” Yno, lle y mae ei bresenoldeb yn fwyaf angenrheidiol ar ran y rhai hynny y bu efe farw drostynt.

Enaid anwyl, gredadyn gwan, er nad wyt ti ond llwch gwael, yn cael dy wasgu i lawr gan bechod ac amherffeithrwydd, a phob llesgedd, y mae efe yno, yno ar *ddeheulaw Duw*, yno, lle dylai y Meichiau fod. A phwy yw yr hwn sydd yn damnio, ynte? “Crist sydd ar *ddeheulaw Duw*, yr hwn hefyd sydd yn *erfyn trosom ni.*”

Yr ydym yn darllen yn yr Ysgrythyr fod yr arch-offeiriad o tan y gyfraith, ar ddydd y cymmod, yn arfer myned i'r sanctaidd sancteiddiolaf, yno i'r presenoldeb Dwyfol; yno i dywallt y gwaed, fel ag i wneud cymmod dros bechodau y bobl. Felly y mae gyda golwg ar y cristion. Tra yr ydych chi yma, fel pe byddai, oddi allan i'r llen, y mae Iesu, eich Harch-offeiriad mawr, wedi myned i'r nefoedd yn eich enw chi; yno y mae efe o fewn i'r llen, yn dadleu gwerth ei aberth a'i ddi-oddefiadau drosoch; a thra yr ydych chi withau yn disgwyl oddi allan, chi a allwch lawenyachu wrth feddwl fod genych Arch-offeiriad o fewn yn eiriol drosoch. “Pwy yw yr hwn sydd yn damnio,” ynte? “Crist yw yr hwn a fu farw, i.e., yn *hytrach*, yr hwn a gyfodwyd

hefyd ; yr hwn hefyd sydd ar ddeheulaw Duw, yr hwn hefyd sydd yn *erfyn trosom ni.*"

Mi a enwaf un sail arall ag oedd gan yr Apostol i'w hyder, sef, yn—

5. *Boddlonrwydd y Tad yn y Mab*, ynghyd âg *anghyfnewidiol gariad Crist tuag at ei bobl.* Y mae y Tad yn edrych gyda boddlondeb ar Grist, oblegid y mae efe yn edrych gyda boddlonrwydd ar waith Crist, gwaith o drugaredd, gwaith a ddyluniodd ei anfeidrol ddoethineb ei hun, ac a gyflawnodd ei anwyl Fab. Am hyn y mae y Tad yn ymhyfrydu yn y Mab, ac y mae y Mab yn hoff ganddo ei bobl, ac yn eu caru hwynt â chariad anghyfnewidiol. A "phwy a'n gwahana ni oddiwrth gariad Crist?" Ni dderfydd cariad Crist byth ; na wna, canys yr oedd y cariad hwn mewn bod cyn bod amser. Nis gall y cariad hwn ballu, oblegid efe a roddodd ei hun yn aberth dros wrthdychau ei gariad. Pa fodd y derfydd, tra mae nodau ei farwol-aeth yn ymddangos yn ei gorph etto. Yn ol yr hoelion a drywanodd ei gorph bendigedig, a'r waywffon a agorodd ei ystlys, y mae yn canfod prawf o'i gariad tuag at ei bobl, ac nis gall eu hanghofio byth. Am hynny, "Pwy a'n gwahana ni oddiwrth gariad Crist?"

Wedi son am yr hyder â pha un y llefarodd yr Apostol y geiriau, af ym mlaen i ddywedyd, yn—

III. Am yr *amgylchiadau ym mha rai y llefarodd Paul y geiriau yma.*

Pan y mae pob peth yn dawel o'n hamgylch, y mae yn beth hawdd i lawenychu yng nghariad Duw, a dywedyd na phall ei gariad byth. Ond pan y meddyliom am yr amgylchiadau ag yr oedd Paul ynddynt, bob munud yn barod i gael ei draddodi i ddwyllaw dynion annuwiol; pan y meddyliom am dano yn "ymladd âg

anifeiliaid yn Ephesus," yn cael ei erlid o fan i gilydd, ei guro a'i amharchu ym mhob man yr elai, ac yn cael ei ddwyn yn garcharor i Rufain; pan y meddyliom am dano, meddaf, yn barod i gael ei offrymmu i fynu, ei ferthyru, ac ym mron wynebu y maith dragywyddoldeb, lle y mae "pethau ni welodd llygad, ac ni chlywodd clust, ac ni ddaeth i galon dyn" i'w hamgyffred, y mae yn rhyfedd clywed ei hyder. Gwrandewch ar ei iaith, "Pwy a'n gwahana ni oddiwrth gariad Crist?" Ystyr-iwn y gwrthddrychau yr oedd efe yn feiddio; y mae efe yn rhoddi her hyd yn nod i "angau." Pwy a all feddwl am angau heb ddychrynu? Angau yw y canlyniad o drosedd, ac nis gall ond ychydig edrych ym mlaen at awr marwolaeth heb fraw a dychryn! Meddylwch am hyn, a chlywch yr Apostol yn dywedyd, "O! angau, pa le mae dy *golyn*? "Y mae yn ddiogel genyf na all angau ein gwahanu ni oddiwrth gariad Duw!" Ond fe allai y gall "einioes" wneud hynny. "Marw sydd *elw*;" ond nis gallwn ni *fyw* heb berygl. Os byddwn farw, ni a allwn fod yn ddiogel tu hwnt i gyrhaedd pob peth annuwiol am byth; ond tra byddom *byw*, ni a fyddwn yn agored i brofedigaethau, yn agored i bechod, ac yn agored i ddwyn colledigaeth arnom ein hunain. Ond y mae yr Apostol yn gorfoleddu yn *hyn* hefyd,—“Y mae yn ddiogel ganddo na fydd i *einioes* ei wahanu *ef* oddiwrth gariad Duw.” Nid yw y saint yn y nef yn fwy diogel, er eu bod yn fwy eu dedwyddwch, na'r saint ar y ddaear. “Nac *angylion*, na *thywysogaethau*, na *meddiannau*,”—nis gallant “wahanu oddiwrth gariad Crist.” “Na *phethau presennol*, na *phethau i ddyfod*.” Beth bynnag a ddigwyddo i ni, pa amgylchiadau bynnag y byddo i ni gael ein galw iddynt, pa brofedigaethau bynnag, er chwerwed y byddont, ni fydd i un

o honynt "ein gwahanu oddiwrth gariad Crist." Ië, nis gall "nac uchder, na dyfnder, nac un creadur arall" dros wyneb yr holl greadigaeth, "ein gwahanu ni oddiwrth gariad Duw, yr hwn sydd yng Nghrist Iesu ein Harglwydd."

Sylwn, etto, ar yr effaith a ddylai yr ystyriaeth o hyn gael arnom. Y mae yn tywys i amynedd, i ddi-oddef, ac i ymfoddloni gwneuthur ewyllys Duw; y mae hyn yn tywys i ffydd a hyder yn Nuw yng ngwyneb pob cyfnewidiadau yn y byd ac yn yr Eglwys, y mae yn gwneud cystuddiau yn felus ac yn hawdd eu dioddef, yn ein bywhau yn ein dyledswyddau, yn ein cynnal dan flinderau, ac yn ein tywys i ymdrech ym mhob amgylchiad bywyd, i fyw er gogoniant yr hwn a'n carodd, ac a roddes ei hun yn bridwerth drosom.

Casgliadau.—Dyma rai o'r gwirioneddau pwysfawr ag y mae y geiriau o dan ein hystyriaeth yn ein tywys i fyfyrion arnynt. Myfyriwch chwi arnynt etto, frodyr anwyl, wrth eich hamdden; a Duw a welo fod yn dda i'ch myfyrdodau fod yn felus ac yn fuddiol i chwi.

Ond nis gallaf lai nag ofni fod rhai yma *nas gallant* gymmeryd iaith fy nhestyn yn eu genau—rhai nad yw y geiriau gorfoleddus hyn yn berthynol iddynt. O! beth yw eich cyflwr chwi. Yn lle bod Duw yn *noddfa* ac yn *hyder* i chwi, y mae Duw yn eich *herbyn*, y mae efe yn *elyn* i chwi! Nis gallwch chwi ddim dywedyd, "Os yw Duw trosom ni!" Y mae eich cydwybodau yn eich cyhuddo nad yw Duw *trosoch*! Pa fodd y gall ef fod trosoch, a chwithau yn byw yn ol eich chwantau eich hunain, gan fyw mewn pechod, a chyflawni pob annuwioldeb.

Wel, os nad oes genych hawl yng nghariad Crist, ac os na dderbyniasoch ras Duw, fel ag y mae wedi ei ddadgudddio yn yr efengyl, sicr yw, *nas* gall fod genych na rhan na chyfran yn y pethau gogoneddus a fuoch yn wrando yn awr. *Nas* gall; ond y mae yr holl bethau hyn, y rhai nis gallant wahanu y cristion oddiwrth gariad Duw, y maent i gyd yn gweithredu yn eich *herbyn*, ac er eich dinystr tragywyddol! “Angau” a’ch rhwyga ymaith oddiwrth eich holl fwyniant presennol, ar fyr o dro, ac a’ch sodda mewn distryw tragywyddol! Ni fydd “einioes” ond yn achlysur i chwi drysori i fynu ddigofaint erbyn dydd digofaint!” Ni fydd “*angylion*” ond gweinidogion i dywallt y dwyfol sorriant arnoch! “*Pethau presennol*” ni fyddant ond achlysur o brofedigaeth a pherygl i chwi! “*Pethau i ddyfod*” a fyddant yn llawn o ofn a dychryn annhraethol i chwi! “*Uchder*,” ni chyrhaeddwch chwi byth i’r uchelder! Ond am “*ddyfnder*,” chwi gewch soddi i ddyfnderoedd o druenusrwydd a phoenedigaeth! Ië, ac fe fydd *pob* “*creadur arall*” yn weinidog o gyfiawn ddigllonedd Duw yn eich *herbyn*! Edrychwch lle y mynnoch, i fynu neu i waered, yn ol neu ym mlaen, fe fydd *pob* peth wedi ei arfogi yn eich *herbyn*, ac yn offerynau i’ch *gwahanu* oddiwrth gariad Duw!

Ond tra fyddoch *byw*! O! clywch; tra fyddoch *byw*, yr ydych dan oruchwyliaeth *trugaredd*. Y mae noddfa etto o’ch blaen. O! ffowch iddi. Y mae “Duw,” yn awr, “yng Nghrist, yn cymmodi y byd âg ef ei hun, heb gyfrif iddynt eu pechodau!” Dyma y gennadwri sydd genyf heddyw i chwi,—“roddi o Dduw i ni fywyd tragywyddol; a’r bywyd hwn sydd yn ei Fab ef.” O! na fyddai i chwi bawb gael eich

huno âg ef trwy fydd. O! na ffoech atto ef am noddfa rhag yr ystorm ofnadwy sydd yn agoshau, ac, fe allai, ym mron gorddiwes rhai o honoch. Nis gwaradwyddir pwy bynnag a gredo ynddo ef. O! am gredu ynddo, ac yna gallwch chwithau ofyn yng ngeiriau y testyn, "Os yw *Duw trosom*, pwy a all fod i'n herbyn?" "Pwy a rydd ddim yn erbyn etholedigion Duw?"

PREGETH XXI.

1 SAM. 20. 3.

—“NID OES OND MEGIS CAM RHYNGOF FI AC ANGAU.”

DYMA ni wedi cael un rhybudd yn ychwaneg ar gost un o'n cyd-greaduriaid, i barottoi erbyn ein diwedd.

Rhyfedd mor agos ydym i angau ; dim ond un cam byr rhyngom a thragywyddoldeb ! Pe byddai edau frau ein bywyd yn torri, ehedem yn union i'r byd tragwyddol. Nid oes dim a all gadw ymaith angau, neu fuddugoliaethu arno. Y mae afiechyd, tristwch, blinder, ac angau, yn ymweled â phawb yn ddiwahan. Nid yw angau yn arbed neb. Rhaid i'r hen a'r ieu-angc, y cyfoethog a'r tlawd, y dysgedig a'r annysgedig, farw. Y mae natur yn dysgu i ni fod angau yn gyffredin. Peth yw hwn sydd yn dyfod dan sylw ein synwrau ; yr ydys yn clywed ac yn gweled fod pawb yn marw. A oes genym ni ddim prawf digonol, nad oes i ni yma ddinas barhaus, oddiwrth y corph oer difywyd sydd yn gorwedd yn y coffin yna ? Pa le mae yn awr enaid ein brawd, yr hwn oedd yn byw gyda ni yma ar y ddaear ychydig yn ol ? † Y mae wedi ymadaw â'r corph, (yr hwn yr ydym yn myned i'w ddodi yn y bedd,) ac wedi ffoi i fyd yr ysprydoedd ! Ydyw, fy

† Y bregeth hon a bregethwyd yn Llanycrwys, ar ddydd angladd Mr. John Price, Rhosybedw, swydd Gaerfyrddin.

mrodyr, y mae natur yn gystal a'r Bibl yn dysgu i ni fod yn rhaid i ni oll roddi i fynu yr yspryd. Gwrandewch beth a ddywed yr Ysgrythyr,—“Gosodwyd i ddynion farw un waith, ac wedi hynny bod barn.” “Pa wr a fydd byw, ac ni wêl farwolaeth?” “Canys rhaid i ni oll ymddangos ger bron brawdle Crist; fel y derbynio pob un y pethau a wnaethpwyd yn y corph, yn ol yr hyn a wnaeth, pa un bynnag ai da ai drwg.”

Yr ydym yn gweled hefyd fod angau yn anocheladwy. Yr awr sydd wedi dyfod, ei wydryn sydd wedi rhedeg, a dyn a raid fyned “i dŷ ei hir gartref.” Ni a allwn gasglu fod pob dyfais wedi ei harferyd; ond nid oes gan un dyn allu yn nydd marwolaeth, ac nid oes “bwrw arfau yn y rhyfel hwn;” nis gellir gwobreddenu na chadw ymaith y gelyn angau. Y bregeth olaf a glywir cyn y byddo hir, y Sabboth olaf a dderfydd, y weddi olaf a offrymmir i fynu, a chynnygion o drugaredd a ânt heibio am byth!

Cofiwch, bawb o honoch, frodyr, mai—

“Mewn bywyd mae gwas'naethu Duw,
Dydd gras ac iachawdwriaeth yw.”

Y mae marwolaeth ein brawd, corph pa un a gaiff yn fuan ei osod yn y llwch, yn llefaru wrth bob calon yn y fan hon, ac yn galw arnom oll, hen ac ieuaingc, i ystyried ein diwedd, ac i “*gyfrif* ein dyddiau, fel y dygom ein calon i ddoethineb.” Y mae y bugail yn cyfrif ei ddefaid, y cybydd ei aur, y cadben ei filwyr, a'r brenin ei ddeiliaid; ond yr ydym ni yn esgeuluso “cyfrif ein dyddiau.” A ydyw hyn o herwydd fod ein dyddiau o lai gwerth na defaid, neu aur, neu filwyr, neu ddeiliaid? O! nagê, yn sicr, nid dyna yr achos.

Ond yr achos yw, o herwydd nad oes genym un tuedd nac ewyllys i gyflawni gwaith mor angenrheidiol. Gwir yw, ein bod yn ddigon tueddol i gyfrif dyddiau ag ydym yn dybied sydd i *ddyfod*, tra yr ydym yn esgeuluso y rhai sydd wedi myned heibio, a'r rhai, i ddywedyd yn iawn, *yn unig ydynt eiddo ni*.

Yr angenrheidrwydd o barottoi erbyn ein hymadawriad o'r byd hwn, sydd yn awr yn cael ei gymhell ar ein hystyriaeth, trwy y digwyddiad hwn yn nhrefn Rhag-luniaeth. Y mae yn profi gwirionedd y testyn, "Nad oes ond megis cam rhyngom ni ac angau."

Oddiwrth y geiriau hyn, mi a sylwaf, yn—

I. Fod yr ymadrodd hwn, yn ol yr *olwg*, yn wir mewn perthynas i Dafydd.

II. Ei fod, yn *ddiau*, yn wir mewn perthynas i lawer sydd yn byw yn awr yn y byd. Ac, yn—

III. Y *dichon* fod yn wir mewn perthynas i rai o honom ni sydd yma yn bresennol.

Yr ydym i sylwi, yn—

I. Fod geiriau y testyn, yn ol yr *olwg*, yn wir mewn perthynas i Dafydd. Ei sefyllfa a'i hanes ef a adroddir mewn ychydig o eiriau. Pan yr ymadawodd Yspryd yr Arglwydd oddiwrth Saul, o herwydd ei anufuddod i orchymmynion Duw, drwg yspryd a ddaeth arno, ac arswyd a syrthiodd ar ei feddwl. Fe gynghorwyd iddo gael cerddoriaeth i yrru ymaith y pruddglwyf, a Dafydd mab Jesse a enwyd, megis chwareuwr medrus ar y delyn. Efe a ddaeth i lys y brenin, a chwareuodd yn ei wydd, ac a'i boddlonodd yn fawr. Ar ol hyn, ac wedi iddo ladd Goliath, cymmerwyd ef i ffafr fawr, a Saul a'i gwnaeth yn gludwr arfau iddo. Ond wrth ddychwelyd o faes y frwydr yn fuddugoliaethus, gwragedd Israel a ganasant ei glod mewn cerdd, yn

cynnwys mwy canmoliaeth na'r un a ganent er clod i'r *brenin*. Saul a ddigiodd; ac o'r dydd hwnnw allan fe a wylodd Dafydd gydag eiddgedd diorphwys, a thafodd waywffon atto; ac wedi ffaelu ei daro, helodd ef fel petrusen ar hyd benau y mynyddoedd, fel y gallai ei ladd. Pan welodd Dafydd ei fod yn cael ei amgylchynu gan amryw o elynion, y rhai oeddynt yn awyddus i drochi eu dwylaw yn ei waed, fe ddywedodd wrth Jonathan, ei unig gyfaill,—“Cyn wired a bod yr Arglwydd yn fyw, a'th enaid dithau yn fyw, nid oes ond megis cam rhyngof fi ac angau.”

Oddi yma, ynte, ni a welwn fod geiriau y testyn, yn ol yr *olug*, yn wir mewn perthynas i Dafydd.

Ond, yn—

II. Y mae y testyn, yn *ddiau*, yn wir gyda golwg ar lawer o ddyinion yn awr yn y byd. Fe gyfrifir fod naw can' myrddiwn o drigolion yn yr holl fyd, a bod un yn marw bob munudyn. Y mae amser yn sathru un dyn i farwolaeth bob cam. Felly y mae llawer wedi marw er pan y daethom i mewn i'r Eglwys y tro presennol. Mor wirioneddol yw, ynte, “nad oes ond megis cam” rhwng llawer “ac angau.”

I. Gadewch i ni ystyried y rhifedi mawr o gleifion sydd ar wasgar ar hyd wyneb y byd poblog hwn, ac yn enwedig yn y plwyf hwn. Y mae y methodigion hyn, tra y parhau oriau hirion y nos, yn hiraethu am y bore; a phan wawrio y dydd, ac y delo pelydr yr haul i chwareu ar eu gobenydd, y maent yn troi ymaith oddiwrth ei ddisgleirdeb, ac yn hiraethu am yr hwyr. Y maent yn treulio ymaith yn raddol, ac wedi cael eu rhoddi i fynu gan eu physygwyr, a'u cyfeillion yn disgwyl eu marwolaeth yn feunyddiol,—“Nid oes ond megis cam rhyngddynt hwy ac angau.”

2. Ewch i garcharau tywyll drwgweithredwyr, y rhai sydd wedi cael eu collfarnu i farw y bore nesaf am eu drwg weithredoedd; gwelwch hwynt wrth oleu gwan y ganwyll, yn treulio yr ychydig amser a adawyd iddynt mewn gweddiau a myfyrdodau,—“Nid oes ond megis cam rhyngddynt hwy ac angau.”

3. Edrychwch ar y milwyr, y rhai sydd yn ymbarottoi erbyn brwydr waedlyd; achos eu gwlad, fe allai, sydd yn curo yn eu calonau, ac yn wresog ar eu tafodau. Y maent yn arfogi eu hunain, ond ni ddiarfogant eu hunain byth mwy. Y maent wedi eu harfaethu i gwympto yn yr ymladdfa,—“Nid oes ond megis cam rhyngddynt hwy ac angau.”

4. Gwrandewch ar leisiau y morwyr, pan fyddo eu llong ym mron cael ei dryllio gan y dymhestl ddychrynlyd. Y maent yn myned i fynu tua'r nefoedd, ac yn awr i lawr i'r dyfnder. Y mae y llong yn ddireolaeth, y mae yn dechreu soddi, y mae ei thu fewn yn llanw o ddwfr, a'r morwyr druain yn glynu wrth yr hwyl-raffau am eu bywydau,—“Nid oes ond megis cam rhyngddynt hwy ac angau.”

5. Edrychwch ar y dynion hynny y rhai y mae eu cyrph dan effaith y parlys mud. Mor ansicr ydyw y gafael sydd ganddynt hwy ar fywyd! Yn iach ac yn fywiog un funud, y funud nesaf yn *farw*. Wel, “nid oes ond megis cam” rhwng pob un o'r rhai hyn “ac angau.” Nid oes ond ychydig iawn rhyngddynt a'r byd anweledig—nid oes ond tippyn bach rhyngddynt a thragywyddoldeb! Mor wirioneddol yw, ynte, mewn perthynas i rai dynion yn awr yn y byd,—“Nid oes ond megis cam rhyngddynt ac angau.” Ond, yn—

III. Fe *ddichon* geiriau y testyn fod yn wir mewn perthynas i rai o honom *ni*. Canys, yn—

1. Y mae dedfryd marwolaeth wedi ei chyhoeddi ar bob dyn, o herwydd fod pawb wedi pechu.

Angau, yr hwn a elwir gan brydyddion, brenin y dychryniadau ; gan philosophyddion, dihanfodiad ; gan anghredinwyr, diddymiant ; gyda golwg ar y gyfraith, cospedigaeth farwol ; mewn duwinyddiaeth, *cyflog pechod* yw. Yn Adda, ein pen cyfammodol, ni oll a gwympasom ; a phan y cafodd efe ei farnu i farw, fe'n barnwyd ninau, ei holl hiliogaeth, hefyd. "Yn Adda y mae pawb yn meirw, ac yng Nghrist y bywheir pawb." O herwydd, yn—

2. Y mae y ddedfryd hon heb ei galw yn ol, y mae heb ei diddymu ; dedfryd sydd yn awr mewn grym yw.

Fe ddichon, ac y mae dedfryd marwolaeth yn fynych, mewn pethau daearol, yn cael ei *chfynewid* ; ond nid felly yma. Ni a allwn, ac yr ydym yn cael oediad, ond nid ydym ni byth yn cael rhydd-fraint, (*reprief.*)

Ond, medd rhyw un, beth yw yr achos o farwolaeth? Wel, fy mrodyr, yr achos yw *pechod* ; canys yr Apostol a ddywed wrthym, mai "cyflog *pechod* yw *marwolaeth*;" eithr mai "dawn Duw yw bywyd tragywyddol, trwy Iesu Grist ein Harglwydd." Pechod a wnaeth ein cyrph yn farwol, pechod a wywodd flodau Paradwys, pechod sydd wedi hau hadau tristwch a marwolaeth ynom, a phechod sydd wedi parottoi llafur a lludded, gofal a blinder, poen ac afiechyd i ni yn y byd hwn, ac wedi ein gwneud yn agored i lid, colledigaeth, a thrueni tragywyddol yn y byd a ddaw! Y pechod hwn yr ydym wedi *feithrin* yn ein *calonau*! Fe ddylai yr ystyriaeth o hyn ddeffroi yspryd o wir edifeirwch ynom. Ac y mae y digwyddiad hwn yn nhrefn Rhagluniaeth yn cael ei amcanu i ddeffroi y fath yspryd

ynom. Y mae angau wedi bod ar waith yn ein plith ; ac wrth daro ein cyfaill, y mae yn annelu tuag attom ninau. Canys, cofiwch, fy mrodyr, fod yn rhaid i ni oll farw ; gan hynny, na feddylwch gymmaint am farwolaeth ein brawd, ag am eich *diwedd eich hunain*. Y mae angau wedi gwneuthur ei waith arno *ef*, ond y mae heb ei wneuthur arnoch *chwi*. Y mae eich anadl yn eich ffroenau etto ; ond bydded hysbys i chwi, yr ydych chwithau yn frau, yr ydych chwithau yn farwol, ac y mae yn rhaid i chwithau *farw*. A allwch anghofio hyn ? Y mae llais y marw yn llefaru wrthych yn awr mewn modd uchel iawn, gan ddywedyd, “Na feddylwch am fy marwolaeth i, ond meddylwch am eich marwolaeth eich *hunain*. Na wylwch am danaf *fi*, ond wylwch am danoch eich *hunain*. Na alarwch am danaf *fi*, ond galarwch o herwydd eich *pechodau eich hunain*.”

Fe *ddichon* ei fod yn wir, ynte, am rai o honom ni,— “Nad oes ond megis cam rhyngom ni ac angau.” Pwy sydd yn gwybod i'r gwrthwyneb ? Pwy a all sicrhau un munudyn i ni ? O ! goddefwch i mi ymbil arnoch, ynte, i wneuthur parottoad erbyn yr hyn a *ddichon* ddigwydd. Eich tŷ a *ddichon* gael ei losgi i lawr ; yr ydych, ysgatfydd, wedi diogelu eich hunain rhag derbyn colled. Eich meddiannau a *ddichon* gael eu lladratta ; yr ydych wedi eu sicrhau, gan eu gosod dan glo ac allwedd. Ond y mae yn *rhaid* i chwi *farw*. Pa le y mae eich parottoad gyferbyn ag angau ? A ydych yn parottoi erbyn yr hyn sydd *debygol*, ac yn esgeuluso yr hyn sydd *sicr* ? A ydych yn parottoi dros y *corp*, ac yn esgeuluso yr *enaid* ? A ydych yn parottoi dros *amser*, ac yn gadael *tragywyddoldeb* i barottoi drosto ei hunan ? Ai y tro *cyntaf* y gwnewch feddwl yn ddirifol am eich *pechodau* a fydd, pan y byddoch yn myned i'r

furn am danynt? A wnewch am y tro cyntaf feddwl am werth eich trugareddau, pan y byddoch o ddeutu eu gadael am byth?

Ac yn awr, frodyr, a ydych yn gofyn, "Pa beth a raid i ni wneuthur fel y byddom gadwedig?" Wel, os ydych yn dymuno bod yn gadwedig, edifarhewch am eich pechodau, gweddiwch am ras a maddeuant, a chredwch yn yr Arglwydd Iesu Grist, a chwi a fyddwch gadwedig. Gwnewch hynny yr amser *presennol*. Peidiwch a son am y *fory*—nid oes dim amser i oedi. Os ydych yn ewyllysio diangc rhag poenau uffern, y mae yn rhaid i chwi edifarhau yr amser presennol, y mae yn rhaid i chwi weddio yr amser presennol, ac y mae yn rhaid i chwi gredu yr amser presennol; canys nid yw yn alluadwy gweithio allan iechydwriaeth yn y bedd, lle yr ydych chwi a minau yn myned ar frys. "Wele, yn awr, yr amser cymmeradwy; wele, yn awr, ddydd yr iachawdwriaeth." O! gan hynny, bobl, deuwch yn awr at Dduw trwy ffydd yn Iesu Grist. Deuwch; yr wyf yn erfyn arnoch ddyfod! Y mae y marw yn erfyn arnoch ddyfod! Y mae y byw yn erfyn arnoch ddyfod! Y mae yr Eglwys yn erfyn arnoch ddyfod! Y mae yr Yspryd yn dywedyd, "Tyred!" Y mae pob peth yn natur, yn Rhagluniaeth, ac yn yr Eglwys, yn galw yn uchel arnoch ddyfod i gymmodi â'ch Duw, trwy Iesu Grist, "cyn yr eloch ac na byddoch mwyl." O! deuwch, ynte, bob un o honoch, fel y byddo byw eich gwerthfawr eneidiau; canys "nid oes ond megis cam rhyngoch *chwithau* ac angau!"

Yr wyf am i chwi bawb adeiladu ar yr un sylfaen ag yr adeiladodd ein brawd arni am fywyd tragwyddol, sef, ar Iesu Grist, Iachawdwr pechaduriaid. Dyma oedd ei sylfaen *ef*, ei obaith *ef*, a'i hyder *ef*.

Wrth ymddiddan âg ef, ychydig yn ol, mewn perthynas i'w gyflwr ysprydol, mi a ofynais iddo, Ar beth yr oedd yn sefydlu ei obaith am iechydwriaeth i'w enaid. "Ar *Grist*," eb efe; "*dim ond Crist a'i haeddiant i mi.*" Wel, frodyr, dyma yr wyf am i chwithau wneud, sef, adeiladu ar *Grist*, *craig eich iechydoriaeth*. Dywedwch fel ein brawd,—"*Dim ond Crist a'i haeddiant i mi;*" canys ei waed ef yn unig a all olchi ymaith bechod ac aflendid, ei gyfiawnder ef yn unig a all guddio ein noethni, a haeddiant ei aberth ef yn unig a all achub holl hil syrthiedig Adda. O! am hynny, byddwch yn wir ganlynwyr iddo, yn awr, tra yr ydych yn mwynhau iechyd ac amser; canys "nid oes ond megis *cam rhyngoch chwithau* ac angau!"

PREGETH XXII.

2 PEDR 3. 18.

“EITHER CYNNYDDWCH MEWN GRAS.”—

Y MAE yn natur gwir ras i ymledanu a chynhyddu. Eginyn yw hwn ag sydd yn tyfu i fynu. Nid annhebyg yw gras yn ei gynnydd i oleuni. Yn gyntaf, y mae yn wawr-ddydd, ac yna y mae yn cynnyddu ac yn disgleirio fwy-fwy i ganol-ddydd. Nid yw y gwir gristion byth yn darfod cynhyddu mewn gras a sanct-eiddrwydd hyd nes caffo ei gymmeryd i'r deml fry, i gael ei goroni â thragywyddol ogoniant, ac i foli Duw yn oes oesoedd.

Fe ellir dywedyd fod y cristion yn cynnyddu mewn gras mewn amryw ffyrdd. Y mae yn cynnyddu mewn ymarfer o ras; ei lampau sydd yn llosgi ac yn disgleirio.

Egwyddor fyw yn y galon yw gras, yr hon sydd yn cynnyddu ac yn tarddu allan yn y bywyd a'r ymarweddiad; gan hynny, yr ydym yn darllen am “obaith bywiol.”

Etto, y mae y cristion yn cynnyddu yn y *gradd* o ras. Y mae yn myned “o nerth i nerth;” hynny yw, o un gradd o ras i'r llall;—“o ffydd i ffydd,” fel y dywed yr Apostol, “a'i gariad sydd yn amlhau fwy-fwy.” Ond, medd rhywun, beth yw yr iawn ddull o gynnyddu? Wel, yr iawn gynnydd mewn gras yw, yn—

I. Os ydym yn cynnyddu mewn *tyb isel am danom ein hunain*, gall pob un ddywedyd gyda'r hen Psalmydd duwiol,—“Pryf ydwyf, ac nid gwr.” Y mae ei lygr-edigaeth, ei anwybodaeth, a'i bechadurusrwydd yn gwneud i'r cristion gynnyddu yn ei ffeiddiad o hono ei hun, ac y mae yn barod i lefain allan, gyda Job,—“Y mae yn ffiaidd genyf fi fy hun; ac yr ydwyf yn edifarhau mewn llwch a lludw.”

II. Yr iawn gynnydd yw, pan fyddo y cristion yn cynnyddu yn un gras yn gystal a'r llall; pan fyddo yn cynnyddu, nid yn unig mewn gwybodaeth, ond hefyd mewn addfwynder, gostyngeddrwydd, cariad brawdol, a phob gweithred dda.

1. Cynnydd mewn gras yw diben yr ordinhadau. Paham y mae dyn yn myned mewn traul o drin ei dir, ei achlesu, a'i ddyfrhau, ond fel y byddo iddo gynnyddu, a dwyn mwy o ffrwyth. A phaham y mae “didwyll laeth y gair” yn cael ei roddi i ninau, ond “fel y cynnyddem trwyddo ef?” A bwrdd yr Arglwydd sydd hefyd yn cael ei daenu ar led o'n blaen, er ein meithriniaeth ysprydol, a'n cynnydd mewn gras.

2. Cynnydd mewn gras yw y dystiolaeth oreu o'r gwirionedd o hono, hynny yw, ein bod yn feddiannol ar yr egwyddor sanctaidd honno. Fe wyr pawb na chynnydda pethau heb fywyd ddim. Pe byddech yn cymmeryd darlun, ac yn ei osod ar y mur, a ydyw yn tyfu neu yn prifio? Nag yw ddim. Beth yw yr achos? Wel, nid oes dim bywyd ynddo. Etto, pe byddech yn planu pren crin yn y clawdd, a dyfai ac a gynnyddai yno? O! na wnai ddim. Paham hynny? Wel, o herwydd mai pren crin difywyd yw. Felly, nis gall fod cynnydd mewn gras heb fod genym ras, a hwnnw

yn fyw yn yr enaid, ac yn tarddu allan mewn ffrwythau yn y bywyd a'r rhodiad.

3. Cynnydd mewn gras yw prydfferthwch y cristion. Pa fwyaf, chwi a wyddoch, a fyddo y plentyn bach yn cynnyddu, mwyaf i gyd y mae yn dyfod i wedd hardd, ac i edrych yn fwy gwridgoch; felly, mwyaf i gyd y mae y cristion yn gynnyddu mewn gras, mwyaf i gyd y mae yn dyfod i wedd hardd ysprydol, ac i edrych yn brydfferth. Ffydd Abraham oedd yn hardd iawn yn ei mabandod; ond o'r diwedd fe gynnyddodd mor fawr ac mor odidog, fel ag yr hoffodd Duw ef uwchlaw yr holl batrieirch, ac a'i coronodd â'r anrhydedd neillduol o fod yn "Dad y ffyddloniaid."

4. Mwyaf i gyd yr ydym yn gynnyddu mewn gras, mwyaf i gyd o ogoniant yr ydym yn ddwyn i Dduw. Y mae gogoniant Duw yn fwy o werth nag iechydwr-iaeth eneidiau holl ddynolryw. Ein hamcan, ynte, a ddylai fod, gosod allan ogoniant Duw; a pha fodd y gallwn wneuthur hynny yn well na thrwy gynnyddu mewn gras? "Yn hyn," medd Crist wrth ei ddisgyblion, "y gogoneddwyd fy Nhad, ar ddwyn o honoch ffrwyth lawer." Er y dwg y gradd lleiaf o ras iechydwr-iaeth i ni, etto ni ddwg ddim cymmaint o ogoniant i Dduw. "Wedi eich cyflawni â ffrwythau cyfiawnder," medd yr Apostol, "y rhai sydd trwy Iesu Grist, er gogoniant a moliant i Dduw."

Ni a welwn, ynte, mai mwyaf i gyd yr ydym yn gynnyddu mewn gras a gweithredoedd da, mai mwyaf i gyd o ogoniant yr ydym yn ddwyn i Dduw, ac o ganlyniad, mwyaf i gyd a wna Duw ein caru; a'n blinder mwyaf ar wely angau fydd, ein bod wedi cynnyddu mor lleied mewn grasusau a rhinweddau da. Gan hynny, O! gwnewch y goreu o'ch hamser,

yn eich dydd a'ch tymmor byr ; “ oblegid y mae y nos yn dyfod, pan na ddichon neb weithio.”

5. Mwyaf i gyd yr ydym yn gynnyddu mewn gras yma, mwyaf i gyd y blodeuwn mewn gogoniant fry ym Mharadwys. Er y caiff pob llestr gogoniant ei lanw, etto, rhai llestri a ddaliant fwy na'u gilydd. Yr ydym yn darllen, i'r hwn y darfu ei bunt ennill deg punt, gael “awdurdod ar *dddeg* dinas ;” a bod “rhagor,” hynny yw, gwahaniaeth, “rhwng seren a seren mewn gogoniant.”

Y rhai nad ydynt yn cynnyddu llawer, er nad ydynt yn colli eu gogoniant, etto y maent yn sicr o fod yn ei leihau. Yn ddiammau, gan hynny, os canlyn rhyw rai yr Oen mewn gynau gwynach, ac mewn mwy o ogoniant na'u gilydd, mai y rhai hynny a fyddant hwy ag sydd wedi disgleirio mwyaf mewn gras a chyfiawnder yn y byd a'r bywyd hwn. Ac, O! y fath annogaeth yw hon, gyfeillion, i gynnyddu mewn gras.

Yn wir, y mae yn alarus meddwl gymmairt o eisiau cynnydd sydd. Y mae crefydd mewn llawer wedi dirywio i ffurf a phroffes yn unig ; ond hyn yw cynnyddu mewn dail, ac nid mewn ffrwythau. Y mae llawer o gistionogion fel corph mewn disborthiant, yr hwn nid yw yn prifio ; nid ydynt yn cael eu meithrin a'u hadeiladu yn ysprydol trwy y gweddiau y maent yn yn weddio, y pregethau y maent yn wrando, na'r swpper sancteiddiol ag y maent yn gymmeryd. Ac nid ychydig yw y rhai (er eu bod yn cymmeryd arnynt fod yn ddisgyblion Iesu) ydynt, yn lle cynnyddu mewn duwioldeb, yn cynnyddu mewn annuwioldeb. Y maent yn fwy daearol, yn fwy meddw, yn fwy halogedig o ddydd i'w gilydd. Wel, dyna beth yw tyfu i waered mewn pechod tuag uffern, yn lle tyfu i fynu mewn

gras tua'r nefoedd. Gwareded Duw ni oll, gyfeillion, rhag tyfu mewn addfedrwydd i'r poenau. "Eithr cynnyddwch mewn gras."

Ond, medd rhyw un, dymunwn yn fawr gael gwybod, a ydwyf fi yn cynnyddu mewn gras ai peidio?

Wel, er penderfynu y gofyniad hwn, ymdrechaf osod i lawr rai nodau wrth ba rai y gallwn farnu, yn—

1. Pan *nad* ydym yn cynnyddu. Ac, yn—

2. Pan y *byddom* yn cynnyddu.

1. Pan *nad* ydym yn cynnyddu. Y nod cyntaf *nad* ydym yn cynnyddu mewn gras, yw, pan y *byddom* wedi *colli ein blas mewn pethau ysprydol*. Y mae y dyn sydd yn y clefyd hwnnw a elwir y *ddarfodedigaeth* yn *colli ei flas*, *chwi a wyddoch*, at ei *fwyd*, nid oes yr un *archwaeth gydag ef* at ei *ymborth ag oedd o'r blaen*; *felly hefyd*, yr hwn *nad* yw yn cynnyddu mewn gras sydd wedi *colli ei flas* at *bethau ysprydol*. Fe allai fod yma ryw un yn *cofio yr amser pan yr oedd yn newynu* ac yn *sychedu am gyfiawnder*, a *phan yr oedd yn dyfod gyda blys at yr ordinhadau*; ond yn awr nid *felly y mae*; nid yw *Crist yn cael ei werthfawrogi gymmaint*, na'i *ordinhadau yn cael eu caru i'r un gradd*, yr hyn sydd nod sicr fod gras, yn lle cynnyddu, yn lleihau.

Nod arall, *nad* ydym yn cynnyddu mewn gras, yw, pan *fyddom* yn *myned yn fwy bydol*. Fe allai, unwaith, ein bod ni wedi *esgyn i fynu megis i uwch byd*, gan osod ein *calonau ar bethau sydd uchod*, a *llefaru iaith Canaan*; ond yn awr, ein *meddyliau sydd wedi eu cymmeryd oddiar bethau ysprydol*, ac wedi eu *sefydlu ar bethau darfodedig y ddaear*. Wel, dyna arwydd *anffaeledig* ein bod ni yn *myned tuag i waered*, a bod ein gras mewn *cyflwr o ddarfodedigaeth*.

Y trydydd arwydd nad ydym yn cynnyddu mewn gras yw, pan fyddom yn llai ein blinder ynghylch pechod. Yr oedd amser, pan yr oedd y pechod lleiaf yn ein tristau, fel ag y mae y blewyn lleiaf yn peri i'r llygad wylo; ond yn awr, fe allai fod yma rai yn pechu yn rhyfygus, heb feddwl am edifarhau! Yr oedd amser pan yr oedd y cristion yn gofidio os esgeulusai y gwasanaeth cyhoeddus; yn awr, fe all esgeuluso gweddi ddirgel yn ddifinder! Yr oedd amser pan y byddai i feddyliau ofer ei flino; yn awr y mae yn byw mewn drwg arferion, heb fawr o aflonyddwch cydwybod! Dyna waethgiad athrist mewn crefydd, a nod eglur nad ydym yn cynnyddu mewn gras.

Ond, ystyriwn, yn—

2. Yr arwyddion o'n cynnydd mewn gras.

Yr arwydd cyntaf o'n cynnydd yw, pan fyddom wedi myned tu hwynt i'n mesur blaenorol o ras. Y mae yn arwydd bob amser fod y plentyn yn prifio pan fyddo yn gorlenwi ei ddillad; pan fyddo ei ddillad yn myned yn rhy fach iddo. Y wybodaeth honno a'n digonai ni o'r blaen, nis digona ni yn awr, os ydym yn cynnyddu mewn gras. Yr ydym yn gwreiddio yn ddyfnach mewn pethau ysprydol. Mae ein golwg yn fwy eglur, ein ffydd yn gryfach, a'n cariad yn cynnyddu fwy-fwy tuag at ein Iachawdwr bendigedig. Yr ydym, yn ol gorchymmyn yr Apostol, yn "chwanegu at ein ffydd, rinwedd; ac at rinwedd, wybodaeth; ac at wybodaeth, gymmedrolder; ac at gymmedrolder, amynedd; ac at amynedd, dduwioledeb; ac at dduwioledeb, garedigrwydd brawdol; ac at garedigrwydd brawdol, gariad;" ac felly yr ydym yn "cynnyddu mewn gras."

Yr ail arwydd o'n cynnydd mewn gras yw, pan y byddom wedi ein gwreiddio yn gadarnach mewn

crefydd, pan y byddom wedi ein huno mor agos â Christ, ac wedi ein sefydlu mor ddiysgog yn athrawiaeth y groes, fel nas gall anadl cyfeiliornad ein chwythu oddiar graig yr oesoedd. “Wedi eich gwreiddio,” medd yr Apostol, “a’ch adeiladu ynddo ef, a’ch cadarnhau yn y ffydd, megis y’ch dysgwyd, gan gynyddu ynddi mewn diolchgarwch. Edrychwch na byddo neb yn eich anrheithio trwy philosophi, a gwag dwyll, yn ol traddodiad dynion, yn ol egwyddorion y byd, ac nid yn ol Crist. Oblegid ynddo ef y mae holl gyflawnder y Duwdod yn preswyllo yn gorphorol.” “Eithr cynnyddwch mewn gras.”

Arwydd arall ein bod yn cynnyddu mewn gras yw, pan fyddo ein calonau o ansawdd a thuedd mwy ysprydol. Pan y byddom yn fwy ysprydol yn ein hegwyddorion, ac yn gwrthwynebu pechod yn fwy, o gariad at Dduw; pan y byddom yn fwy ysprydol yn ein serchiadau, ac yn gofidio yn fwy wrth deimlo llygredigaeth a phechod yn terfysgu ynom.

Ac yn olaf, pan y byddom yn fwy ysprydol yn ein dyledswyddau crefyddol, yn fwy difrifol, yn fwy brwdfrydig, ac yn fwy bywiog ynghylch yr un peth angenrheidiol,—“Yn wresog yn yr Yspryd, yn gwasanaethu yr Arglwydd;” ac felly yn “cynnyddu mewn gras.”

Yn awr, gyfeillion, goddefwch i mi ofyn, A wyddoch *chwi* rywbeth am yr arwyddion a enwyd? A ydych *chwi* yn cynnyddu mewn gras? Rhai o honoch, fe allai, sydd yn cynnyddu yn y peth hyn, ac eraill mewn peth arall. Ond y peth a ofynir yw, A ydych yn cynnyddu *mewn gras*.

Wel, medd rhyw un, pa beth a wnawn ni fel y byddo i ni gynnyddu mewn gras?

1. Gochelwch yr hyn a rwystra eich cynnydd, sef, cariad at bechod ac oferedd. Y mae yn gystal i chwi ddisgwyl i'r corph brifio mewn twymyn, ag i ras gynnyddu lle y mae pechod yn cael ei feithrin. O! gan hynny, ymattaliwch rhag pechod, gelyn pob rhinwedd, a "dilynwch sancteiddrwydd, heb yr hwn ni chaiff neb weled yr Arglwydd."

2. Defnyddiwch bob moddion *er* cynnydd. Byddwch yn ddiwyd gyda'r ordinhadau. Na esgeuluswch y moddion gosodedig, canys mewn defnydd o'r breintiau y mae i ni ddisgwyl bendithion i'n heneidiau. Na throwch eich cefnau ar y swpper sancteiddiol, o herwydd yno y mae ffydd y gwir gredadyn yn cael ei hychwanegu, ei obaith yn cael ei gryfhau, a'i enaid yn cael ei borthi â'r "bara bywiol, yr hwn a ddaeth i waered o'r nef."

Rhodiwch yn isel ac yn ostyngedig, ynte, gyda Duw, a gweddiwch lawer am ras i "fyw yn sobr, ac yn gyfiawn, ac yn dduwiol, yn y byd sydd yr awrhon," fel y caffoch yn y byd a ddaw eich coroni â thragywyddol ogoniant.

PREGETH XXIII.

PHIL. 2. 9, 10.

“O HERWYDD PAHAM, DUW A'I TRA-DYRCHAFODD YNTAU, AC A RODDES IDDO ENW YR HWN SYDD GORUWCH POB ENW; FEL YN ENW IESU Y PLYGAI POB GLIN, O'R NEFOLION, A'R DAEAROLION, A THAN-DDAEAROLION BETHAU.”

Y MAE dyrchafiad Crist yn cynnwys ei gyfodiad o feirw, ei esgyniad i'r nefoedd, a'i eisteddiad ar ddeheu-law Duw. A chyn yr elom ym mlaen, y mae yn gofyn i ni ystyried ym mha ystyr y dyrchafodd Duw ei Fab Iesu Grist. Nid mewn perthynas i'w Dduwdod yn sicr, canys nis gellir dyrchafu hwnnw yn uwch nag yw; megis yn narostyngiad Crist, *nid oedd ei Dduwdod yn is*; felly yn ei *ddyrchafiad*, *nid yw yn uwch*. Crist sydd wedi ei ddyrchafu megis *Cyfringwr*; a chofiwch mai yr *anian ddynol a ddyrchafwyd*, ac *nid yr un ddwyfol*.

Y mae Duw wedi dyrchafu Crist mewn pump ffordd; sef, yn ei enwau, yn ei swydd, yn ei esgyniad, yn ei eisteddfa ar ddeheu-law Duw, a thrwy ei wneuthur yn Farnwr y byd.

I. Yn ei enwau. Yr ydym yn darllen ei fod wedi ei ddyrchafu i fod yn *Arglwydd*, fel y dywedir,—“Ac ofn a syrthiodd arnynt oll, ac *enw yr Arglwydd Iesu a fawrygwyd*.” Y mae efe yn Arglwydd ar ddynion ac angylion; canys yr “*Iesu a ddaeth, ac a lefarodd wrthynt*,” sef wrth ei ddisgyblion, “*gan ddywedyd, Rhoddwyd i mi bob awdurdod yn y nef ac ar y ddaear*.” Y mae gan

Grist dair agoriad yn ei law, agoriad y bedd, i agor beddau ar ddydd yr adgyfodiad; agoriad y nef, i agor teyrnas nefoedd i'r sawl a fynno; ac agoriad uffern, i gloi y' colledigion yn y carchar tanlyd hwnnw. "Nac ofna, medd efe wrth Sant Ioan y Difinydd, "myfi yw y cyntaf a'r diweddaf; a'r hwn wyf fyw, ac a fum farw; ac wele, byw ydwyf yn oes oesoedd, Amen; ac y mae genyf *agoriadau* uffern a marwolaeth." I'r Arglwydd mawr hwn y mae yn rhaid i "bob glin blygu, o'r nefolion, a'r daearolion, a than-ddaearolion bethau."

Yr oedd yn arferiad yn y prif Eglwysi, ac y mae yn y rhan fwyaf o'r Eglwysi Sefydledig yn awr, wedi ei gymmeryd oddiar y testyn hwn, i bob un yn y gynnulleidfa ymgrymmu wrth enw yr Iesu—bob tro ag y dywedid *Iesu*, yr oedd yr holl bobl yn plygu eu penau. Ond yn lle plygu yn enw Iesu yn awr, y mae rhai dynion yn ein gwlad yn ymdrechu hyd ag y gallont *i'w blygu ef*, i'w ddarostwng, a'i sarthru dan eu traed! Wel, fe fyddai yn dda i'r cyfryw pe byddent yn darllen geiriau y testyn yn fynych, a chofio fod "*Duw* wedi ei dra-ddyrchafu ef, ac wedi rhoddi iddo enw yr hwn sydd goruwch pob enw; fel yn enw Iesu y plygai pob glin, o'r nefolion, a'r daearolion, a than-ddaearolion bethau; ac y cyffesai pob tafod fod Iesu Grist yn Arglwydd, er gogoniant Duw Dad." Wrth *enw* yn y testyn y meddylir *person*, ac wrth *blygu, ufuddhau*. Y mae yn rhaid i bawb ufuddhau i Iesu, naill ai fel eu Harglwydd, neu, ynte, eu Barnwr. O! gan hyny, frodyr, ufuddhewch iddo, ac addolwch ef mewn yspryd ac mewn gwirionedd! "Cusenwch y Mab," fel dywed y Psalmydd; hyny yw, cerwch a gwasanaethwch ef, "rhag iddo ddigio, a'ch difetha chwi o'r ffordd, pan gynneuo ei lid ef, ond ychydig. Gwyn eu byd pawb

a ymddiriedant ynddo ef." Enw arall sydd yn perthyn i Grist yw *Tywysog*. "Yn yr amser hwnnw," medd Daniel y Prophwyd, "y saif Michael y *tywysog mawr*, yr hwn sydd yn sefyll dros feibion dy bobl." Rhai a feddylant mai angel crëedig yr ydym i'w ddeall wrth y geiriau hyn; ond y rhan fwyaf, mai Crist, angel y cyfammod, a feddylir wrth y *tywysog mawr* a sonir am dano. Y mae Iesu yn sicr o fod yn *dywysog mawr*, canys yr ydym yn darllen yn llyfr y Datguddiad, mai efe yw "Tywysog brenhinoedd y ddaear." Y maent *hwy* yn derbyn eu holl awdurdod a'u coronau oddi wrtho ef, yr hwn sydd a'i orsedd uwchlaw sêr y nefoedd, ac yn cael ei addoli a'i wasanaethu gan "angelion ac archangelion a holl gwmpeini y nef."

II. Y mae Duw wedi dyrchafu Crist yn ei *swydd*. Ei swydd yw achub pechaduriaid. Efe yw Iachawdwr y byd. Y mae efe yn gwared oddiwrth y digofaint sydd ar ddyfod, ac yn gwared oddiwrth bechod; "A thi a elwi ei enw ef *Iesu*," medd angel yr Arglwydd wrth Joseph, "Oblegid efe a wared ei bobl oddiwrth eu pechodau." Wel dyma ystyr y gair Iesu yn ol yr iaith Roeg, Gwaredwr neu Iachawdwr. Un sydd yn gwared dynion oddiwrth y gosp sydd dyledus i'w pechodau, ac yn iachâu eu clefydau ysprydol. Efe yw'r *Iachawdwr* neu *awdwr iechyd*:—Y meddyg mawr yr hwn sydd yn gwellhâu eneidiau cleifion; ac y mae efe wedi gwellhâu llawer cyn hyn; gan hyny, O! ewch chwithau atto am feddyginiaeth cyn machludo eich haul! Gwrandewch beth mae Pedr yn ddywedyd am dano. "Hwn a ddyrchafodd Duw â'i dde-heulaw, yn Dywysog, ac yn *Iachawdwr*, i roddi *edifeirwch* i Israel a *maddewant pechodau*." "Ac nid oes iachawdwriaeth yn *neb arall*: canys nid oes enw arall dan y nef, wedi ei roddi ym mhlith

dynion, trwy yr hwn y mae yn rhaid i ni fod yn gadwedig."

III. Y mae Duw wedi dyrchafu Crist yn ei esgyniad; canys os esgynodd, yna y mae efe wedi ei ddyrchafu. Y mae efe wedi esgyn i'r nefoedd, ac wedi eistedd ar ddeheulaw Duw. Marc 16. 19. "Ac felly yr Arglwydd, wedi llefaru wrthynt, a gymmerwyd i fynu i'r nef, ac a eisteddodd ar ddeheulaw Duw." Crist a esgynodd megis *gorchfygydd*, mewn ffordd o fuddugoliaeth. Y Psalmydd yn prophwydo am dano, a ddywed, "Dyrchefaist i'r uchelder, caethgludaist gaethiwed." Efe a fuddugoliaethodd ar bechod, angau, ac uffern; a buddugoliaeth Crist sydd yn fuddugoliaeth i'r credadyn; canys y mae Tywysog mawr ein hiechyd-wriaeth wedi gorchfygu pechod ac uffern dros bob gwir gredadyn.

Ond, medd rhyw un, beth a feddylir wrth Grist yn eistedd ar ddeheulaw Duw?

Pan sonir am law Duw, ei fraich, &c. llefaru yn ol dull dynol yr ydys, fel y byddo i ni ddeall pethau yn well; canys i ddywedyd yn iawn, nid oes gan Dduw na llaw ddeheu na llaw aswy; oblegid yspryd yw Duw, gan hynny, nid oes iddo ddim rhanau corphorol; ac eistedd ar ddeheulaw sydd ymadrodd yn arwyddocau anrhydedd a gallu, wedi ei gymmeryd oddiwrth arfer brenhinoedd, y rhai oeddynt yn parchu ac yn dyrchafu y rhai ag oeddynt yn hoffi fwyaf, ac fel nod o anrhydedd, yn eu gosod i eistedd ar eu deheulaw eu hunain. Er prawf o hyn, darllenwch 1 Bren. 2. 19. lle y dywedir, "Felly Bathseba a aeth at y brenin Solomon, i ddywedyd wrtho ef dros Adoniah. A'r brenin a gododd i'w chyfarfod hi, ac a ostyngodd iddi, ac a eisteddodd ar ei orsedd-faingc, ac a barodd osod gorsedd-faingc i

fam y brenin: *a hi a eisteddodd ar ei ddeheulaw ef.*" Pan y dywedir, ynte, fod Crist yn eistedd ar ddeheulaw Duw, yr ystyr yw, ei fod ef wedi ei ddyrchafu i awdurdod, gallu, ac anrhydedd.

IV. Y mae Duw wedi dyrchafu Crist trwy ei wneud yn Farnwr yr holl fyd. St. Ioan 5. 22, 23. "*Canys y Tad nid yw yn barnu neb; eithr efe a roddes bob barn i'r Mab: fel yr anrhydeddai pawb y Mab, fel y maent yn anrhydeddu y Tad.*" Crist a ddyrchefir mewn modd goruwch-ragorol yn nydd y farn; canys "*Mab y dyn a ddaw yn ei ogoniant ei hun, a'r Tad, a'r angylion sanctaidd;*" ac yna y rhydd efe i bawb yn ol eu gweithredoedd. Er iddo gael ei arwain at orsedd Pilat gan filwyr creulon, fe a ddaw, yn y dydd olaf, i farnu Pilat, a phawb eraill, gyda llu o angylion sanctaidd.

Ni a welwn, oddiwrth yr hyn a ddywedwyd, yn—

1. Wahanol gyflwr Crist ar y ddaear ac yn y nefoedd. O! y fath gyfnewidiad sydd wedi cymmeryd lle; pan yr oedd ar y ddaear, fe orweddodd mewn preseb; ond yn awr y mae yn eistedd ar ei orsedd. Pryd hwnnw, cafodd ei *gashau* a'i *ddiystyru* gan ddynton; ond yn awr y mae yn cael ei *addoli* gan seintiau ac angylion. Pryd hwnnw, yr oedd ei enw yn cael ei waradwyddo; ond yn awr y mae Duw wedi ei "*ddyrchafu goruwch pob enw.*" Pryd hwnnw, fe ddaeth mewn agwedd gwas, ac megis gwas efe a safodd ac a olchodd draed ei ddisgyblion; ond yn awr y mae wedi ei wisgo yn ei wisgoedd brenhinol, a brenhinoedd y ddaear ydynt yn tafu eu coronau wrth ei draed. Ar y ddaear yr oedd yn "*wr gofidus, a chynnefin â dolur;*" ond yn awr y mae wedi ei enneinio âg olew llawenydd. Pryd hwnnw y cafodd ei groeshoelio; ond yn awr y mae wedi ei goroni. Pryd hwnnw nid oedd dynolryw yn gweled "*na phryd na*

thegwch" ynddo; ond yn awr y mae "efe yn ddisgleirdeb gogoniant ei Dad, ac yn wir lun ei berson ef." O! y fath gyfnewidiad rhyfeddol sydd yma,—“Duw a'i tra-dyrchafodd ef, ac a roddes iddo enw yr hwn sydd goruwch pob enw; fel yn enw Iesu y plygai pob glin, o'r nefolion, a'r daearolion, a than-ddaearolion bethau.”

2. Ni a allwn ddysgu mai y ffordd i gyrhaedd gwir anrhydedd yw trwy ostyngeddrwydd. Crist a ddarostyngodd ei hun, ac yna fe'i dyrchafwyd ef; ac y mae efe wedi dywedyd mai yr “hwn sydd yn ei ostwng ei hun, a ddyrchefir.” Y mae'r byd, yn gyffredin, yn edrych ar ostyngeddrwydd megis peth a wna ddyn yn ddirmygus; ond camsynied mawr yw hynny, canys y mae ein bendigedig Iachawdwr wedi dywedyd mai y llwybr sicraf i anrhydedd yw. Y mae gostyngeddrwydd yn ein mawrhau yng ngolwg pob dyn synwryol, ac yn ein dyrchafu i orsedd uwch yn y nefoedd. Iaith Achubwr eneidiau yw, “Pwy bynnag, gan hynny, a'i gostyngo ei hunan, fel y bachgenyn hwn, hwnnw yw y *mwyaf* yn nheyrnas *nefoedd*.” O! ynte, rhodiwch bawb yn isel ac yn ostyngedig o flaen yr Arglwydd, fel y caffoch yn y diwedd eich dyrchafu i wynfyd tragywyddol.

2. Ni a allwn weled mai trwy ddiodeffiadau y mae yn rhaid i ni fyned i ogoniant. Crist a ddiodeffodd yn gyntaf, ac yna a ddyrchafwyd. Llauer a ddymunant gael eu gogoneddu gyda Christ, ond nid ydynt yn foddlon i ddiodeff erddo ef. St. Paul a ddywed,—“Os diodeffwn, ni a deyrnaswn gydag ef.” Y drygionus a'r annuwiol ydynt yn teyrnasu yn gyntaf, ac yna yn diodeff; ond y duwiolion ydynt yn diodeff yn gyntaf, ac yna yn teyrnasu mewn dedwyddwch tragywyddol. Nid oes un ffordd i'r nefoedd ond trwy ddiodeffiadau,

nac un ffordd i'r goron ond trwy ffordd y groes ; o herwydd "trwy lawer o orthrymderau y mae yn rhaid i ni fyned i deyrnas Dduw."

4. Y mae yn gysurus iawn i ni feddwl, mai, er fod Crist wedi ei ddyrchafu mor uchel mewn gogoniant, nad yw ef yn anghofus o honom ni sydd ar y ddaear. Y mae rhai, pan dyrchafir hwynt i lefydd o anrhydedd, yn anghofio eu cyfeillion. Felly gwnaeth y pen-trulliad pan osododd Pharaoh ef eilwaith yn ei swydd ; fe anghofiodd Joseph druan, yr hwn oedd wedi bod yn dda iddo yn y carchardy, a chwedi dehongli ei freuddwyd ; ond nid felly y mae Crist yn gwneuthur, er ei fod wedi ei ddyrchafu i fath ogoniant yn y nefoedd, etto y mae yn gofalu yn dirion am ei holl blant a'i bobl ar y ddaear, ac yn barod bob amser i ddiwallu eu holl angenrheidiau ; i'w cynnorthwyo mewn pob cyfyngder a'u cysuro dan eu holl gystuddiau a'u profedigaethau yn y byd a'r bywyd hwn. "Canys nid oes i ni Arch-offeir- iad heb fedru cyd-ddioddef gyd â'n gwendid ni ; ond wedi ei demtio ym mhob peth yr un funud â ninnau, etto heb bechod. Am hynny awn yn hyderus at orsedd-faingc y gras, fel y derbyniom drugaredd, ac y caffom ras yn gymmorth cyfamserol."

Yn awr, gyfeillion, os yw Duw wedi dyrchafu Crist, y mae yn sicr mai ein dyledswydd ninau yw gwneuthur hynny. Llafuriwn ynte, i'w ddyrchafu ef. O! dyrchafwn ef yn ein calonnau! Credwn ynddo, addolwn, a charwn ef. O! dyrchafwn ef â'n genau, a chlodforwn ef â'n tafodau ! Y mae yn sicr ei fod ef, yr hwn a'n cofiodd ni pan yr oeddem yn gorwedd yn ein pechodau, ac a ddaeth i'n gwared rhag y lliad a fydd, yn haeddu ein holl glod a'n moliant. Gan hynny, er nas gellwn ei ddyrchafu yn uwch yn y nefoedd, O ! dyrch-

afwn ef yn ein calonau ein hunain, fel y byddo i ni ei fwynhau am dragwyddoldeb.

Ac ym mellach etto, ymdrechwn ei ddyrchafu ef yn ein bywydau, trwy "fyw yn sobr, ac yn gyfiawn, ac yn dduwiol, yn y byd sydd yr awr hon." Nid yw yr holl fawl a'r holl weddiau yn y byd yn ei ddyrchafu ef gymmaint a rhodiad sanctaidd; am hynny, ymdrechwn bawb i fyw yn addas i'n proffes, gan wasanaeth Duw "mewn Yspryd a gwirionedd."

PREGETH XXIV.

2 COR. 1. 24.

—“OBLEGID TRWY FFYDD YR YDYCH YN SEFYLL.”

ODDIWRTH y geiriau hyn a ysgrifennodd St. Paul at Eglwys Corinth, gwnaf alw eich hystyriaethau am rai munudau at y pethau canlynol:—

Sylwn, yn—

I. Ar y peryglon y mae y cristion yn agored iddynt; o herwydd y mae y testyn yn arwyddo fod y cristion mewn enbydrwydd, a bod ei sefyllfa yn y byd yma yn un o ymdrech â pheryglon.

II. Ar y modd y mae yn cael ei ddiogelu, sef, “trwy ffydd,”—“oblegid trwy ffydd yr ydych yn sefyll.”

I. Sylwn ar y peryglon y mae y cristion yn agored iddynt,—peryglon mewn pethau *ysprydol*. Y mae y rhai hynny yn camsynied yn fawr ag sydd yn meddwl nad oes dim mewn crefydd ond esmwythder; y gall dyn fod yn wir gristion heb ymdrechu, heb *ryfela*, ac heb ymwroli yn erbyn gelynyion ei enaid. St. Paul, yn ysgrifenu at yr Ephesiaid, a ddywed,—“Gwisgwch holl arfogaeth Duw, fel y galloch sefyll yn erbyn cynllwynion diafol.”

Yn awr, frodyr, yr ydym yn agored i *beryglon*, o herwydd ein bod yn agored i *bechod*; ac y mae y peryglon hyn yn tarddu oddiar dri o bethau, y rhai a gaf enwi yn fyr:

1. Yr ydym mewn peryglon, oblegid fod ein "gwrthwynebwr diafol, megis llew rhuadwy, yn rhodio oddi amgylch, gan geisio y neb a allo ei lyngcu." Y mae hyn yn gwneud ein sefyllfa yn beryglus yn wir.

Pan tafwyd yr angylion syrthiedig i lawr o'r nefoedd, y drws a gauwyd yn eu herbyn yn y fan. Nid oedd un drugaredd iddynt *hwy*; o herwydd hynny, eu cenfigen, eu llid, a'u malais, a ennynodd yn erbyn dyn, i'r hwn y mae Duw yn ei ras wedi addaw trugaredd. Am hyn y mae Satan yn ymdrechu dinystrio dyn. Nis gallasai balchder Satan ddiodeff gweled neb yn uwch nag ef ei hun, ac nis gallasai ei genfigen ddiodeff gwelwed un mwy happus nag ef ei hun. Ei ddiben ydyw gwneuthur pawb yn elynion i'r Jehofa; ac yr ydym, bawb o honom, bob awr o'n bywyd, yn agored i'w ddichellion. Ei ymdrech gwastadol yw, ein rhwystro rhag mwynhau cymdeithas Duw, a dedwyddwch melus y nefoedd. Ni a welwn, oddiwrth hyn, fod sefyllfa y cristion yn y byd hwn yn beryglus iawn, a thrwy ffydd yn unig y mae yn gallael sefyll.

2. Peth arall hefyd sydd yn gwneud ei sefyllfa yn beryglus yw y *byd*. *Dynion* annuwiol y byd, *ymarweddiad* drwg y byd, *arferion* pechadurus y byd, *yspryd* y byd, a *phleserau* y byd; dyma elynion y cristion, ac y maent yn wir yn gwneud ei sefyllfa yn beryglus iawn. Y mae y byd hwn yn fagl i'r cristion ym mhob sefyllfa y byddo ynddi. Yn ei fasnach, yn ei alwad, ac yn ei orchwylion bydol, O! mor anhawdd yw iddo gadw cydwybod ddirwystr tuag at Dduw a dyn. Arferion pechadurus y byd, O! fel y mae y rhai hyn yn denu dynion oddiar lwybrau uniondeb. Er fod y gydwybod yn cyhuddo yn y fynwes, etto, mor fynych y mae y gydwybod yn cael ei distewi trwy ddadleu mai arfer y

byd, a'r gymmydogaeth, yw y peth hyn a'r peth arall. Yn ofer y mae yr Apostol yn dywedyd wrth y cyfryw, "Na chyd-ymffurfiwch â'r byd hwn; eithr ymnewid-iwch trwy adnewyddiad eich meddwl; fel y profoch beth yw daionus, a chymmeradwy, a pherffaith ewyllys Duw."

O! ymgedwch rhag y byd, ynte, canys y mae yn beryglus i'r enaid. O! gynnifer o ddynion, yn eu hawydd i gyrhaedd cyfoeth, i bentyrriu golud, i ychwanegu maes at faes, at thŷ at dŷ, sydd yn gwneud llong-ddrylliad o'u ffydd a chydwybod dda. Mor ychydig, yn eu masnach yn y byd, sydd fel Lot dduwiol, yn cadw eu gwisgoedd heb eu halogi gan y cnawd.

Cofiwch, gyfeillion, fod gorchymmynion Duw yn rhwymedig ar bob dyn, beth bynnag fyddo ei alwad yn y byd hwn; a gweddiwch lawer am ras i ymgadw rhag arferion y byd annuwiol, ac i rodio llwybrau sancteiddrwydd.

3. Peth arall hefyd sydd yn gwneud sefyllfa y cristion yn beryglus, yw ei *galon*. Y mae hon yn "fwy ei thwyll na dim, a drwg diobaith ydyw; pwy a'i hedwyn?" Er fod pechod wedi ei *ddiorseddu*, er hynny y mae yn *trigo* yn y galon. Y mae llygredd yno o hyd. Nid yw pechod, digon gwir, yn teyrnasu yno fel y bu unwaith; ond y mae gweddill pechod, yr hen ddyn, corph y farwolaeth yno o hyd, ac fe fydd yno hefyd tra parhao efe yn y byd presennol hwn. O! gweddiwch, bawb, am gael eich cadw rhag drwg eich calonau twyllodrus.

Ond gadawaf hyn, a brysiat i sylwi, yn—

II. Ar foddion ein gwardigaeth, sef, "ffydd." "Trwy ffydd yr ydych yn sefyll." Dyma y moddion—dyma offeryn ein diogelwch, *sef ein ffydd*.

1. Trwy ffydd yr ydym yn cael ein huno â Christ, ac yn derbyn oddi wrtho yr holl nerth ag sydd arnom angen o hono. "Myfi," medd Crist wrth ei ddisgyblion, "yw y winwydden, chwithau yw y canghenau." Efe yw y pen, a'i bobl yw yr aelodau. Ac megis y mae y canghenau yn derbyn nodd a bywyd oddiwrth y gwreiddyn, felly y mae y cristion yn derbyn pob gras angenrheidiol i feithrin y bywyd ysprydol oddiwrth Grist.

Ffydd yw y gewyn ysprydol ag sydd yn cysylltu pob aelod bywiol â'r Pen bendigedig. Ac fel nad oes un bywyd mewn cangen wedi ei thorri oddiwrth y pren, ac fel nad oes dim bywyd yn yr aelod wedi ei dorri ymaith oddiwrth y corph, felly nid oes dim bywyd ysprydol heb undeb â'r Arglwydd Iesu Grist, Pen mawr yr Eglwys. "Hebof fi," medd efe, "ni ellwch chwi wneuthur dim." Mae dirgelwch yn yr undeb yma, nas gallwn ni ei amgyffred hyd nes yr elom i'r byd hwnnw, lle y cawn weled yn eglur y pethau ag sydd yr awr hon yn dywyll i ni. Ond ni a wyddom fod y fath undeb yn bod, ac mai trwy yr undeb hwn yr ydym yn cael ein nerthu i ddal "cyffes ein gobaith yn ddisigl, ac i lynu yn ein proffes," er gwaethaf hudoliaethau y diafol, a drwg gynghorion dynion dichellgar o'n hamgylch. Wedi ei uno â Christ trwy ffydd, y mae y gwir gristion yn derbyn nerth yn ol y dydd, a "gras yn gymmorth cyfamserol." "Canys trwy ffydd y mae yn sefyll."

2. Trwy ffydd yr ydym yn gallu gorchfygu y profedig-
aethau hynny ag sydd yn ymosod arnom. A ydyw y cristion mewn perygl o gael ei lygru gan ymarweddiad drwg y byd annuwiol? A ydyw hwn yn dueddol i'w ddenu oddiar lwybr ei ddyledswydd? Wel, y mae ffydd yn tueddu y credadyn i edrych uwchlaw hwn at

ymarweddiad mwy ardderchog, at ymarweddiad Iesu, yr hwn a adawodd "i ni esampl, fel y canlynem ei ol ef."

Felly, pan y mae *anian* yn edrych ar ddedwyddwch y bydol-ddyn, y mae ffydd hithau yn dwyn ger ein bron y llu disglair o ferthyri, ysprydion y cyfiawn wedi eu perffeithio, Iesu, Cyfryngwr y testament newydd, a gogoniant annhraethadwy y nefoedd. Felly, tra y mae anian lygredig yn ein denu un ffordd, y mae ffydd hithau yn ein tywys ffordd arall. Fel hyn y mae y ddwy anian, yr hen anian lygredig a'r un newydd, yn tynnu yn groes i'w gilydd; ond er cryfed yw yr hen anian, etto, trwy ffydd yr ydym yn gallu sefyll.

Etto, pan fyddo y galon yn dadleu dros leshad a buddioldeb ein llwyddiant yn y byd, er i ni ei ennill trwy anghyfiawnder a phechod, y mae ffydd yn taranu ac yn dywedyd wrth y gydwybod, "Pa *leshad* i ddyn, os *ymill* efe yr *holl fyd*, a *cholli* ei *enaid* ei hun?" Felly, ynte, trwy ffydd yr ydym yn sefyll; oblegid trwy ffydd yr ydym yn gallael gorchfygu yr holl brofedigaethau ag sydd yn ymosod arnom. Dyma angor y cristion, sef ei ffydd. Gan hynny, O! gyfeillion, ceisiwch ffydd, ffydd fywiol yn Iesu Grist, Iachawdwr pechaduriaid.

Gadewch i ni yn awr wneuthur casgliad neu ddau oddiwrth yr hyn a ddywedwyd, ac yna i ddibenu.

1. Os *trwy ffydd* yr ydym yn *sefyll*, yna gallwn gasglu *paham* y mae *cymmaint* o *oerfelgarwch* a *gwrthgiliadau* *ym mhlith proffeswyr*. Yn sicr, yr achos o hyn yw *diffyg* neu *wendid ffydd*. Pan y mae proffeswyr yn llawn ffydd, nid oes ofn y gwrthgiliant y pryd hwnnw. Pan y mae ein ffydd yn wan y bydd i biccellau y fall a phrofedigaethau y byd ymosod arnom, a'n gorchfygu. Y mae yr Apostol, yn ei Epistol at yr Hebraeid, yn darlunio ffydd

fel hyn,—“Ffydd yn wir yw sail y pethau yr ydys yn eu gobeithio, a sicrwydd y pethau nid ydys yn eu gweled.” Yn awr, pan y mae ein meddyliau yn cael eu llanw â disgwyliad hyderus o ogoniant y nefoedd, a phan y mae ein calonau yn llwyr gredu y pethau hyn, ni lwydda dim o'r byd, cnawd, na diafol, yn eu profedigaethau; na wnant, ond i ni gael y ffydd hon, ni a *safwn yng ngwynneb pob peth*. Ond pan y mae y ffydd yn wan ac yn anwadad, y mae pob math o ofnau yn dod i mewn, a dynion a gymmerant eu darbwyllo a'u cym-mell yn hawdd iawn i adael eu proffes. Gan hynny, gyfeillion anwyl, gweddiwn lawer am ffydd grediniol, ffydd gref, a ffydd fywiog; “oblegid trwy ffydd yr ydym yn sefyll.”

2. Gallwn ddysgu ym mhellach oddiwrth yr hyn a fu dan ein hystyriaeth, gan mai “trwy ffydd yr ydym yn sefyll,” yna fe all y gwrthgiliwr, yr hwn sydd wedi syrthio trwy *wendid ei ffydd*, weled y ffordd i ddych-welyd yn ol at Dduw, sef trwy *gredu* ynddo, a *dangos ei ffydd trwy ei weithredoedd*.

Fe ddichon fod yma wrthgilwyr yn gwrando, brodyr neu chwiorydd a fuont unwaith yn flodeuog yn eglwys Crist, ond sydd yn awr wedi gadael eu cariad cyntaf, wedi troi oddiwrth y ffordd honno o addoliad a ddewisasant o'u hewyllys eu hunain, wedi cefnu ar fwrdd yr Arglwydd a'u cyfeillion crefyddol yn ddiachos, wedi diystyru y ffydd honno ym mha un y bu farw eu cyfeillion anwylaf, ac wedi cymmeryd eu crefydd, nid oddiwrth anffaeledig Air Duw, ond oddiwrth fympwy eu cymmydogion ymbleidiol, a'u perthynasau anghrediniol! Wel, gwrandewch beth y mae Crist, Barnwr y byd, yn ddywedyd am y cyfryw; dyma ei eiriau,—“*Gelymion dyn fydd tylwyth ei dy ei hun*. Yr hwn sydd

yn caru tad neu fam yn fwy na myfi, nid yw deilwng o honof fi. A'r hwn nid yw yn cymmeryd ei groes, ac yn canlyn ar fy ol i, nid yw deilwng o honof fi." Ac etto,—“Os daw neb attaf fi, ac ni chasao ei dad, a'i fam, a'i wraig, a'i blant, a'i frodyr, a'i chwirydd, ie, a'i einioes ei hun hefyd, ni all efe fod yn ddisgybl i mi. A phwy bynnag ni ddygo ei groes, a dyfod ar fy ol i, ni all efe fod yn ddisgybl i mi.” Y mae yn amlwg, oddiwrth y geiriau hyn, ynte, os ydym am fod yn wir ddisgyblion i'r Arglwydd, fod yn rhaid i ni ei garu ef uwchlaw pob peth arall, a pheidio cymmeryd ein cym-mell i adael ei wasanaeth *ef*, hyd yn nod gan ein *per-thynasau* agosaf, a'n cyfeillion anwylaf. Er hynny, y mae rhai wedi bod mor anwybodus a ffol a meddwl mai y ffordd i fod yn grefyddol yw, *ymwadu ũ'u proffes*, a gwrthgilio; ond Iesu, Mab Duw, sydd yn dywedyd mai y ffordd i fod yn grefyddol ac yn dduwiol yw, i *ddyn ymwadu ág ef ei hun*. “Os myn neb,” medd efe, “ddyfod ar fy ol i, *ymwaded ág ef ei hun*, a chyfoded ei groes, a chanlyned fi.”

Y mae eraill mor annuwiol a dywedyd mai y ffordd i'r nefoedd yw, *dilyn y dorf fwyaf* a welont; dyma lle maent yn gosod eu crefydd! Nid yw Crist ddim digon o gymdeithas iddynt. Nid ydynt byth wrth eu bodd, os na fydd lliaws mawr o annuwiolion o'u hamgylch, fel pe baent yn gallael myned wrth gwrr rhai o'r dorf i'r dedwyddwch; eithr yr Arglwydd Iesu sydd yn dywedyd mai y ffordd i'r nefoedd yw cymmeryd i fynu y *groes*, a'i *ddilyn ef*. “Os ewyllysia neb ddyfod ar fy ol i,” medd efe, hynny yw, bod yn wir gristion, “ymwaded ág ef ei hun, a chyfoded ei groes beunydd, a *dilyned fi*: canys *myfi yw y ffordd*, y gwirionedd, a'r bywyd.”

Gyfeillion anwyl, os ydych yn credu mai trwy ffydd yn y Messia yw yr unig ffordd i'r nefoedd, yna glynwch wrtho—"glynwch yn eich proffes." Na chymmerwch eich "cylch-arwain," fel y dywed yr Apostol, "â phob awel dysgeidiaeth, trwy hocced dynion," eithr dilynwch gyfiawnder, duwioldëb, ffydd, cariad, amynedd, addfwynder. Ymdrechwch hardd-deg ymdrech y ffydd; a chymmerwch afael ar y bywyd tragywyddol." "Credwch" â'ch holl galon "yn Iesu Grist," a dilynwch *ef*, ac nid y "lliaws i wneuthur drwg," "a chadwedig fyddwch." Y mae ei werthfawr waed ynglanhau oddiwrth bob pechod, oddiwrth *wrthgiliaid*, ac oddiwrth bechodau fel ysgarlad. Dyma y ffynnon a agorwyd i olchi ymaith bechod ac aflendid. O! gyfeillion, golchwch ynddi, fel y byddoch yn lân ac yn sanctaidd. Y mae yr Arglwydd yn hoffi trugarhau wrth bawb a ddelont trwy Grist atto. Er i chwi syrthio yn ddwfn, y mae modd i godi. Er i chwi wyro oddiar ffordd uniondeb, etto y mae llais trugaredd yn galw ar eich ol. Y mae'r Iesu â'i freichiau ar led yn barod i'ch derbyn, ac yn dywedyd, "Yr hwn a ddêl attaf fi, nis bwriaf *ef* allan ddim." O! gan hynny, dychwelwch bawb atto, ac yng ngeiriau'r afradlon, dywedwch, "Fy nhad, pechais yn erbyn y nef, ac o'th flaen dithau; ac mwyach nid ydwyf deilwng i'm galw yn fab i ti."

Addysg arall a allwn dynnu oddiwrth yr hyn a ddywedwyd yw, yn—

3. Os "trwy ffydd yr ydym yn sefyll," yna ni a welwn y rhwymedigaeth sydd ar y crïstion, yr hwn sydd wedi cael ei gynnal hyd yma trwy ddwyfol ras, i weddio am gael o'i *ffydd ei chryfhau*. Cais gan Dduw roddi dyfnach argyhoeddiad yn dy feddwl o'th angen o

ras Dwyfol. Gwrthddrych ein ffydd yw y gair Dwyfol ; ac wrth *gryfhau* ein ffydd y mae i ni ddeall, *argraffad* *noy dwfn ac eglur o'r gwirionedd ar yr enaid o ddydd i ddydd.*

Dyma y ffordd i ni gael ychwanegu ein ffydd, sef trwy ymarfer llawer â'r moddion, gwrando a myfyrio ar y gair Dwyfol, ynghyd â gweddio ar Dduw i'w fendithio er lleshad tragywyddol i'n heneidiau. Tra y byddoch, gan hynny, yn glynu wrth y moddion, O ! gweddiwch lawer am iddynt fod dan arddeliad yr Yspryd Glân ; a thaer lefwch gyda'r Apostolion gynt,—“ Arglwydd, anghwanega ein ffydd ni,” ac yna chwi a fyddwch yn alluog i sefyll yn gadarn yn eich proffes er gwaethaf holl elynion eich heneidiau.

PREGETH XXV.

TITUS 2. 11, 12.

“CANYS YMDDANGOSODD GRAS DUW, YR HON SYDD YN DWYN IACHAWDWRIAETH I BOB DYN; GAN EIN DYSGU NI I WADU ANNUWIOLDEB A CHWANTAU BYDOL, A BYW YN SOBR, AC YN GYFIAWN, AC YN DDUWIOL, YN Y BYD SYDD YR AWRHON.”

YN y rhan flaenaf o'r Epistol hwn, y mae St. Paul yn cyfarwyddo Titus, pa fodd i hyfforddi ac i addysgu amryw fath o ddynion.

Y mae yn ei gyfarwyddo i ddangos i'r oedranus pa fodd y dylent ymddwyn. Pa mor oedranus bynnag y gallent fod, a pha mor ieuangc bynnag y gallasai Titus fod, nad oedd yr un yn rhy ieuangc i gyfranu addysg, na'r llall yn rhy hen i'w dderbyn. Wedi hynny, y mae yn ei ddysgu pa gynghor i roddi i bobl ieuangc. Felly, y mae hyfforddiadau yn y Bibl i bob math o ddynion. Y Bibl sydd yn gymhwys i bawb, ac y mae crefydd yn addas i bob sefyllfa ac amgylchiadau bywyd. Od oes arnoch eisiau doethineb, darllenwch Ddiarhebbion Solomon; od oes arnoch eisiau meithrin yspryd crefyddol, darllenwch Psalmiau Dafydd; ac od oes arnoch eisiau engraffft o burdeb, darllenwch y pedwar Efangylwr, ac yno chwi a'i cewch wedi ei egluro yn ymddygiad Iesu Grist.

Y mae yr Apostol yn dangos hefyd pa fodd y dylai gwasanaeth-ddynion ymarweddu; oblegid nid yw y

rhai hyn islaw sylw Yspryd Duw,—“Canys ymddangosodd gras Duw, yr hon sydd yn dwyn iachawdwriaeth i bob dyn; gan ein dysgu ni i wadu annuwioldeb a chwantau bydol, a byw yn sobr, ac yn gyfiawn, ac yn dduwiol, yn y byd sydd yr awr hon.”

Gwnaf gynnwys yr hyn oll a ddywedaf oddiwrth y testyn dan y tri phen canlynol. Yn—

I. Yr hyn yw yr efengyl,—“gras Duw.”

II. Yr hyn a ddywedir am dani, sef ei bod “yn dwyn iachawdwriaeth,” ac “wedi ymddangos i bob dyn.”

III. Ffrwythau neu effeithiau yr efengyl. Pa le bynnag y mae yn hyspys, ac wedi cael ei theimlo, “dysg” ddynion “i wadu annuwioldeb a chwantau bydol,” ac a’u galluoga i “fyw yn sobr, ac yn gyfiawn, ac yn dduwiol, yn y byd sydd yr awr hon.”

Ond, i sylwi, yn—

I. Yr hyn yw yr efengyl,—“gras Duw.” Nid cyfundraeth o ddyfais dynion yw yr Efengyl, ond oddiwrth Dduw y mae, a threfn o “ras Duw” yw. Y mae amryw ystyriaethau i’r gair *gras*; weithiau, y mae yn arwyddocau egwyddor yn y galon, a phryd arall, effaith yr egwyddor honno yn y bywyd; weithiau, y cynnorthwy ag y mae y cristen yn gael ar ei daith, a phryd arall, y moddion ag y mae Duw wedi drefnu i gadw cymmundeb â’i bobl. Ond yn benaf y mae yn arwyddo rhad rodd neu ewyllys da. Rhad rodd oddiwrth Dduw yw yr efengyl. A glywyd erioed am neb yn haeddu gras Duw? A glywyd erioed am rywun a geisiodd Fab Duw cyn i Dduw ei roddi? Na ddo, frodyr, canys y mae haeddiant yn hollol o’r matter yma. Ond y mae yr efengyl, yn addas, yn cael ei galw yn “ras Duw.” Yn—

1. O herwydd ei bod yn tarddu oddiwrth anian raslawn Duw. Y mae yn dyfod at fyd euog a choll-edig, oddiwrth galon drugarog Jehofah y Tad, trwy gleisiau gwaedlyd Duw y Mab, a thrwy ddylanwadau melusion Duw yr Yspryd Glân.

Y mae yn "ras Duw," yn—

2. O herwydd mai y dangosiad mwyaf a wnaed erioed o ras Duw yw. Rhaid i ni gyfaddef ei fod yn amlygiad mawr o ddaioni Duw i gadw angylion rhag syrthio, ac i ogoneddu yr angylion hynny yn y nefoedd; ond beth yw cadw y creaduriaid gogoneddus hynny yn eu lle, at godi gwrthryfelwyr i'w orsedd? Beth sydd mewn cadw cyfaiïl mewn cymhariaeth â bendithio gelyn? Beth sydd mewn ymhyfrydu yn y sanctaidd, mewn cymhariaeth â chodi yr euog a'r ansanctaidd i'w gymdeithas, a gogoniant tragywyddol? O! y mae yn ddigon i ddyrysu synwyr un dyn gael geiriau i ddywedyd yn iawn am hyn.

Pa le y gallasai fod mwy o amlygiad o gymmwynas ac ewyllys da nag i un roddi ei einioes i lawr dros elyn, i gymmodi gelyn, i wneud ei enaid yn bur ac yn sanctaidd, ac o'r diwedd i ddyrchafu yr enaid hwnnw i fod yn gydymaith iddo ef ei hun, yn ei ogoniant cyfryngol yn y nefoedd?

"Gras Duw" yw, os ystyriwn, yn—

3. *Mai gras yw yr hyn oll sydd yn yr efengyl.* Darllenwch yr hanesion a gynnwysir yn yr efengyl, a pha beth ydynt ond hanesion o ras? Adroddiadau o amlygiad cariad, trugaredd, ac ewyllys da Duw tuag at blant dynion ydynt. Darllenwch athrawiaethau yr efengyl, pa beth ydynt ond athrawiaethau o ras? Darllenwch addewidion yr efengyl, pa beth ydynt ond addewidion o ras neu gariad Duw? Yr athrawiaeth o gyfiawnhad,

o sancteiddhad, ac o barhad y seintiau hyd y diwedd, pa beth ydynt oll ond athrawiaethau o ras? A'r addewidion y rhai sydd yn sicrhau cynnaliaeth i'r cristion ym mhob awr o brofedigaeth, cymhorth dros holl ystod ei fywyd, a nerth yn yr ymdrech ddiweddfaf, pa beth ydynt oll ond addewidion o ras?

“Gras Duw” yw, yn—

4. Oblegid mai y moddion offerynol yw ag y mae Duw wedi drefnu i gyfranu gras i enaid y cristion. Gweinidogaeth yr efengyl a sefydlwyd i gyhoeddi efengyl gras Duw. A'r holl foddion gras, fel yr ydym yn eu galw, ydynt ffrydiau trwy ba rai y mae gras yn dylifo i'r enaid. Yr efengyl yw y ffordd i ddyfod at galon y pechadur. Yr efengyl yw gair olaf Duw i ddyn. Efe a bregethodd trwy ei gyfraith, yna trwy ei brophwydi, yna trwy ei Fab, ac yna trwy ei efengyl ysgrifenedig; ac os na wrendy dynion ar hon, a chael eu dysgu a'u hachub trwyddi, byddant golledig am byth. Nid oes un ffordd arall. Er fod amryw enwau o gristionogion, etto, y mae yn rhaid iddynt oll fyned i mewn trwy yr un drws, a'r drws hwnnw yw Iesu Grist. “Myfi yw y drws,” medd efe; y drws trwy ba un y mae yn rhaid i chwi fyned o gyflwr colledig i gyflwr cadwedig, o gyflwr o dywyllwch i gyflwr o oleuni, o gyflwr o farwolaeth i gyflwr o fywyd, o gyflwr o bellder oddiwrth Dduw i gyflwr o agosrwydd at Dduw, o gyflwr o bechod i gyflwr o sancteiddrwydd, ac o gyflwr agored i uffern i gyflwr o addasrwydd i'r nefoedd. Péidiwch a chamsynied y drws, gyfeillion; peidiwch a blino eich hunain wrth chwilio am un drws arall; canys y mae yn sicr nad oes ond un drws, a hwnnw yw Iesu Grist,—“Oen Duw, yr hwn sydd yn tynnu ymaith bechodau'r byd.” Efe “yw y ffordd, y

gwirionedd, a'r bywyd ;" a thrwyddo ef yn unig y mae i ni ddyfodfa at y Tad.

Gadewch i ni ystyried, yn—

II. Yr hyn a ddywedir yma am yr efengyl,—y mae yn "dwyn iachawdwriaeth," ac "wedi ymddangos i bob dyn." Yr ymadrodd hwn,—“ymddangosodd i bob dyn,” sydd yn cael ei gyfieithu mewn amryw ffyrdd. Rhai sydd yn ei ddarllen,—“Gras Duw yn dwyn iachawdwriaeth i bob dyn, sydd wedi ymddangos.” Ond a ydyw gras Duw wedi dwyn iachawdwriaeth i bob dyn lle y *mae* wedi ymddangos? Nac yw, yn sicr ; canys nid yw pawb wedi ei dderbyn. Yr ystyr yw, ynte, ei bod yn dwyn iachawdwriaeth i bob gradd, gwlad, ac oes. Ond cymmerwn ein hamser yma. Y mae tri o bethau ag y mae y geiriau yn ddwyn i'n meddyliau, sef, bod dyn mewn angen o iachawdwriaeth, bod iachawdwriaeth iddo gael yn yr efengyl, a bod yr iachawdwriaeth hon yn rhydd ac yn rhad i bawb, ym mhob gradd a sefyllfa o fywyd.

1. Y mae yn amlwg fod *dyn yn creadur ag sydd yn sefyll mewn angen o iachawdwriaeth*. Fe allai bod rhai o'm gwrandawyr erioed heb feddwl am hyn. A ydych wedi cael eich dwyn erioed i deimlo eich eisiau o iachawdwriaeth?

Yr ydym yn clywed llawer o bobl yn achwyn bod arnynt eisiau amryw o bethau ; y mae arnynt eisiau tai, eisiau cyfoeth, eisiau iechyd, eisiau llawer iawn o bethau ; ond nid ydynt yn teimlo eu hangen o *iachawdwriaeth*, nac yn dywedyd *un gair* am eisiau eu gwerthfawr eneidiau !

Ni fyddai o un defnydd i mi ymdrechu pregethu wrthyh ynghylch *iachawdwriaeth*, os nad yw dynion yn sefyll mewn angen o honi. Yn awr, y *mae* dyn yn

sefyll mewn angen o iachawdwriaeth, o herwydd tri pheth. Yn—

1. Y mae *pob dyn dan ddedfryd cyfraith Duw*. Gall dynion dafu hynny heibio, fel ag y mae llawer yn gwneud, a dywedyd, er eu bod yn rhai drwg pechadurus, fod llawer o'u cymmydogion yn waeth na hwy; na fydd hi ddim calettach arnynt hwy nag eraill, a llawer o siarad ofer o'r fath hyn, gan anghofio eu bod dan *dedfryd cyfraith Duw*. Y mae yn annichonadwy gwneud i rai dynion gredu nad ydynt lawer gwell nag eraill; y maent mor ddoeth yn eu tyb eu hunain, fel nad oes arnynt eisiau neb i'w dysgu, ac mor dda, fel nad oes eisiau Iachawdwr! Ond goddefwch i mi ddywedyd wrthyhch, mai mor gynted ag y dechreuo Yspryd Duw weithio yn eich calonau, chwi a welwch eich hunain y gwaethaf o bechaduriaid, ac fe fydd yn dda genych gael Mair Magdalen ar un llaw, a Manasseh waedlyd ar y llall, ac yna i ddywedyd, "Dyma fi, y penaf o bechaduriaid!"

Gyfeillion anwyl, y mae pob dyn wrth natur dan *dedfryd cyfraith Duw*,—"Yr hwn nid yw yn credu, a ddamniwyd eisoes," medd Crist. Llawer sydd yn tybied y caiff dyn ei gollfarnu pan ei gelwir o flaen gorsedd Duw; ond yma, fe ddywedir wrthyhch fod pob un nad yw yn credu yng Nghrist wedi ei gollfarnu eisoes!

Ni chredaf byth fod y dyn hwnnw yn teimlo ei fod dan *dedfryd cyfraith Duw*, yr hwn nid yw yn ceisio rhan na chyfran yn Iesu Grist, Iachawdwr pechaduriaid.

2. Y mae ar ddyn eisiau iachawdwriaeth, o herwydd ei fod *dan allu pechod*. Pechod sydd yn eistedd ar yr orsedd, ac yn llywio y deyrnas oddi mewn; y mae dan

allu a rheolaeth pechod. Nis gall ei weled, ond felly y mae; y mae yn gaethwas i'w chwantau a Satan. Dyma fel y mae gyda phob pechadur, y mae dan reolaeth Satan, a'i chwantau pechadurus. Satan a'i nwydau sydd yn erchi iddo *feddwi*, ac y mae efe yn meddwi. Satan a'i nwydau sydd yn erchi iddo odinebu, ac y mae efe yn gwneuthur godineb; i dorri y Sabboth, ac y mae efe yn ei dorri; i fod yn anonest, ac y mae efe yn myned yn anonest.

Fe allai nad yw rhai o honoch yn hoffi y fath bregethu a hyn. Y mae yn rhy eglur a phennodol; ond y mae oll yn wir. Dyma eich cyflwr gwirioneddol, yr ydych oll wrth natur dan lywodraeth Satan a phechod. Pechod yw rheolwr, llywodraethwr, a brenin y dyn annuwiol. Ac a ddywedwch nad oes ar y fath ddyn eisiau Iachawdwr?

3. *Y mae arno eisiau, o herwydd nas gall achub ei hun.* Edrychwch ar y creadyn gwael! Gall feddwl yn fawr am ei foesoldeb, a'i ddaioni, fel y mae yn ei alw; ond nis gall trwy y rhai hyn i gyd achub ei anfarwol enaid. Nis gall achub ei hun, o herwydd nas gall uffuddhau i gyfraith Duw; y mae honno yn gofyn perffeithrwydd, ac nid oes ynddo ef ddim perffeithrwydd. Nis gall achub ei hun, o herwydd nas gall foddloni dwyfol gyfiawnder; nid oes ganddo ddim i dalu, tra y mae yn sefyll yn euog, ac wedi ei gollfarnu. Y mae megis wedi ei gau i fynu a'i rwympo er cael ei gospi, ac nis gall ddryllio ei gadwynau, na thorri i lawr furiau ei garchar, na thalu ei ddyled. A phwy a ddywed nad oes arno eisiau iachawdwriaeth?

Sylwn etto, yn—

4. *Fod gan yr efengyl iachawdwriaeth i'r creadur gwael hun.* "Gras Duw sydd yn dwyn iachawdwriaeth."

O! y fath lwyth gwerthfawr y mae y llong hon yn ddwyn. Y mae yr efengyl yn dyfod fel colomen, ac yn dywedyd fod yr ystorm ofnadwy o ddigofaint wedi myned heibio. Y mae yn “dwyn iachawdwriaeth;” ac o *ba le* y mae yn ei dwyn? Nid o Rufain, nid oddiwrth ryw wlad bell, nid o’r dwyrain na’r gorllewin, nac o’r deheu na’r gogledd; nagê, ond oddiwrth *Dduw*. *Ac i ba le* y mae yn ei dwyn? Wel, fy mrodyr, y mae yn ei dwyn i’r lle yr ydym ni yn trigo ynddo. Y mae yn ei dwyn, bechadur, i’r tŷ yr wyt ti yn byw ynddo, y mae yn ei dwyn i’th galon. Dyma iaith Crist wrth Zaccheus, pan y galwodd ef i ddyfod i lawr o’r sycamorwydden, i ba un yr oedd wedi dringad i weled Crist yn myned heibio,—“Zaccheus, disgyn ar frys; canys rhaid i mi heddyw aros yn dy dŷ di.” Ac wedi iddynt fyned i mewn i’r tŷ, “yr Iesu a ddywedodd wrtho, Heddyw y daeth *iachawdwriaeth i’r ty hon*.” Diolch i Dduw am hyn; nid iachawdwriaeth a raid fyned ym mhell am dani yw hi, y mae yn dyfod *attom* ni. A pha bryd y trefnwyd hi? Ai ddoe? O! nagê; y mae yn dyfod *attom* oddiwrth gynghorion tragywyddol heddwch. Yn awr, y mae yr efengyl yn dwyn iachawdwriaeth i ddyn, o herwydd ei bod yn dwyn *yr hyn oll* ag y mae *Dduw yn ofyn*, ac y sydd ar *ddyn eisieu*. Y mae ar Dduw eisieu boddlonrwydd i’w gyfiawnder, ac ufudd-dod i’w gyfraith. Y mae ar ddyn eisieu trugaredd i faddeu yr hyn a aeth heibio, a gras i’w adnewyddu yr amser sydd i ddyfod. Yn yr efengyl y mae hyn i gyd i’w gael; y mae digon i Dduw a digon i ddyn yn cyfarfod mewn un drefn Ddwyfol. Sylwch ar rinweddau yr iachawdwriaeth hon. Y mae yn *rhad*. Gyd-bechaduriaid, y mae genyf newyddion da i chwi. Dyma iachawdwriaeth rad, iachawdwriaeth heb arian

ac heb werth, ac iachawdwriaeth sydd yn cael ei chyhoeddi i'r penaf o bechaduriaid. Wel, beth a ddywedwch am y pris? A ydych yn ewyllysgar i gymmeryd iachawdwriaeth ar delerau yr efengyl, "heb arian ac heb werth." Nid yw dyn balch yn hoffi hyn; y mae arno ef eisiau rhyw beth o'i eiddo ei hun, er fod y Bibl yn dywedyd, mai "megis bratiau budron yw ein holl gyfiawnderau." Os achubir ni, y mae yn rhaid i ni gael ein hachub yn rhad; ac os collir ni, trwy haeddiant y bydd; i.e., trwy haeddiant, canys nid ydym yn haeddu dim ond cospedigaeth am ein pechodau.

Y mae yn *addas* hefyd. Y mae yn gymhwys yr hyn ag y mae dyn yn sefyll mewn angen o hono. Y mae pob peth yn yr efengyl ag sydd arno eisiau—iachawdwriaeth oddiwrth bechod yma, ac uffern wedi myned oddi yma. Llawer sydd yn dymuno am iachawdwriaeth yn ol llaw, ac yn esgeuluso yr un bresennol; ond y mae iachawdwriaeth bresennol oddiwrth bechod, yn gystal ag iachawdwriaeth rhagllaw oddiwrth uffern. O! oes; canys y mae yn rhy bell i gammu o gyflwr anian i ogoniant ar unwaith. Y mae dau gam i'w cymmeryd, ac nis gall dyn gymmeryd y ddau ar yr un pryd; y mae un cam o anian i ras, a'r cam arall o ras i ogoniant. Peidiwch a chamsynied y ddwy ran hon o iachawdwriaeth; a byddwch ofalus na esgeulusoch iachawdwriaeth bresennol, tra yr ydych yn ofer freuddwydio am un i ddyfod.

Heblaw hynny, dyma iachawdwriaeth *draggywyddol*. Bywyd y brenin Hezeciah a estynwyd i "bymtheg mlynedd." Pan yr oedd un flwyddyn o'r amser wedi myned heibio, nid oedd ganddo ond pedair-ar-ddeg i fyw; a'r flwyddyn nesaf ddim ond tair-ar-ddeg; ac felly yr aeth yn y blaen, gan leihau o hyd, hyd nes yn

y diwedd y daeth yn llwyr i fynu. Ond os ewch chwi, gyfeillion, i Galfaria, i gael adnewyddu eich bywydau, chwi a gewch eu hestyn i *dragwyddoldeb*. Os edrychwch ar faddeuant y pechadur, maddeuant tragywyddol yw; os edrychwch ar ei gyfiawnder, cyfiawnder tragywyddol yw; os edrychwch ar ei fywyd, bywyd tragywyddol yw, yn tarddu i fynu oddi mewn iddo. Dyma, ynte, iachawdwriaeth dragwyddol. Y mae llawer o bethau ag sydd yn parhau yn hir yn y byd hwn; y mae llawer o bethau dymunol yma; ond nid yw yr efengyl yn unig yn fwy dymunol, ond y mae yn parhau byth bythoedd. O! na adawech gael eich cofleidio oll ym mreichiau yr efengyl hon: Gallwch fyw allan eich ammod-weithred, gallwch gollu eich meddiannau, a'ch holl berthynasau a allant farw; ond dyma efengyl barhaus, a thyma ras tragywyddol.

3. Y mae wedi "*ymddangos* i bob dyn." Nid yw i gael ei chadw yn ddirgel; nac yw, y mae wedi ymddangos i bob graddau o ddynion. Y mae rhywbeth yn yr efengyl i frenhinoedd ac i'w deiliaid, i feistriaid ac i wasanaeth-ddynion, i wyr ac i wragedd, i rieni ac i blant. Felly, y mae yr efengyl yn estyn allan ei breichiau tuag at bawb. Y mae y Bibl yn ein dysgu fod yn rhaid i'r efengyl gael ei phregethu i bob creadur; ac y mae yn dywedyd,—“Y neb a gredo ac a fedyddier a fydd cadwedig; eithr y neb ni chredo a gondemnir.” A oes arnoch eisiau iaith sicr ac eglur? Wel, dyma hi, ynte, heb nac os nac ond,—yr hwn ni chredo nis gall byth gael ei *acub*, a'r hwn a gredo nis gall byth gael ei *gollu*.

Sylwn, yn—

III. Ar *ffrwythau* neu *effeithiau* yr efengyl. Y mae yn ein “dysgu ni i wadu annuwioldeb a chwantau

bydol, a byw yn sobr, ac yn gyfiawn, ac yn dduwiol, yn y byd sydd yr awrhon." Os dysgir chwi, ynte, y mae yn rhaid i chwi gael eich dysgu yn y byd hwn. Nid oes un dysgawdwr yn uffern, cofiwch, nac un ysgol-feistr yn y nefoedd. Yr holl ras a'r ewyllys da a fuom yn son am danynt, a raid i ni fwynhau yn y byd a'r bywyd hwn. Os maddeuir i chwi, y mae yn rhaid i chwi gael maddeuant yma; os cyfiawnheir chwi, y mae yn rhaid i chwi gael eich cyfiawnhau yma; os sancteiddir chwi, y mae yn rhaid i chwi gael eich sancteiddio yma; canys "lle y syrthio y pren, yno y bydd efe." Nid oes dim iachawdwriaeth yn y bedd. Os mynnwch fod yn gadwedig, ynte, y mae yn rhaid i chwi "*wadu annuwioldeb a chwantau bydol, a byw yn sobr, ac yn gyfiawn, ac yn dduwiol, yn y byd sydd yr awrhon.*"

O! gan hynny, peidiwch ag esgeuluso dydd gras.

PREGETH XXVI.

MAT. 20. 6.

“AC EFE A AETH ALLAN YNGHYLCH YR UNFED AWR AR DDEG, AC A GAFODD ERAILL YN SEFYLL YN SEGUR, AC A DDYWEDODD WRTHYNT, PAHAM Y SEFWCH CHWI YMA AR HYD Y DYDD YN SEGUR?”

FEL y deallom y gofyniad hwn yn iawn, y mae yn rhaid i ni ei ystyried fel un ag y mae y Duw mawr ei hun yn ofyn i ni sydd yma yn awr. Wrth ei ystyried fel hyn, y mae yn dwyn ar gof i ni fod gan bawb o honom orchwyl mawr i'w gyflawni cyn y byddom feirw, a bod rhai o honom wedi aros yn segur am hir amser, gan esgeuloso y gwaith hwn, ac y dylai yr esgeulusdod hwn fod yn destyn ein sylw a'n hystyriaeth mwyaf difrifol.

Oddiar y gwirioneddau hyn y mae tri ymfyniad yn galw am ein sylw, y rhai sydd mor eglur, fel ag y gall plentyn eu hamgyffred, ac etto mor bwysfawr, fel y gellir cyfrif hwnnw y doethaf yn ein mysg, ag sydd wedi meddwl mwyaf am danynt.

Sylwn ychydig, yn—

I. *Beth yw y gwaith y mae Arglwydd mawr pawb oll wedi ei roddi i ni i'w gyflawni.*

Dan enw gwr yn berchen tŷ y mae yn galw arnom i weithio yn ei winllan. A pheth yw y winllan hon? Eglwys yr Arglwydd Iesu Grist ydyw; a mynn ef ei bod yn lle i lafurio ynddi, yn gystal yn ei chyflwr

gogoneddus, ag yn ei chyflwr milwriaethus yma ar y ddaear.

Os edrychwn arni yn y nefoedd, y mae yn fywiog-rwydd i gyd yno. Wedi dyfod allan o'r cystudd mawr, y mae y rhai a fuont feirw yn yr Arglwydd yn ymorphwys oddiwrth y gorchwylion bydol ag oeddynt yn blino y corph; ond nid ydynt yn "segur" yn y nefoedd; y maent yn wastad ger bron gorsedd Duw, ac yn ei wasanaethu ddydd a nos yn ei deml sanctaidd. Nid yw yr Eglwys yma ar y ddaear yn ddilafur ychwaith. O! y fath ymdrechu gwastadol, a'r fath lafurio diorphwys sydd ynddi! Ni cheir un enaid ynddi nad oes ganddo orchwyl mewn llaw, â'r hwn, mewn cymhar-iaeth, nid yw gwaith angel ddim.

Yr ydym yn bechaduriaid, frodyr, yn greaduriaid anfarwol, mewn cyflwr truenus wrth natur; ac o herwydd ein trueni y mae ein hymdrechiadau gynnifer, a'n gwaith mor fawr. Y mae genym glwyfau i'w gwella, nas gallasai holl luoedd y nef gael meddygin-iaeth iddynt. Y mae genym rwystrau a gwrthwynebiadau i'w gorchfygu, nas gallasai eu holl nerth hwynt eu symmud ymaith. A thrwy gymhorth Dwyfol ras yn unig y gallwn ni wneuthur hynny.

1. Y mae genym *uffern ddychrynlyd i'w gochelyd*. Ganwyd ni bawb yn etifeddion uffern; ac o'r amser y ganwyd ni hyd y funud bresennol, y mae ein pechodau yn ein tywys yn nes-nes iddi. Ein gofal cyntaf, ynte, yw cael diangfa—yw cael noddfa. Ein gorchwyl cyntaf yw diangc am ein heinioes—yw ffoi rhag y llid a fydd; nid yn unig "curo y ddwyfron" gydag un pechadur, gan ddywedyd, "O! Dduw, bydd drugarog wrthyf, bechadur;" neu waeddi allan gydag un arall, "Beth sydd raid i mi ei wneuthur, fel y bydd-

